Cronfa Bensiwn
GWYNEDD
Pension Fund

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/23

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1.** | **Rhagair** | 1-2 |
| **2.** | **Strwythur Rheoli** | 3 |
| **3.** | **Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Gwynedd** | 4-6 |
| **4.** | **Ystadegaeth Aelodau** | 7 |
| **5.** | **Gweinyddiaeth Pensiynau** | |
| | 5.1 Adolygiad o'r Flwyddyn | 8-15 |
| | 5.2 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 16-18 |
| **6.** | **Buddsoddiadau** | |
| | 6.1 Sefyllfa Diwedd Flwyddyn | 19-20 |
| | 6.2 Perfformiad Buddsoddi | 21-22 |
| | 6.3 Trefniadau Gweinyddol a Chadw | 22 |
| | 6.4 Pwerau Buddsoddi | 22-23 |
| | 6.5 Rheoli Buddsoddiadau | 23 |
| | 6.6 Cydweithio Cronfeydd Pensiwn Cymru | 23-29 |
| | 6.7 Buddsoddi Cyfrifol | 29-30 |
| **7.** | **Rheolaeth a Perfformiad Ariannol** | |
| | 7.1 Rheoli Risg | 31 |
| | 7.2 Datganiad Strategaeth Buddsoddi | 31 |
| | 7.3 Datganiad Strategaeth Cyllido | 31 |
| | 7.4 Perfformiad Ariannol | 32 |
| | 7.5 Safon Cyfrifeg Ryngwladol 19 (SCR19) a Safon Adrodd Ariannol 102 (SAA102) | 33 |
| | 7.6 Cyfrifon Terfynol 2022/23 | 33 |
| | 7.7 Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth | 33 |
| | 7.8 Uned Buddsoddi | 33 |
| **8.** | **Adroddiad Actiwaraidd** | 34-35 |
| **9.** | **Y Cyfrifon** | 36-77 |
| **10.** | **Atodiadau** | |
| | 10.1 Datganiad Strategaeth Cyllido | 78-128 |
| | 10.2 Datganiad Strategaeth Buddsoddi | 129-138 |
| | 10.3 Datganiad Polisi Cyfathrebu | 139-148 |
| | 10.4 Datganiad Polisi Llywodraethu | 149-151 |
| | 10.5 Datganiad Cydymffurfio Llywodraethu | 152-156 |

| | | |
|---|---|---|
| **11.** | **Geirfa** | 157-158 |

# 1. Rhagair

Croeso i'r adroddiad blynyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd am y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Yn ystod y flwyddyn, mae gwerth y Gronfa Bensiwn wedi sefydlogi ar £2.7 biliwn sydd yn gyson â gwerth llynedd. Mae'r flwyddyn wedi bod yn un heriol gyda rhyfel Iwcrain a chwyddiant uchel yn effeithio'r marchnadoedd arian. Cafwyd perfformiad o -1.5% gan y Gronfa, ac er bod hyn tu ôl i'r meincnod, roedd hyn yn y berfformiad cryf mewn amgylchiadau heriol ac yn chwartel uchaf cronfeydd CPLlL yn ystadegau swyddogol PIRC am 2022/23.

Derbyniwyd canlyniad prisiad teirblynyddol calonogol yn y flwyddyn ble cadarnhawyd bod y Gronfa wedi ei ariannu i lefel o 120% ar 31 Mawrth 2022, gyda lefel cyfraniadau newydd y cyflogwyr yn weithredol o 1af Ebrill 2023 ymlaen. Wedi ystyried canlyniadau'r prisiad teirblynyddol rydym wedi adolygu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn ystod 2022/23, gan benderfynu leihau risg y gronfa drwy drosglwyddo cyfran o'r asedau ecwiti i ddosbarthiadau asedau eraill megis isadeiledd a dyled preifat. Bydd y dyraniad asedau strategol newydd yma yn cael ei weithredu dros y 12-18 mis nesa.

Mae'r Gronfa Bensiwn yn parhau i weithio fel aelod blaenllaw o Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) i sicrhau effeithlonrwydd trwy gyfuno asedau yn ein trefniadau rheoli buddsoddiadau a ddylai yn ei dro leihau'r ffioedd buddsoddi. Yn ystod y flwyddyn mae'r gwaith cyfuno marchnadoedd preifat wedi datblygu'n dda, gyda cronfeydd isadeiledd, dyled preifat ac ecwiti preifat yn cael ei sefydlu. Ar wahân i gronni buddsoddiadau, mae'r Bartneriaeth wedi datblygu ei fframwaith lywodraethu ymhellach mewn cydweithrediad â chronfeydd CPLlL eraill Cymru a gyda chefnogaeth ein ymgynghorwyr arbenigol. Mae amrywiaeth o bolisïau wedi cael eu datblygu a sesiynau hyfforddi wedi'u cynnig i'r rhanddeiliaid perthnasol.

Rydym yn parhau i dderbyn ceisiadau ynglŷn a gosod amserlen uchelgeisiol tuag at ddad-fuddsoddi yn gyfan gwbl o danwydd ffosil, ond fel ymddiriedolwyr cronfeydd pensiwn mae'n fwy cyfrifol i ni gynllunio'n briodol, cymryd camau go wir, a dylanwadu lle'n bosib er lles ein amgylchedd. Rydym yn parhau i gefnogi ein ymrwymiad i fod yn sero net erbyn 2050, wedi'i gefnogi gan ymrwymiad i asesu dichonoldeb y Gronfa i gyrraedd sero net 5,10 neu 20 mlynedd ynghynt. Rydym yn gwneud beth bynnag y gallwn i sicrhau ein bod yn gweithredu'n gyfrifol, ac yn ystyried yr effaith bydd ein gweithredoedd yn eu cael ar genedlaethau'r dyfodol. Rydym wedi cymryd camau sylweddol yn y flwyddyn diwethaf ac am barhau i wneud yn y blynyddoedd i ddod gyda nifer o ddatblygiadau cyffrous.

Mae staff y Gronfa wedi parhau i sicrhau ein bod yn darparu lefel uchel o wasanaeth yn 2022/23. Bu camau breision i ddatblygu dulliau electronig o weithio, gyda chyflogwyr yn gynyddol ddefnyddio'r rhyngwyneb systemol i-Connect i rannu data ac aelodau'r cynllun (staff yr holl gyflogwyr ynghyd â phensiynwyr) yn gynyddol, fel bod modd iddynt ddefnyddio'r arweiniad a gwybodaeth rhyngweithiol sydd i'w gael ar wefan y Gronfa Bensiwn.

Ar 30 Mehefin 2023, fe wnaethom ffarwelio gyda Dafydd Edwards sydd wedi llywio y Gronfa yn arbennig dros yr 20 mlynedd diwethaf. Hoffwn ddiolch i Dafydd am ei wasanaeth clodwy a dymuno ymddeoliad hapus iddo. Hoffwn hefyd ddiolch i staff gweinyddu pensiynau Gwynedd a'u cydweithwyr yn y tîm buddsoddi am eu gwaith caled dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rwy'n gobeithio bydd yr adroddiad canlynol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i chi am ein Cronfa Bensiwn. Am ragor o wybodaeth, neu er mwyn rhoi eich barn ar yr adroddiad hwn, darperir manylion cyswllt swyddogion perthnasol ar dudalen nesaf yr adroddiad. Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth chi yn ystod 2022/23, ac edrychaf ymlaen at ddatblygiadau'r Gronfa yn 2023/24.



**Cynghorydd Stephen Churchman**
**Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau 2022/23**



**Dewi Morgan**
**Pennaeth Cyllid**



**Dafydd L Edwards**
**Cyfarwyddwr y Gronfa**

## 2. Strwythur Rheoli

**Awdurdod Gweinyddu**
Cyngor Gwynedd

**Pwyllgor Pensiynau**
Y Cynghorydd Stephen Churchman (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Is- Gadeirydd)
Y Cynghorydd John Pughe Roberts
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes
Y Cynghorydd Richard Medwyn Hughes
Y Cynghorydd Elin Hywel
Y Cynghorwydd Iwan Huws
Y Cynghorydd Robin Wyn Williams (Aelod Cyfetholedig)
Y Cynghorydd Goronwy Edwards (Aelod Cyfetholedig)

**Bwrdd Pensiwn**
**Cynrychiolwyr Cyflogwyr**
Mr Huw Trainor (Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru)
Mrs Sioned Parry (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
Y Cynghorydd Beca Roberts (Cyngor Gwynedd)

**Cynrychiolwyr Aelodau**
Mr Osian Richards
Mrs Sharon Warnes
Mr H. Eifion Jones

**Cyfarwyddwr y Gronfa**
Mr Dafydd L. Edwards

**Pennaeth Cyllid ("Swyddog Adran 151")**
Mr Dewi Morgan

**Ymgynghorwyr**
Hymans Robertson

**Rheolwyr Cronfa**
BlackRock
Lothbury
Partners Group
Threadneedle
UBS Global Asset Management Cyf.

**Gwefan**
www.cronfabensiwngwynedd.cymru

**Darparwyr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC)**
Clerical Medical, Utmost Life a
Standard Life

**Pwl**
Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)

**Gweithredwr Pwl**
Link Fund Solutions Cyf.

**Ceidwad**
Northern Trust

**Actiwari**
Hymans Robertson

**Banc**
Barclays Bank plc

**Archwilwyr**
Archwilio Cymru

**Manylion Cyswllt**
Gellir holi ymhellach a derbyn gwybodaeth fanylach ynglŷn â:

- gweithrediad Cynllun Pensiwn Gwynedd trwy gysylltu â:

  Mr Meirion Jones,
  Rheolwr Pensiynau,
  Cyngor Gwynedd,
  Swyddfa'r Cyngor,
  Caernarfon,
  Gwynedd. LL55 1SH
  ☎ 01286 679643
  🖃 meirionjones2@gwynedd.llyw.cymru

- gweithgareddau buddsoddi a chyfrifeg y Gronfa drwy gysylltu â:

  Mrs Delyth Jones-Thomas,
  Rheolwr Buddsoddi,
  Cyngor Gwynedd,
  Swyddfa'r Cyngor,
  Caernarfon,
  Gwynedd. LL55 1SH
  ☎ 01286 679128
  🖃 delythwynjonesthomas@gwynedd.llyw.cymru

## 3. Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Gwynedd ar gyfer 2022/23 (y flwyddyn at 31 Mawrth 2023)

### Cefndir / Cyfansoddiad

Cyfansoddwyd y Bwrdd o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 13 Gorffennaf 2015. Mae'r aelodaeth yn cynnwys tri aelod sydd yn cynrychioli cyflogwyr y cynllun a thri aelod sydd yn cynrychioli aelodau'r cynllun (sef staff sy'n cyfrannu tuag at bensiwn a rhai sydd wedi ymddeol ac yn derbyn pensiwn).

Dros y cyfnod o 1af Ebrill 2022 a 31ain Mawrth 2023, mae'r Bwrdd wedi cwrdd yn rhithiol pum gwaith. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael gwahoddiad fel arsylwyr i gyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau, ac wedi cytuno cymryd y rôl hon yn eu tro er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth yn ogystal â chyfathrebu. Mae'r trefniant hon yn gytbwys gyda Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau rŵan yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, lle mae'n atebol, gyda swyddogion am lywodraethu a gweinyddu'r Gronfa. Ar adegau, mae'r Bwrdd wedi gofyn i'w farn ac argymhellion gael eu cyflwyno'n swyddogol am ystyriaeth gan y Pwyllgor.

### Swyddogaeth y Bwrdd

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, dau brif swyddogaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r awdurdod gweinyddu (Cyngor Gwynedd) i:

i. sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon o'r CPLlL. a
ii. sicrhau cydymffurfiad gyda'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol

Felly, corff monitro, adolygu a chynorthwyo yw'r Bwrdd, nid corff sydd yn rheoli a gwneud penderfyniadau.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu o dan Gylch Gorchwyl a gytunwyd gan Cyngor Gwynedd (mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 5ed o Fawrth 2015).

Mae'n derbyn cefnogaeth gan Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu'r Cyngor ac mae adroddiadau yn cael eu paratoi a'u cyflwyno gan swyddogion yn cynnwys Cyfarwyddwr y Gronfa, Rheolwr Buddsoddi a Rheolwr Pensiynau y Gronfa.

### Gwaith y Bwrdd

Unwaith eto mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn brysur i staff uwch yr Awdurdod Gweinyddu gyda'r prisiad y gronfa bensiwn yn cymryd lle. Felly, roedd aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen i flaenoriaethu ceisiadau i swyddogion baratoi adroddiadau ar gyfer y Bwrdd.

**Presenoldeb**

Yn ystod 2022/23 bu newid yn aelodaeth y bwrdd gyda'r Cynghorydd Aled Evans a Huw Trainor yn sefyll i lawr fel aelodau o'r bwrdd, a'r Cynghorydd Beca Roberts yn ymuno gyda'r Bwrdd. Bydd gwaith yn mynd ymlaen yn ystod 2023/24 i ail benodi aelodau i'r Bwrdd.

| | 04/04/2022 | 18/07/2022 | 03/10/2022 | 15/12/2022 | 06/03/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynghorydd Aled Evans** | ✓ | | | | |
| **H. Eifion Jones** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Osian Richards** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Huw Trainor** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| **Sharon Warnes** | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| **Sioned Evans Parry** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| **Cynghorydd Beca Roberts** | | | ✓ | | ✓ |

**Cynllun Gwaith**

Yn unol â'r cynllun gwaith a gytunwyd yn y flwyddyn flaenorol, rhoddwyd sylw i adroddiadau ar y materion canlynol:

- Polisi Cynrychiolaeth
- Cyllideb y Gronfa Bensiwn
- Amcanion Ymgynghorwyr Buddsoddi
- Polisi Buddsoddi Cyfrifol
- Perfformiad buddsoddi'r Gronfa Bensiwn
- Gweinyddiaeth Pensiwn
- Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Prisiad actiwaraidd
- Cyfrifon y Gronfa
- Cynllun hyfforddiant
- Tasglu ar ddatgeliadau ariannol cysylltiedig a'r hinsawdd ('TCFD')
- Rhagfantoli arian cyfred
- Prosiect ynni glan yn Nghymru

- Adolygiad o ddyraniad asedau strategol y Gronfa Bensiwn
- Adroddiad Archwilio Cymru
- Achos McCloud
- Rhaglen dashfyrddau pensiwn
- Cofrestr risg
- Datganiad strategaeth gyllido
- Polisi adrodd torri'r gyfraith
- Rhagamcanion modelu llif arian
- Adolygu amcanion strategol ar gyfer ymgynghorwyr buddsoddi'r gronfa

Yn ystod trafodaethau, rhoddwyd mewnbwn a chyflwynwyd nifer o sylwadau gan aelodau'r Bwrdd sydd wedi cynorthwyo swyddogion yr awdurdod gweinyddu i gwblhau eu gwaith.

Cwblhaodd y Bwrdd arolwg trefn lywodraethol gwasanaeth cyhoeddus y Rheolydd Pensiynau. Roedd yr arolwg yn gymysgedd o gwestiynau ffeithiol ac arolwg barn. Yn dilyn trafodaeth rhwng aelodau'r Bwrdd, cyflwynwyd yr arolwg i'r Rheolydd o fewn y terfyn amser penodol.

Hefyd, mynychodd aelodau'r Bwrdd gyfarfod prisiad y Gronfa yn Hydref 2022 a chyfarfod blynyddol rhithiol y Gronfa ym mis Tachwedd 2022, a nodwyd y bu perfformiad hynod foddhaol o'i gymharu â chronfeydd CPLIL eraill.

Mae'r cynllun gwaith ar gyfer 2023/24 yn cynnwys:

- Diweddariad cyffredinol am Weinyddiaeth Pensiynau
- Datganiad Cyfrifon y Gronfa
- Diweddariad ar y prosiect McCloud
- Diweddariad am Bartneriaeth Pensiwn Cymru
- Cofrestr Risg
- Diweddariad am berfformiad buddsoddi'r Gronfa
- Dashfwrdd pensiynau
- Cyllideb 2023/24
- Cynllun busnes 2023/24
- Cynllun hyfforddiant 2023/24

**Hyfforddiant**

Yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd cafodd pob aelod o'r Bwrdd fanylion am y CPLIL a'i weinyddiaeth yng Ngwynedd mewn cyflwyniadau amrywiol gan Cyfarwyddwr y Gronfa, Rheolwr Buddsoddi a Rheolwr Pensiynau.

Mae aelodau'r Bwrdd hefyd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd a chyflwyniadau rhithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

| Darparwr | Teitl |
|---|---|
| Partneriaeth Pensiwn Cymru | Dosbarthiadau Asedau Marchnad a rôl y Dyrannwr |
| Partneriaeth Pensiwn Cymru | Ecwiti Cynaliadwy Gweithredol |
| Partneriaeth Pensiwn Cymru | Gwybodaeth pŵl: Llywodraethu a Gweinyddu |
| Partneriaeth Pensiwn Cymru | Gwybodaeth pŵl: Rolau a Chyfrifoldebau |
| Partneriaeth Pensiwn Cymru | Beth mae Buddsoddi Cyfrifol yn ei olygu i PPC |
| Partneriaeth Pensiwn Cymru | Cod Stiwardiaeth ac Adrodd TCFD |
| Partneriaeth Pensiwn Cymru | Cynnydd pwlio CPLIL eraill |
| Partneriaeth Pensiwn Cymru | Cyfleodd Cydweithio |
| LGC | Seminar Buddsoddi LGC |
| LGC | Uwchgynhadledd Buddsoddi a Phensiynau LGC |
| LAPFF | Cynhadledd Flynyddol |


**Diolch**

Mae'r Cadeirydd yn dymuno diolch i'w gyd-aelodau ar y Bwrdd, sydd wedi gwirfoddoli eu hamser i'r swyddogaethau, ac i'r swyddogion perthnasol am eu cefnogaeth.

**Hywel Eifion Jones**
**Cadeirydd**

## 4. Ystadegau Aelodaeth

Mae'r graff isod yn dangos y newidiadau yn aelodaeth y Gronfa dros y 20 mlynedd ddiwethaf. Mae'n dangos bod nifer y pensiynwyr wedi cynyddu yn raddol o 5,114 yn 2003 i 11,780 yn 2023 ac mae nifer y cyfranwyr hefyd wedi cynyddu o 12,810 yn 2003 i 19,304 yn 2023.




Ceir manylion pellach am aelodaeth y Gronfa yn y tabl isod:

| **31 Mawrth 2022** | **Disgrifiad** | **31 Mawrth 2023** |
|---:|---|---:|
| 18,657 | Cyfranwyr | 19,304 |
| 11,298 | Pensiynau a Delir | 11,780 |
| 12,540 | Pensiynwyr Gohiriedig | 13,160 |
| 2,425 | Buddion heb eu hawlio | 2,973 |
| 6,192 | Ymadawyr heb benderfynu* | 4,993 |
| **51,112** | **Cyfanswm Aelodaeth** | **52,210** |

*Mae ymadawr heb benderfynu yn rhywun sydd wedi gadael ei gyflogaeth ond sydd heb benderfynu pa gamau y mae am eu cymryd nawr o ran eu buddion pensiwn. Mae'r cofnodion hyn yn cael eu monitro'n agos ac yn cael eu tynnu oddi ar y system yn y pen draw unwaith y bydd yr aelod unigol wedi penderfynu ar y camau y mae'n dymuno eu cymryd mewn perthynas â'u buddion pensiwn. Mae rhai cofnodion hefyd yn ymadawyr heb benderfynu gan fod y gronfa yn aros am fanylion terfynu gan gyflogwr y cynllun neu oherwydd bod oedi wrth brosesu'r cofnodion i'r statws cywir oherwydd prinder staff o ganlyniad i anhawster recriwtio staff newydd.

# 5. Gweinyddiaeth Pensiynau

## 5.1 Adolygiad o'r Flwyddyn

**Cyflwyniad**

Mae 2022/23 wedi bod yn flwyddyn brysur arall ar gyfer y Gwasanaeth Pensiynau. Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod a diweddariad ar wahanol brosiectau a grybwyllwyd yn flaenorol.

**Rheoli Perfformiad**

Mae'r Gronfa Bensiwn yn ymroddedig i wella ei ddarpariaeth o wasanaeth a bydd yn adolygu'r mesurau sydd mewn lle i fonitro perfformiad yn flynyddol er mwyn adnabod lle y gellir gwneud gwelliannau. Ble mae meysydd o berfformiad gwael yn cael eu nodi, bydd y Gwasanaeth Pensiynau yn adolygu'r rhesymau dros berfformiad gwael a rhoi prosesau priodol ar waith i wella lefel y gwasanaeth a ddarperir yn y dyfodol. Dyma berfformiad dyletswyddau craidd y gwasanaeth ar gyfer 2022/23 i gymharu â 2021/22:

| **Gweithgareddau Craidd** | **Perfformiad yn 2021/2022** | | **Perfformiad yn 2022/2023** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer yr achosion** | **Diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd** | **Nifer yr achosion** | **Diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd** |
| Nifer y dyddiau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr dyfynbris yn cynnig trosglwyddiad i mewn | 194 | 53.28 | 351 | 26.60 |
| Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr dyfynbris yn rhoi manylion trosglwyddiad allan | 205 | 28.63 | 218 | 17.11 |
| Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i brosesu ad-daliad o gyfraniadau pensiwn | 206 | 1.42 | 287 | 0.72 |
| Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr yn rhoi gwybod am werth y buddion wedi eu gohirio | 978 | 5.98 | 2,015 | 7.86 |
| Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr yn rhoi gwybod am werth y buddion – amcangyfrifon | 1,714 | 1.33 | 2,056 | 1.16 |
| Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr yn rhoi gwybod am werth y buddion – gwir werth | 683 | 0.99 | 797 | 0.84 |
| Cyfartaledd nifer o ddiwrnodau gwaith a gymerwyd i hysbysu gwerth buddion dibynyddion | 264 | 1.84 | 385 | 1.61 |
| Prosesu a thalu Pensiynau misol ar amser (ffigwr yn seiliedig ar nifer o daliadau ym Mis 12 bob blwyddyn) | 11,609 | 100% | 11,999 | 100% |
| Nifer yr achosion lle roedd angen taliadau diwygiedig o ganlyniad i gamgymeriad yn y gwasanaeth | 0 | n/a | 0 | n/a |

Fel y gwelir, ar y cyfan, mae perfformiad y gwasanaeth wedi gwella. Mae perfformiad y gwaith o anfon llythyr yn rhoi gwybod am werth y buddion wedi eu gohirio wedi gwaethygu ychydig. Y prif reswm am hyn yw'r ffaith bod staff newydd wedi cael eu penodi yn 2022/23 er mwyn ymgymryd â'r gwaith yma ac mae wedi cymryd amser i'w hyfforddi yn y gwaith. Er bod y nifer o ddyddiau wedi cynyddu ar gyfer yr agwedd yma o'r gwaith, rydym wedi prosesu 2,015 achos yn ystod 2022/23 i gymharu â 978 achos yn ystod 2021/22 ac mae hyn yn helpu i wella cywirdeb ei data.

Byddem yn parhau i weithio i wella'r perfformiad ar gyfer yr holl dasgau yn ystod 2023/24.


**Arolwg Boddhad Aelodau**

Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i'n haelodau, mae Arolwg Boddhad Aelodau yn cael ei anfon ar ddiwedd pob proses, e.e. ymddeoliadau a thalu ad-daliadau i'r aelodau roi eu barn ar ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd a'u barn am y gwasanaeth a ddarperir gan staff y gwasanaeth.

Dyma grynodeb o ganlyniadau 2022/23:

**Ansawdd Gwasanaeth**


Mae'r siart isod yn dangos canran y defnyddwyr sy'n fodlon gyda phedwar agwedd o berfformiad y gwasanaeth ar sail: i) Gwasanaeth ar y cyfan; ii) gwybodaeth glir; iii) Ansawdd y gwasanaeth; iv) Amser i ddelio gyda'r ymholiad.




Fel y gwelir, mae 95.34% o'r defnyddwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir o safon uchel.

**Staff**

Mae'r siart isod yn dangos canran y defnyddwyr sy'n fodlon gyda phedwar agwedd o berfformiad staff ar sail: i) Cwrteisi; ii) Prydlondeb; iii) Cymorth a roddwyd; iv) lefel gwybodaeth.




Fel y gwelir, mae canran uchel unwaith eto (98.04%) o'r defnyddwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir o safon uchel mewn perthynas staff y gwasanaeth.

## Cwynion

Yn ffodus, mae'r nifer o gwynion rydym yn ei dderbyn yn isel iawn. Dyma fanylion y cwynion rydym wedi ei dderbyn yn ystod 2022/23:

**Ymddeoliad Salwch**: Aelodau yn anhapus na fu eu cais i ymddeol o dan yr opsiwn ymddeoliad salwch yn llwyddiannus. Mae'r penderfyniad yma tu allan i reolaeth y gronfa – Mae'r cwynion yma yn cael eu cyfeirio yn ôl i'r cyflogwr perthnasol.


**Oediad yn trosglwyddo buddion pensiwn:** Roedd aelod yn anhapus gyda'r amser a gymrwyd i drosglwyddo ei buddion allan o'r gronfa bensiwn i gronfa bensiwn arall. Wrth ymchwilio i mewn i'r gwyn roedd yn amlwg mae diffyg o ran y gronfa bensiwn arall oedd achosi'r oediad, ac felly roedd hyn allan o ddwylo Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Rydym yn cywiro unrhyw wallau cyn gynted â phosibl a cheisio newid ein prosesau, os yn briodol, i osgoi'r un camgymeriad ddigwydd eto.

## Fy Mhensiwn Ar-lein

Mae'r system 'Fy Mhensiwn Ar-lein' yn parhau i fod yn boblogaidd iawn, gyda nifer fawr o aelodau yn ymweld â'r safle yn ddyddiol.

Mae oddeutu 20,000 wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hyd yn hyn. Mae'r graff isod yn dangos cynnydd yn nifer yr aelodau sydd wedi ymuno a'r system hunan wasanaeth dros y 10 mlynedd diwethaf:




Mae'r system yn caniatáu i aelodau:

- Gweld a diweddaru manylion personol a cyfeiriadau
- Darganfod faint y byddant yn ei dderbyn wrth ymddeol
- Cyfrifo’r swm y lwmp swm ychwanegol y gallant ei gymryd wrth ymddeol
- Gweld hanes eu gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw wasanaeth wedi ei drosglwyddo
- Gweld a diweddaru eu buddiolwyr enwebedig
- Gweld eu Datganiadau Buddion Blynyddol

Rydym yn gobeithio bydd fersiwn newydd sbon o’r system yn cael ei gyflwyno yn ystod 2023/24 a byddem yn datblygu’r opsiynau sydd ar gael i aelodau e.e. llwytho slipiau pensiwn misol y pensiynwyr i’r system.

**<u>i-Connect</u>**

Mae i-Connect yn diweddaru data aelodau yn ein system gweinyddu pensiynau yn fisol, gan osgoi'r angen i gyflogwyr anfon gwybodaeth ar ddiwedd y flwyddyn.

Cymerir data yn uniongyrchol o system gyflogres gan i-Connect sydd wedyn yn nodi ac yn cyflwyno manylion am aelodau newydd, y rhai sydd optio allan a ymadawyr i ni yn awtomatig.

Erbyn hyn mae’r cyflogwyr i gyd yn defnyddio i-Connect, gyda’r wybodaeth yn cael ei gyflwyno yn brydlon gan y cyflogwyr i gyd ar y cyfan.

**<u>Datganiadau Buddion Blynyddol</u>**

Mae’n ofynnol i ni gynhyrchu Datganiad Buddion Blynyddol ar gyfer pob aelod o'r cynllun erbyn diwedd mis Awst bob blwyddyn. Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion i aelodau o'r buddion a gronnwyd hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol ac yn rhagweld y buddion sy'n daladwy ar eu Hoedran Pensiwn Arferol. Mae'r datganiad hefyd yn cynnwys manylion tâl a nodiadau esboniadol ynghylch sut mae'r buddion yn cael eu cyfrif.

Ers 2018 mae'r datganiadau hyn ar gael yn electronig ar adran Hunan Wasanaeth Aelodau ein gwefan. Llwythwyd datganiadau 2022 ar y system ar gyfer aelodau actif ar 19/07/2022 ac aelodau gohiriedig ar 08/07/2022.

Mae 1,143 o aelodau wedi ysgrifennu i mewn i gadarnhau eu bod am barhau i dderbyn copi papur o'u datganiadau. Anfonwyd y datganiadau hyn ddiwedd Awst 2022.

**<u>Y Rheoleiddiwr Pensiynau - Mesur Data</u>**

Yn 2015, cymerodd y Rheoleiddiwr Pensiynau (yRP) gyfrifoldeb am Gynlluniau Pensiwn y Sector Cyhoeddus. Cyn hynny, ym mis Mehefin 2010, cyhoeddodd y yRP arweiniad ar yr ymagwedd y maen nhw'n ei ystyried yn arfer da i fesur presenoldeb data aelodau.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bod yn comisiynu ein darparwr meddalwedd, Aquila Heywood i gynhyrchu Adroddiad Ansawdd Data ar gyfer ein Cronfa bob mis Medi. Erbyn hyn rydym gyda meddalwedd i redeg yr adroddiad hwn yn fewnol.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n ddwy adran:

- **Data Cyffredin:** e.e. enw, cyfeiriad, rhif YG, rhyw, dyddiad geni, statws a dyddiad cychwyn
- **Data Penodol i'r Cynllun:** e.e. buddion yn y cynllun, manylion trosglwyddo, CGY, manylion cyflog, cyfraniadau, gwasanaeth, lwfans oes, lwfans blynyddol a IPG.


Rydym yn rhoi isod grynodeb o'r canlyniadau:

**Crynodeb o'r Canlyniadau Data Cyffredin**

Mae'r graff isod yn dangos perfformiad Gwynedd ar gyfer pob categori data.

Cyflawnodd 7 o'r 8 categori'r meincnod uchaf o fwy na 98% gydag 5 categori heb gofnodi methiant unigol. Yr unig gategori na gyrhaeddodd y meincnod uchaf dan sylw oedd **cyfeiriadau aelodau** gyda sgôr o **97.14% .** Ac eithrio cyfeiriadau aelodau, mae ansawdd cyffredinol y data cyffredin yng Ngwynedd o safon uchel. Er mwyn gwella'r sgôr cyfeiriadau aelodau rydym am weithio gyda chwmni o'r enw ATMOS i wneud gwaith i olrhain cyfeiriad aelodau a gofnodwyd fel rhai sydd "wedi diflannu".


Canran y cofnodion aelodau heb fethiant data cyffredin yw **97.9%** (97.7% blwyddyn ddiwethaf) ar ddyddiad paratoi'r adroddiad hwn (09/06/2023).




**Crynodeb o Ganlyniadau Data Penodol y Cynllun**

Mae'r graff isod yn dangos perfformiad Gwynedd ar gyfer pob categori data yn erbyn meincnodau'r cynllun y cytunwyd arnynt.

Canran y cofnodion aelodau heb fethiant data unigol sy'n benodol i'r cynllun yw **98.78%** (94.89% flwyddyn ddiwethaf) ar ddyddiad paratoi'r adroddiad hwn (09/06/2023).




Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â gweithredu unrhyw lanhau data a amlygwyd fel rhan o'r ymarfer hwn a disgwylir i'r glanhau data hwn wella'r sgoriau data ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**<u>Hyfforddiant</u>**

Yn ystod 2022/23 mae Hymans Robertson wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddiant i gyflogwyr ar y pynciau isod:

- Allanoli staff
- Disgresiwn cyflogwyr
- Tâl Pensiynadwy Tybiedig - enghreifftiau

Fe anfonwyd gwahoddiad i gyflogwyr ein cronfa ni i fynychu'r sesiynau yma ac fe dderbyniwyd adborth positif iawn i'r sesiynau gan y cyflogwyr a fynychodd.

Mae rhai o staff y gronfa wedi mynychu sesiynau hyfforddi a ddarperir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol:

- Lwfans Blynyddol a Lwfans Oes
- Trosolwg o'r Cynllun Pensiwn

**Prisiad**

Un o'r prosiectau mawr ar gyfer 2022/23 oedd y prisiad. Roedd rhaid i'r adran ddyrannu adnoddau helaeth i'r prosiect i ddiweddaru cofnodion aelodau ac i glirio cymaint o wallau â phosibl yn dilyn adborth gan yr Actwari.

Ar y cyfan roedd y prosiect yn llwyddiant gyda'r Actwari yn nodi bod ansawdd y data o safon uchel.

**Gwaith i'w wneud**

Mae yna nifer o dasgau a prosiectau angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae rhain yn cynnwys:

- Safle We: Parhau i ddiweddaru ac ehangu'r safle we.
- Slipiau cyflog pensiynwyr: darparu slipau cyflog i bensiynwyr yn electroneg trwy'r porth Fy Mhensiwn Ar-lein.
- Parhau i ddatblygu awtomeiddio prosesau a gwella ein gohebiaeth.
- Sganio'r ffeiliau papur yn y swyddfa er mwyn fod yn swyddfa di-bapur.
- McCloud: Diweddaru cofnodion ar gyfer ymgymryd a'r prosiect McCloud.
- Lleihau'r nifer o gofnodion 'undecided leavers', sef aelodau sydd wedi gadael y cynllun ond nid yw eu record wedi ei gau.

**Ystadegau Gweinyddu Cynllun**

**Nifer y Cyflogwyr**

Mae'r tabl hwn yn rhoi crynodeb o nifer y cyflogwyr yn y Gronfa gydag aelodau actif a nifer y cyflogwyr sydd wedi dod i ben heb unrhyw aelodau gweithredol ond gyda rhai rhwymedigaethau sy'n ddyledus.

| | **Actif** | **Wedi dod i ben** |
|---|---|---|
| **Cyrff ar yr atodlen:** | 24 | 6 |
| **Cyrff a ganiateir:** | 22 | 10 |
| **Cyfanswm:** | **46** | **16** |

**Aelodaeth y Cynllun**

| | **31/03/2019** | **31/03/2020** | **31/03/2021** | **31/03/2022** | **31/03/2023** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Actif** | 17,373 | 18,582 | 18,295 | 18,657 | 19,304 |
| **Gohiriedig** | 12,594 | 12,605 | 12,431 | 12,540 | 13,160 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pensiynwyr** | 9,825 | 10,329 | 10,780 | 11,298 | 11,780 |
| **Heb eu brosesu** | 3,563 | 6,441 | 8,133 | 8,617 | 7,966 |
| **Cyfanswm:** | **45,355** | **47,957** | **49,639** | **51,112** | **52,210** |

**Ymddeoliadau yn ystod 2022/23**

Mae'r tabl hwn yn rhoi crynodeb o nifer yr ymddeoliadau yn y Gronfa yn ystod 2022/2023.

| Rheswm am adael | Nifer o bensiynwyr |
|---|---|
| Ymddeoliad Buan / Arferol | 571 |
| Diswyddo / Effeithlonrwydd | 14 |
| Ymddeoliad Salwch | 36 |
| Ymddeoliad Hwyr | 109 |
| Ymddeoliad Hyblyg | 28 |
| **Cyfanswm** | **758** |

**Dangosyddion staffio**

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y staff yn y Tîm Gweinyddu Pensiynau sy'n gweithio'n gyfan gwbl ar fuddion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| Nifer staff cyfwerth ag amser llawn y Gronfa Bensiwn | 18.10 | 19.16 | 20.16 |
| Cyfanswm aelodaeth y gronfa (Ddim yn cynnwys aelodau heb eu prosesu) | 41,506 | 42,495 | 44,244 |
| Nifer aelodau'r gronfa i un aelod o staff gweinyddol | 2,293 | 2,218 | 2,195 |

**Cost Uned Fesul Aelod**

| Treuliau Rheoli Buddsoddiadau | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Costau | £14,788,000 | £10,593,000 |
| Cyfanswm yr aelodaeth (Ddim yn cynnwys aelodau heb eu prosesu) | 42,495 | 44,244 |
| Cost yr aelod | £347.99 | £239.42 |
| **Treuliau Gweinyddu** | | |
| Cyfanswm y Costau | £1,373,000 | £1,588,000 |
| Cyfanswm yr aelodaeth (Ddim yn cynnwys aelodau heb eu prosesu) | 42,495 | 44,244 |
| Cost yr aelod | £32.30 | £35.89 |
| **Treuliau Goruchwyliaeth a Llywodraethu** | | |
| Cyfanswm y Costau | £364,000 | £548,000 |
| Cyfanswm yr aelodaeth (Ddim yn cynnwys aelodau heb eu prosesu) | 42,495 | 44,244 |

| | | |
|---|---|---|
| Cost yr aelod | £8.57 | £12.39 |
| **Cyfanswm y gost** | **£388.86** | **£287.70** |

**Diolchiadau**

Ar y cyfan mae 2022/23 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus i'r Gwasanaeth Pensiynau. Hoffwn ddiolch i'r holl staff am eu gwaith caled a chefnogaeth dros y flwyddyn, y cyflogwyr am ddarparu gwybodaeth amserol a'r actwari Hymans Robertson am eu gwaith a'u cyngor dros y flwyddyn.

**Meirion Jones**
**Rheolwr Pensiynau**

## 5.2 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

**Cyffredinol**

Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 sy'n llywodraethu'r Gronfa. Gweinyddir y Gronfa yn unol â'r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd)
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Gwelliant) 2014 (fel y'i diwygiwyd)
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016.

Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer ei weithwyr ei hun ynghyd â gweithwyr 45 o gyrff eraill (gan gynnwys 2 Awdurdod Lleol). Nid yw athrawon yn dod o dan y Gronfa hon ac mae darpariaethau gwahanol ar eu cyfer hwy. Telir am y Gronfa trwy gyfraniadau gan weithwyr a chyflogwyr, ynghyd ag incwm buddsoddi.

O Ebrill 2014 pennir cyfradd cyfrannu gweithwyr mewn bandiau yn ôl eu gwir gyflog wedi ei gynyddu gyda'r lefel chwyddiant blynyddol. Gall gweithwyr ddewis talu cyfraniadau hanner cyfradd er mwyn cronni buddion personol cyfradd hanner mewn cynllun o'r enw 50/50, mae buddion marwolaeth a dibynyddion yn dal ar gyfradd lawn. Dangosir y bandiau ar gyfer Ebrill 2022- Mawrth 2023 yn y tabl isod:

| Amrediad Cyflog | Graddfa Cyfraniad prif gynllun | Graddfa Cyfraniad cynllun 50/50 |
|---|---|---|
| Hyd at £15,000 | 5.5% | 2.75% |
| £15,001 - £23,600 | 5.8% | 2.9% |
| £23,601 - £38,300 | 6.5% | 3.25% |
| £38,301 - £48,500 | 6.8% | 3.4% |
| £48,501 - £67,900 | 8.5% | 4.25% |
| £67,901 - £96,200 | 9.9% | 4.95% |
| £96,201 - £113,400 | 10.5% | 5.25% |
| £113,401 - £170,100 | 11.4% | 5.7% |
| Mwy na £170,101 | 12.5% | 6.25% |

Mae cyflogwyr yn cyfrannu at y cynllun ar raddfa wedi ei hasesu'n deirflynyddol gan Actiwari'r Gronfa, neu pan mae newid sylweddol mewn aelodaeth neu broffil y cyflogwr. Mae cyflogwyr yn dal i dalu cyfradd lawn ar gyfer aelodau sydd yn dewis yr opsiwn 50/50 neu ar dâl llai oherwydd salwch.

**Buddion**
Mae'r CPLlL yn darparu buddion sylweddol i aelodau yn seiliedig ar ddau gynllun ar wahân. Mae trefniant cyflog terfynol, sydd yn cynnwys dau gyfradd cronni, a CARE (Enillion Cyfartaledd Gyrfa ac Ailbrisiad) a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2014. Isod fe restrir crynodeb byr o sut mae'r pensiynau yn cael eu cronni o dan y ddau drefniant.

Ar gyfer yr elfen buddion cyflog olaf bydd buddion fel arfer yn seiliedig ar ddau ffactor sef: hyd y gwasanaeth y talwyd cyfraniadau i'r cynllun, a geir ei adnabod fel "Cyfanswm Aelodaeth", a'r cyflog yr oedd y cyfraniadau yn seiliedig arno (fel arfer y 12 mis olaf o wasanaeth), a geir ei adnabod fel "Cyflog Olaf".
Bydd y rhan CARE mewn ffurf 1/49fed a chyfrifwyd ar wir gyflog pensiynadwy bob blwyddyn sydd yn cael eu hailbrisio yn flynyddol.

- **Pensiwn Blynyddol**
  Mae'r cyfrifiad ar gyfer pensiwn safonol blynyddol yn seiliedig ar y fformiwla isod:

  ***Cyflog Olaf x 1/80 x Cyfanswm Aelodaeth i 31 Mawrth 2008; plws***
  ***Cyflog Olaf x 1/60 x Cyfanswm Aelodaeth o 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2014; plws***
  ***Y pensiwn CARE wedi ei chronni ac ailbrisio ar y blynyddoedd o 1 Ebrill 2014 ymlaen***

Unwaith bydd y pensiwn yn cael ei dalu bydd yn cynyddu bob mis Ebrill yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

- **Lwmp Swm**
  Hefyd mae hawl derbyn lwmp swm yn ddi-dreth ar aelodaeth i 31 Mawrth 2008, wedi ei gyfrifo ar sail y fformiwla isod:

  ***Cyflog Olaf x 3/80 x Cyfanswm Aelodaeth i 31 Mawrth 2008 yn unig***

- **Newid Buddion**
  Mae dewis cyfnewid rhan o'r pensiwn er mwyn cynyddu'r lwmp swm dros ben y fformiwla a ddangosir uchod, ond o fewn cyfyngiadau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC).

**Pensiynau Cynghorwyr**
Mae'r cynllun hefyd yn caniatáu mynediad i Gynghorwyr. Seilir y pecyn buddion ar fformiwla'r cynllun am bensiwn a lwmp swm cyn Ebrill 2008 fel y gwelir uchod, ond defnyddir Cyflog Cyfartalog Gyrfa yn lle Tâl Terfynol. Dyma'r sefyllfa o hyd ar gyfer Aelodau Cynghorwyr, hyd yn oed ar ôl cyflwyno'r prif gynllun newydd o Ebrill 2014. Ni chaiff Cynghorwyr newydd ymuno â'r CPLlL yn Lloegr a bydd yn rhaid i Aelodau Cynghorwyr adael y cynllun pan fydd eu cyfnod yn y swydd wedi dod i ben.

**Ymddeoliad Salwch**
Os oes gan aelod o leiaf 2 flynedd o gyfanswm aelodaeth, a bod meddyg cofrestredig annibynnol a gymeradwywyd gan yr awdurdod gweinyddu yn tystio ei fod yn barhaol anabl i wneud ei swydd,

neu unrhyw swydd debyg gyda'r cyflogwr, bydd yn derbyn pensiwn ac os yw'n dewis cyfnewid pensiwn lwmp swm yn rhydd o dreth yn syth.

Mae'r buddion sy'n daladwy yn dibynnu ar yr haen o ymddeoliad salwch a ddyfarnwyd:

**Haen 1**
Os yw'r aelod yn annhebygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig cyn eu Hoedran Pensiwn Arferol (OPA), bydd y buddion salwch yn seiliedig ar y pensiwn y maent eisoes wedi cronni yn eu cyfrif pensiwn ar ddyddiad gadael y cynllun yn ogystal â'r pensiwn y byddent wedi adeiladu, wedi'i gyfrifo ar dâl pensiynadwy tybiedig, pe baent wedi bod yn brif adran y cynllun nes iddynt gyrraedd eu OPA.

**Haen 2**
Os yw'r aelod yn annhebygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn 3 blynedd o adael, ond maent yn debygol o fod yn gallu ymgymryd â chyflogaeth o'r fath cyn eu OPA, mae'r buddion salwch yn seiliedig ar y pensiwn y maent eisoes wedi cronni yn eu cyfrif pensiwn ar ddyddiad gadael y cynllun ynghyd â 25% o'r pensiwn y byddent wedi adeiladu, wedi'i gyfrifo ar dâl pensiynadwy tybiedig, pe baent wedi bod yn brif adran y cynllun nes iddynt gyrraedd eu OPA.

**Haen 3**
Os yw'r aelod yn debygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn 3 blynedd o adael, neu cyn eu OPA os yn gynt, bydd y buddion salwch yn seiliedig ar y pensiwn y maent eisoes wedi cronni yn eu cyfrif pensiwn wrth adael. Bydd y buddion hyn yn cael eu hatal ar ôl 3 blynedd, neu'n gynharach os yw'r aelod mewn swydd gyflogedig neu'n dod yn alluog i gyflogaeth o'r fath, ar yr amod nad ydynt wedi cyrraedd eu OPA erbyn hynny. Os bydd y taliad yn cael ei stopio bydd fel arfer yn daladwy unwaith eto o OPA.

Mae gwaith cyflogedig yn golygu gweithio am ddim llai na 30 awr yr wythnos am gyfnod o ddim llai na 12 mis.

**Ymddeoliad Cynnar**
Os yw cyfanswm aelodaeth yn 2 flynedd neu fwy, gall aelod ddewis ymddeol a derbyn ei fudd CPLIL unrhyw adeg ar ôl 55 oed; er hynny gall taliad cyn oed ymddeol arferol olygu lleihad actiwaraidd er mwyn talu am y rhyddhad buan, ac os ar ôl oed buddion pensiwn arferol gellir cael codiad actiwaraidd oherwydd taliad hwyr.

**Buddion Gohiriedig**
Mae aelodau sy'n gadael gyda 2 flynedd o aelodaeth yn cael buddion gohiriedig, fel a'i cyfrifwyd ym mharagraff ‘Buddion’, ond i’r buddion gael eu gohirio a’u cynyddu gyda'r mynegai, hyd nes gwneir taliad unrhyw amser ar ôl oedran 55 (oedran 60 os yw terfyniad cyn 01/04/2014) . Neu mae'n bosib trosglwyddo swm sy'n cyfateb i'r buddion i gynllun pensiwn arall.

Bydd aelodau sy’n gadael gyda chyfanswm aelodaeth o lai na 2 flynedd a dim hawliau CPLIL pellach, yn cael ad-hawlio’u cyfraniadau, llai treth ac unrhyw bremiwm perthnasol.

**Marw Mewn Gwasanaeth**

Mae lwmp swm o dair gwaith Cyflog Terfynol yn daladwy, waeth pa mor hir oedd yr aelodaeth. Ar gyfer gweithwyr rhan-amser, tydi'r Cyflog Terfynol ddim yn cael ei gynyddu i'w raddfa gyfatebol llawn amser.

Yn ychwanegol, gall buddion goroeswyr fod yn daladwy i briod neu bartner, gyda buddion i unrhyw blant sy'n ddibynnol hefyd yn daladwy yn amodol ar feini prawf penodol, yn seiliedig ar oedran ac os mewn addysg llawn amser.

**Marw ar ôl Ymddeol**


Os bydd aelod yn marw ar ôl derbyn ei bensiwn CPLIL a chyn cyrraedd 75 oed, efallai y bydd grant marwolaeth yn daladwy. Yn gyffredinol, mae'r grant marwolaeth yn hafal i 10 gwaith (neu 5 gwaith os gadawsant y CPLIL cyn 1 Ebrill 2008) y pensiwn llai'r swm a dalwyd eisoes. Os gadawodd yr aelod ar ôl 31/03/2014 yna bydd swm y lwmp swm ychwanegol a gafodd yr aelod ar ymddeoliad o ganlyniad i ildio pensiwn am lwmp swm hefyd yn cael ei ddidynnu o'r swm taladwy.

Fel gyda marwolaeth mewn gwasanaeth, mae pensiynau priod a phartner yn daladwy am oes tra bod pensiynau i blant cymwys yn daladwy o dan yr un amodau fel Marw mewn Gwasanaeth.

# 6. Buddsoddiadau

## 6.1 Sefyllfa Diwedd Flwyddyn

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd mewn sefyllfa gymharol iach gyda gwerth y gronfa wedi cynyddu yn raddol ers peth amser bellach. Erbyn 31 Mawrth 2023 mae gwerth y Gronfa Bensiwn wedi sefydlogi ar £2.7 biliwn.




**Dyraniad Asedau**
Prif benderfynydd perfformiad hirdymor y Gronfa ydi dyraniad strategol yr asedau.

Mae'r tabl canlynol yn dangos dyraniad meincnod y Gronfa fel ar 31.03.23.

| | Gwir % | Targed % | Gwahaniaeth % |
|---|---|---|---|
| Ecwiti DU | 8.9 | 10.5 | -1.6 |
| Ecwiti Byd-eang | 52.5 | 49.5 | 3.0 |
| Bondiau DU | 13.9 | 15.0 | -1.1 |
| Credyd Aml Ased | 7.2 | 7.5 | -0.3 |
| Eiddo | 8.0 | 10.0 | -2.0 |
| Ecwiti Preifat | 6.1 | 5.0 | 1.1 |
| Isadeiledd | 2.7 | 2.5 | 0.2 |
| Arian | 0.7 | 0.0 | 0.7 |
| **Cyfanswm** | **100.0** | **100.0** | |

Wedi ystyried canlyniadau'r prisiad teirblynyddol, gyda lefel cyllido y Gronfa yn 120%, penderfynwyd adolygu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn y Pwyllgor Pensiynau ar y 21ain o Dachwedd 2022.

Penderfynwyd i leihau risg y gronfa drwy drosglwyddo cyfran o'r asedau ecwiti i ddosbarthiadau asedau eraill megis isadeiledd a dyled preifat. Bydd y dyraniad newydd yma yn weithredol o fewn y 12-18 mis nesa a gwelir y dyraniad newydd yn y tabl canlynol:

| Math o ased | Dyraniad |
|---|---|
| Ecwiti DU | 9.00% |
| Ecwiti Byd Eang | 38.50% |
| Ecwiti Marchnadoedd Datblygol | 2.50% |
| Ecwiti Preifat | 5.00% |
| **Cyfanswm Twf** | **55.00%** |
| Eiddo | 10.00% |
| Isadeiledd | 5.00% |
| Credyd Aml Ased | 7.50% |
| Credyd Preifat | 5.00% |
| **Cyfanswm Incwm** | **27.50%** |
| Bond Dychweliad Absoliwt | 12.50% |
| Bondiau Corfforaethol | 5.00% |
| **Cyfanswm Amddiffyn** | **17.50%** |

**Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi**

Dros gyfnod yr adroddiad hwn, roedd 3 Rheolwr Buddsoddi fel a ganlyn: Partneriaeth Pensiwn Cymru, BlackRock a Partners. Mae'r gronfa hefyd wedi gwneud buddsoddiadau uniongyrchol eiddo gyda chronfeydd Lothbury, Threadneedle ac UBS.

| Rheolwr | Cronfa | Dosbarth Ased | 31 Mawrth 2022 £000 | 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Partneriaeth Pensiwn Cymru | Global Opportunities | Ecwiti Byd- Eang | 454,098 | 430,059 |
| Partneriaeth Pensiwn Cymru | Global Growth | Ecwiti Byd- Eang | 430,749 | 426,908 |
| Partneriaeth Pensiwn Cymru | Absolute Return Bond | Bondiau | 353,857 | 386,103 |
| Partneriaeth Pensiwn Cymru | Multi Asset Bond | Credyd Aml Ased | 197,920 | 200,600 |
| Partneriaeth Pensiwn Cymru | Emerging Markets | Ecwiti Byd- Eang | 59,802 | 57,616 |
| Black Rock | Aquila Life UK Equity Index | Ecwiti DU | 239,314 | 246,433 |
| Black Rock | Aquila Life GBL Dev Fundamental | Ecwiti Byd- Eang | 200,811 | 207,927 |
| Black Rock | ACS World Low Carbon Equity | Ecwiti Byd- Eang | 346,072 | 331,802 |
| Black Rock | Eiddo | Eiddo | 65,192 | 55,032 |
| Lothbury | Eiddo | Eiddo | 72,139 | 57,297 |
| UBS | Eiddo Global Ast Triton | Eiddo | 75,739 | 74,865 |
| Threadneedle | Eiddo TPEN | Eiddo | 37,063 | 32,056 |
| Threadneedle | Eiddo TPUT | Eiddo | 2,387 | 2,047 |
| Partners | Ecwiti Preifat | Ecwiti Preifat | 158,711 | 166,622 |
| Partners | Isadeiledd | Isadeiledd | 67,417 | 67,566 |
| | | **Cyfanswm** | **2,761,271** | **2,742,933** |

## 6.2 Perfformiad Buddsoddi

### Cyfarfodydd Chwarterol

Caiff perfformiad y Rheolwyr Buddsoddi ei fonitro'n chwarterol. Mae cyfarfod chwarterol gyda'r Rheolwyr Buddsoddi yn cael ei rotatio. Bydd y Rheolwyr Buddsoddi yn cyflwyno adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Pensiynau, swyddogion perthnasol ac i ymgynghorydd y Gronfa.

### Monitro Perfformiad

Tanysgrifia Gwynedd i wasanaeth mesur Pensions & Investment Research Consultants Ltd (PIRC), sy'n cyfrifo'r gyfradd enillion i Wynedd ac ar gyfer cronfeydd pensiwn eraill, ac yn darparu cymariaethau.

### Targedau

Dangosir meincnodau perfformiad unigol ar gyfer y Rheolwyr Buddsoddi unigol yn y tabl isod.

| Cronfa / Dosbarth Ased | Meincnod |
|---|---|
| Global Growth PPC | MSCI AC World |
| Global Opportunities PPC | MSCI AC World |
| Absolute Return Bond PPC | ICE BofA SONIA Overnight Rate Index +2% |
| Multi Asset Credit PPC | ICE BofA SONIA Overnight Rate Index +4% |
| Emerging Markets PPC | MSCI Emerging Markets Index |
| Black Rock Fundamental Indexation | FTSE RAFI Developed 1000 |
| BlackRock UK/ Carbon Isel | FTSE All-Share 52%, MSCI World Low Carbon Index 48% |
| Eiddo | IPD All Balanced Property Funds |
| Partners | MSCI World |

Gan mai buddsoddiadau uniongyrchol yr ydym wedi ei wneud gyda Lothbury, UBS a Threadneedle, nid ydym wedi rhoi meincnod iddynt. Fodd bynnag, ar gyfer pwrpas mynegol byddwn yn eu monitro yn erbyn yr 'IPD Balanced Property Unit Trust Index'.

### Perfformiad y Gronfa

| | Enillion Blwyddyn | Meincnod Blwyddyn | Enillion 3 Blynedd | Meincnod 3 Blynedd | Enillion Ers Cychwyn | Meincnod Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru** | | | | | | |
| PPC Global Growth | -0.9% | -1.4% | 14.8% | 15.5% | 9.0% | 9.8% |
| PPC Global Opportunities | -0.3% | -1.4% | 16.3% | 15.5% | 10.3% | 9.5% |
| PPC Multi Asset Credit | -6.2% | 6.4% | d/b | d/b | -1.1% | 4.9% |
| PPC Absolute Return Bond | 2.1% | 4.3% | d/b | d/b | 1.8% | 3.0% |
| PPC Emerging Markets | -10.6% | -10.0% | d/b | d/b | -6.7% | -7.2% |
| **Cronfeydd Lleol** | | | | | | |
| Black Rock Aquila Life UK Equity Index | 3.0% | 2.9% | 14.0% | 13.8% | 7.2% | 7.2% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BlackRock ACS World Low Carbon Equity Tracker | -4.1% | -4.7% | d/b | d/b | 9.1% | 8.7% |
| Black Rock Aquila Life Global Dev Fundamental | 3.5% | 3.0% | 20.1% | 19.5% | 10.0% | 9.4% |
| Eiddo BlackRock | -15.7% | -14.5% | 2.1% | 2.6% | 5.4% | 5.9% |
| Eiddo Lothbury | -20.5% | -14.5% | -1.8% | 2.6% | 5.7% | 6.3% |
| Eiddo Threadneedle TPEN | -13.8% | -14.5% | 2.7% | 2.6% | 3.2% | 3.2% |
| Eiddo Threadneedle TPUT | -13.7% | -14.5% | 2.3% | 2.6% | 1.7% | 2.0% |
| Eiddo UBS | -14.8% | -14.5% | 2.6% | 2.6% | 3.5% | 4.6% |
| Isadeiledd Grŵp Partners | 16.7% | 8.0% | 13.4% | 8.0% | 12.1% | 8.0% |
| Ecwiti Preifat Grŵp Partners | 0.1% | 5.4% | 15.5% | 12.7% | 15.8% | 11.4% |
| **Y Gronfa Gyfan** | **-1.5%** | **-0.3%** | **11.7%** | **11.4%** | **d/b** | **d/b** |

Mae'r flwyddyn wedi bod yn heriol gyda effaith rhyfel Iwcrain a effaith chwyddiant uchel yn effeithio'r marchnadoedd arian. Cafwyd perfformiad o -1.5% gan y Gronfa, er bod hyn tu ôl i'r meincnod, roedd hyn yn y berfformiad cryf mewn amgylchiadau heriol ac yn chwartel uchaf o'r cronfeydd CPLIL yn ystadegau swyddogol PIRC am 2022/23.

Fel arfer cydnabyddir bod perfformiad dros gyfnod hir (dyweder, 3+ o flynyddoedd) yn fynegai mwy dilys na blwyddyn unigol; gall strategaethau a gynllunnir ar gyfer perfformiad da yn y tymor hir ddioddef o golledion tymor byr o bryd i'w gilydd.

Roedd perfformiad y Gronfa 0.3% yn uwch na'r meincnod dros tair mlynedd gyda dychweliad o +11.7%. Mae perfformiad y Gronfa dros tair mlynedd erbyn 2022/23 yn safle 3 allan o holl gronfeydd CPLIL, gyda hyn yn wellhad graddol dros y blynyddoedd. Roeddem yn safle 36 (dychweliad 20 mlynedd), safle 10 (dychweliad 10 mlynedd) a safle 7 (dychweliad 5 mlynedd) ac felly mae'r strategaeth ddiweddar wedi cael effaith cadarnhaol iawn ar sefyllfa y Gronfa.

## 6.3 Trefniadau Gweinyddol a Chadw

**Llywodraethu**

Gweinyddir y Gronfa o fewn y fframwaith a sefydlwyd gan statud, sy'n datgan mai Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Gweinyddu.

**Polisïau Llywodraethu**

Mae'r Datganiad Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfiad ar Drefn Lywodraethol yn nodi trefniadau llywodraethol y Gronfa Bensiwn.

Gweler copïau yn 10.4 a 10.5.

**Cyngor Arbenigol**

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gorfodi'r Cyngor i sicrhau cyngor arbenigol ar fuddsoddi. Darperir y cyngor hwn gan ymgynghorydd annibynnol o gwmni Hymans Robertson (ymgynghorwyr y Gronfa) sy'n ymuno â'r Pwyllgor Pensiynau er mwyn monitro'r Rheolwyr Buddsoddi. Bydd ymgynghorydd o Hymans Robertson yn bresennol ym mhob cyfarfod chwarterol gyda'r Rheolwyr Buddsoddi.

**Ceidwaid**

Mae gan rai o'r rheolwyr buddsoddi geidwaid cysylltiedig sy'n dal asedau eu rhan nhw o'r portffolio. Mae'r rheolwyr a'u ceidwaid cysylltiedig fel a ganlyn:

- Ceidwad BlackRock yw Banc JP Morgan Chase;
- Ceidwad PPC yw Northern Trust.

Mae'r tri cwmni yr ydym wedi gwneud buddsoddiad uniongyrchol â hwy, Lothbury, Threadneedle ac UBS, yn defnyddio Northern Trust fel eu ceidwad hwy.

Nid yw Partners Group yn cael eu cynnwys yn nhrefniadau cadw'r Gronfa.

**Trefniadau Gweinyddol**

Mae trefniadau gweinyddol yn sicrhau bod y trosglwyddiadau hynny sydd yn digwydd, rhwng y Cyngor a'r Rheolwyr Buddsoddi, yn gorfod cael eu hawdurdodi gan lofnodion dau o'r swyddogion a enwir ar restr llofnodion awdurdodedig y Gronfa Bensiwn.

## 6.4 Pwerau Buddsoddi

**Pwerau Buddsoddi**

Mae'r rheoliadau yn mynnu bod gan y Gronfa Ddatganiad Strategaeth Buddsoddi (DSB).

Mae'n galluogi cronfeydd pensiwn i gael hyblygrwydd wrth osod eu strategaethau ac yn rhoi'r gallu i fuddsoddi canran uwch o'u cronfa mewn trefniadau pwlio unigol. Nid oes unrhyw gyfyngiadau penodol yn y ddeddfwriaeth ac felly nid oes angen codi'r symiau yn ffurfiol. Er hynny, mae'n ymarfer da i gael cyfyngiadau llydan ac mae'r rheiny wedi cael eu cynnwys yn y DSB.

## 6.5 Rheoli Buddsoddiadau

**Cyffredinol**

Prif nod polisi buddsoddi yw uchafu'r enillion ar yr arian dan ofal y Cyngor, yn gyson â lefel dderbyniol o risg, gyda'r enillion yn y tymor hir i fod yn fwy na chwyddiant cyflogau. Rhaid cadw mewn cof mai yn y tymor hir iawn y mae ymrwymiadau'r Gronfa (sef pensiynau), gan ymestyn hyd at ganol y ganrif. Bydd yr ymrwymiadau hyn yn codi gyda chwyddiant, oherwydd cyswllt pensiynau i'r mynegai chwyddiant ac hefyd oherwydd codiadau yng nghyflogau gweithwyr hyd at eu hoedran ymddeol. Mae perthynas rhwng lefelau'r enillion a dderbynnir a'r gyfradd cyfraniadau y disgwylir i gyflogwyr ei dalu. Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn ystyried bod yr enillion tymor hir o gyfranddaliadau yn mynd i fod yn fwy na'r enillion ar fondiau, felly oherwydd hyn buddsoddir y rhan fwyaf o'r Gronfa mewn ecwiti.

**Cyfarwyddyd Rheolwyr Buddsoddi**

Oherwydd polisi pendant i sicrhau amrywiaeth yn yr asedau ac yn y dull o fuddsoddi, mae'r Rheolwyr Buddsoddi yn derbyn gwahanol gyfarwyddiadau:

| Rheolwr Buddsoddi | Cyfarwyddyd |
|---|---|
| BlackRock | Goddefol |
| PPC | Gweithredol |
| Partners | Gweithredol |

Cyfarwyddyd BlackRock yw bod yn rheolwyr "goddefol". Byddant yn dyrannu asedau yn unol â'u meincnod ac ym mhob marchnad byddant yn olrhain mynegai'r farchnad stoc. O ganlyniad, dylai eu perfformiad olrhain eu meincnod unigol. Mae apwyntio rheolwr goddefol yn lleihau'r risg o danberfformiad yn unol â'r meincnod, ond hefyd yn lleihau'r siawns o orberfformiad cymharol i'r meincnod.

Briff "gweithredol" sydd gan yr holl reolwyr eraill. Mae ganddynt ddisgresiwn i fuddsoddi yn eu syniadau buddsoddi gorau. Tra bod ganddynt hyblygrwydd o ran pa stociau, rhanbarthau a sectorau i fuddsoddi ynddynt, mae nifer o gyfyngiadau mewn lle i rwystro'r rheolwyr rhag gwyro yn rhy bell oddi wrth eu meincnod a chymryd gormod o risg. Mae apwyntio rheolwr gweithredol yn cynyddu'r siawns o orberfformiad yn erbyn y meincnod, ond hefyd yn cynyddu'r risg o danberfformiad yn erbyn y meincnod.

## 6.6 Partneriaeth Pensiwn Cymru

Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn 2017 gyda'r nod o gyflawni:

- arbedion oherwydd maint
- llywodraethu a phenderfyniadau cryf
- costau is a gwerth rhagorol am arian, a
- gwell cynhwysedd a gallu i fuddsoddi mewn isadeiledd


Mae PPC yn un o'r wyth pwl Pensiwn Llywodraeth Leol cenedlaethol ac mae'n gydweithrediad o'r wyth cronfa CPLlL yng Nghymru. Mae gan yr wyth cronfa hanes hir, llwyddiannus o gydweithio gan gynnwys tendr cydweithredol ar gyfer un darparwr ecwiti goddefol ar gyfer cronfeydd Cymru cyn menter gyfuno'r Llywodraeth.

Mae rheoli buddsoddi cyfunol yn cynnig y potensial ar gyfer arbedion ffioedd buddsoddi, cyfleoedd i ehangu portffolios buddsoddi, gweithgareddau pleidleisio ac ymgysylltu gwell ynghyd â mynediad at wybodaeth a rennir ac ymarfer gorau. Er bod PPC yn gyfrifol am ddarparu atebion buddsoddi cydweithredol, mae pob awdurdod cyfansoddol yn parhau i fod yn gyfrifol am osod ei strategaeth fuddsoddi ei hun.

Dyluniwyd model gweithredu PPC i fod yn hyblyg a darparu gwerth am arian. Penododd PPC Weithredwr cronfa allanol ac mae'n defnyddio ymgynghorwyr allanol er mwyn ddod â'r arbenigedd gorau i gefnogi'r gwaith o redeg y Pwl. Y Gweithredwr yw Link Fund Solutions ac maent wedi partneru gyda Russell Investments i ddarparu atebion rheoli buddsoddi effeithiol a darparu perfformiad net o ffi cryf ar gyfer yr holl Awdurdodau Cyfansoddol.

**Llywodraethu**

Mae PPC yn manylu ar sut mae'n delio â phob agwedd ar Lywodraethu trwy ei Chytundeb Rhwng Awdurdodau (CRhA) a gymeradwywyd gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ym mis Mawrth 2017. Mae'r CRhA yn diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, ei Aelodau, Pwyllgorau a Swyddogion ac mae'n cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses benderfynu. Yn unol â'i gred y dylai llywodraethu da arwain at ganlyniadau gwell i randdeiliaid, mae PPC wedi sefydlu strwythur llywodraethu cadarn:




Yr wyth Awdurdod Cyfansoddol o'r PPC yw:

Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol ar frig strwythur llywodraethu PPC. Maent yn cadw rheolaeth ar yr holl weithgareddau a wneir gan PPC ac yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo Cynllun Busnes PPC, sy'n amlinellu cyllideb a chynllun gwaith PPC, yn ogystal â'i Gredoau a'r Amcanion.

Mae'r Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLl) yn goruchwylio ac yn adrodd ar PPC ac mae'n cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Mae'r Gweithgor Swyddogion (GS) yn darparu cefnogaeth a chyngor i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ac mae'n cynnwys ymarferwyr a Swyddogion Adran 151 o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Lletya ar gyfer PPC ac mae'n gyfrifol am ddarparu cefnogaeth weinyddol ac ysgrifenyddol i'r CBLl a'r GS, a chysylltu o ddydd i ddydd gyda'r Gweithredwr ar ran yr holl gronfeydd CPLlL yng Nghymru.

Mae Link Fund Solutions (Gweithredwr) yn darparu ystod eang o wasanaethau ar gyfer PPC, sy'n cynnwys hwyluso cerbydau buddsoddi ac is-gronfeydd, adrodd ar berfformiad, gweithredu trosglwyddiadau, monitro rheolwyr a thrafodaethau ffioedd. Mae Cytundeb Gweithredwr ar waith sy'n amlinellu dyletswyddau cytundebol y Gweithredwr ac yn llywodraethu'r berthynas rhwng y Gweithredwr a PPC. Mae'r CBLl a'r GS, gyda chefnogaeth Hymans Robertson, yn goruchwylio'r gwaith y mae Link Fund Solutions yn ei wneud ar ran PPC. Mae Link yn ymgysylltu â'r Awdurdodau Cyfansoddol trwy:

- Ymgysylltu uniongyrchol- mynychu un cyfarfod pwyllgor yn flynyddol
- Ymgysylltu anuniongyrchol- gyda'r holl Awdurdodau Cyfansoddol trwy'r CBLl a GS

Mewn cydweithrediad â Link Fund Solutions, mae Russell Investments yn darparu gwasanaethau atebion rheoli buddsoddi i PPC ac maent yn gweithio mewn ymgynghoriad ag wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC i sefydlu cerbydau buddsoddi.


Northern Trust yw'r Storfa ar gyfer cerbyd ACS PPC ac mae'n darparu nifer o wasanaethau gan gynnwys benthyciadau gwarantau, gweinyddu cronfeydd, monitro cydymffurfiaeth ac adrodd.

Hymans Robertson yw Ymgynghorwyr Goruchwylio PPC ac mae eu rôl yn cynnwys goruchwyliaeth a chyngor ar drefniadau llywodraethu, gwasanaethau gweithredwr, agweddau buddsoddi strategol a chymorth gyda rheoli prosiectau.

Burges Salmon yw ymgynghorwyr cyfreithiol PPC ac mae nhw'n darparu cyngor cyfreithiol mewn perthynas â chronfeydd a reoleiddir gan yr FCA, trefniadau treth a llywodraethu, gan gynnwys cynorthwyo gyda phrosesau caffael cymhleth.

Penodwyd Robeco UK fel darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC ac maent yn gyfrifol am weithredu'r Polisi Pleidleisio ar draws portffolio PPC ac ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu ar ran PPC.

Credoau PPC yw sylfaen fframwaith llywodraethu PPC ac fe'u defnyddiwyd i arwain holl weithgareddau a phenderfyniadau PPC, gan gynnwys ei amcanion a'i pholisïau. Mae PPC, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol, wedi datblygu set o bolisïau llywodraethu. Ymhob achos, mae polisïau a gweithdrefnau PPC wedi'u datblygu i gyflenwi neu ategu gweithdrefnau a pholisïau presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Rhestrir polisïau, cofrestrau a chynlluniau allweddol PPC isod ac maent i'w gweld ar wefan PPC.




Mae Buddsoddi Cyfrifol wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i PPC ers ei sefydlu yn 2017. Ymgymerwyd â nifer o weithgareddau i weithio tuag at uchelgais PPC o ddod yn arweinydd mewn Buddsoddi Cyfrifol. I ddechrau, canolbwyntiwyd ar lunio Polisi Buddsoddi Cyfrifol ac ers hynny mae PPC wedi llunio ei Pholisi Risg Hinsawdd ei hun ac wedi gweithio gyda'i Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, Robeco, i gytuno ar Bolisi Pleidleisio. Mae Is-Grŵp Buddsoddi Cyfrifol PPC wedi'i sefydlu i gymryd perchnogaeth o lifoedd gwaith a chamau sy'n gysylltiedig â Buddsoddi Cyfrifol a'r camau sy'n ofynnol i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed ym Mholisïau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd PPC.

Gellir gweld Cynllun Busnes PPC, Llawlyfr Llywodraethu a'r holl bolisïau eraill y manylir arnynt yn y siart uchod ar wefan PPC:

https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

**Risg**

Mae rheoli risg yn elfen hanfodol o ymrwymiad PPC i lywodraethu da. Mae PPC wedi datblygu strategaeth risg strwythuredig, helaeth a chadarn sy'n ceisio nodi a mesur risgiau allweddol a sicrhau bod rheolaethau a gweithdrefnau llywodraethu addas ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae Polisi Risg PPC wedi cael ei ddatblygu yn y fath fodd fel y gellir rhagweld ac ymdrin â risgiau mewn modd cyflym ac effeithiol i leihau colled neu niwed posibl i PPC a'i rhanddeiliaid.

Mae PPC yn cynnal Cofrestr Risg sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Is-Grŵp Risg pwrpasol sy'n adrodd yn ôl i'r GS a'r CBLl bob chwarter.

**Hyfforddiant**

Mae gan PPC ei pholisi hyfforddi ei hun ac mae'n datblygu cynllun hyfforddi blynyddol sydd wedi'i gynllunio i ategu cynlluniau hyfforddi presennol yr Awdurdod Cyfansoddol. Bydd Awdurdodau Cyfansoddol yn parhau i ddiwallu anghenion hyfforddi ar lefel leol tra bydd cynllun hyfforddi PPC yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau cronni PPC.

**Cynnydd pwlio hyd yn hyn**

Mae PPC yn ceisio darparu opsiynau buddsoddi sydd yn galluogi Awdurdodau Cyfansoddol i weithredu strategaethau buddsoddi gyda arbedion costau materol tra yn parhau i ddarparu buddsoddiadau sydd yn perfformio i'r rhanddeiliaid. Mae PPC wedi gwneud cynnydd sylweddol er mwyn cyflawni hyn. Mae PPC wedi lansio tair is-gronfa ecwiti gweithredol yn 2019/20, pum is-gronfa incwm sefydlog yn 2020/21, ac yr is gronfa Marchnadoedd Datblygol yn 2021/22, ynghyd â buddsoddiadau goddefol presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol, sydd yn golygu bod PPC wedi pwlio 70% o asedau.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan PPC asedau gwerth £22.5bn, ble mae £15.6bn o fewn y pwl, gweler y manylion isod:

| Cronfa | Rheolir gan | Dyddiad lawnsio | 31 Mawrth 2023 £000 | % |
|---|---|---|---|---|
| Global Growth Equity | Link Fund Solutions | Chwefror 2019 | 3,274,153 | 14.6 |
| Global Opportunities Equity | Russell Investments | Chwefror 2019 | 3,269,124 | 14.6 |
| UK Opportunities Equity | Russell Investments | Medi 2019 | 760,143 | 3.4 |
| Emerging Markets Equity | Russell Investments | Hydref 2021 | 354,601 | 1.6 |
| Global Credit | Russell Investments | Gorffennaf 2020 | 693,665 | 3.1 |
| Global Government Bond | Russell Investments | Gorffennaf 2020 | 481,417 | 2.1 |
| UK Credit | Link Fund Solutions | Gorffennaf 2020 | 520,721 | 2.3 |
| Multi-Asset Credit | Russell Investments | Gorffennaf 2020 | 655,191 | 2.9 |
| Absolute Return Bond | Russell Investments | Medi 2020 | 559,107 | 2.5 |
| Buddsoddiadau Goddefol | BlackRock | Mawrth 2016 | 5,074,366 | 22.6 |
| Buddsoddiadau heb eu pwlio | | | 6,812,892 | 30.3 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau ar draws yr 8 Cronfa Bensiwn** | | | **22,455,380** | **100** |

Mae rhaniad yr asedau rhwng Cronfa Bensiwn Gwynedd a PPC fel a ganlyn:

| Cronfa | 31 Mawrth 2023 £000 | % |
|---|---|---|
| Global Opportunities | 430,059 | 15.7 |
| Global Growth | 426,908 | 15.6 |
| Multi Asset Credit | 200,600 | 7.3 |

| | | |
|---|---|---|
| Absolute Return Bond | 386,103 | 14.0 |
| Emerging Markets | 57,616 | 2.1 |
| Ecwiti Goddefol | 786,162 | 28.7 |
| Buddsoddiadau heb eu pwlio | 455,485 | 16.6 |
| **Cyfanswm Asedau Buddsoddi** | **2,742,933** | **100** |

Mae'r tabl uchod yn darparu gwybodaeth ychwanegol i nodyn 14 yn natganiad o'r cyfrifon ac yn crynhoi buddsoddiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn PPC a'r buddsoddiadau o fewn rheolaeth uniongyrchol y Gronfa.

**Costau pwlio**

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin, fel Awdurdod Lletya ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth gweinyddol ac ysgrifenyddol a chysylltu o ddydd i ddydd gyda'r Gweithredwr ar ran cronfeydd CPLlL yng Nghymru. Mae Cyllideb PPC yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Busnes PPC ac yn cael ei gymeradwyo'n flynyddol gan yr wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Mae costau'r Awdurdod Lletya ac Ymgynghorwyr Allanol a chostau rhedeg yn cael eu hariannu'n hafal (oni bai bod prosiect penodol wedi ei gytuno ar gyfer Cronfa unigol) gan yr wyth Awdurdod Cyfansoddol ac yn cael eu had-dalu yn flynyddol. Y swm ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn i 31 Mawrth 2023 oedd £158k ac mae hyn yn cael ei gynnwys yn Nodyn 12d yn y datganiad o'r cyfrifon.

Yn ychwanegol i gostau rhedeg, mae hefyd costau trosglwyddo sydd yn ymwneud â throsglwyddo asedau i fewn i'r pwl, mae'r costau yma yn gallu bod yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae costau uniongyrchol yn cynnwys apwyntio rheolwr trosglwyddo i ymgymryd â'r trosglwyddiad, ynghyd â goruchwylio y broses drwy safbwynt ymchwilio ac adlewyrchu. Mae costau anuniongyrchol yn cynnwys costau eglur ac aneglur megis comisiwn, lledaeniad ac effaith, a cost cyfle sef diffyg gweithredu. Mae costau trosglwyddo yn gallu cael eu priodoli'n uniongyrchol i'r ased sydd yn cael ei drosglwyddo ac felly yn cael eu tynnu o'r gwerth ased net yn lle cost uniongyrchol i'r Gronfa.

**Costau Rheoli Buddsoddiadau**

Mae'r tabl isod yn dangos costau rheolwyr buddsoddi wedi eu rhannu rhwng y rhai gan PPC (yn cynnwys ecwitïau goddefol) a'r rhai tu allan i PPC ar gyfer 2022/23.

| | | **Uniongyrchol £000** | **Anuniongyrchol £000** | **Cyfanswm £000** |
|---|---|---|---|---|
| **Ffioedd Rheoli** | Asedau'r Pŵl | 2,268 | 2,366 | 4,634 |
| | Asedau tu allan i'r Pŵl | 7,502 | 595 | 8,097 |
| **Costau Trafodion** | Asedau'r Pŵl | 551 | 0 | 551 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Asedau tu allan i'r Pŵl | 0 | 1,975 | 1,975 |
| **Costau cadwraeth** | Asedau'r Pŵl | 247 | 0 | 247 |
| | Asedau tu allan i'r Pŵl | 25 | 0 | 25 |
| **Cyfanswm Cronfa Gyfan** | | **10,593** | **4,936** | **15,529** |

**<u>Amcanion 2023/24</u>**

Yn dilyn lansiad nifer o is- gronfeydd hyd yn hyn, disgwylir i'r cynnydd barhau gyda rhesymoli nifer o fandadau yn digwydd. Mae'r Gweithredwr/ Dyranwyr yn datblygu a lansio cyfres o is-gronfeydd a fydd yn y pen draw yn adlewyrchu anghenion dyraniad asedau yr wyth gronfa er mwyn hwyluso symudiad yr asedau sydd angen eu pwlio.

Pan sefydlwyd pwl PPC, mae'r prif ffocws wedi bod ar bwlio yr asedau mwyaf hylifol, sef ecwiti ac incwm sefydlog. Ym mis Gorffennaf 2021, penododd y Cydbwyllgor Llywodraethu BFinance yn Gynghorwyr Dyrannu PPC a maen't wedi cynorthwyo PPC i adnabod Dyranwyr Marchnadoedd Preifat ar gyfer Dosbarthiadau Asedau'r Farchnad Breifat. Mae Dyranwyr Isadeiledd, Credyd Preifat a Ecwiti Preifat wedi ei apwyntio ac mae gwaith ar y gweill gyda pwlio Eiddo.
Mae rhaglen buddsoddi Isadeiledd a Credyd Preifat PPC wedi ei lansio, gyda'r rhaglen Ecwiti Preifat yn cael ai lawnsio yn 2023/24. Nid oes unrhyw arian wedi ei fuddsoddi yn y rhaglenni yma eto.

Gweler amserlen lefel uchel fan hyn:

| **Portffolio Buddsoddi** | **Amserlen Lawnsio/ Gweithredu** |
|---|---|
| Ecwiti Cynaliadwy | Lawnsio erbyn canol 2023 |
| Dyled Preifat / Isadeiledd | Buddsoddi yn dechrau yn 2023/24 |
| Ecwiti Preifat | Buddsoddi yn dechrau yn 2023/24 |

Yn ystod 2022/23, cyhoeddodd PPC ei Adroddiad Stiwardiaeth blynyddol ac mae wedi cael ei dderbyn fel llofnodwr i God Stiwardiaeth y DU 2020. Eleni cafwyd datblygiadau cadarnhaol fel buddsoddwr cyfrifol gyda sefydlu fframwaith ymgysylltu i adolygu ei themâu ymgysylltu, adrodd yn well yn unol â gofynion Cod Stiwardiaeth y DU, ac adolygiadau parhaus o fandadau presennol yr is-gronfeydd i sicrhau cysondeb gyda chredoau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd PPC. Bydd gwelliannau pellach yn 2023/24, gyda chyflwyno adroddiad hinsawdd PPC, i baratoi ar gyfer gofynion adrodd y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) sydd ar y gorwel. Mae PPC hefyd yn gweithio'n agos gyda'i ddarparwyr gwasanaeth i hyrwyddo ei nodau buddsoddi cyfrifol, gan gynnwys datblygu ei bolisi Pleidleisio tuag at Bolisi Stiwardiaeth mwy cynhwysfawr, gyda chynlluniau i sefydlu Polisi Uwchgyfeirio priodol.

Bydd ffocws hefyd ar adolygu a datblygu polisïau PPC ychwanegol, yn ogystal â darparu hyfforddiant amserol a pherthnasol a hwylusir gan y gronfa er budd ei grwpiau rhanddeiliaid ehangach.

**<u>Benthyca Stoc</u>**

Dechreuwyd benthyca stoc ym mis Mawrth 2020. Rhennir y refeniw ar sail 85:15 rhwng PPC a Northern Trust gyda'r holl gostau ar gyfer rhedeg y rhaglen benthyca gwarantau yn dod o gyfran Northern Trust o'r rhaniad ffioedd. Mae lleiafswm o 5% o swm nominal pob daliad ecwiti unigol yn cael ei ddal yn ôl ac mae uchafswm o 25% o gyfanswm AUM ar fenthyg ar unrhyw un adeg. Cyfanswm refeniw Refeniw LF Cymru yn ystod 2022/23 oedd £1,328,759 (gros) / £1,129,506 (net) gyda £454,055,992 allan ar fenthyg ar 31 Mawrth 2023.

## 6.7 Buddsoddi Cyfrifol

Mae'r Gronfa'n cydnabod y gall materion llywodraethu amgylcheddol, cymdeithasol a chorfforaethol ('ESG') gynrychioli risg ariannol sylweddol i'w rhanddeiliaid a dylanwadu ar elw ac enw da hirdymor y Gronfa. O ystyried hyn, nod y Pwyllgor yw bod yn ymwybodol o ffactorau ESG sy'n berthnasol yn ariannol, a'u monitro, ac mae wedi cytuno ar y set ganlynol o gredoau buddsoddi mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2022:

- Yn unol â dyletswydd ymddiriedol y Pwyllgor, dylai ystyriaethau ariannol fod â mwy o bwysau nag ystyriaethau anariannol wrth wneud penderfyniadau buddsoddi, er y gall materion ESG effeithio'n sylweddol ar risg ac adenillion. Felly, dylai ffactorau ESG gael eu gwreiddio ym mhrosesau buddsoddi ac ym mhrosesau penderfynu rheolwyr asedau a benodir gan y Gronfa / Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Bydd Pwyllgor y Gronfa yn ceisio buddsoddi mewn asedau cynaliadwy, gan gynnwys buddsoddi o fewn ardal yng Nghymru pan all buddsoddiadau anariannol ddeillio o hyn, ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion y ddyletswydd ymddiriedol.
- Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod ganddo ddyletswydd i fod yn fuddsoddwr cyfrifol. Disgwylir y bydd ymgynghori â chwmnïau, yn hytrach nag osgoi buddsoddi, yn fwy effeithiol o ran newid ymddygiad corfforaethol a lleihau risg. Lle bynnag y bo'n bosibl, gweithredu ar y cyd (fel yr hyn a gymerir drwy aelodaeth Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF) ac a gomisiynwyd gan Robeco ochr yn ochr â phartneriaid PPC) yw'r llwybr mwyaf llwyddiannus i ddylanwadu ar allbynnau.
- Fel buddsoddwr hirdymor, mae'r Gronfa yn agored i risgiau systemig megis newid yn yr hinsawdd a'r disgwyliad o drosglwyddo i economi carbon isel. Gellir gwella canlyniadau ariannol drwy reoli pa mor agored i risgiau o'r fath yw'r Gronfa.
- Gellir gwella dealltwriaeth a chanlyniadau cyfranddalwyr trwy ddarparu tryloywder ar bob cam o'r gadwyn ychwanegu gwerth.
- Mae hyfforddiant ac addysg yn debygol o fod yn elfen allweddol wrth ddatblygu'r Gronfa a safbwynt y Pwyllgor ar faterion sy'n ymwneud â'r ESG.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod asedau'r Gronfa'n cael eu buddsoddi'n fyd-eang ac ar draws llawer o sectorau, sy'n golygu bod lleihau allyriadau carbon y Gronfa yn fwy heriol nag y byddai i sefydliad unigol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i osod nod i'r Gronfa fod yn sero net erbyn 2050, wedi'i gefnogi gan ymrwymiad i asesu dichonoldeb y Gronfa i gyrraedd sero **net 5,10 neu 20 mlynedd ynghynt.**

Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig i gronfeydd CPLIL chwarae rhan arweiniol wrth lunio'r dyfodol, o ran cefnogi'r newid i economi carbon isel a chyflawni nodau ESG ehangach. Mae'r Pwyllgor yn gallu dylanwadu mewn dwy ffordd: drwy'r penderfyniadau buddsoddi y mae'n eu gwneud; a thrwy ymgysylltu'n barhaus â'r cwmnïau a'r prosiectau y mae'r Gronfa'n buddsoddi ynddynt. Yn erbyn y

cefndir hwn, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn briodol gosod nod realistig tra hefyd yn edrych ar ddichonoldeb cyflawni nod mwy uchelgeisiol.

Ar yr un pryd, mae'r Pwyllgor yn credu y dylid cyflawni'r gostyngiad yn allyriadau carbon y Gronfa mewn modd pwyllog. Rhaid i'r Gronfa ganolbwyntio o hyd ar ei phrif rwymedigaeth i dalu buddion i'w haelodau, gan gynnwys ystyried unrhyw risgiau cysylltiedig. Mae dull pwyllog yn galluogi'r Gronfa i ddal cyfleoedd buddsoddi sy'n deillio o'r newid i economi carbon isel, yn ogystal â lliniaru'r risgiau. At hynny, mae dull pwyllog yn cefnogi stiwardiaeth weithredol, gan roi mwy o amser a mwy o le i'r Pwyllgor roi newid ar waith a chyflawni trawsnewidiad cyfiawn trwy ymgysylltu parhaus.

# 7. Rheolaeth a Perfformiad Ariannol

## 7.1 Rheoli Risg

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd rheoli risg effeithiol. Rheoli risg yw'r broses ble mae'r Gronfa yn adnabod a delio gyda'r risgiau sydd yn ymwneud gyda'r gweithgareddau.

Ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, daw y risgiau o nifer o ffynonellau yn cynnwys strategaeth buddsoddi tymor hir, sefyllfa cyllido, perfformiad buddsoddiadau, gweinyddiaeth cynllun, newid aelodaeth, systemau ariannol a chyfathrebu.

Mae'r dogfennau canlynol yn egluro'r prif risgiau yma ac yn dangos sut y maent yn cael eu hadnabod, osgoi, rheoli ac adolygu:

- Cofrestr Risg
- Datganiad Strategaeth Buddsoddi
- Datganiad Strategaeth Cyllido
- Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd- cyfeirio at risgiau offerynnau ariannol

Mae cyngor arbenigol yn cael ei ddarparu gan Hymans Robertson, ein hymgynghorwyr, ac mae'r Pwyllgor Pensiynau yn cwrdd i adolygu perfformiad ein rheolwyr buddsoddi pob chwarter.

## 7.2 Datganiad Strategaeth Buddsoddi

Bu i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi ym mis Mawrth 2023. Mae'r strategaeth hon yn diffinio'r mathau o fuddsoddiadau gall y gronfa ddefnyddio yn yr hir dymor.

Nid oes cyfyngiadau penodol ar gyfer y math o fuddsoddiadau. Er hynny, mae'n ymarfer da i gael rhai terfynau llydan a cynhwysir rheiny yn y Datganiad Strategaeth Buddsoddi. Mae copi ar gael yn Atodiad 10.2, neu ar safle we'r Gronfa:

https://www.cronfabensiwngwynedd.cymru/cy/Buddsoddiadau/Cronfa-Bensiwn-Gwynedd-Datganiad-Strategaeth-Buddsoddi-Mawrth-2023.pdf

## 7.3 Datganiad Strategaeth Cyllido

Mae'n ofynnol i awdurdodau gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) baratoi a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido. Mae'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn gosod y strategaeth benodol i'r Gronfa sydd yn adnabod sut bydd ymrwymiadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cwrdd wrth symud ymlaen.

Mae buddion CPLIL wedi eu gwarantu gan statud ac felly mae'r addewid o bensiwn yn sicr. Mae'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn cyfeirio at y ffaith bod eisiau rheoli'r angen i gyllido'r buddion yma tros y tymor hir, a hefyd ar yr un pryd hwyluso gwaith archwilio ac atebolrwydd trwy wella tryloywder a'r broses o ddatguddio. Hefyd, mae'n rhoi fframwaith statudol i awdurdodau gweinyddol CPLIL ar gyfer rheoli diffygion pensiwn tymor hir y Gronfa wrth symud ymlaen.

Adolygwyd y Datganiad Strategaeth Cyllido yn ei gyfanrwydd yn 2022/23 er mwyn adlewyrchu'r Prisiad Actiwaraidd ar 31 Mawrth 2022. Mae'n cynnwys cyfraddau cyfraniad bob cyflogwr o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

Mae copi o'r Strategaeth Cyllido ar gael yn Atodiad 10.1, neu ar safle we'r Gronfa:

https://www.cronfabensiwngwynedd.cymru/cy/Buddsoddiadau/Gwynedd-FFS-2023-Cymraeg.pdf

## 7.4 Perfformiad Ariannol

### Incwm

| | Gwir 2021/22 £000 | Gwir 2022/23 £000 |
|---|---|---|
| Cyfraniadau Gweithwyr/ Aelodau | 19,703 | 21,519 |
| Cyfraniadau Cyflogwyr | 63,268 | 68,243 |
| Trosglwyddiadau i Mewn | 2,664 | 6,773 |
| Incwm Buddsoddi | 26,170 | 30,940 |
| Incwm Arall | 4 | 4 |
| **Cyfanswm Incwm** | **111,809** | **127,479** |

Cafwyd cynydd ar draws pob categori o incwm ond yn benodol derbyniwyd lefel uwch o gyfraniadau gweithwyr/ aelodau a cyflogwyr wedi i weithwyr dderbyn codiadau cyflog yn y flwyddyn.

**Gwariant**

| | Gwir 2021/22 £000 | Gwir 2022/23 £000 |
|---|---|---|
| Buddion sy'n daladwy | (66,979) | (72,108) |
| Taliadau i rai sy'n ymadael | (3,683) | (3,121) |
| Costau Rheoli | (16,525) | (12,729) |
| **Cyfanswm Gwariant** | **(87,187)** | **(87,958)** |

Cafwyd cynydd yn y swm o fuddion a dalwyd wedi i'r buddion gynyddu gyda CPI, a cafwyd gostyngiad yn costau rheoli yn ystod y flwyddyn oherwydd ffioedd perfformiad eithriadol mewn tair cronfa benodol gan Partners y llynedd.

| | Gwir 2021/22 £000 | Gwir 2022/23 £000 |
|---|---|---|
| Elw a Cholledion wrth waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad | 223,010 | (22,213) |
| **Cynnydd/ (Lleihad) yn yr Asedau Net ar gael ar gyfer buddion yn ystod y flwyddyn** | **247,632** | **(13,632)** |

**Asedau Net**

Mae gwerth buddsoddiadau ar y farchnad wedi lleihau yn ystod y flwyddyn wedi i'r buddsoddiadau wynebu blwyddyn heriol gyda rhyfel Iwcrain a chwyddiant uchel yn effeithio'r marchnadoedd arian. Roedd hyn yn gyffredin i holl gronfeydd pensiwn CPLIL ac felly nid yw'n destun pryder ac mae rhagolygon bod gwerth yr asedau wedi cynyddu yn chwarter cyntaf 2023/24.

Ceir rhagor o wybodaeth yn y Datganiad o'r Cyfrifon (Adran 9).

## 7.5 Safon Cyfrifeg Ryngwladol 19 (SCR19) a Safon Adrodd Ariannol 102 (SAA102)

**Diffiniad o SCR19**

Mae SCR19 yn diffinio sut dylid dangos asedau ac ymrwymiadau cynllun pensiwn i bwrpas adrodd mewn cyfrifon ariannol, gan nodi fod rhaid datgelu unrhyw ddiffyg neu ormodedd yn llawn ar y fantolen ariannol, gydag unrhyw symudiad yn cael ei ddangos yn y cyfrif elw a cholled blynyddol. Mae SCR19 yn berthnasol i gyrff sydd yn gorfod adrodd o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAAR). Mae hyn wedi effeithio'r cyrff ar yr atodlen yn y Gronfa Bensiwn sydd yn rhan o gyfrifon y Llywodraeth, sef Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'u hysgolion sylfaenol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Gyrfaoedd Cymru Gogledd Orllewin. Gwnaed cais gan ddau o'r cyflogwyr llai am adroddiadau SCR19 hefyd. Mae'r cyflogwyr eraill yn parhau i adrodd yn unol â gofynion SAA102.

**Cyfrifo am SCR19 a SAA102**

Mae mabwysiadu'r SCR19 neu SAA102 yn golygu bod rhaid i gyflogwyr adnabod yr ased neu ddiffyg net, ynghyd â chronfa bensiynau, yn y fantolen. Rhaid iddynt hefyd gofnodi yn y cyfrif refeniw cyfunol y symudiadau yn yr ased neu ddiffyg sy'n perthyn i gynllun buddion diffiniedig.

**Adroddiadau SCR19 a SAA102 ar 31/03/2023**

Yn Chwefror 2023, aethpwyd ati i gasglu'r data angenrheidiol er mwyn i'r Actiwari gael cyfrifo'r wybodaeth SCR19 neu SAA102 unigol ar gyfer cyflogwyr y Gronfa.

**Canlyniadau SCR19 a SAA102 fel ar 31/03/2023**

Cafodd y cyflogwyr ddewis selio y canlyniadau ar ddychweliadau disgwyliedig neu gwir ddychweliadau. Bydd canlyniadau pob cyflogwr yn adlewyrchu eu hamgylchiadau penodol eu hunain. O ganlyniad, dylid ystyried y diweddariad hwn fel arweiniad eglurhaol i'r prif faterion sydd yn effeithio mwyafrif y cyflogwyr, yn hytrach nag esboniad manwl o brofiad pob cyflogwr.

## 7.6 Cyfrifon Terfynol 2022/23

Archwiliwyd y Cyfrifon Terfynol gan Archwilio Cymru, a cyflwynwyd y fersiwn terfynol yn Adran 9 i'r Pwyllgor Pensiynau ar 27 Tachwedd 2023.

## 7.7 Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn adnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan yr holl staff a'r aelodau sy'n gyfrifol am weinyddiaeth gyllidol ac am wneud penderfyniadau ar ran y cynllun pensiwn yr holl wybodaeth a'r sgiliau i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd iddynt.

Felly, bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ceisio defnyddio unigolion gyda'r gallu a'r profiad a bydd y Gronfa yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff ac aelodau'r cyrff pensiynau sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn eu galluogi hwy i dderbyn a chynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau.

### 7.8 Uned Buddsoddi

Mae cydweithio wedi bod yn thema bwysig iawn unwaith eto y flwyddyn yma. Hoffwn ddiolch i'r staff o fewn yr Uned Buddsoddi am eu gwaith caled drwy'r flwyddyn a'r timau yn Hymans Robertson a holl gronfeydd Cymru am eu cydweithrediad parod drwy'r amser.

**Delyth Jones-Thomas**
**Rheolwr Buddsoddi**

## 8. Adroddiad Actiwaraidd

**Cyffredinol**
Mae angen i'r Gronfa fod yn ddigonol i gwrdd â'i hymrwymiadau, ac felly mae'r Gronfa yn derbyn prisiant pob tair blynedd i asesu'r sefyllfa. Cafodd y Gronfa ei phrisio ddiwethaf ar 31ain Mawrth 2022 (ar Fawrth 31ain 2019 cyn hynny), ac mae'r cyfraddau newydd yn weithredol o 1af Ebrill 2023.

**Dull a Rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd**
Y dulliau actiwaraidd a ddefnyddiwyd yn y prisiant oedd y "Dull Uned Amcanol" ar gyfer y Gronfa gyfan ac ar gyfer cyflogwyr sy'n parhau i dderbyn aelodau newydd i'r Gronfa a'r "Dull Cyrraedd Oed" ar gyfer cyflogwyr sydd ddim yn derbyn aelodau newydd i'r Gronfa. Roedd y prif ragdybiaethau fel a ganlyn:

| | % y flwyddyn |
|---|---|
| Cyfradd Disgownt | 4.1% |
| Codiadau Cyflog | 3.2% |
| Codiadau pensiwn ac ail-brisio CARE (CPI) | 2.7% |

**Canlyniadau Prisiant 2022**
Cwblhawyd y prisiad actiwarïaid teirblynyddol fel ar 31 Mawrth 2022 yn ystod 2022/23. Roedd sefyllfa ariannu yr holl Gronfa wedi gwella o 108% ar 31 Mawrth 2019 i 120% ar 31 Mawrth 2022 yn bennaf oherwydd perfformiad buddsoddiadau dros y cyfnod.

| Valuation Date | 31 March 2022 | 31 March 2019 |
|---|---|---|
| **Past Service Liabilities** | **(£m)** | **(£m)** |
| Employees | 1,042 | 855 |
| Deferred Pensioners | 392 | 321 |
| Pensioners | 874 | 750 |
| **Total Liabilities** | **2,308** | **1,925** |
| **Assets** | **2,776** | **2,081** |
| **Surplus/(Deficit)** | **468** | **156** |
| **Funding Level** | **120%** | **108%** |

Mae cynnydd yn y sefyllfa ariannu o £156m i £468m. Gweler y symudiadau yn y tabl isod:

| Change in the surplus/deficit position | Assets (£m) | Liabilities (£m) | Surplus / (Deficit) (£m) |
|---|---|---|---|
| **Last valuation at 31 March 2019** | **2,081** | **1,925** | **156** |
| **Cashflows** | | | |
| Employer contributions paid in | 179 | 0 | 179 |
| Employee contributions paid in | 56 | 0 | 56 |
| Benefits paid out | (192) | (192) | 0 |
| Net transfers into / out of the Fund* | | | |
| Other cashflows (e.g. Fund expenses) | (5) | 0 | (5) |
| **Expected changes in membership** | | | |
| Interest on benefits already accrued | 0 | 238 | (238) |
| Accrual of new benefits | 0 | 255 | (255) |
| Expected investment returns | 249 | 0 | 249 |
| **Membership experience vs expectations** | | | |
| Salary increases greater than expected | 0 | 17 | (17) |
| Benefit increases greater than expected | 0 | (26) | 26 |
| Early retirement strain (and contributions) | 0 | 4 | (4) |
| Ill health retirement strain | 0 | (3) | 3 |
| Early leavers less than expected | 0 | (2) | 2 |
| Pensions ceasing less than expected | 0 | 0 | 0 |
| Commutation less than expected | 0 | 0 | 0 |
| McCloud remedy | 0 | 7 | (7) |
| Other membership experience | 0 | 20 | (20) |
| **Changes in market conditions** | | | |
| Investment returns on the Fund's assets | 407 | 0 | 407 |
| Changes in future inflation expectations | 0 | 175 | (175) |
| **Changes in actuarial assumptions** | | | |
| Change in demographic assumptions (excl. longevity) | 0 | (30) | 30 |
| Change in longevity assumptions | 0 | 6 | (6) |
| Change in salary increase assumption | 0 | 7 | (7) |
| Change in discount rate | 0 | (92) | 92 |
| **This valuation at 31 March 2022** | **2,775** | **2,309** | **468** |

Cynhyrchodd yr actiwari adroddiad tebygol ar gyfer bob cyflogwr unigol. Cynhaliwyd fforwm ar gyfer yr holl gyflogwyr ym mis Hydref 2022, ble cyflwynodd yr Actiwari'r canlyniadau ac ymateb i gwestiynau. Roedd hyn yn sesiwn ddefnyddiol iawn a mynychodd nifer o'r cyflogwyr.

Cyhoeddwyd Adroddiad Prisiad Actiwaraidd 2022 terfynol Cronfa Bensiwn Gwynedd ym mis Mawrth 2023 ac mae ar gael ar safle we'r Gronfa:

https://www.cronfabensiwngwynedd.cymru/cy/Buddsoddiadau/230328-Gwynedd-Pension-Fund-Final-Valuation-Report.pdf

**Cyfradd Cyfraniadau Cyflogwyr**

Caiff yr Amcan Cyfraniadau ei gyflawni drwy osod cyfraniadau cyflogwyr sydd yn debyg i fod yn ddigonol i gwrdd a cost buddiannau newydd cronedig a drwy fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cyllido sydd yn berthynol i'r targed cyllido dros y cyfnod amser cytunedig. Yr amcan eilradd yw cynnal cyfraddau cyflogwyr cymharol sefydlog ble'n bosib.

Er mwyn i bob cyflogwr yn y Gronfa gwrdd â'r Amcan Cyfraniadau, cyfrifwyd cyfradd cynradd er mwyn cyllido cost buddiannau newydd yn y Gronfa. Yn ychwanegol, ble bo'r angen, cyfrifwyd ail gyfradd er mwyn targedu sefyllfa gronnol cyflawn o fewn cyfnod amser penodol ar gyfer cyflogwr unigol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r Prif Gyfradd ynghyd a'r Ail Gyfradd ar y prisiad yma.

| Prif Gyfradd (% cyflog) | Ail Gyfradd | | |
|---|---|---|---|
| 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2026 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
| 21.8% | -£8,746,000 | -£9,021,000 | -£9,303,000 |

Bydd y prisiad actiwaraidd teirblynyddol nesaf ar 31 Mawrth 2025.

## 9. Datganiad o'r Cyfrifon 2022/23

## ADRODDIAD NARATIF

**Rhagarweiniad**

Mae cyfrifon a nodiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2022/23 wedi'u cyflwyno yma.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys Cyfrif a Datganiad Asedau Net Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Mae cyfrifon y Gronfa Bensiwn a'r nodiadau ynghlwm yn crynhoi trafodion ariannol ac asedau net ar gyfer darparu pensiynau a buddiannau taladwy eraill ar gyfer cyn-weithwyr holl gyflogwyr y Gronfa, gan gynnwys Cynghorau Ynys Môn, Conwy a Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Cartrefi Conwy, Adra, amryw o gynghorau tref a chymuned, cyrff ar yr atodlen a chyrff a ganiateir.

Mae Datganiad o'r Cyfrifon a gwybodaeth pellach ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd sef www.cronfabensiwngwynedd.cymru.

Mae gan y Gronfa ddau ddatganiad pwysig sydd yn gosod allan strategaethau er mwyn sicrhau bod y pensiynau wedi cael eu cyllido nawr ac yn y dyfodol fel a ganlyn:

- Datganiad Strategaeth Gyllido – mae'r datganiad yn gosod allan strategaeth penodol i'r gronfa sydd yn adnabod sut bydd ymrwymiadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cwrdd orau wrth symud ymlaen. Caiff ei adolygu bob tair mlynedd yn dilyn y prisiad actiwaraidd ac mae'n cynnwys cyfraddau unigol i bob cyflogwr ar gyfer y cyfnod dilynol.
- Datganiad Strategaeth Buddsoddi – mae'r datganiad yn gosod y math o fuddsoddiadau a therfynau llydan ar gyfer bob math o buddsoddiad.

Mae'r ddau ddatganiad yma ar gael ar safle we y Gronfa o dan yr adran buddsoddiadau.

Mae'n ofynnol i gael Prisiad Actiwaraidd bob tair mlynedd er mwyn sefydlu'r lefel asedau ar gael er mwyn talu pensiynau nawr ac yn y dyfodol. Y prisiad diweddaraf yw fel ar 31 Mawrth 2022 a gwneir unrhyw newidiadau i gyfraniadau y cyflogwyr o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Delyth Jones-Thomas
Rheolwr Buddsoddi
01286 679128

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae yn rhan o bolisi'r Gronfa i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Gronfa. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Gronfa Bensiwn ar yr adeg briodol.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

### CYFRIFOLDEB Y GRONFA BENSIWN

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd fel awdurdod gweinyddu (yn effeithiol yr ymddiriedolwr) ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Gweinyddu hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

**26 Mehefin 2023**

**Y Cynghorydd Stephen Churchman**

**Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau**

### CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus; ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

### TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2023, ac incwm a gwariant y Gronfa Bensiwn am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

16 Mehefin

**2023**
**Dewi Morgan CPFA**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

# CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

# CYFRIF Y GRONFA

| 31 Mawrth 2022 £'000 | | Nodiadau | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| | **Delio gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r Gronfa** | | |
| 82,971 | Cyfraniadau | 7 | 89,762 |
| 4 | Incwm arall | 8 | 4 |
| 2,664 | Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill | 9 | 6,773 |
| **85,639** | | | **96,539** |
| (66,979) | Buddion | 10 | (72,108) |
| (3,683) | Taliadau i ac oherwydd ymadawyr | 11 | (3,121) |
| **(70,662)** | | | **(75,229)** |
| **14,977** | **(Ychwanegiadau)/ alldyniadau net yn sgil ymwneud ag aelodau** | | **21,310** |
| **(16,525)** | Costau Rheoli | 12 | **(12,729)** |
| **(1,548)** | **(Ychwanegiadau)/ alldyniadau net gan gynnwys costau rheoli'r gronfa** | | **8,581** |
| | **Enillion ar fuddsoddiadau** | | |
| 26,170 | Incwm buddsoddi | 13 | 30,940 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 223,010 | Elw a cholledion wrth waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad | 14 | (53,153) |
| **249,180** | **Enillion net ar fuddsoddiadau** | | **(22,213)** |
| **247,632** | **Cynnydd/ (lleihad) yn yr asedau net ar gael ar gyfer buddion yn ystod y flwyddyn** | | **(13,632)** |
| **2,528,129** | **Asedau net agoriadol y gronfa** | | **2,775,761** |
| **2,775,761** | **Asedau net terfynol y gronfa** | | **2,762,129** |

Mae'r nodiadau ar tudalennau 41 i 77 yn rhan o'r Datganiadau Cyllidol

# DATGANIAD ASEDAU NET

| **31 Mawrth 2022 £'000** | | **Nodiadau** | **31 Mawrth 2023 £'000** |
|---|---|---|---|
| 2,761,271 | Asedau buddsoddi | 14 | 2,742,933 |
| 303 | Adneuon arian parod | 14 | 963 |
| (285) | Ymrwymiadau buddsoddi | 14 | (960) |
| **2,761,289** | **Cyfanswm buddsoddiadau net** | | **2,742,936** |
| 17,828 | Asedau cyfredol | 20 | 22,454 |
| (3,356) | Ymrwymiadau cyfredol | 21 | (3,261) |
| **2,775,761** | **Asedau net y gronfa ar gael i ariannu buddion ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | **2,762,129** |

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol yn cynnwys ymrwymiadau'r Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymiadau'r Gronfa ym mhrisiadau cyfnodol yr actiwari o'r Gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2022) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiad hwn, fel bydd y Gronfa yn gallu cwrdd ag ymrwymiadau'r dyfodol. Dangosir gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawyd yn Nodyn 19.

# NODIADAU AR GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

## NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ac fe'i gweinyddir gan Gyngor Gwynedd.

### a) Cyffredinol

Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 sy'n llywodraethu'r Gronfa. Gweinyddir y Gronfa yn unol â'r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Gwelliant) 2014 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016.

Mae'n gynllun pensiwn budd-dal diffiniedig cyfrannol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd i roi pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensiynadwy Cyngor Gwynedd, dau awdurdod lleol arall a chyrff ar yr atodlen, cyrff a benderfynir a chyrff eraill a ganiateir sydd o fewn cyn ardal Cyngor Sir Gwynedd. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr y gwasanaeth tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn rhan o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill. Mae'r Gronfa'n cael ei

goruchwylio gan y Pwyllgor Pensiynau, sef un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd.

**b) Aelodaeth**

Mae bod yn aelod o'r CPLlL yn rhywbeth gwirfoddol ac mae gweithwyr yn rhydd i ddewis p'un a ydynt am ymuno â'r cynllun, parhau'n aelod o'r cynllun neu wneud eu trefniadau personol y tu allan i'r cynllun. Ymysg y sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd mae:

- Cyrff ar yr atodlen, sy'n awdurdodau lleol a chyrff tebyg ble mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Cyrff a benderfynir, sy'n gyngor dinas, tref neu gymuned. Mae ganddynt yr hawl i benderfynu os caiff eu gweithwyr ymuno â'r CPLlL ac i fabwysiadu'r penderfyniad yn unol â hynny.
- Cyrff a ganiateir, sy'n sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y Gronfa dan gytundeb mynediad rhwng y Gronfa a'r sefydliad perthnasol. Mae'r cyrff a ganiateir yn cynnwys cyrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol wedi i'r swyddogaeth gael ei allanoli i'r sector preifat.

## NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Mae'r cyrff canlynol yn gyflogwyr gweithredol yn y Gronfa Bensiwn:

| **Cyrff ar yr Atodlen** | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Ysgol Bryn Elian |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Ysgol Emrys ap Iwan |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | Ysgol Pen y Bryn |
| Grŵp Llandrillo – Menai | Ysgol Uwchradd Eirias |
| GwE | Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | |

| Cyrff a Benderfynir | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Llanllyfni | Cyngor Tref Ffestiniog |
| Cyngor Dinas Bangor | Cyngor Tref Llandudno |
| Cyngor Tref Abergele | Cyngor Tref Llangefni |
| Cyngor Tref Bae Colwyn | Cyngor Tref Porthaethwy |
| Cyngor Tref Biwmares | Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel |
| Cyngor Tref Caergybi | Cyngor Tref Tywyn |
| Cyngor Tref Caernarfon | Cyngor Tref Conwy |
| Cyngor Tref Llanfairfechan | Cyngor Tref Llanrwst (ymuno 26/09/2022) |
| **Cyrff a Ganiateir** | |
| Addysg Oedolion Cymru | Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru |
| Adferiad Recovery | Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy |
| Cydbwyllgor Claddu Caergybi | Gyrfaoedd Cymru Gogledd Orllewin |
| Cwmni'r Frân Wen | Mantell Gwynedd |
| Menter Môn | Medrwn Môn |
| Ynysmaengwyn | |
| **Cyrff Cymunedol a Ganiateir** | |
| Cartrefi Conwy | Adra |
| Byw'n Iach | |
| **Cyrff Trosglwyddai a Ganiateir** | |
| ABM Catering | A E & A T Lewis |
| Kingdom Services Group | Chartwells |

## NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Nodir manylion aelodaeth isod:

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---:|---:|
| Nifer y cyflogwyr | 46 | 47 |
| **Nifer y gweithwyr yn y cynllun** | | |
| Cyngor Sir | 14,691 | 15,246 |
| Cyflogwyr eraill | 3,966 | 4,058 |
| **Cyfanswm** | **18,657** | **19,304** |
| **Nifer y pensiynwyr** | | |
| Cyngor Sir | 9,281 | 9,647 |
| Cyflogwyr eraill | 2,017 | 2,133 |
| **Cyfanswm** | **11,298** | **11,780** |
| **Pensiynwyr gohiriedig** | | |
| Cyngor Sir | 10,512 | 11,019 |
| Cyflogwyr eraill | 2,028 | 2,141 |
| **Cyfanswm** | **12,540** | **13,160** |
| **Buddion heb eu hawlio** | | |
| Cyngor Sir | 2,142 | 2,595 |
| Cyflogwyr eraill | 283 | 378 |
| **Cyfanswm** | **2,425** | **2,973** |
| **Ymadawyr heb benderfynu** | | |
| Cyngor Sir | 5,455 | 4,480 |
| Cyflogwyr eraill | 737 | 513 |
| **Cyfanswm** | **6,192** | **4,993** |
| **Cyfanswm yr aelodau yn y cynllun pensiwn** | **51,112** | **52,210** |

**c) Cyllid**

Mae'r buddion yn cael eu cyllido gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Mae aelodau gweithredol y Gronfa'n talu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ac roeddent yn amrywio o 2.75% i 12.5% o dâl pensiynadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Gosodir cyfraniadau cyflogwyr yn seiliedig ar brisiadau actiwaraidd a gynhelir pob tair blynedd. Roedd y prisiad perthnasol ar gyfer y flwyddyn yma ar 31 Mawrth 2019. Mae cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn amrywio o 7.7% i 36.1% o dâl pensiynadwy.

## NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

**d) Buddion**

Mae buddion pensiwn dan y CPLIL cyn 1 Ebrill 2014, yn seiliedig ar y tâl pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy; gweler y crynodeb isod:

| | Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008 | Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2008 |
|---|---|---|
| **Pensiwn** | Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol. | Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol. |
| **Lwmp swm** | Lwmp swm awtomatig o 3 x cyflog.<br>Yn ogystal, gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir. | Dim lwmp swm awtomatig.<br>Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir. |

O 1 Ebrill 2014, daeth y Gronfa yn gynllun cyfartaledd cyflog gyrfa. Gweler y crynodeb isod:

| | Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 |
|---|---|
| **Pensiwn** | Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/49 x cyfartaledd cyflog gyrfa wedi'i adbrisio (CARE) |
| **Lwmp Swm** | Dim lwmp swm awtomatig.<br>Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir. |

Caiff pensiwn cronedig ei gynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Darperir amrediad o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau anabledd a buddion marwolaeth. Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at lawlyfr cynllun Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd ar gael gan Adain Pensiynau Cyngor Gwynedd.

## NODYN 2 – SAIL PARATOI

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2023. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Côd Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae paragraff 3.3.1.2 o'r Cod yn gofyn i unrhyw safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadau eto gael ei ddatgan. Nid oes safonau cyfrifyddu o'r fath wedi'u nodi ar gyfer 2022/23.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, na gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol. Gweler gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo, ble bo'u gwerth wedi'i gyfrifo'n seiliedig ar Safon Cyfrifo Genedlaethol (SCC) 19, yn Nodyn 19 y cyfrifon hyn.

## NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL

### Cyfrif y Gronfa – cydnabyddiaeth refeniw

**a) Incwm o Gyfraniadau**

Cyfrifir cyfraniadau arferol ar sail groniadol fel a ganlyn:

- Mae cyfraddau cyfraniadau gweithwyr yn cael eu gosod yn unol â rheoliadau CPLIL, gan ddefnyddio cyfraddau canrannol cyffredin ar gyfer pob cynllun sy'n codi yn ôl tâl pensiynadwy.
- Mae cyfraniadau cyflogwyr yn cael eu gosod ar y gyfradd ganrannol a argymhellir gan actiwari'r gronfa yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo.

Mae cyfraniadau cyflogwyr i ddiffygion cronfeydd yn cael eu cyfrif ar y dyddiadau y maent yn daladwy dan atodlen cyfraniadau a gosodwyd gan actwari y Gronfa, neu wrth eu derbyn os yw hynny'n digwydd cyn y dyddiad maent yn ddyledus.

Cyfrifir am gyfraniadau ychwanegol cyflogwyr a chyfraniadau straen pensiwn yn y cyfnod ble mae'r ymrwymiadau dan sylw yn codi. Ystyrir bod unrhyw swm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn, ond nad ydyw wedi'i dalu, yn ased ariannol cyfredol. Ystyrir bod unrhyw swm nad ydyw'n ddyledus nes flynyddoedd yn y dyfodol yn ased ariannol tymor hir.

**b) Trosglwyddiadau o gynlluniau eraill ac i gynlluniau eraill**

Mae trosglwyddiadau i mewn ac allan yn ymwneud ag aelodau sydd wedi ymuno neu adael y gronfa.

Mae trosglwyddiadau unigol i mewn/ allan yn cael eu cyfrifo pan gânt eu derbyn neu eu talu. Cyfrifir am drosglwyddiadau i mewn gan aelodau sy'n dymuno defnyddio'r enillion o'u cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (gweler isod) i brynu buddion ar sail derbynion ac maent wedi'u cynnwys dan Drosglwyddiadau i Mewn (gweler Nodyn 9).

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grŵp) yn seiliedig ar groniadau yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

**c) Incwm buddsoddi**

i) Incwm llog

Cydnabyddir incwm llog yng nghyfrif y Gronfa wrth iddo gronni, gan ddefnyddio cyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol ar dyddiad caffael neu fan cychwyn.

ii) Incwm difidend

Cydnabyddir incwm difidend ar y dyddiad pan fo'r cyfranddaliadau'n cael eu dyfynnu fel rhai cyn- ddifidend. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iii) Dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno yn cynnwys eiddo
Cydnabyddir dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno ar y dyddiad pan maent yn cael eu cyflwyno. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iv) Newid yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad
Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farnach fel incwm ac maent yn yn cynnwys yr holl elw/colledion a wireddwyd ac na wireddwyd yn ystod y flwyddyn.

## NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

**Cyfrif y Gronfa – eitemau sy'n creu costau**

**d) Buddion sy'n daladwy**

Mae'r buddion pensiwn a lwmp swm sy'n daladwy'n cynnwys yr holl symiau a wyddys eu bod yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyfeirir at unrhyw swm sy'n ddyledus ond nad ydyw wedi'i dalu yn y datganiad asedau net fel ymrwymiadau cyfredol, ar yr amod bod y taliad wedi'i gymeradwyo.

**e) Costau rheoli**

Mae'r gronfa'n datgelu ei chost reoli yn unol â chanllawiau CIPFA, *Accounting for Local Government Pension Scheme Management Expenses (2016),* fel y dangosir isod. Codir pob eitem o wariant ar y gronfa ar sail gronnol fel a ganlyn:

**Costau gweinyddol**

Mae holl gostau staff y tîm gweinyddu pensiynau'n cael eu codi'n uniongyrchol ar y Gronfa. Mae ad-daliadau'r Cyngor am gostau rheoli, llety a gorbenion eraill hefyd yn cael eu cyfrif fel costau gweinyddol y gronfa.

**Costau arolygu a llywodraethu**

Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â goruchwylio a llywodraethu yn cael eu nodi ar wahân, eu dosrannu i'r gweithgaredd hwn a'u codi fel costau i'r gronfa.

**Costau rheoli buddsoddiadau**

Codir ffioedd buddsoddi yn uniongyrchol ar y gronfa fel rhan o gostau rheoli ac ni chânt eu cynnwys yn yr enillion a adroddwyd ar fuddsoddiadau, na'u netio oddi wrthynt. Pan fydd ffioedd yn cael eu netio oddi ar enillion gan reolwyr buddsoddi, mae'r costau hyn yn cael eu grosio i fyny i gynyddu'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Mae ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r gwarcheidwad allanol wedi'u nodi yn y mandadau perthnasol sy'n llywodraethu eu penodiadau. Yn fras, mae'r rhain yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau sydd o dan eu rheolaeth ac felly'n cynyddu neu'n lleihau wrth i werth y buddsoddiadau hyn newid.

Mae costau trafodion yn ymwneud a prynu a gwerthu asedau'r cronfeydd ac yn cael eu egluro yn y nodiadau i'r cyfrifon.

**f) Treth**

Mae'r Gronfa'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig dan adran 1(1) Atodlen 36 Deddf Cyllid 2004 ac o ganlyniad mae'r llog a dderbynnir yn eithriedig rhag treth incwm y DU a rhag treth ar enillion cyfalaf ar yr enillion a geir o'r buddsoddiadau a werthir. Mae treth atal yn daladwy ar incwm a geir o fuddsoddiadau tramor yn y wlad ble maent yn tarddu, oni bai bod eithriad wedi'i ganiatáu. Cyfrifir am dreth anadferadwy fel cost i'r Gronfa fel mae'n codi.

## NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

**Datganiad asedau net**

**g) Asedau ariannol**

Mae'r holl asedau buddsoddi wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn seiliedig ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y Gronfa gytundeb ei fod yn cael yr ased. Cydnabyddir unrhyw enillion neu golledion ar werthiannau buddsoddi sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth teg yr ased yng nghyfrif y gronfa.

Mae gwerth y buddsoddiadau fel sy'n ymddangos yn y datganiad asedau net wedi'u pennu ar werth teg yn unol â gofyniad y Cod ac SAARh 13 (gweler nodyn 14). Ar gyfer ddibenion datgelu lefelau hierarchaeth gwerth teg, mae'r gronfa wedi mabwysiadu'r canllawiau dosbarthu a argymhellir yn y Canllawiau Ymarferol ar Ddatgeliadau Buddsoddi (PRAG/ Investment Association, 2016).

**h) Trafodion arian tramor**

Mae difidendau, llog a phryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau mewn arian tramor wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar y cyfraddau cyfredol ar y farchnad ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid cyfredol ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn i gyfrifo gwerth balansau arian parod a ddelir

mewn cyfrifon banc arian tramor, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad a gwerthiannau sy'n aros ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

**i) Arian a chywerthoedd arian**

Mae arian parod yn cynnwys arian parod sydd ar gael ac adneuon ar alw ac mae'n cynnwys symiau a ddelir gan reolwyr allanol y gronfa. Mae'r holl falanasau arian parod yn fuddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn y gellir eu trosglwyddo'n arian parod yn rhwydd, ac nad oes llawer o risg y bydd eu gwerth yn newid.

**j) Ymrwymiadau ariannol**

Cydnabyddir ymrwymiad ariannol yn y datganiad ased net ar y dyddiad y daw'r gronfa yn gyfreithiol gyfrifol am yr ymrwymiad hwnnw. Mae'r gronfa'n cydnabod ymrwymiadau ariannol sy'n ymwneud â masnachu buddsoddiadau ar werth teg ac mae unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth teg yr ymrwymiad rhwng dyddiad y contract, dyddiad diwedd y flwyddyn a'r dyddiad setliad yn y pen draw yn cael eu cydnabod yng nghyfrif y gronfa fel rhan o'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Mae ymrwymiadau ariannol eraill sy'n cael eu dosbarthu fel cost wedi'i amorteiddio yn cael eu cario yn y datganiad asedau net ar werth y brifswm sy'n ddyledus ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae unrhyw log sy'n ddyledus ond heb ei dalu eto yn cael ei gyfrif ar sail croniadau ac mae'n cael ei gynnwys mewn costau gweinyddol.

**k) Gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo**

Asesir gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo teirblynyddol gan actiwari'r Gronfa yn unol â gofynion SCCI9 a'r safonau actiwaraidd perthnasol.

Fel y caniateir o dan y Cod, mae'r Gronfa wedi dewis datgelu gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gynnwys hysbysiad yn y datganiad asedau net (Nodyn 19).

## NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

**l) Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn darparu cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVC) ar gyfer ei aelodau ac mae asedau'r cynllun hwnnw'n cael eu buddsoddi ar wahân i asedau'r Gronfa Bensiwn. Mae tair cronfa AVC. Delir y cronfeydd hyn gyda Clerical Medical, Utmost Life a Standard Life. Mae'r darparwyr AVC yn diogelu buddion ychwanegol ar sail prynu arian ar gyfer yr aelodau hynny sy'n dewis talu cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol. Mae pob aelod sy'n cymryd rhan yn y trefniadau hyn yn derbyn datganiad blynyddol hyd at 31 Mawrth yn cadarnhau'r symiau a ddelir yn eu cyfrif a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Nid yw AVCs yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon, yn unol ag Adran 4(1)(b) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ond fe'u datgelir er gwybodaeth yn unig yn Nodyn 22.

**m) Asedau dibynnol ac ymrwymiadau dibynnol**

Mae ased dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd gan arwain at ased posibl y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau neu fel arall gan ddigwyddiadau yn y dyfodol. Mae ymrwymiad dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad cyn diwedd y flwyddyn wedi creu rhwymedigaeth ariannol bosibl y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau neu fel arall gan ddigwyddiadau yn y dyfodol. Gall ymrwymiadau dibynnol godi hefyd pan nad yw'n bosib ar y Fantolen fesur gwerth y rhwymedigaeth ariannol yn ddibynadwy.

Ni chydnabyddir asedau ac ymrwymiadau dibynnol yn y datganiad asedau net ond fe'u datgelir trwy naratif yn y nodiadau.

## NODYN 4 – DYFARNIADAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU POLISÏAU CYFRIFO

**Buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd heb eu dyfynnu**

Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn seiliedig yn bennaf ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych tua'r dyfodol sy'n cynnwys sawl ffactor. Mae rheolwyr buddsoddi'n pennu gwerth buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu ac isadeiledd gan ddefnyddio canllawiau sydd wedi'u gosod gan safon cyfrifo SAARh. Roedd gwerth y gwarantau preifat heb eu dyfynnu ar 31 Mawrth 2023 yn £234.2 miliwn (£226.1 miliwn ar 31 Mawrth 2022).

**Ymrwymiadau'r gronfa bensiwn**

Cyfrifir ymrwymiadau'r gronfa bensiwn pob tair blynedd gan yr actiwari sydd wedi'i benodi, a darperir diweddariadau blynyddol yn ystod y blynyddoedd rhwng pob prisiad. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn unol â chanllawiau cymeradwy ac yn unol ag SCC19. Mae'r rhagdybiaethau sy'n tanategu'r prisiadau yn cael eu cytuno gyda'r actiwari a cheir crynodeb ohonynt yn Nodyn 18. Mae'r amcangyfrif hwn yn destun amrywiaethau arwyddocaol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol.

## NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY'N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau yr adroddir arnynt. Amcangyfrifir a rhagdybiaethir drwy roi ystyriaeth i brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a disgwyliadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r gwir ganlyniadau fod yn bur wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau yn y datganiad asedau net ble mae risg arwyddocaol o amrywiaethau materol yn y flwyddyn ariannol i ddod, fel a ganlyn:

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os yw'r gwir ganlyniadau'n wahanol i'r rhagdybiaethau |
|---|---|---|
| Gwerth cyfredol actiwaraidd y buddion ymddeol a sydd wedi'u haddo (Nodyn 19) | Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, codiadau cyflog, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaeth ac enillion ar asedau'r gronfa. Cyflogir Hymans Robertson i roi cyngor arbenigol i'r gronfa am y rhagdybiaethau i'w defnyddio. | Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol ar ymrwymiadau pensiynau net. Fodd bynnag, mae'r rhagdybiaethau'n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth. |
| Ecwiti preifat ac isadeiledd | Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn cael ei bennu'n unol âg arweiniad y *British Venture Capital Association* (Rhagfyr 2018). Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhestru'n gyhoeddus ac fel y cyfryw, mae elfen o amcangyfrif yn gysylltiedig â'r prisiad. | Mae cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn y datganiadau ariannol yn £234.2 miliwn. Mae risg bod y buddsoddiad wedi'i nodi'n rhy isel neu'n rhy uchel yn y cyfrifon. |

## NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD ADRODD

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol ar ôl diwedd y flwyddyn i'w adrodd.

## NODYN 7 – CYFRANIADAU DERBYNIADWY

### Yn ôl categori

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| 19,703 | Cyfraniadau gweithwyr | 21,519 |
| | Cyfraniadau cyflogwyr : | |
| 63,233 | • Cyfraniadau arferol | 68,243 |
| 35 | • Cyfraniadau adfer diffyg | 0 |
| **63,268** | **Cyfanswm cyfraniadau cyflogwyr** | **68,243** |
| **82,971** | **Cyfanswm cyfraniadau derbyniadwy** | **89,762** |

### Yn ôl math o gyflogwr

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| 27,650 | Cyngor Gwynedd | 29,489 |
| 50,205 | Cyrff eraill ar yr atodlen | 54,733 |
| 1,716 | Cyrff a ganiateir | 1,901 |
| 2,892 | Cyrff cymunedol a ganiateir | 3,087 |
| 161 | Cyrff trosglwyddo a ganiateir | 154 |
| 313 | Cyrff a benderfynir | 398 |
| 34 | Cronfa gaeedig* | 0 |
| **82,971** | | **82,762** |

*Cronfa gaeedig - Dyma'r cyfraniadau a dderbyniwyd gan Ganolfan Cynghori Ynys Môn a Chanolfan Cynghori Conwy yn ystod y flwyddyn a oedd yn arfer bod yn gyrff a ganiateir ond bellach sydd yn gronfeydd gaeedig.

## NODYN 8 – INCWM ARALL

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| 2 | Llog ar gyfraniadau gohiriedig | 2 |
| 2 | Incwm ar gyfrifo ysgariad | 2 |
| **4** | | **4** |

## NODYN 9 – TROSGLWYDDIADAU I MEWN O GRONFEYDD PENSIWN ERAILL

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| 2,664 | Trosglwyddiadau unigol | 6,773 |
| **2,664** | | **6,773** |

## NODYN 10 – BUDDION A DALWYD

### Yn ôl categori

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| 52,087 | Pensiynau | 56,010 |
| 13,123 | Cymudiad a buddion ymddeol lwmp swm | 13,789 |
| 1,769 | Buddion marwolaeth – lwmp swm | 2,309 |
| **66,979** | | **72,108** |

### Yn ôl math o gyflogwr

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| 20,183 | Cyngor Gwynedd | 21,934 |
| 31,868 | Cyrff eraill ar yr atodlen | 34,788 |
| 1,651 | Cyrff a ganiateir | 1,384 |
| 1,217 | Cyrff cymunedol a ganiateir | 1,365 |
| 104 | Cyrff trosglwyddo a ganiateir | 59 |
| 109 | Cyrff a benderfynir | 273 |
| 11,847 | Cronfa gaeedig | 12,305 |
| **66,979** | | **72,108** |

## NODYN 11 – TALIADAU I RAI SY'N YMADAEL

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| 138 | Ad-daliadau i aelodau sy'n ymadael â'r gwasanaeth | 172 |
| 3,545 | Trosglwyddiadau unigol | 2,949 |
| **3,683** | | **3,121** |

## NODYN 12 – COSTAU RHEOLI

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| 14,788 | Costau rheoli buddsoddiadau | 10,593 |
| 1,373 | Costau gweinyddol | 1,588 |
| 364 | Costau arolygaeth a llywodraethu | 548 |

| | |
|---|---|
| 16,525 | 12,729 |

## NODYN 12a- COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

| 2022/23 | Ffioedd rheolwyr | Costau trafodion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cronfeydd cyfun** | | | |
| Incwm sefydlog | 332 | 0 | **332** |
| Ecwiti | 2,001 | 551 | **2,552** |
| | | | |
| **Buddsoddiadau eraill** | | | |
| Buddsoddiadau eiddo cyfun | 1,974 | 0 | **1,974** |
| Ecwiti preifat | 2,062 | 0 | **2,062** |
| Isadeiledd | 3,401 | 0 | **3,401** |
| | 9,770 | 551 | **10,321** |
| **Ffioedd gwarchodaeth** | | | **272** |
| **Cyfanswm** | | | **10,593** |

| 2021/22 | Ffioedd rheolwyr | Costau trafodion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cronfeydd cyfun** | | | |
| Incwm sefydlog | 297 | 0 | **297** |
| Ecwiti | 2,420 | 693 | **3,113** |
| | | | |
| **Buddsoddiadau eraill** | | | |
| Buddsoddiadau eiddo cyfun | 1,744 | 0 | **1,744** |
| Ecwiti preifat | 6,445 | 0 | **6,445** |
| Isadeiledd | 2,937 | 0 | **2,937** |
| | 13,843 | 693 | **14,536** |
| **Ffioedd gwarchodaeth** | | | **252** |
| **Cyfanswm** | | | **14,788** |

Mae'r ffioedd rheoli uchod yn cynnwys yr holl ffioedd rheoli buddsoddiad a grëwyd yn uniongyrchol gan y Gronfa, yn cynnwys y ffioedd a godwyd ar gronfeydd buddsoddi wedi'u cyfuno. Ni thalwyd unrhyw ffioedd sy'n gysylltiedig â pherfformiad i'r rheolwyr buddsoddi. Yn ogystal â'r costau hyn, rhaid talu costau anuniongyrchol a ddaw yn sgil y gwasgariad bid-cynnig ar werthu a phrynu

buddsoddiadau. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yng nghostau prynu buddsoddiadau ac yn yr enillion a geir wrth werthu buddsoddiadau yn Nodyn 14a.

Mae cronfeydd PPC Global Opportunities, Multi Asset Credit, Absolute Return Bond a Emerging Markets yn fuddsoddiadau a benodir drwy ddull rheolwr o reolwyr sydd â'u ffioedd sylfaenol eu hunain. Mae'r adenillion ar gyfer y mandad hwn yn net o'r ffioedd rheolwr sylfaenol a adlewyrchir yn Nodyn 14a o fewn y 'Newid mewn Gwerth Marchnad'. Er mwyn tryloywder, y ffioedd yn 2022/23 oedd £2,366,210 (£1,881,000 yn 2021/22).

## NODYN 12b- COSTAU GWEINYDDOL

| **2021/22** | | **2022/23** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 652 | Costau staff uniongyrchol | 686 |
| 344 | Costau uniongyrchol eraill | 449 |
| 377 | Gwasanaethau cefnogol, yn cynnwys TG | 453 |
| **1,373** | | **1,588** |

Mae'r costau gweinyddol yn cynnwys y symiau a godir ar y Gronfa Bensiwn gan Gyngor Gwynedd am gostau staff, gwasanaethau cefnogol a llety.

## NODYN 12c- COSTAU AROLYGU A LLYWODRAETHU

| **2021/22** | | **2022/23** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 117 | Ffioedd actiwari | 234 |
| 49 | Ffioedd ymgynghorwyr buddsoddi | 72 |
| 9 | Gwasanaeth monitro perfformiad | 11 |
| 36 | Ffioedd archwilwyr allanol | 40 |
| 18 | Pwyllgor Pensiynau a Bwrdd Pensiwn Lleol | 33 |
| 135 | Partneriaeth Pensiwn Cymru | 158 |
| **364** | | **548** |

## NODYN 12ch- PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Mae'r Costau Rheoli Buddsoddiadau yn Nodyn 12a yn cynnwys ffioedd sy'n daladwy i Link Fund Solutions (gweithredwr y PPC) ac maent yn cynnwys ffioedd rheolwyr buddsoddi (sydd hefyd yn cynnwys ffi'r gweithredwr a chostau cysylltiedig eraill), costau trafodion a ffioedd gwarchodaeth. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar gyfran ganrannol pob cronfa o asedau cyfun PPC ac fe'u didynnir o'r NAV.

Y costau goruchwylio a llywodraethu yn Nodyn 12c yw costau rhedeg blynyddol y pŵl sy'n cynnwys costau'r awdurdod lletya a chostau ymgynghorwyr allanol eraill. Caiff y costau hyn eu hariannu'n gyfartal gan bob un o'r wyth Cronfa Bensiwn awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r ffioedd canlynol wedi'u cynnwys yn Nodyn 12 mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiwn Cymru a ceir rhagor o wybodaeth am y PPC ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol.

| | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Costau rheoli buddsoddiadau** | | |
| Ffioedd rheolwyr | 2,286 | 2,268 |
| Costau trafodion | 693 | 551 |
| Costau gwarchodaeth | 227 | 247 |
| | **3,206** | **3,066** |
| **Costau arolygu a llywodraethu** | | |
| Costau rhedeg | 135 | 158 |
| **Cyfanswm** | **3,341** | **3,224** |

## NODYN 13 – INCWM BUDDSODDI

| 2021/22 | | 2022/23 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 4,430 | Incwm sefydlog | 6,581 |
| 12,141 | Ecwiti | 13,109 |
| 2,090 | Ecwiti preifat | 3,182 |
| 280 | Isadeiledd | 0 |
| 7,213 | Buddsoddiadau eiddo cyfun | 7,817 |
| 16 | Llog ar adneuon arian parod | 251 |
| **26,170** | **Cyfanswm cyn trethi** | **30,940** |

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddau gyfrif banc sy'n cael eu dal fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa yn ystod y flwyddyn.

Mae gan y Gronfa Bensiwn gyfrif Ewro i ymdrin â derbyniadau a thaliadau mewn Ewros ac i leihau'r trafodion cyfnewid a chostau perthnasol.

## NODYN 14 – BUDDSODDIADAU

| 31 Mawrth 2022 | | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Asedau buddsoddi** | |
| | **Cronfeydd cyfun** | |
| 551,777 | Incwm sefydlog | 586,703 |
| 1,730,845 | Ecwiti | 1,700,745 |
| | **Buddsoddiadau eraill** | |
| 252,521 | Buddsoddiadau eiddo cyfun | 221,297 |
| 158,711 | Ecwiti preifat | 166,622 |
| 67,417 | Isadeiladedd | 67,566 |
| **2,761,271** | | **2,742,933** |
| 303 | Adneuon arian parod | 963 |
| **2,761,574** | **Cyfanswm asedau buddsoddi** | **2,743,896** |
| | **Ymrwymiadau buddsoddi** | |
| (285) | Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau | (960) |
| **(285)** | **Cyfanswm ymrwymiadau buddsoddi** | **(960)** |
| **2,761,289** | **Asedau buddsoddi net** | **2,742,936** |

## NODYN 14a – CYSONI SYMUDIADAU MEWN BUDDSODDIADAU A DEILLIADAU

| **2021/22** | **Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2021** | **Prynianna u yn ystod y flwyddyn** | **Gwerthia-nnau yn ystod y flwyddyn** | **Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn** | **Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2022** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Buddsoddiadau cyfun | 2,282,622 | 59,691 | (25,000) | (29,865) | 2,287,448 |
| Buddsoddiadau eiddo cyfun | 252,521 | 18,715 | 0 | (49,939) | 221,297 |
| Ecwiti preifat / Isadeiledd | 226,128 | 25,540 | (35,240) | 17,760 | 234,188 |
| | 2,761,271 | 103,946 | (60,240) | (62,044) | 2,742,933 |
| Adneuon arian parod | 303 | | | | 963 |
| Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau | (285) | | | | (960) |
| Ffioedd o fewn cerbydau wedi'u cyfuno | | | | 8,891 | |
| **Asedau buddsoddi net** | **2,761,289** | | | **(53,153)** | **2,742,936** |

| 2021/22 | Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2021 | Prynianna u yn ystod y flwyddyn | Gwerthia-nnau yn ystod y flwyddyn | Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn | Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Buddsoddiadau cyfun | 2,108,945 | 151,612 | (116,647) | 138,712 | 2,282,622 |
| Buddsoddiadau eiddo cyfun | 194,581 | 19,038 | 0 | 38,902 | 252,521 |
| Ecwiti preifat / Isadeiledd | 211,643 | 38,945 | (56,756) | 32,296 | 226,128 |
| | 2,515,169 | 209,595 | (173,403) | 209,910 | 2,761,271 |
| Adneuon arian parod | 146 | | | | 303 |
| Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau | (126) | | | | (285) |
| Ffioedd o fewn cerbydau wedi'u cyfuno | | | | 13,100 | |
| **Asedau buddsoddi net** | **2,515,189** | | | **223,010** | **2,761,289** |

## NODYN 14b – DADANSODDIAD O FUDDSODDIADAU

### Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi

| Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2022 £'000 | % | | Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2023 £'000 | % |
|---|---|---|---|---|
| 1,496,425 | 54.2 | Partneriaeth Pensiwn Cymru | 1,501,286 | 54.8 |
| 851,675 | 30.9 | BlackRock | 842,157 | 30.7 |
| 226,128 | 8.2 | Grŵp Partners | 234,188 | 8.5 |
| 75,739 | 2.7 | UBS | 74,865 | 2.7 |
| 72,139 | 2.6 | Lothbury | 57,297 | 2.1 |
| 39,450 | 1.4 | Threadneedle | 34,103 | 1.2 |
| 18 | 0.0 | Veritas | 0 | 0.0 |
| **2,761,574** | **100.0** | | **2,743,896** | **100.0** |

Mae'r buddsoddiadau a ganlyn yn cynrychioli mwy na 5% o asedau net y Gronfa:

| Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2022 £'000 | % | Buddsoddiadau | Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2023 £'000 | % |
|---|---|---|---|---|
| 454,098 | 16.4 | Global Opportunities Fund PPC | 430,059 | 15.6 |
| 430,749 | 15.5 | Global Growth Fund PPC | 426,908 | 15.5 |
| 353,857 | 12.7 | Absolute Return Bond PPC | 386,103 | 14.0 |
| 346,072 | 12.5 | Black Rock ACS World Low Carbon Fund | 331,802 | 12.0 |
| 239,314 | 8.6 | Black Rock Aquila Life UK Equity Index Fund | 246,433 | 8.9 |
| 200,811 | 7.2 | Black Rock Aquila Life Gl. Dev Fundamental Fund | 207,927 | 7.5 |
| 197,920 | 7.1 | Multi Asset Credit Fund PCC | 200,600 | 7.3 |

## NODYN 14c – BENTHYCA STOC

Mae strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn nodi y caniateir benthyca stoc yn amodol ar ganiatâd penodol. Yr incwm a enillodd y Gronfa trwy fenthyca stoc oedd £109,916 (£126,800 yn 2021/22). Ar hyn o bryd, mae gan y Gronfa gyfanswm ecwiti a ddyfynnwyd o £40.6m ar fenthyg. Mae'r ecwiti hyn yn parhau i gael ei gydnabod yn natganiadau ariannol y Gronfa. Nid oes unrhyw rwymedigaethau'n gysylltiedig â'r asedau a fenthycwyd.

## NODYN 15 – GWERTH TEG - SAIL GWERTHUSO

Mae'r holl asedau wedi'u prisio gan ddefnyddio technegnau gwerthoedd teg yn seiliedig ar nodweddion pob offeryn, gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar y farchnad lle bo hynny'n bosibl. Ni fu unrhyw newid yn y technegau prisio a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae asedau ac ymrwymiadau wedi'u dosbarthu i dair lefel, yn unol ag ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg.

**Lefel 1 -** ble mae gwerthoedd teg wedi eu pennu drwy ddefnyddio prisiau wedi'u dyfynnu a heb eu haddasu ar farchnadoedd gweithredol am asedau neu rwymedigaethau cyfwerth, sy'n cynnwys ecwiti wedi'u dyfynnu, bondiau wedi'u dyfynnu ac ymddiriedolaethau uned.

**Lefel 2 -** ble nad oes prisiau'r farchnad wedi'u dyfynnu ar gael, neu pan ddefnyddir technegau prisio i bennu gwerth teg yn seiliedig ar ddata gweladwy.

**Lefel 3 -** ble nad yw o leiaf un mewnbwn a allai gael effaith sylweddol ar brisiad yr offeryn yn seiliedig ar ddata gweladwy'r farchnad.

## NODYN 15 – GWERTH TEG - SAIL GWERTHUSO (parhad)

| Disgrifiad o'r Ased | Hierarchaeth brisio | Sail y prisiad | Mewnbynnau arsylladwy ac na ellir eu harsylwi | Materion o sensitifrwydd allweddol sy'n effeithio ar y Prisiadau a ddarperir |
|---|---|---|---|---|
| Arian a chyfwerthoedd arian | Lefel 1 | Bernir bod gwerth i'w gario yn werth teg oherwydd natur tymor byr yr offerynnau ariannol hyn | Diangen | Diangen |
| Buddsoddiadau cyfun- cronfeydd ecwiti | Lefel 2 | Cyfrifir y 'NAV' (net asset value) ar sail gwerth yr asedau sylfaenol ar y farchnad | Porthiant prisiau wedi'i werthuso | Diangen |
| Buddsoddiadau cyfun- incwm sefydlog | Lefel 2 | Cyfrifir y 'NAV' ar sail gwerth marchnadol y gwarantau incwm sefydlog sylfaenol | Porthiant prisiau wedi'i werthuso | Diangen |
| Buddsoddiadau eiddo cyfun | Lefel 2 | Pris cynnig cau pan gyhoeddir prisiau cynnig; pris sengl cau lle cyhoeddir pris sengl | Wedi'i seilio ar 'NAV' wedi'i osod ar sail blaen-brisio | Diangen |
| Ecwiti preifat | Lefel 3 | Prisiad cymaradwy cwmnïau tebyg yn unol ag *International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines 2018* ac *IPEV Board's Special Valuation Guidance* (Mawrth 2020) | • Lluosrif EBITDA<br>• Lluosrif refeniw<br>• Gostyngiad am ddiffyg marchnadwyedd<br>• Rheoli premiwm | Gallai newidiadau i lifoedd arian disgwyliedig neu wahaniaethau rhwng cyfrifon archwiliedig a chyfrifon nas archwiliwyd effeithio ar brisiadau |
| Isadeiledd | Lefel 3 | Wedi'i brisio gan ddefnyddio technegau llif arian disgowntiedig i gynhyrchu gwerth presennol net | Cyfradd ddisgownt a llif arian a ddefnyddir yn y modelau | Cyfradd chwyddiant, llog, treth a chyfnewid tramor |

**Sensitifrwydd asedau a werthir ar lefel 3**

Mae'r gwerthoedd a adroddir yn y prisiadau Lefel 3 yn cynrychioli'r amcan gyfrif mwyaf cywir g werthoedd y portffolio ar 31 Mawrth 2023. Mae unrhyw oddrychedd sy'n gysylltiedig â'r gwerth buddsoddi wedi'i ymgorffori yn y prisiad a gellir gweld y dadansoddiad sensitifrwydd yn Nodyn 17.

**Trosglwyddiadau rhwng lefelau 1 a 2**

Ni chafwyd unrhyw drosglwyddiadau rhwng buddsoddiadau lefelau 1 a 2 yn ystod 2022/23.

## NODYN 15a – HIERARCHAETH GWERTH TEG

Mae gwerth y buddsoddiad mewn ecwiti preifat yn seiliedig ar brisiadau a ddarparwyd gan bartneriaid cyffredinol y cronfeydd ecwiti preifat y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi ynddynt. Paratoir y prisiadau hyn yn unol â'r *International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines*, sy'n dilyn egwyddorion prisio'r SAARh ac US GAAP.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth cario'r asedau ariannol a'r ymrwymiadau ariannol fesul lefel o 1 i 3, yn seiliedig ar y lefel â'u gwerth teg.

| **Gwerth ar 31 Mawrth 2023** | **Pris y farchnad a ddyfynnwyd Lefel 1 £'000** | **Gan ddefnyddio mewnbwn gweladwy Lefel 2 £'000** | **Heb fewnbwn gweladwy sylweddol Lefel 3 £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled** | | | | |
| Incwm sefydlog | 0 | 586,703 | 0 | 586,703 |
| Ecwiti | 0 | 1,700,745 | 0 | 1,700,745 |
| Buddsoddiadau eiddo cyfun | 0 | 221,297 | 0 | 221,297 |
| Ecwiti preifat | 0 | 0 | 166,622 | 166,622 |
| Isadeilaedd | 0 | 0 | 67,566 | 67,566 |
| Adneuon arian parod | 963 | 0 | 0 | 963 |
| | **963** | **2,508,745** | **234,188** | **2,743,896** |
| **Ymrwymiadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled** | | | | |
| Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau | (960) | 0 | 0 | (960) |
| **Cyfanswm** | **3** | **2,508,745** | **234,188** | **2,742,936** |

## NODYN 15a – HIERARCHAETH GWERTH TEG (parhad)

| Gwerth ar 31 Mawrth 2022 | Pris y farchnad a ddyfynnwyd Lefel 1 | Gan ddefnyddio mewnbwn gweladwy Lefel 2 | Heb fewnbwn gweladwy sylweddol Lefel 3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled** | | | | |
| Incwm sefydlog | 0 | 551,777 | 0 | 551,777 |
| Ecwiti | 0 | 1,730,845 | 0 | 1,730,845 |
| Buddsoddiadau eiddo cyfun | 0 | 252,521 | 0 | 252,521 |
| Ecwiti preifat | 0 | 0 | 158,711 | 158,711 |
| Isadeiledd | 0 | 0 | 67,417 | 67,417 |
| Adneuon arian parod | 303 | 0 | 0 | 303 |
| | **303** | **2,535,143** | **226,128** | **2,761,574** |
| **Ymrwymiadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled** | | | | |
| Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau | (285) | 0 | 0 | (285) |
| **Asedau ariannol net** | **18** | **2,535,143** | **226,128** | **2,761,289** |

## NODYN 15b – CUSONIAD MESURIADAU GWERTH TEG O FEWN LEFEL 3

| | Gwerth y Farchnad 1 Ebrill 2022 | Trosglwyddiadau o Lefel 3 | Pryniannau yn ystod y flwyddyn | Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn | Enillion/ (colledion) na wireddwyd | Enillion/ (colledion) a wireddwyd | Gwerth y Farchnad 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ecwiti preifat | 158,711 | 0 | 14,620 | (4,852) | 6,675 | (8,532) | 166,622 |
| Isadeiledd | 67,417 | 0 | 10,920 | (12,481) | 11,085 | (9,375) | 67,566 |
| **Cyfanswm Lefel 3** | **226,128** | **0** | **25,540** | **(17,333)** | **17,760** | **(17,907)** | **234,188** |

| | Gwerth y Farchnad 1 Ebrill 2021 | Trosglwyddiadau o Lefel 3 | Pryniannau yn ystod y flwyddyn | Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn | Enillion/ (colledion) na wireddwyd | Enillion/ (colledion) a wireddwyd | Gwerth y Farchnad 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ecwiti preifat | 165,423 | 0 | 23,050 | (22,550) | 23,275 | (30,487) | 158,711 |
| Isadeiledd | 46,220 | 0 | 15,895 | (3,488) | 9,021 | (231) | 67,417 |
| **Cyfanswm Lefel 3** | **211,643** | **0** | **38,945** | **(26,038)** | **32,296** | **(30,718)** | **226,128** |

## NODYN 16 – DOSBARTHIAD OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae polisïau cyfrifo'n disgrifio sut mae gwahanol ddosbarthiadau o asedau offerynnau ariannol yn cael eu mesur a sut mae incwm a chostau, yn cynnwys enillion a cholledion gwerth teg, yn cael eu cydnabod. Mae'r tabl a ganlyn yn dadansoddi'r symiau cario o asedau ag ymrwymiadau ariannol fesul categori a phennawd datganiad asedau net. Ni ail-ddosbarthwyd unrhyw asedau ariannol yn ystod y cyfnod cyfrifo.

| **Fel ar 31 Mawrth 2022** | | | | **Fel ar 31 Mawrth 2023** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled** | **Asedau ar gost wedi'i amorteiddio** | **Cost ymrwymiadau ariannol** | | **Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled** | **Asedau ar gost wedi'i amorteiddio** | **Cost ymrwymiadau ariannol** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | | | **Asedau ariannol** | | | |
| 2,282,622 | | | Buddsoddiadau cyfun | 2,287,448 | | |
| 252,521 | | | Buddsoddiadau eiddo cyfun | 221,297 | | |
| 158,711 | | | Ecwiti preifat | 166,622 | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 67,417 | | | Isadeiledd | 67,566 | | |
| | 14,481 | | Arian parod | | 19,255 | |
| | 3,650 | | Dyledwyr | | 4,163 | |
| **2,761,271** | **18,131** | **0** | | **2,742,933** | **23,418** | **0** |
| | | | **Ymrwymiadau ariannol** | | | |
| | | (3,641) | Credydwyr | | | (4,222) |
| **0** | **0** | **(3,641)** | | **0** | **0** | **(4,222)** |
| **2,761,271** | **18,131** | **(3,641)** | | **2,742,933** | **23,418** | **(4,222)** |

## NODYN 16a – ENILLION A CHOLLEDION NET AR OFFERYNNAU ARIANNOL

| 31 Mawrth 2022<br>Gwerth teg<br>£'000 | | 31 Mawrth 2023<br>Gwerth teg<br>£'000 |
|---|---|---|
| | **Asedau ariannol** | |
| 209,909 | Gwerth teg drwy elw a cholled | (62,044) |
| 0 | Benthyciadau a derbyniadau | 0 |
| **209,909** | **Cyfanswm yr asedau ariannol** | **(62,044)** |
| | **Ymrwymiadau ariannol** | |
| 0 | Gwerth teg drwy elw a cholled | 0 |
| 0 | Cost ymrwymiadau ariannol | 0 |
| **0** | **Cyfanswm yr ymrwymiadau ariannol** | **0** |
| **209,909** | **Asedau ariannol net** | **(62,044)** |

## NODYN 17 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

### Risg a rheoli risg

Prif risg hirdymor y Gronfa yw y bydd asedau'r Gronfa'n annigonol i ymdrin â'i hymrwymiadau (h.y. y buddion a gafodd eu haddo i aelodau sy'n daladwy). Felly, nod rheoli risg buddsoddi yw lleihau'r risg o weld gostyngiad cyffredinol yng ngwerth y Gronfa a gwneud y mwyaf o'r cyfle i wneud enillion ar draws portffolio'r Gronfa yn ei gyfanrwydd. Mae'r Gronfa'n cyflawni hyn drwy amrywio'i asedau i leihau risg y farchnad (risg pris, risg arian tramor a risg cyfradd llog) a risg credyd y mae'n agored iddo ar lefel dderbyniol. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n rheoli ei risg o hylifedd i sicrhau bod digon o hylifedd ar gael i fodloni llif arian rhagweladwy'r Gronfa. Mae'r Cyngor yn rheoli'r risgiau buddsoddi hyn fel rhan o'i raglen gyffredinol i reoli risg y Gronfa Bensiwn.

Y Pwyllgor Pensiynau sy'n gyfrifol am strategaeth rheoli risg y Gronfa. Sefydlir polisïau rheoli risg i nodi a dadansoddi'r risgiau sy'n wynebu gweithrediadau'r Gronfa Bensiwn, yna eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn gweithgaredd ac amodau'r farchnad.

**a) Risg y farchnad**
Risg y farchnad yw'r risg o golledion yn sgil amrywiad ym mhrisiau ecwiti a nwyddau, llog, cyfraddau cyfnewid arian tramor a gwasgariad credyd. Mae'r Gronfa'n agored i risg y farchnad yn sgil ei weithgareddau buddsoddi, yn enwedig drwy'r ecwiti mae'n eu dal. Mae lefel y risg yn dibynnu ar amgylchiadau'r farchnad, disgwyliadau o ran prisiau yn y dyfodol, newidiadau mewn enillion a'r gymysgedd o asedau.

Nod strategaeth rheoli risg y Gronfa yw adnabod a rheoli risgiau'r farchnad i'r Gronfa o fewn paramedrau derbyniol, gan sicrhau'r enillion buddsoddiad gorau posibl.

Yn gyffredinol, rheolir anweddolrwydd gormodol yn risg y farchnad drwy amrywio'r portffolio yn ddaearyddol ac o ran sectorau diwydiant a gwarantau unigol. I leihau risg y farchnad, mae'r Gronfa a'i ymgynghorwyr buddsoddi'n monitro cyflwr y farchnad a dadansoddiadau meincnod yn briodol.

Mae'r Gronfa'n rheoli'r risgiau hyn mewn dwy ffordd:

- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risg y farchnad yn cael ei fonitro drwy ddadansoddi ffactorau risg i sicrhau bod y risg yn parhau o fewn lefelau goddefol;
- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risgiau penodol yn cael ei gyfyngu drwy bennu risgiau penodol goddefol ar gyfer buddsoddiadau unigol.

**Risg prisiau eraill**
Mae risg prisiau eraill yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn amrywio o ganlyniad i newid ym mhris y farchnad (ac eithrio'r risgiau sy'n codi o risg cyfradd llog neu risg cyfradd cyfnewid arian tramor), boed y newidiadau'n cael eu hachosi gan ffactorau sy'n benodol i'r offeryn unigol neu'r sawl a'i cyflwynodd neu ffactorau sy'n effeithio ar bob offeryn o'r fath yn y farchnad.

Mae'r Gronfa'n agored i risg prisiau cyfranddaliadau. Mae rheolwyr buddsoddi'r Gronfa'n lliniaru'r perygl pris hwn trwy amrywio a dewis gwarantau ac offerynnau ariannol eraill sy'n cael eu monitro gan y Cyngor i sicrhau ei fod o fewn y cyfyngiadau a nodir yn strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.

## NODYN 17 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

**Risg prisiau eraill – dadansoddiad sensitifrwydd**

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol a'r enillion ar fuddsoddiadau a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn ariannol, mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, mae'r Cyngor wedi pennu bod y newidiadau a ganlyn mewn risg pris y farchnad yn rhesymol bosib ar gyfer cyfnod adrodd 2021/22 a 2022/23.

| **Math o ased** | **Symudiad posib y farchnad (+/-)** | |
|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2022** | **31 Mawrth 2023** |
| | % | % |
| Ecwiti DU | 19.9 | 18.2 |
| Ecwiti Byd-Eang | 20.1 | 19.0 |
| Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu | 27.0 | 24.4 |
| Ecwiti Preifat | 31.2 | 31.2 |
| Bondiau Dychwelyd Absoliwt | 2.8 | 2.7 |
| Isadeiledd | 14.6 | 16.0 |
| Eiddo | 15.0 | 15.5 |
| Credyd Amrywiol | 7.4 | 7.8 |
| Arian | 0.3 | 0.3 |
| **Cronfa Gyfan** | **14.3** | **13.3** |

Mae'r newid posibl a ddatgelir uchod yn gyson a un symudiad gwyriad safonol yn y newid yng ngwerth yr asedau dros y tair blynedd ddiweddaraf. Mae cyfanswm newid posibl y gronfa yn ystyried y berthynas disgwyliedig rhwng y gwahanol ddosbarthiadau o asedau a ddangosir, yn seiliedig ar gyfnewidioldeb sylfaenol a chydberthynas yr asedau, yn unol a theori portffolio amrywiant cymedrig.

## NODYN 17 – NATUR A GRADDFA’R RISGIAU SY’N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Pe byddai pris buddsoddiadau’r Gronfa ar y farchnad wedi cynyddu/gostwng yn unol â’r uchod, byddai’r newid ym mhris y farchnad yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion wedi bod fel a ganlyn:

| **Math o ased** | **Gwerth fel ar 31 Mawrth 2022 £’000** | **Canran newid %** | **Gwerth ar ôl cynnydd £’000** | **Gwerth ar ôl gostyngiad £’000** |
|---|---|---|---|---|
| Ecwiti DU | 246,433 | 18.2 | 291,284 | 201,583 |
| Ecwiti Byd-eang | 1,396,696 | 19.0 | 1,662,068 | 1,131,324 |
| Ecwiti Marchnadoedd sy’n datblygu | 57,616 | 24.4 | 71,674 | 43,557 |
| Ecwiti Preifat* | 166,622 | 31.2 | 218,608 | 114,636 |
| Bondiau Dychwelyd Absoliwt | 386,103 | 2.7 | 396,528 | 375,679 |
| Isadeiledd* | 67,566 | 16.0 | 78,377 | 56,756 |
| Eiddo | 221,297 | 15.5 | 255,598 | 186,996 |
| Credyd Amrywiol | 200,600 | 7.8 | 216,246 | 184,953 |
| Arian | 19,255 | 0.3 | 19,313 | 19,197 |
| Dyledwyr a Chredydwyr | (59) | 0.0 | (59) | (59) |
| **Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion** | **2,762,129** | | **3,209,637** | **2,314,622** |
| *Asedau lefel 3 | 234,188 | | 296,985 | 171,392 |

| **Math o ased** | **Gwerth fel ar 31 Mawrth 2022 £’000** | **Canran newid %** | **Gwerth ar ôl cynnydd £’000** | **Gwerth ar ôl gostyngiad £’000** |
|---|---|---|---|---|
| Ecwiti DU | 239,314 | 19.9 | 286,937 | 191,690 |
| Ecwiti Byd-eang | 1,431,729 | 20.1 | 1,719,508 | 1,146,952 |
| Ecwiti Marchnadoedd sy’n datblygu | 59,802 | 27.0 | 75,948 | 43,655 |
| Ecwiti Preifat* | 158,711 | 31.2 | 208,228 | 109,193 |
| Bondiau Dychwelyd Absoliwt | 353,857 | 2.8 | 363,765 | 343,949 |
| Isadeiledd* | 67,417 | 14.6 | 77,260 | 57,574 |
| Eiddo | 252,521 | 15.0 | 290,399 | 214,643 |
| Credyd Amrywiol | 197,920 | 7.4 | 212,566 | 183,274 |
| Arian | 14,481 | 0.3 | 14,525 | 14,438 |
| Dyledwyr a Chredydwyr | 9 | 0.0 | 9 | 9 |
| **Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion** | **2,775,761** | | **3,249,145** | **2,302,377** |
| *Asedau lefel 3 | 226,128 | | 285,488 | 166,767 |

### Risg cyfraddau llog

Mae’r Gronfa’n buddsoddi mewn asedau ariannol yn bennaf er mwyn cael enillion ar fuddsoddiadau. Mae’r buddsoddiadau hyn yn agored i risgiau cyfraddau llog, sy’n cynrychioli’r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad.

Mae cyfradd llog y Gronfa'n cael ei monitro'n gyson, yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, yn cynnwys monitro pa mor agored ydyw i'r cyfraddau llog ac asesiad o'r gwir gyfraddau llog yn erbyn y meincnodau perthnasol.

## NODYN 17 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gweler pa mor agored yn uniongyrchol yw'r Gronfa i newidiadau mewn cyfraddau llog fel ar 31 Mawrth 2022 a 31 Mawrth 2023 isod. Mae'r ffigyrau isod yn cyflwyno'r gyfradd llog yn seiliedig ar werth teg yr asedau ariannol gwaelodol:

| **Math o ased** | **Fel ar 31 Mawrth 2022** | **Fel ar 31 Mawrth 2023** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Arian a chyfwerthoedd arian | 14.178 | 18,292 |
| Balansau arian parod | 303 | 963 |
| Cronfa Incwm Sefydlog | 551,777 | 586,703 |
| **Cyfanswm** | **566,258** | **605,958** |

**Dadansoddiad sensitifrwydd risg cyfraddau llog**

Mae'r Gronfa yn cydnabod y gall cyfraddau llog amrywio ac effeithio ar incwm i'r Gronfa a gwerth yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion. Mae newid 1% mewn cyfraddau llog yn gyson â lefel y sensitifrwydd a ddefnyddiwyd fel rhan o strategaeth rheoli risg y Gronfa. Mae'r dadansoddiad isod yn rhagdybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid, yn parhau'n gyson, ac mae'n dangos yr effaith yn ystod y flwyddyn ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion o newid o +/- 1% mewn cyfraddau llog:

| **Math o ased** | **Swm cario fel ar 31 Mawrth 2023** | **Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion** | |
|---|---|---|---|
| | | **+1%** | **-1%** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Arian a chyfwerthoedd arian | 18,292 | 183 | (183) |
| Balansau arian parod | 963 | 10 | (10) |
| Cronfa Incwm Sefydlog * | 586,703 | 5,867 | (5,867) |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **605,958** | **6,060** | **(6,060)** |

* Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod.

| **Math o ased** | **Swm cario fel ar 31 Mawrth 2022** | **Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion** |
|---|---|---|

| | £'000 | +1% £'000 | -1% £'000 |
|---|---|---|---|
| Arian a chyfwerthoedd arian | 14,178 | 142 | (142) |
| Balansau arian parod | 303 | 3 | (3) |
| Cronfa Incwm Sefydlog * | 551,777 | 5,518 | (5,518) |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **566,258** | **5,663** | **(5,663)** |

* Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod.

Mae'r effaith y byddai newid o 1% mewn cyfraddau llog yn cael ar y llog a dderbyniwyd yn fach iawn gan mai 2.04% oedd cyfartaledd y gyfradd llog a dderbyniwyd ar arian yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfanswm llog o £210,338 am y flwyddyn.

## NODYN 17 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Nid yw cynnydd 1% mewn cyfraddau llog yn effeithio'r llog a dderbynnir ar asedau llog sefydlog ond byddai'n lleihau'r gwerth teg, fel y dangosir yn y tablau uchod. Nid yw newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio y gwerth arian / arian a'u cyffelyb ond byddai'n effeithio'r llog a dderbynnir ar y balansau. Mae newidiadau i werth teg yr asedau ac incwm a dderbynnir o fuddsoddiadau yn cael effaith ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion ond fel y nodir uchod nid yw'n cael effaith sylweddol ar y Gronfa.

### Risg arian tramor

Mae risg arian tramor yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae'r Gronfa'n agored i risg arian ar offerynnau ariannol sy'n cael eu cynrychioli mewn unrhyw arian ac eithrio arian swyddogaethol y Gronfa (£DU). Mae'r Gronfa'n dal asedau sy'n cael eu cynrychioli mewn arian ac eithrio £DU.

Mae gan y Gronfa ymrwymiadau ecwiti preifat ac isadeiledd mewn arian tramor (€393.2 miliwn a $88.6 miliwn). Mae'r ymrwymiadau hyn yn cael eu tynnu i lawr ar gais y rheolwr buddsoddi dros nifer o flynyddoedd. Gweler yr ymrwymiadau cyfredol sy'n aros yn Nodyn 24. Y risg dan sylw yw y bydd y bunt yn wan o'i chymharu â'r ddoler a'r ewro pan fydd yr ymrwymiadau'n cael eu tynnu i lawr ac y bydd yn cryfhau pan fo'r Gronfa wedi'i chyllido'n llawn. Mae'r Gronfa wedi bod yn ariannu'r ymrwymiadau ers 2005 felly mae'r ymrwymiadau wedi'i gydbwyso dros gyfnod maith o amser.

Mae cyfradd cyfnewid arian y Gronfa'n cael ei gyfrifo ar sail anweddolrwydd yr arian tramor fyddai'n effeithio ar werth y buddsoddiadau ac unrhyw arian fyddai'n cael ei ddal yn yr arian tramor hynny.

**Risg arian tramor – dadansoddiad sensitifrwydd**

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, mae'r anweddolrwydd sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian tramor wedi cael eu cyfrifo wrth ddefnyddio anweddolrwydd hanesyddol yr arian tramor a'r symiau cymharol ym muddsoddiadau'r Gronfa.

Y gwyriad safonol disgwyliedig 1 blwyddyn ar gyfer un arian tramor unigol ar 31 Mawrth 2023 yw 9.9%. Y gyfradd gyfatebol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 oedd 9.5%. Mae'r dadansoddiad hwn yn tybio bod yr holl amrywiadau eraill, yn enwedig cyfraddau llog, yn aros yn gyson.

## NODYN 17 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r tablau isod yn dangos dadansoddiad o ddatguddiad y Gronfa at arian tramor unigol fel ar 31 Mawrth 2023 ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cynt:

| **Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased** | **Swm cario fel ar 31 Mawrth 2023** | **Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion** | |
|---|---|---|---|
| | | **Gwerth ar gynnydd** | **Gwerth ar leihad** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ecwiti Byd-eang | 1,396,696 | 1,534,969 | 1,258,423 |
| Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu | 57,616 | 63,320 | 51,912 |
| Ecwiti Preifat | 166,622 | 183,118 | 150,127 |
| Bondiau Dychwelyd Absoliwt | 386,103 | 424,328 | 347,879 |
| Isadeiledd | 67,566 | 74,255 | 60,877 |
| Credyd Amrywiol | 200,600 | 220,459 | 180,740 |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **2,275,203** | **2,500,449** | **2,049,958** |

| Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased | Swm cario fel ar 31 Mawrth 2022 | Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion | |
|---|---|---|---|
| | | **Gwerth ar gynnydd** | **Gwerth ar leihad** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ecwiti Byd-eang | 1,431,729 | 1,567,744 | 1,295,716 |
| Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu | 59,802 | 65,483 | 54,120 |
| Ecwiti Preifat | 158,711 | 173,788 | 143,633 |
| Bondiau Dychwelyd Absoliwt | 353,857 | 387,473 | 320,240 |
| Isadeiledd | 67,417 | 73,822 | 61,013 |
| Credyd Amrywiol | 197,920 | 216,722 | 179,118 |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **2,269,436** | **2,485,032** | **2,053,840** |

**b) Risg credyd**

Mae risg credyd yn cynrychioli'r risg y bydd gwrth barti i drafodion neu offeryn ariannol yn methu â gwireddu goblygiad ac yn creu colled ariannol i'r Gronfa o ganlyniad i hynny. Yn gyffredinol, mae gwerth buddsoddiadau ar y farchnad yn adlewyrchu asesiad o gredyd wrth eu prisio ac felly darperir ar gyfer y risg o golled yng ngwerth cario asedau ariannol ag ymrwymiadau'r Gronfa.

Yn ei hanfod, mae portffolio buddsoddi cyfan y Gronfa'n agored i ryw fath o risg credyd. Fodd bynnag, mae dewis gwrth bartïon, broceriaid a sefydliadau ariannol o ansawdd uchel yn isafu'r risg credyd a allai godi yn sgil methiant i setlo trafodion yn brydlon.

## NODYN 17 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gweler isod meincnod ar gyfer y canran o'r cronfeydd a ddelir gan y rheolwyr buddsoddi:

| Rheolwr Buddsoddi | Canran o'r Portffolio |
|---|---|
| BlackRock | 29.5% |
| Emerging Markets Partneriaeth Pensiwn Cymru | 2.5% |
| Global Growth Partneriaeth Pensiwn Cymru | 14.0% |
| Global Opportunities Partneriaeth Pensiwn Cymru | 14.0% |
| Multi Asset Credit Partneriaeth Pensiwn Cymru | 7.5% |
| Absolute Return Bond Partneriaeth Pensiwn Cymru | 15.0% |
| Property (UBS, Threadneedle, Lothbury, BlackRock) | 10.0% |

| | |
|---|---|
| Partners Group | 7.5% |

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddelir gan reolwyr buddsoddi'n cael eu dal yn enw'r Gronfa Bensiwn felly, os yw'r rheolwr buddsoddi'n methu, nid yw buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu cyfrif yn rhan o'i asedau.

Cynrychiolir risg credyd contract gan y taliad net neu'r enillion sy'n aros. Mae'r risg weddilliol yn fân yn sgil bolisïau yswiriant amrywiol a ddelir i ymdrin â gwrth bartïon sy'n diffygdalu.

Er mwyn uchafu'r dychweliadau o fuddsoddiadau tymor byr ac adneuon arian parod, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian gwarged dros dro yn ei gyfrifon banc gydag unrhyw arian gwarged dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion wrth fuddsoddi ar sail yr un gyfran. Oherwydd natur y trefniadau banc, nid yw unrhyw arian gwarged yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor.

Ni adneuir arian mewn banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn cael eu graddio o ran statws credyd yn annibynnol, a'u bod yn bodloni meini prawf credyd y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gosod cyfyngiadau ar y ganran uchaf o adneuon y gellir eu gwneud mewn unrhyw ddosbarth o sefydliad ariannol penodol. Hefyd, mae'r Cyngor yn buddsoddi canran a gytunwyd o gronfeydd yn y marchnadoedd arian er mwyn cael buddsoddiadau amrywiol. Mae'r cronfeydd marchnad arian a ddewiswyd oll wedi derbyn statws credyd AAA gan asiantaeth statws credyd blaenllaw.

## NODYN 17 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Nid yw cyflogwyr y Gronfa'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ar gyfer eu statws credyd neu ar gyfer y cyfyngiadau credyd unigol sydd wedi'u gosod. Mae risg yn bodoli na ellir casglu cyfraniadau gan

gyflogwyr ble nad oes ganddynt unrhyw aelodau sy'n cyfrannu (e.e. y risg sy'n gysylltiedig â chyflogwyr gyda nifer fechan o aelodau sy'n dewis peidio â chyfrannu), felly mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro newidiadau mewn aelodaeth bob blwyddyn.

Bydd angen i gyflogwyr newydd sy'n dod yn rhan o'r Gronfa gytuno i ddarparu bond neu gael gwarant i leihau'r risg o golledion ariannol i'r Gronfa yn y dyfodol pe na fyddai'r cyflogwr dan sylw'n medru bodloni ei hymrwymiadau pensiwn pe byddai'n ymadael â'r Gronfa. Fel y dangosir yn Nodyn 25 mae dau gyflogwr wedi darparu bondiau. Bydd unrhyw ymrwymiadau eraill ar y Gronfa yn y dyfodol o ganlyniad i gyflogwr yn ymadael yn cael eu cario gan y Gronfa a'u rhannu dros yr holl gyflogwyr. Gwneir hyn i sicrhau bod y cyfnodau a'r symiau adfer actiwaraidd yn cael eu cadw ar lefel y gall cyflogwyr llai ymdopi â hi.

Mae'r risg wedi cynyddu yn sgil dyfarniad cyfreithiol diweddar, fydd o bosib yn pennu na ellir codi cyfraniadau ar gyflogwyr nad oes ganddynt aelodau sy'n cyfrannu dan Reoliadau Gweinyddu'r CPLIL. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad hwn yn effeithio ar allu'r Gronfa i gasglu cyfraniadau yn dilyn prisiad ymadael dan Reoliad 38(2). Gellir rhoi cyfarwyddyd i'r Actiwari ystyried adolygu'r cyfraddau a'r dystysgrif Addasiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwr dan Reoliad 38 o Reoliadau CPLIL (Gweinyddu) 2008 rhwng y prisiad a gynhelir teirblynyddol.

**c) Risg hylifedd**

Mae'r risg hylifedd yn cynrychioli'r risg na fydd modd i'r Gronfa fodloni ei oblygiadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Felly, mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod gan y Gronfa Bensiwn ddigon o adnoddau arian parod i fodloni ei hymrwymiadau i dalu pensiynwyr ac i fodloni ymrwymiadau buddsoddi.

Mae gan y Cyngor llif arian sy'n ceisio sicrhau bod arian parod ar gael pe bai ei angen. Yn ogystal, mae'r cyfraniadau cyfredol a dderbynnir gan gyflogwyr ac aelodau yn cyfrannu'n llawer mwy na'r hyn a delir allan mewn buddion. Buddsoddir yr arian parod dros ben ac ni ellir ei dalu'n ôl i gyflogwyr. Mae Actiwari'r Gronfa yn sefydlu'r cyfraniadau y dylid eu talu fel y gellir bodloni holl rwymedigaethau'r dyfodol.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar y swm y gall cyfrif banc y Gronfa Bensiwn ei ddal. Dylai'r symiau a ddelir yn y cyfrif hwn fodloni anghenion hylifedd arferol y Gronfa. Mae unrhyw arian dros ben dros dro yn cael ei fuddsoddi gan y Cyngor yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn darparu incwm ychwanegol i'r Gronfa Bensiwn. Buddsoddir arian parod dros ben yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi.

Yn ogystal, mae gan y Gronfa fynediad at gyfleuster gorddrafft trwy drefniadau cyfrifon banc grŵp y Cyngor. Dim ond i fodloni gwahaniaethau amseru tymor byr ar daliadau pensiwn y defnyddir y cyfleuster hwn. Gan mai benthyciadau byrdymor eu natur fyddai'r rhain, ystyrir bod pa mor agored i risg credyd yw'r Gronfa yn hyn o beth yn ddibwys.

## NODYN 17 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r Gronfa'n diffinio asedau hylifol fel asedau y gellir eu trosglwyddo'n arian parod o fewn tri mis. Asedau anhylif yw'r asedau fydd yn cymryd cyfnod mwy na thri mis i'w trosglwyddo'n arian parod. Ar 31 Mawrth 2023, roedd gwerth yr asedau anhylif yn £455m, sy'n cynrychioli 16.4% o gyfanswm asedau'r Gronfa (31 Mawrth 2022: £479m, a oedd yn cynrychioli 17.2% o gyfanswm asedau'r Gronfa).

Mae rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian cyfnodol er mwyn deall a rheoli amseriad llif arian y Gronfa. Mae lefel strategol briodol y balans arian parod i'w ddal yn ffurfio rhan o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.

Mae'r holl ymrwymiadau ariannol ar 31 Mawrth 2023 yn ddyledus o fewn blwyddyn, yn yr un modd ag ar 31 Mawrth 2022.

**Risg ail ariannu**

Y risg allweddol yw y bydd y Gronfa wedi'i rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i hofferynnau ariannol pan fo cyfraddau llog yn anffafriol.  Nid oes gan y Gronfa unrhyw offerynnau ariannol sydd â risg ail ariannu'n rhan o'i strategaethau rheoli trysorlys a buddsoddi.

## NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2013, mae actiwari'r Gronfa yn ymgymryd â phrisiad teirblynyddol er mwyn sefydlu'r gyfradd cyfraniadau i gyflogwyr ar gyfer y tair blynedd i ddod. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf fel ar 31 Mawrth 2022.

**Disgrifiad o'r Polisi Cyllido**

Amlinellir y polisi cyllido yn Natganiad Strategaeth Cyllido yr Awdurdod Gweinyddu a gafodd ei adolygu fel rhan o brisiad 2022.

Mae elfennau allweddol y polisi cyllido fel a ganlyn:

- cymryd golwg hirdymor doedd i sicrhau'r gofyniad rheoliadol ar gyfer hylifedd hirdymor, gyda digon o arian i dalu buddion i aelodau a'u dibynyddion
- defnyddio strategaeth fuddsoddi gytbwys i leihau cyfraniadau arian parod hirdymor gan gyflogwyr a chwrdd â'r gofyniad rheoliadol ar gyfer effeithlonrwydd cost hirdymor
- lle bo'n briodol, sicrhau cyfraddau cyfraniadau sefydlog gan gyflogwyr
- adlewyrchu nodweddion gwahanol gyflogwyr i osod eu cyfraddau cyfrannu, gan ddefnyddio strategaeth gyllido dryloyw
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg y bydd cyflogwr yn methu â chyflawni ei ymrwymiadau pensiwn.

Amlinella'r Datganiad Strategaeth Cyllido sut mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cydbwyso'r nodau croestynnol o ddiogelu hydaledd y Gronfa a chadw cyfraniadau cyflogwyr yn sefydlog.

## NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

O ran cyflogwyr oedd â chyfamod digon cryf yn ôl yr Awdurdod Gweinyddu, mae cyfraniadau wedi cael eu sefydlogi i fod yn debygol iawn o gyflawni'r targed cyllido dros 17 mlynedd. Defnyddiwyd dull modelu ymrwymiadau asedau sy'n dangos os caiff y cyfraddau cyfrannu hyn eu talu a bod newidiadau cyfraniadau yn y dyfodol yn cael eu cyfyngu fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, fod yna o leiaf siawns o 70% y bydd y Gronfa yn cyrraedd lefel ariannu'n llawn dros y 17 mlynedd.

**Sefyllfa Gyllido ar adeg y Prisiad Cyllido Ffurfiol Diwethaf**
Cynhaliwyd y prisiad actwaraidd mwyaf diweddar dan Reoliad 62 Rheoliadau (Gweinyddol) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ar 31 Mawrth 2022. Datgelodd y prisiad hwn fod asedau'r Gronfa, oedd wedi'u prisio'n £2,776 miliwn ar 31 Mawrth 2022, yn ddigon i dalu 120% o'r ymrwymiadau (h.y. gwerth cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo) oedd wedi'u cronni hyd at y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, y gwarged ym mhrisiad 2022 oedd £468 miliwn.

Gosodwyd allan cyfraniad pob cyflogwr yn y prisiad, gyda'r nod o gyflawni cyllido llawn o fewn gorwel amser a thebygolrwydd a fesurwyd yn unol â'r Datganiad Strategaeth Cyllido. Cafodd cyfraniadau cyflogwyr unigol am y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2026 eu pennu yn unol â pholisi cyllido'r Gronfa fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido.

**Prif Ragdybiaethau Actwaraidd a'r Dull a ddefnyddiwyd i Brisio'r Ymrwymiadau**
Disgrifir y manylion llawn am y dulliau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad prisio 2022.

**Dull**
Aseswyd yr ymrwymiadau drwy ddefnyddio dull buddion cronedig sy'n ystyried aelodaeth bensiynadwy hyd at y dyddiad prisio, ac yn ystyried cynnydd disgwyliedig mewn cyflog yn y dyfodol, ymddeoliad neu ddyddiad disgwyliedig cynharach o adael aelodaeth bensiynadwy.

**Rhagdybiaethau**
Dilynwyd dull sy'n gysylltiedig â'r farchnad i brisio'r ymrwymiadau er mwyn sicrhau cysondeb gyda phrisiad o asedau'r Gronfa yn ôl eu gwerth ar y farchnad.

Roedd y rhagdybiaethau ariannol allweddol a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2022 fel a ganlyn:

| **Rhagdybiaethau Ariannol** | **31 Mawrth 2022** |
|---|---|
| Cyfradd disgownt | 4.1 y.f % |

| | |
|---|---|
| Cynnydd mewn cyflog | 3.2 y.f % |
| Cynnydd mewn pensiwn | 2.7 y.f % |

Y rhagdybiaeth demograffig allweddol oedd yr ystyriaeth a roddwyd i hirhoedledd. Mae'r rhagdybiaethau disgwyliad oes yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol a model CMI 2021, gyda 0% o bwysau ar data 2021 (a 2020), llyfnhau safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a cyfradd hirdymor o 1.5% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae'r disgwyliad oes gyfartalog yn y dyfodol i oed 65 fel a ganlyn:

## NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

| Rhagdybiaethau marwolaeth yn 65 mlwydd oed | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| | Blynyddoedd | Blynyddoedd |
| Pensiynwyr cyfredol | 21.1 | 24.0 |
| Pensiynwyr y dyfodol (45 oed ym mhrisiad 2022) | 22.3 | 25.8 |

Mae copïau o adroddiad Prisiad 2022 a'r Datganiad Strategaeth Cyllido ar gael ar wefan y Gronfa Bensiwn www.cronfabensiwngwynedd.cymru

**Profiad yn ystod y Cyfnod ers 31 Mawrth 2022**

Mae'r rhyfel parhaus yn yr Wcrain a phwysau chwyddiant yn parhau i amharu ar farchnadoedd, gan effeithio ar enillion buddsoddiadau a gyflawnwyd gan asedau'r Gronfa. Mae lefelau uchel o chwyddiant yn y DU (o gymharu a phrofiad diweddar) wedi arwain at gynnydd uwch na'r disgwyl mewn budd-daliadau CPLIL o 10.1% ym mis Ebrill 2023. Er gwaethaf hyn, mae lefel ariannu'r Gronfa yn debygol yn fod yn uwch na'r hyn a adroddwyd ym Mhrisiad 31 Mawrth 2022 oherwydd cynnydd sylweddol mewn cyfraddau llog a leihaodd y gwerth a roddir ar ymrwymiadau'r Gronfa.

Bydd y prisiad actiwaraidd nesaf yn cael ei gynnal ar 31 Mawrth 2025. Bydd y Datganiad Strategaeth Cyllido hefyd yn cael ei adolygu bryd hynny.

## NODYN 19 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI'U HADDO

Yn ogystal â'r prisiad cyllido teirblynyddol, mae'r actiwari hefyd yn cynnal prisiad o rwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar SCC19 bob blwyddyn gan ddefnyddio'r un data sylfaenol â'r prisiad cyllido wedi'i dynnu ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan ystyried y newidiadau yn niferoedd yr

aelodau a diweddaru rhagdybiaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Nid yw'r gwerthusiad yn cael ei ymgymryd yn yr un modd a ddefnyddir ar gyfer gosod cyfraddau cyfrannu i'r Gronfa, ac nid yw cyfrifon y Gronfa yn ystyried rhwymedigaethau talu pensiynau na buddion eraill yn y dyfodol.

Er mwyn asesu gwerth y buddion yn seiliedig ar hyn, mae'r actiwari wedi diweddaru'r rhagdybiaethau actiwaraidd (gweler isod) o'r rhai a ddefnyddir er dibenion cyllido (gweler Nodyn 18) a hefyd mae wedi'u defnyddio i ddarparu'r adroddiadau SCC19 ac SAA102 ar gyfer cyflogwyr unigol yn y Gronfa. Yn ogystal, mae'r actiwari wedi prisio buddion salwch a marwolaeth yn unol â SCC19.

Roedd gwerth cyfredol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo ar 31 Mawrth 2022 ac 2023, fel a ganlyn:

| Rhagdybiaethau | 31 Mawrth 2022<br>£m | 31 Mawrth 2023<br>£m |
|---|---|---|
| Aelodau Gweithredol | 1,929 | 1,084 |
| Aelodau Gohiriedig | 583 | 387 |
| Pensiynwyr | 818 | 864 |
| **Cyfanswm** | **3,330** | **2,335** |

## NODYN 19 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI'U HADDO (parhad)

Fel y nodir uchod, mae'r ymrwymiadau uchod wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar SCC19 ac felly maent yn wahanol i ganlyniadau'r prisiad cyllido teirblynyddol a gynhaliwyd yn 2022 (gweler Nodyn 18) gan fod SCC19 yn nodi cyfradd ddisgownt yn hytrach na chyfradd sy'n adlewyrchu cyfraddau'r farchnad.

### Y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd

Defnyddiwyd y tybiaethau ariannol sydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer adroddiad SCC19 yr Awdurdod Gweinyddol fel y ganlyn ac maent yn wahanol ar 31 Mawrth 2022 a 2023. Mae'r actiwari yn amcanu mai effaith y newid mewn tybiaethau i 31 Mawrth 2023 yw i leihau y gwerth presennol actiwaraidd o £1,422m. Amcanir mai effaith y newid mewn demograffiaeth a hirhoedledd ydi lleihau y gwerth presennol actiwaraidd o £55m.

| Rhagdybiaeth | 31 Mawrth 2022<br>% | 31 Mawrth 2023<br>% |
|---|---|---|
| Cyfradd cynnydd mewn pensiwn | 3.20 | 2.95 |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflog | 3.50 | 3.45 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt | 2.70 | 4.75 |

Mae'r disgwyliad oes ar gyfer y dybiaeth hirhoedledd yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2021, gyda 10% o bwysau ar ddata 2021 (a 2020), llyfnhau safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwella tymor hir o 1.5% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae'r disgwyliad oes gyfartalog yn y dyfodol i oed 65 wedi'u crynhoi isod:

| | Gwryw<br>Blynyddoedd | Benyw<br>Blynyddoedd |
|---|---|---|
| Pensiynwyr cyfredol | 20.9 | 23.9 |
| Pensiynwyr y dyfodol (45 oed ym mhrisiad 2019) | 21.9 | 25.6 |

Mae'r rhagdybiaethau demograffig eraill wedi ei diweddaru ers flwyddyn diwethaf ac yn unol a prisiad diweddaraf y gronfa.

Mae'r sensitifrwydd ynghylch y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd i fesur rhwymedigaethau wedi'u nodi isod:

| **Sensitifrwydd i'r Rhagdybiaethau am y flwyddyn sy'n gorffen 31 Mawrth 2023** | **Amcan % y cynnydd mewn rhwymedigaethau** | **Amcan swm ariannol** |
|---|---|---|
| 0.1% y.f. o gynnydd mewn chwyddiant pensiwn | 2 | 41 |
| 0.1% y.f. o gynnydd mewn cyflog | 0 | 7 |
| 0.1% y.f. o leihad yn y gyfradd ddisgownt | 2 | 47 |
| 1 mlynedd o gynydd yn disgwyliad oes aelod | 4 | 93 |

## NODYN 20 – ASEDAU CYFREDOL

| **31 Mawrth 2022 £'000** | | **31 Mawrth 2023 £'000** |
|---|---|---|
| 483 | Cyfraniadau sy'n ddyledus – gweithwyr | 495 |
| 1,597 | Cyfraniadau sy'n ddyledus – cyflogwyr | 1,617 |

| | | |
|---|---|---|
| 1,570 | Amrywiol ddyledwyr | 2,050 |
| **3,650** | **Cyfanswm dyledwyr** | **4,162** |
| 14,178 | Arian | 18,292 |
| **17,828** | **Cyfanswm** | **22,454** |

## NODYN 21 – YMRWYMIADAU CYFREDOL

| 31 Mawrth 2022 £'000 | | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| 1,697 | Credydwyr amrywiol | 2,078 |
| 1,659 | Buddion sy'n daladwy | 1,183 |
| **3,356** | **Cyfanswm** | **3,261** |

## NODYN 22 – CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (AVC)

Mae gwerth y cronfeydd ar y farchnad wedi'i nodi isod:

| | Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2022 £'000 | Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Clerical Medical | 4,670 | 4,576 |
| Utmost Life | 182 | 162 |
| Standard Life | 5 | 5 |
| **Cyfanswm** | **4,857** | **4,743** |

Talwyd cyfraniadau AVC yn uniongyrchol i'r rheolwyr fel a ganlyn:

| | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| Clerical Medical | 645 | 797 |
| **Cyfanswm** | **645** | **797** |

## NODYN 23 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

### Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. O ganlyniad, mae perthynas gryf rhwng y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.

Cafodd y Cyngor gostau o £1,474,104 (£1,318,514 yn 2021/22) mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa ac yn dilyn hynny, cafodd ad-daliad am y costau hyn gan y Gronfa. Yn ogystal, y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf aelodau'r Gronfa a chyfrannodd £29.49m tuag at y Gronfa yn 2022/23 (£27.65m yn 2021/22). Ar ddiwedd y flwyddyn, £0.53m oedd dyled y Cyngor i'r Gronfa yn bennaf mewn perthynas â llôg a dalwyd ar fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn a chyfraniadau ar gyfer Mawrth 2023 a £1.47m oedd dyled y Gronfa i'r Cyngor yn bennaf mewn perthynas ag ad-daliadau i'r Cyngor am y costau gweinyddol.

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddau gyfrif banc a ddelir fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian parod dros ben a ddelir yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi bob dydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Yn ystod 2022/23, derbyniodd y Gronfa log o £210,338 (£14,183 yn 2021/22) gan Gyngor Gwynedd.

**Llywodraethu**

Roedd un aelod o'r Pwyllgor Pensiynau yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2022/23 (yr aelod pwyllgor J.B. Hughes). Yn ogystal, mae aelodau'r pwyllgor S.W. Churchman, R.W. Williams, J.B. Hughes, I. Thomas, G. Edwards, J.P. Roberts a R.M. Hughes yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

Roedd dau aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2022/23 (yr aelodau bwrdd H. E. Jones a S.Warnes). Yn ogystal, mae aelodau Bwrdd B. Roberts, O. Richards, H. Trainor a S. E. Parry yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

**Prif Bersonél Rheoli**

Cyfarwyddwr y Gronfa a Pennaeth Cyllid (s151) yw prif bersonél rheoli'r gronfa.

Mae'r cyflog sy'n daladwy i brif bersonél rheoli y gellir ei phriodoli i'r gronfa wedi'i nodi isod:

| 31/03/2022<br>£'000 | | 31/03/2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| 7 | Buddion tymor byr | 38 |
| 1 | Buddion ôl-gyflogaeth | 7 |
| 8 | | 45 |

## NODYN 24 – YMRWYMIADAU DAN GONTRACTAU BUDDSODDI

Roedd yr ymrwymiadau (buddsoddiadau) cyfalaf sy'n aros ar 31 Mawrth fel a ganlyn:

| | Cyfanswm ymrwymiadau | Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2022 | Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|---|
| | **€'000** | **€'000** | **€'000** |
| P.G. Direct 2006 | 19,224 | 0 | 0 |
| P.G. Global Value 2006 | 50,000 | 3,477 | 3,477 |
| P.G. Secondary 2008 | 15,000 | 1,960 | 1,960 |
| P.G. Global Value 2011 | 15,000 | 2,096 | 2,096 |
| P.G. Global Infrastructure 2012 | 40,000 | 7,019 | 7,019 |
| P.G. Direct 2012 | 12,000 | 1,181 | 1,181 |
| P.G. Global Value 2014 | 12,000 | 1,531 | 1,531 |
| P.G Direct Equity 2016 | 50,000 | 2,826 | 2,826 |
| P.G. Global Value 2017 | 42,000 | 17,870 | 11,570 |
| P.G. Global Infrastructure 2018 | 28,000 | 14,379 | 8,131 |
| P.G. Direct Equity 2019 | 48,000 | 18,432 | 8,352 |
| P.G. Direct Infrastructure 2020 | 32,000 | 24,800 | 20,320 |
| P.G. Direct Equity V | 30,000 | 0 | 30,000 |
| **Cyfanswm Ewro** | **393,224** | **95,571** | **98,463** |
| | | | |
| | **$'000** | **$'000** | **$'000** |
| P.G. Emerging Markets 2011 | 7,000 | 1,082 | 1,082 |
| P.G Secondary 2015 | 38,000 | 15,740 | 15,220 |
| P.G Direct Infrastructure 2015 | 43,600 | 9,598 | 7,640 |
| **Cyfanswm Doleri** | **88,600** | **26,420** | **23,942** |

Mae 'PG' uchod yn cyfeirio at y Partners Group, y rheolwr buddsoddi sy'n buddsoddi mewn meysydd 'amgen' (ecwiti preifat ac isadeiledd) ar ran y Gronfa.

Mae'r ymrwymiadau hyn yn ymwneud â thaliadau galw sy'n aros ar gronfeydd partneriaethau cyfyngedig heb eu dyfynnu a ddelir yn rhan ecwiti preifat y portffolio. Mae'r symiau a 'elwir' gan y cronfeydd hyn yn afreolaidd o ran eu maint a'u hamseriad dros nifer o flynyddoedd o ddyddiad yr ymrwymiad gwreiddiol.

## NODYN 25 - ASEDAU DIBYNNOL

Mae dau o gyflogwyr sy'n gyrff a ganiateir yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn dal bondiau yswiriant i'w diogelu yn erbyn y posibilrwydd o fethu â bodloni eu goblygiadau pensiwn.  Llunnir y bondiau hyn o blaid y Gronfa ac ni wneir taliad ohonynt oni bai bod y cyflogwr yn methu talu.

## NODYN 26 -  YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ni nodwyd unrhyw ymrwymiadau dibynnol.

## NODYN 27 -  COLLEDION YN SGIL AMHARIADAU

Nid oes unrhyw golledion yn sgil amhariadau.

# 10. Atodiadau

## 10.1 Datganiad Strategaeth Cyllido

## 1 Croeso i'r Datganiad Strategaeth Cyllido

Mae'r ddogfen yma yn gosod Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd, sef yr awdurdod gweinyddu. Bu Cyngor Gwynedd yn gweithio gydag actiwari'r Gronfa, Hymans Robertson, i baratoi'r DSC hwn sy'n weithredol o 27 Mawrth 2023.

Mae gofyniad rheoliadol i Gyngor Gwynedd baratoi DSC. Gallwch ddarganfod mwy am y fframwaith rheoleiddio yn Atodiad A. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y DSC, cysylltwch â delythwynjonesthomas@gwynedd.llyw.cymru.

### 1.1 Beth yw Cronfa Bensiwn Gwynedd?

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y CPLIL yn www.lgpsmember.org. Yr awdurdod gweinyddu sy'n rhedeg y Gronfa ar ran y cyflogwyr sy'n cymryd rhan, eu gweithwyr a phensiynwyr presennol a phensiynwyr y dyfodol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am rolau a chyfrifoldebau yn Atodiad B.

## 1.2 Beth yw amcanion y strategaeth gyllido?

Amcanion y strategaeth gyllido yw:

- cymryd golwg hirdymor doeth i sicrhau'r gofyniad rheoliadol ar gyfer hylifedd hirdymor, gyda digon o arian i dalu buddion i aelodau a'u dibynyddion

- defnyddio strategaeth fuddsoddi gytbwys i leihau cyfraniadau arian parod hirdymor gan gyflogwyr a chwrdd â'r gofyniad rheoliadol ar gyfer effeithlonrwydd cost hirdymor

- lle bo'n briodol, sicrhau cyfraddau cyfraniadau sefydlog gan gyflogwyr

- adlewyrchu nodweddion gwahanol gyflogwyr i osod eu cyfraddau cyfrannu, gan ddefnyddio strategaeth gyllido dryloyw

- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg y bydd cyflogwr yn methu â chyflawni ei ymrwymiadau pensiwn

## 1.3 Pwy mae'r DSC ar ei gyfer?

Mae'r DSC yn bennaf ar gyfer cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa, oherwydd mae'n nodi sut y bydd arian yn cael ei gasglu ganddynt i fodloni ymrwymiadau'r Gronfa i dalu buddion aelodau.

Mae gwahanol fathau o gyflogwyr yn cymryd rhan yn y Gronfa:

**Cyrff ar yr atodlen**

Cyflogwyr a nodir mewn atodlen i reoliadau CPLIL, megis cynghorau. Rhaid i gyrff ar yr atodlen roi mynediad i'r CPLIL i weithwyr os na allant gronni buddion mewn cynllun pensiwn arall, megis cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall.

**Cyrff a benderfynir**

Gall cyflogwyr fel cynghorau tref a phlwyf ymuno â'r CPLIL trwy benderfyniad. Os caiff penderfyniad ei basio, ni all y Gronfa wrthod mynediad. Yna mae'r cyflogwr yn penderfynu pa weithwyr all ymuno â'r cynllun.

**Cyrff a ganiateir**

Gall cyflogwyr eraill ymuno trwy gytundeb derbyn. Gall y Gronfa osod meini prawf cyfrannu ar eu cyfer a gallant wrthod mynediad os na chaiff y gofynion eu bodloni. Mae'r math hwn o gyflogwr yn cynnwys contractwyr sy'n darparu gwasanaethau allanol fel glanhau neu arlwyo i gorff rhestredig.

Efallai y cyfeirir at rai cyflogwyr presennol fel Cyrff Cymunedol a Ganiateir. Mae'r rhain yn gyflogwyr sydd â chymuned o ddiddordeb gyda chyflogwr cynllun arall. Gall eraill gael eu galw'n Gyrff Trosglwyddai a Ganiateir, sy'n darparu gwasanaethau i gyflogwyr y cynllun. Nid yw'r termau hyn wedi'u diffinio o dan reoliadau cyfredol ond maent yn parhau i gael eu defnyddio'n gyffredin o reoliadau blaenorol.

## 1.4 Sut mae'r strategaeth buddsoddi yn cysylltu gyda'r strategaeth gyllido?

Mae'r strategaeth gyllido yn nodi sut y bydd arian yn cael ei gasglu gan gyflogwyr i fodloni ymrwymiadau'r Gronfa. Yna caiff cyfraniadau, asedau ac incwm arall eu buddsoddi yn unol â

strategaeth fuddsoddi a bennir gan yr awdurdod gweinyddu. Gallwch ddod o hyd i'r strategaeth fuddsoddi yn www.cronfabensiwngwynedd.cymru.

Mae cysylltiad agos rhwng y strategaethau gyllido a buddsoddi. Rhaid i'r Gronfa allu talu buddion pan fyddant yn ddyledus – telir y taliadau hynny o gyfuniad o gyfraniadau (trwy'r strategaeth gyllido) ac enillion ac incwm asedau (drwy'r strategaeth fuddsoddi). Os bydd enillion neu incwm ar fuddsoddiadau yn brin, ni fydd y Gronfa'n gallu talu buddion, felly byddai angen cyfraniadau uwch gan gyflogwyr. Mae'r ddau strategaeth hefyd yn ystyried credoau a pholisi Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa.

### 1.5 A yw'r strategaeth gyllido yn adlewyrchu'r strategaeth fuddsoddi?

Mae'r strategaeth gyllido yn gyson â'r strategaeth fuddsoddi. Pennir disgwyliadau enillion buddsoddi yn y dyfodol gan gyfeirio at y strategaeth fuddsoddi, gan gynnwys elw ar gyfer darbodusrwydd sy'n gyson â'r gofyniad rheoliadol bod cronfeydd yn cymryd 'golwg tymor hwy darbodus' o ymwymiadau ariannu (gweler Atodiad A).

### 1.6 Sut mae'r strategaeth gyllido yn benodol i Cronfa Bensiwn Gwynedd?

Mae'r strategaeth gyllido yn adlewyrchu nodweddion penodol cyflogwyr y Gronfa a'i strategaeth fuddsoddi ei hun.

## 2 Sut mae'r Gronfa yn cyfrifo cyfraniadau cyflogwr?

### 2.1 Cyfrifo cyfraniadau cyfrifo

Pennir cyfraddau cyfraniadau gweithwyr gan y rheoliadau CPLIL

Mae cyfraniadau cyflogwyr yn cynnwys dwy elfen:

- **cyfraniad cynradd**– cyfraniadau sy'n daladwy tuag at fuddion yn y dyfodol
- **cyfraniad eilradd** – y gwahaniaeth rhwng y gyfradd sylfaenol a chyfanswm cyfraniad y cyflogwr

Mae'r gyfradd cynradd hefyd yn cynnwys lwfans ar gyfer treuliau'r Gronfa.

Mae actiwari'r Gronfa yn defnyddio model i ragamcanu cyfran asedau pob cyflogwr dros ystod o senarios economaidd yn y dyfodol. Mae'r gyfradd gyfrannu yn cymryd asedau pob cyflogwr i ystyriaeth yn ogystal â'r buddion rhagamcanol sy'n ddyledus i'w haelodau. Cyfrifir gwerth y buddion rhagamcanol gan ddefnyddio data aelodaeth cyflogwyr a'r tybiaethau yn Atodiad Ch.

Mae cyfanswm cyfradd cyfraniadau pob cyflogwr wedyn yn seiliedig ar:

- **y targed cyllido** – faint o arian y mae'r Gronfa yn ceisio ei ddal ar gyfer pob cyflogwr
- **y gorwel amser** – yr amser y mae'r cyflogwr yn anelu at gyrraedd y targed ariannu drosto
- **y tebygolrwydd o lwyddiant** – cyfran y senarios wedi'u modelu lle mae'r targed ariannu wedi'i gyrraedd.

Mae'r ymagwedd hon yn ystyried proffil aeddfedu'r aelodaeth wrth osod cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr.

Mae'r Gronfa'n caniatáu talu cyfraniadau cyflogwr o dan amgylchiadau penodol. Manylir ar bolisi'r Gronfa ar ragdaliadau yn **Atodiad D**.

## 2.2 Cyfrifiad cyfradd y cyfraniad

**Tabl 1: cyfrifiad cyfradd cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr unigol neu wedi'i pwlio**

| Math o gyflogwr | Cyrff ar yr Atodlen a Cyrff a Benderfynir | Colegau, Cyrff Cymunedol a Ganiateir a Cyflogwyr Dynodedig | Cyrff Trosglwyddai a Ganiateir |
|---|---|---|---|

| Is-fath | Cynghorau Lleol, Heddlu a Parc Cenedlaethol Eryri | Cynghorau Plwyf a Tref | Agored i gyflogwyr newydd | Wedi cau i gyflogwyr newydd | (i gyd) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Targed ariannu*** | Sail cyfranogiad parhaus, yn rhagdybio cyfranogiad hirdymor y Gronfa | Sail cyfranogiad parhaus, yn rhagdybio cyfranogiad hirdymor y Gronfa | Sail cyfranogiad parhaus, ond gall symud i sail gadael risg isel | | Sail ymadael contractwr, gan dybio contract cyfnod penodol yn y Gronfa |
| **Tebygolrwydd lleiaf o lwyddiant** | 70% | 75% | 75% | 75% | 75% |
| **Uchafswm y gorwel amser** | 17 mlynedd | 17 mlynedd | 14 mlynedd | 14 mlynedd neu oes waith gyfartalog yn y dyfodol, os yn llai | Cyfnod contract sydd yn weddill |
| **Dull cyfradd cynradd** | Rhaid i'r cyfraniadau fod yn ddigonol i gwrdd â chost buddion a enillir yn y dyfodol gyda'r tebygolrwydd gofynnol o lwyddiant ar ddiwedd y cyfnod amser. | | | | |
| **Cyfradd eilradd** | Canran o'r cyflog | | | | |
| **Cyfradd cyfraniadau sefydlog?** | Ia | Na | Na | Na | Na |
| **Triniaeth gwarged** | Wedi'i gwmpasu gan drefniant sefydlogi | Lleihau cyfraniadau drwy gyfradd eilaidd negyddol | Lleihau cyfraniadau drwy gyfradd eilaidd negyddol | | Lleihau cyfraniadau drwy wasgaru'r gwarged dros weddill tymor y contract |
| **Cyflwyno newidiadau cyfraniadau fesul cam** | Wedi'i gwmpasu gan drefniant sefydlogi | 3 mlynedd | 3 mlynedd | 3 mlynedd | Dim |

** Bydd cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa o dan gytundeb pasio drwodd yn talu cyfradd gyfrannu fel y cytunwyd rhwng y contractwr a'r awdurdod gosod.*

*** Gweler Atodiad Ch am ragor o wybodaeth am dargedau ariannu.*

## 2.3 Gwneud cyfraddau cyfraniadau yn sefydlog

Mae gwneud cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn weddol sefydlog yn amcan ariannu pwysig. Lle bo'n briodol, pennir cyfraniadau gyda'r amcan hwn mewn golwg. Mae'r Gronfa yn mabwysiadu dull sefydlog o osod cyfraniadau ar gyfer rhai cyflogwyr, sydd naill ai

- yn cadw amrywiadau cyfraniadau o fewn ystod a bennwyd ymlaen llaw o flwyddyn i flwyddyn, neu
- yn lleddfu anweddolrwydd cyfradd cyfraniadau dros amser trwy fecanwaith fesul cam

Ar ôl derbyn cyngor gan actiwari'r Gronfa, mae'r awdurdod gweinyddu o'r farn bod dull sefydlog o weithredu yn strategaeth hirdymor ddarbodus ar gyfer awdurdodau lleol, Heddlu a Pharc Cenedlaethol Eryri y Gronfa.

Ar gyfer y cyrff hyn, mae'r Gronfa yn pennu ystodau a bennwyd ymlaen llaw ar gyfer amrywiadau mewn cyfraniadau. Ar gyfer prisiad 2022, cytunwyd bod pob cyflogwr sefydlog yn agored i ostyngiadau yn eu cyfraddau sy'n gysylltiedig â'u cyfraddau cynradd ar gyfer 2022. Mae maint y gostyngiad yn dibynnu ar lefel ariannu 2022 (h.y. dim gostyngiad os caiff ei ariannu o dan 110%, gostyngiad o 1.0% os caiff ei ariannu rhwng 110% a 115%, gostyngiad o 2.0% os caiff ei ariannu rhwng 115% a 130%, a 3.0 % gostyngiad os caiff ei ariannu uwchlaw 130%).

Mae'r symudiadau tymor hwy mewn cyfraddau cyfraniadau yn ddarostyngedig i'r rheolau canlynol:

**Tabl 2: amrywiadau mewn cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr sefydlog**

| Math o gyflogwr | Cynghorau Lleol, Heddlu a Parc Cenedlaethol Eryri |
|---|---|
| **Cynnydd uchaf y cyfraniad y flwyddyn** | +1.0% o'r cyflog |
| **Lleihad uchaf y cyfraniad y flwyddyn** | -1.0% o'r cyflog |

Mae cynnydd a gostyngiadau i gyfraddau ar gyfer cyrff a ganiateir yn amodol ar fecanwaith fesul cam. Ar gyfer prisiad 2022, pennir hyn drwy gyfrifo'r gwahaniaeth yng nghyfanswm y cyfraddau yn 2019 a 2022 cyn cymhwyso'r mecanwaith, ac yna cyfyngu ar y cynnydd neu'r gostyngiad dilynol fel a ganlyn: a) os yw'r gwahaniaeth yn 5.0% neu lai o gyflog, y bydd y gyfradd yn newid yn ôl y gwahaniaeth llawn, neu b) os yw'r gwahaniaeth yn fwy na 5.0% o'r tâl, yna bydd y gyfradd yn newid 5.0% ynghyd â hanner y gwahaniaeth uwchlaw 5.0%.

Bydd gostyngiadau cyfraddau ar gyfer cyflogwyr sefydlog, a'r cyflogwyr hynny sy'n destun y mecanwaith cyflwyno fesul cam, yn berthnasol yn llawn o 2023/24. Bydd unrhyw gynnydd mewn cyfraddau yn cael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o 3 blynedd.

Caiff cymhwyster ar gyfer y dull sefydlogi a'r mecanwaith graddoli, a'r terfynau rhifiadol, eu hadolygu yn ystod pob proses brisio bob tair blynedd. Gall yr awdurdod gweinyddu hefyd eu hadolygu rhwng prisiadau er mwyn ymateb i newidiadau aelodaeth neu gyflogwyr.

### 2.4 Adolygu cyfraniadau rhwng prisiadau

Gall y Gronfa ddiwygio cyfraddau cyfraniadau rhwng prisiadau ffurfiol, yn unol â'i pholisi ar adolygu cyfraniadau. Mae polisi'r Gronfa ar gael yn Atodiad Dd. Pwrpas unrhyw adolygiad yw sefydlu'r cyfraniadau mwyaf priodol. Gall adolygiad arwain at gynnydd neu ostyngiad mewn cyfraniadau.

### 2.5 A oes cyflogwyr wedi'u pwlio?

Ar hyn o bryd nid yw'r awdurdod gweinyddol yn gweithredu cronfeydd cyfradd cyfraniadau ffurfiol ar gyfer mathau tebyg o gyflogwyr.

Yr unig gyflogwyr y gellir eu cyfuno yw'r rhai sydd â chytundeb rhannu risg neu fath arall o gytundeb rhannu risg gydag awdurdod gosod. Ceir manylion polisi pasio drwodd y Gronfa yn **Atodiad E.**

### 2.6 Disgresiwn yr Awdurdod Gweinyddol

Gall cyflogwyr unigol gael eu heffeithio gan amgylchiadau nad ydynt yn hawdd eu rheoli o fewn rheolau a pholisïau DSC. Os bydd hyn yn digwydd, gall yr awdurdod gweinyddu fabwysiadu dulliau cyllido amgen fesul achos.

Yn ogystal, gall yr awdurdod gweinyddu ganiatáu mwy o hyblygrwydd i gyfraniadau'r cyflogwr os darperir sicrwydd ychwanegol. Gallai hyblygrwydd gynnwys pethau fel cyfradd cyfraniadau is, gorwel amser estynedig, neu ganiatâd i ymuno â phwl. Gall gwarant ychwanegol gynnwys bond addas, gwarant cyfreithiol rwymol gan drydydd parti priodol, neu warant dros ased.

Mae'r Gronfa'n caniatáu talu cyfraniadau cyflogwr ymlaen llaw o dan amgylchiadau penodol. Ceir rhagor o fanylion ym mholisi'r Gronfa y manylir arno yn **Atodiad D.**

## 3 Pa gyfraniadau ychwanegol all fod yn daladwy?

### 3.1 Costau pensiwn- dyfarnu pensiwn ychwanegol ac ymddeoliad cynnar ar sail nad yw'n ymwneud a salwch

Os bydd cyflogwr yn dyfarnu pensiwn ychwanegol fel swm budd blynyddol, mae'n talu cyfraniad ychwanegol i'r gronfa fel un taliad lwmp swm. Pennir y swm gan ganllawiau a gyhoeddir gan Adran Actiwari'r Llywodraeth a chânt eu diweddaru o bryd i'w gilydd.

Os bydd gweithiwr yn ymddeol cyn ei oedran ymddeol arferol ar fudd-daliadau heb eu lleihau, efallai y gofynnir i gyflogwyr dalu cyfraniadau ychwanegol a elwir yn daliadau straen.

Mae cyflogwyr fel arfer yn gwneud taliadau straen fel un taliad, er y gall taliadau straen gael eu lledaenu os yw'r awdurdod gweinyddu'n cytuno:

| | |
|---|---|
| Prif gyrff cyflogi | - hyd at 5 mlynedd |
| Cyrff Cymunedol a Ganiateir a Cyflogwyr Dynodedig | - hyd at 3 mlynedd |
| Cyrff Trosglwyddai a Ganiateir | - taladwy yn syth |

### 3.2 Costau pensiwn – ymddeoliad cynnar ar sail iechyd

Os bydd aelod yn ymddeol yn gynnar oherwydd iechyd, rhaid i'w gyflogwr dalu straen ariannu, a all fod yn swm mawr.

Mae'r awdurdod gweinyddu wedi trefnu polisi yswiriant allanol i dalu am straen ymddeoliad cynnar ar sail iechyd i gyflogwyr llai. Mae cyfraniad pob cyflogwr yn cynnwys cyfran o'r premiwm. Pan fydd aelod gweithredol yn ymddeol ar ymddeoliad cynnar ar sail iechyd, mae swm yr hawliad yn cael ei gredydu i gyfran ased y cyflogwr.

Ar gyfer cyflogwyr eraill, mae cyfraniadau pob cyflogwr yn cynnwys lwfans ar gyfer costau straen iechyd disgwyliedig. Caiff y costau hyn eu monitro fel rhan o'r broses brisio bob tair blynedd.

Mae polisi y Gronfa wedi ei fanylu yn **Atodiad F**.

# 4 Sut mae'r Gronfa yn cyfrifo asedau ac ymrwymiadau?

## 4.1 Sut mae cyfrannau asedau cyflogwr yn cael eu cyfrifo?

Mae'r Gronfa yn mabwysiadu dull llif arian i olrhain asedau cyflogwyr unigol.

Mae'r gronfa'n defnyddio system HEAT Hymans Robertson i olrhain asedau cyflogwyr bob mis. Mae asedau pob cyflogwr o ddiwedd y mis blaenorol yn cael eu hychwanegu at lif arian misol a delir i mewn/allan ac enillion ar fuddsoddiadau i roi gwerth ased diwedd mis newydd.

Os bydd gweithiwr yn symud o un cyflogwr i'r llall o fewn y Gronfa, bydd asedau sy'n cyfateb i'r gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod yn symud o'r cyflogwr gwreiddiol i gyfran ased y cyflogwr sy'n derbyn.

Fel arall, os bydd gweithwyr yn symud pan fydd contract wedi'i gontractio'n allanol yn dechrau, bydd actiwari'r Gronfa yn cyfrifo asedau sy'n gysylltiedig â gwerth yr ymrwymiadau sy'n trosglwyddo (gweler adran 5).

## 4.2 Sut mae ymrwymiadau cyflogwr yn cael ei gyfrifo?

Mae'r Gronfa yn cadw data aelodaeth ar gyfer yr holl aelodau gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr. Yn seiliedig ar y data hwn a'r rhagdybiaethau yn Atodiad Ch, mae actiwari'r Gronfa yn rhagamcanu'r buddion disgwyliedig i'r holl aelodau i'r dyfodol. Mynegir hyn fel un gwerth – yr ymrwymiadau – drwy ganiatáu ar gyfer enillion buddsoddi disgwyliedig yn y dyfodol.

Mae ymrwymiadau pob cyflogwr yn adlewyrchu profiad eu gweithwyr a'u cyn-weithwyr eu hunain.

## 4.3 Beth yw'r lefel cyllido?

Lefel cyllido cyflogwr yw cymhareb gwerth marchnad cyfran ased yn erbyn ymrwymiadau. Os yw hyn yn llai na 100%, mae gan y cyflogwr ddiffyg: diffyg y cyflogwr. Os yw'n fwy na 100%, mae gan y cyflogwr warged. Swm y diffyg neu warged yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth yr ased a gwerth yr ymrwymiadau.

Mae lefelau ariannu a gwerthoedd diffyg/gwarged yn mesur pwynt penodol mewn amser, yn seiliedig ar gyfres benodol o ragdybiaethau ar gyfer y dyfodol. Er bod y mesur hwn o ddiddordeb, i'r rhan

fwyaf o gyflogwyr y prif fater yw lefel y cyfraniadau sy'n daladwy. Nid yw lefel y cyllid yn gyrru cyfraddau cyfrannu yn uniongyrchol. Gweler adran 2 am ragor o wybodaeth am gyfraddau.

# 5 Beth sydd yn digwydd pan mae cyflogwr yn ymuno gyda'r Gronfa?

## 5.1 Pryd gall gyflogwr ymuno gyda'r Gronfa

Gall cyflogwyr ymuno â'r Gronfa os ydynt yn gorff newydd ar yr atodlen neu'n gorff a ganiateir. Gall cyflogwyr dynodedig newydd hefyd ymuno â'r Gronfa os byddant yn pasio dynodiad i wneud hynny.

Wrth ymuno, bydd y Gronfa'n pennu asedau ac ymrwymiadau'r cyflogwr hwnnw o fewn y Gronfa. Bydd y cyfrifiad yn dibynnu ar y math o gyflogwr ac amgylchiadau ymuno.

Bydd cyfradd cyfraniad hefyd yn cael ei gosod. Bydd hyn yn cael ei osod yn unol â'r cyfrifiad a nodir yn Adran 2, oni bai bod trefniadau eraill yn berthnasol (er enghraifft, mae'r cyflogwr wedi cytuno ar drefniant pasio drwodd). Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Adran 5.2 isod.

## 5.2 Cyrff a ganiateir newydd o ganlyniad i roi gwasanaethau ar gontract allanol

Mae cyrff a ganiateir newydd fel arfer yn ymuno â'r Gronfa oherwydd bod cyflogwr presennol (fel arfer corff rhestredig fel cyngor) yn rhoi gwasanaeth ar gontract i sefydliad arall (contractwr). Mae hyn yn golygu trosglwyddo staff TUPE o'r awdurdod gosod i'r contractwr. Daw'r contractwr yn gyflogwr newydd i'r Gronfa sy'n cymryd rhan am gyfnod y contract ac mae gweithwyr sy'n trosglwyddo yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer aelodaeth CPLIL. Ar ddiwedd y contract, mae gweithwyr fel arfer yn dychwelyd i'r awdurdod gosod neu gontractwr newydd.

Bydd yr ymrwymiadau ar gyfer trosglwyddo aelodau gweithredol yn cael eu cyfrifo gan actiwari'r Gronfa ar y diwrnod cyn i'r gwaith allanol ddigwydd.

Bydd contractwyr newydd yn cael cyfran ased sy'n cyfateb i werth yr ymrwymiadau sy'n trosglwyddo. Gall y cytundeb derbyn bennu dyraniad asedau cychwynnol gwahanol, yn dibynnu ar amgylchiadau contract-benodol.

Mae hyblygrwydd ar gyfer rhoi cyflogwyr ar gontract allanol o ran risg pensiwn y gallai'r contractwr ei ysgwyddo. Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion am opsiynau ar gontract allanol gan yr awdurdod gweinyddu neu yn y cytundeb derbyn contract.

Polisi'r Gronfa yw caniatáu i bob corff a ganiateir gael ei sefydlu gyda threfniant pasio drwodd, yn ôl disgresiwn yr awdurdod gosod. Manylir ar bolisi'r Gronfa ar basio drwodd yn **Atodiad E**.

## 5.3 Cyflogwyr newydd eraill

Gall fod amgylchiadau eraill sy'n arwain at corff a ganiateir ymuno â'r Gronfa, ee sefydlu is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Awdurdod Lleol. Bydd asedau ac ymrwymiadau wrth ymuno a chyfradd gyfrannu yn cael eu gwneud gan ystyried amgylchiadau'r cyflogwr newydd.

Gall cyflogwyr dynodedig newydd ymuno â'r Gronfa hefyd. Cynghorau tref a phlwyf yw'r rhain fel arfer. Bydd cyfraddau cyfraniadau'n cael eu pennu gan ddefnyddio'r un dull â chyflogwyr dynodedig eraill yn y Gronfa.

## 5.4 Asesiad risg ar gyfer corff a ganiateir newydd

O dan reoliadau'r CPLlL, rhaid i gorff a ganiateir newydd asesu'r risgiau y mae'n eu peri i'r Gronfa os daw'r cytundeb i ben yn gynnar, er enghraifft os yw'r corff yn mynd yn fethdalwr neu'n mynd i'r wal. Yn ymarferol, mae actiwari'r Gronfa yn asesu hyn oherwydd bod yn rhaid i'r asesiad gael ei gynnal i foddhad yr awdurdod gweinyddu.

Ar ôl ystyried yr asesiad, gall yr awdurdod gweinyddu benderfynu bod yn rhaid i'r corff derbyn ddarparu sicrwydd, megis gwarant gan y cyflogwr gosod, indemniad neu fond.

Rhaid i hyn gynnwys rhai neu bob un o'r rhain:

- costau straen unrhyw ymddeoliadau cynnar, os caiff gweithwyr eu diswyddo pan ddaw contract i ben yn gynamserol
- lwfans ar gyfer y risg na fydd asedau'n perfformio cystal â'r disgwyl
- lwfans ar gyfer y risg bod ymrwymiadau yn uwch na'r disgwyl
- lwfans ar gyfer y posibilrwydd o beidio â thalu cyfraniadau cyflogwr ac aelod
- diffyg presennol y corff a ganiateir

Bydd y Gronfa'n asesu amgylchiadau unigryw'r cyflogwr ei hun wrth ystyried a ellir derbyn y corff i'r Gronfa. Bydd hyn yn cymryd yr ystyriaethau uchod i ystyriaeth.

Mae'r rheoliadau'n datgan y caiff awdurdod gweinyddu wneud cytundeb derbyn gydag unrhyw gorff sy'n dod o dan Atodlen 2 Rhan 3 1(d(i) (a elwid gynt yn gorff trosglwyddai a ganiateir) Yn ogystal â'r gofynion o fewn y rheoliadau, bydd y Gronfa'n gosod cytundeb derbyn. Bydd angen i bob un o'r tri pharti i'r cytundeb derbyn gytuno ar y telerau mynediad - Cyflogwr y Cynllun, y corff derbyn a Chyngor Gwynedd yn rhinwedd ei swydd fel gweinyddwr y Gronfa.

Mae'r rheoliadau hefyd yn datgan y caiff awdurdod gweinyddu wneud cytundeb derbyn ag unrhyw gorff sy'n dod o dan Atodlen 2 Rhan 3 1(a) (a elwid gynt yn gorff cymunedol a ganiateir). Yn ogystal

â'r gofynion a nodir yn y rheoliadau, bydd y Gronfa'n rhoi cytundeb derbyn ar waith pan fo awdurdod lleol wedi cytuno i weithredu fel gwarantwr, ac felly bydd yn barti i'r cytundeb derbyn.

Os bydd yr awdurdod gweinyddol yn ystyried ei bod yn briodol derbyn corff newydd i'r Gronfa, bydd cytundeb derbyn yn cael ei roi ar waith sy'n cwmpasu amgylchiadau penodol y cyflogwr hwnnw.

Mae rhai o'r materion allweddol y bydd angen cytuno arnynt cyn derbyn cyflogwr newydd i'r Gronfa yn cynnwys:

• Ar ba delerau y gellir derbyn y corff a dderbynnir i'r Gronfa

• Manylion unrhyw aelodau sy'n gymwys i drosglwyddo i'r corff a dderbyniwyd

• Y dull o ddyrannu asedau i'r corff a dderbynnir a phennu cyfraniadau

• A oes angen unrhyw warant neu indemniad

• Pa mor aml y gwneir gwaith monitro parhaus o'r sefyllfa ariannu

• Ar ba sail y bydd unrhyw brisiad terfynu yn cael ei gynnal

• Manylion unrhyw gytundeb rhannu risg neu basio drwodd, gan gynnwys a allai'r corff a ganiateir fod yn gymwys i gael credyd ymadael.

• Os yw'r corff a dderbynnir yn gymwys i gael cyfradd gyfrannu gyfun, sut y caiff hon ei phennu

• Adennill costau ymddeoliad salwch ac ymddeoliad cynnar

Pwrpas ystyriaeth yr awdurdod gweinyddu yw lleihau'r risg o draws-gymorthdalu ymrwymiadau rhwng cyflogwyr, a cheisio sicrhau diogelwch cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa.

## 6 Beth fydd yn digwydd os bydd cyflogwr yn trosglwyddo staff mewn swmp?

Bydd trosglwyddiadau mewn swmp yn cael ei edrych arnynt yn unigol, ond yn gyffredinol:

- Ni fydd y Gronfa'n talu trosglwyddiadau swmp sy'n fwy mewn gwerth na chyfran ased y cyflogwr sy'n trosglwyddo yn y Gronfa, na gwerth ymrwymiadau'r aelodau sy'n trosglwyddo, pa un bynnag sydd isaf.
- ni fydd y Gronfa yn rhoi buddion ychwanegol i aelodau sy'n dod â hawliau i mewn o gronfa arall, oni bai bod y trosglwyddiad ased yn ddigon i gwrdd â ymrwymiadau ychwanegol
- gall y Gronfa ganiatáu diffygion ar drosglwyddiadau swmp os oes gan y cyflogwr gyfamod addas a'i fod yn ymrwymo i gwrdd â'r diffyg mewn cyfnod priodol, a allai olygu bod angen cynyddu cyfraniadau rhwng prisiadau.

# 7 Beth sydd yn digwydd pan mae cyflogwr yn gadael y Gronfa?

## 7.1 Beth yw digwyddiad darfod?

Digwyddiadau ar gyfer ystyried rhoi'r gorau i'r Gronfa yw:

- mae'r aelod gweithredol olaf wedi stopio cyfrannu i'r Gronfa. Gall yr awdurdod gweinyddu, yn ôl ei ddisgresiwn, ohirio gweithredu am hyd at dair blynedd drwy gyhoeddi hysbysiad atal. Mae hynny'n golygu na fydd terfyniad yn cael ei sbarduno os yw'r cyflogwr yn cyflogi un neu fwy o aelodau gweithredol yn ystod yr amser y cytunwyd arno

- ansolfedd, dirwyn i ben neu ymddatod y corff
- torri unrhyw ymrwymiad yn y cytundeb derbyn nad ydynt yn cael eu hunioni i foddhad y Gronfa
- methiant i dalu unrhyw symiau dyledus o fewn y cyfnod gofynnol
- methiant i adnewyddu neu addasu lefel bond neu indemniad, neu i gadarnhau gwarantwr amgen priodol
- terfynu trefniant dyled gohiriedig.

Os does dim trefniant dyled gohiriedig mewn lle, bydd yr awdurdod gweinyddu yn cyfarwyddo actiwari'r Gronfa i gynnal prisiad terfynol er mwyn cyfrifo a oes gwarged neu ddiffyg pan fydd y cyflogwr yn gadael y Gronfa.

### 7.2 Beth sydd yn digwydd pan mae cyflogwr yn darfod?

Mae'n rhaid i'r awdurdod gweinyddu ddiogelu buddiannau gweddill cyflogwyr y Gronfa pan fydd cyflogwr yn gadael y cynllun. Nod yr actiwari yw amddiffyn y cyflogwyr sy'n weddill rhag y risg o golled yn y dyfodol. Mae'r targed ariannu a fabwysiadwyd ar gyfer y cyfrifiad terfynu isod. Diffinnir y rhain yn Atodiad Ch.

(a) Lle nad oes gwarantwr, bydd ymrwymiadau terfynu a gwarged/diffyg terfynol fel arfer yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio sail risg isel, sy'n fwy darbodus na'r sail cyfranogiad parhaus. Diffinnir y sail gadael risg isel yn Atodiad Ch.

(b) Os oes gwarantwr, bydd y warant yn cael ei hystyried cyn y prisiad terfynu. Pan fo'r gwarantwr yn warantwr pan mae popeth arall wedi methu, ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar y prisiad terfynu. Os nad yw hyn yn wir, gellir cyfrifo terfyniad gan ddefnyddio'r un sail a ddefnyddiwyd i gyfrifo ymrwymiadau (a'r gyfran ased cyfatebol) wrth ymuno â'r Gronfa.

(c) Yn dibynnu ar y gwarant, efallai y bydd modd trosglwyddo ymrwymiadau ac asedau'r cyflogwr i'r gwarantwr heb grisialu diffygion neu warged. Gall hyn ddigwydd os na all cyflogwr dalu'r cyfraniadau sy'n ddyledus a bod y dull o weithredu o fewn telerau'r gwarant.

Os na all y Gronfa adennill y taliad gofynnol yn llawn, bydd symiau heb eu talu yn cael eu talu gan yr awdurdod gosod cysylltiedig (yn achos corff a ganiateir sy'n dod i ben) neu'n cael ei rannu rhwng cyflogwyr eraill y Gronfa. Gall hyn olygu bod angen adolygu'r dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau ar unwaith neu gael ei adlewyrchu yn y cyfraddau cyfrannu a bennwyd yn y prisiad ffurfiol nesaf.

Mae actiwari'r Gronfa yn codi ffi am brisiadau terfynu ac efallai y bydd costau terfynu eraill. Mae ffioedd a threuliau ar draul y cyflogwr ac yn cael eu tynnu o'r gwarged terfynu neu eu hychwanegu at y diffyg terfynu. Mae hyn yn gwella effeithlonrwydd drwy leihau trafodion rhwng y cyflogwr a'r Gronfa.

Mae'r polisi ar adael y Gronfa yn **Atodiad Ff**.

### 7.3 Beth sydd yn digwydd os oes gwarged?

Os yw'r prisiad terfynu yn dangos bod gan y cyflogwr sy'n gadael fwy o asedau na ymrwymiadau – credyd ymadael – gall yr awdurdod gweinyddu benderfynu faint fydd yn cael ei dalu'n ôl i'r cyflogwr ar sail:

- swm y gwarged
- cyfran y gwarged oherwydd cyfraniadau'r cyflogwr
- unrhyw sylwadau (fel cytundebau rhannu risg neu warantau) a wneir gan y cyflogwr sy'n gadael ac unrhyw gyflogwr sy'n darparu gwarant neu ryw fath arall o gymorth cyflogwr
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

Manylir ar ddull y Gronfa o ymdrin â chredydau ymadael yn y polisi gadael yn **Atodiad Ff.**

### 7.4 Sut mae cyflogwyr yn ad-dalu dyledion terfynu?

Os oes diffyg, bydd disgwyl taliad llawn mewn un taliad neu:

- wedi'i wasgaru dros gyfnod y cytunwyd arno, os yw'r cyflogwr yn ymrwymo i gytundeb gwasgaru gohiriedig (DSA)
- os bydd cyflogwr sy'n gadael yn ymrwymo i drefniant dyled ohiriedig, mae'n aros yn y Gronfa ac yn talu cyfraniadau nes bod y ddyled terfynu wedi'i had-dalu. Caiff taliadau eu hailasesu ym mhob prisiad ffurfiol

Manylir ar bolisi hyblygrwydd cyflogwyr wrth ymadael yn y polisi ar adael y Gronfa yn **Atodiad Ff**.

### 7.5 Beth os nad oes gan gyflogwr aelodau gweithredol?

Pan fydd cyflogwyr yn gadael y Gronfa oherwydd bod eu haelod gweithredol diwethaf wedi gadael, gallant dalu dyled terfynu, derbyn credyd ymadael neu fynd i mewn i DDA/DSA. Y tu hwnt i hyn nid oes ganddynt unrhyw ymrwymiadau bellach i'r Gronfa ac ychwaith:

a) daw eu cyfran ased i ben cyn i’r holl fuddion cyn-weithwyr gael eu talu. Bydd yn ofynnol i gyflogwyr eraill y Gronfa gyfrannu at weddill y buddion. Bydd actiwari’r Gronfa yn rhannu’r ymrwymiadau ar sail pro-rata mewn prisiadau ffurfiol dilynol.

b) bydd y cyn-weithiwr neu ddibynnydd olaf yn marw cyn i gyfran ased y cyflogwr ddod i ben yn llwyr. Bydd actiwari’r gronfa yn dosrannu’r asedau sy’n weddill i gyflogwyr eraill y Gronfa ar sail pro-rata.

## 8 Beth yw'r gofynion adrodd statudol?

### 8.1 Rheoliadau adrodd

Mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Adran Actiwari'r Llywodraeth adrodd ar gronfeydd CPLIL yng Nghymru a Lloegr ar ôl pob prisiad tair blynedd, yn yr hyn a elwir fel arfer yn adroddiad adran 13. Dylai'r adroddiad gynnwys cadarnhad bod cyfraniadau'r cyflogwr yn cael eu gosod ar y lefel gywir i sicrhau diddyledrwydd y Gronfa a'i heffeithlonrwydd cost hirdymor.

### 8.2 Diddyledrwydd

Gosodir cyfraniadau cyflogwyr ar lefel diddyledrwydd priodol os yw cyfradd y cyfraniad yn targedu lefel ariannu o 100% dros amser priodol, gan ddefnyddio tybiaethau priodol o gymharu â chronfeydd eraill. Naill ai:

(a) gall cyflogwyr ar y cyd gynyddu eu cyfraniadau, neu gall y Gronfa wireddu cynlluniau wrth gefn i dargedu lefel ariannu 100%

neu

(b) bod cynllun priodol ar waith os oes, neu os disgwylir y bydd, gostyngiad yng ngallu cyflogwyr i gynyddu cyfraniadau yn ôl yr angen.

### 8.3 Cost effeithlonrwydd hirdymor

Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn cael eu gosod ar lefel cost-effeithiolrwydd hirdymor priodol os yw'r gyfradd gyfrannu yn darparu ar gyfer cost cronni buddion cyfredol, gydag addasiad priodol ar gyfer unrhyw warged neu ddiffyg.

I asesu hyn, gall yr awdurdod gweinyddu ystyried ffactorau absoliwt a pherthnasol.

Mae ffactorau cymharol yn cynnwys:

1. cymharu cronfeydd CPLIL gyda'i gilydd
2. y cyfnod adfer diffyg ymhlyg
3. yr adenillion buddsoddi sydd eu hangen i sicrhau lefel cyllido llawn ar ôl 20 mlynedd.

Mae ffactorau absoliwt yn cynnwys:

1. cymharu cronfeydd gyda meincnod gwrthrychol
2. i ba raddau y bydd cyfraniadau'n talu am gost cronni buddion cyfredol a llog ar unrhyw ddiffyg
3. sut mae'r enillion buddsoddi gofynnol o dan ystyriaethau cymharol yn cymharu â'r enillion amcangyfrifedig yn y dyfodol a dargedir gan y strategaeth fuddsoddi
4. i ba raddau y mae cyfraniadau a dalwyd yn unol â chyfraniadau disgwyliedig, yn seiliedig ar y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau
5. sut mae unrhyw gynllun adfer diffyg newydd yn cysoni ag, ac yn gallu bod yn barhad o, unrhyw gynllun adfer diffyg blaenorol, gan ganiatáu ar gyfer profiad y Gronfa

Gall y metrigau hyn gael eu hasesu gan GAD ar sail safonedig sy'n ymwneud â'r farchnad lle nad yw seiliau actiwaraidd y Gronfa yn cynnig cymariaethau syml.

# Atodiadau

## Atodiad A - Y Fframwaith Rheoleiddio

### A1 Pam bod angen datganiad strategaeth cyllido?

Mae rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn gofyn i gronfeydd i gynnal a chyhoeddi datganiad strategaeth cyllido (DSC). Yn ôl yr Adran Lefelu i Fyny, Tai a Chymunedau (DLUHC) pwrpas y DSC yw dogfennu'r prosesau y mae'r awdurdod gweinyddol yn eu defnyddio i:

- *sefydlu **strategaeth glir a thryloyw sy'n benodol i'r gronfa** sy'n nodi'r ffordd orau o fodloni ymrwymiadau pensiwn cyflogwyr wrth symud ymlaen*
- *cefnogi'r fframwaith rheoleiddio i gynnal **cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr sydd mor gyson â phosibl***
- *sicrhau bod y Gronfa'n bodloni ei hamcanion **diddyledrwydd a chost effeithlonrwydd hirdymor***
- *cymryd **golwg tymor hwy doeth** ar ariannu'r ymrwymiadau hynny.*

I baratoi y DSC, mae'r awdurdod gweinyddol wedi defnyddio arweiniad gan Chartered Institute of Public Finance and Accountancy (CIPFA).

### A2 Ymgynghoriad

Mae rheoliadau CPLIL a chanllawiau diweddaraf CIPFA yn nodi y dylid paratoi'r DSC mewn ymgynghoriad â "*person y mae'r awdurdod yn eu hystyried yn briodol*". Dylid hyn gynnwys '*deialog ystyrlon… ag awdurdodau codi'r dreth gyngor a chynrychiolwyr cyflogwyr eraill sy'n cymryd rhan'.*

Yn ymarferol, ar gyfer y Gronfa, roedd y broses ymgynghori ar gyfer y DSC hwn fel a ganlyn:

- Mae fersiwn drafft o'r DSC wedi ei gyhoeddi i'r holl gyflogwyr sy'n cymryd rhan yn Ionawr 2023 ar gyfer sylwadau;
- Gofyn am sylwadau o fewn 42 diwrnod ;
- Yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori diweddarwyd y DSC lle bo angen ac yna ei gyhoeddi, ym mis Mawrth.

### A3 Sut mae'r DSC yn cael ei gyhoeddi?

Mae'r DSC ar gael drwy'r ffynonellau canlynol:

- Cyhoeddi ar y wefan
- Copi wedi'i anfon trwy e-bost at bob cyflogwr sydd yn y Gronfa
- Copi llawn wedi ei gyfeirio â'r adroddiad blynyddol a chyfrifon y Gronfa
- Copïau ar gael ar gais.

Mae'r DSC yn cael ei gyhoeddi ar Datganiad Strategaeth Cyllido (cronfabensiwngwynedd.cymru).

**A4 Pa mor aml mae'r DSC yn cael ei adolygu?**
Mae'r DSC yn cael ei adolygu mewn manylder o leiaf pob tair blynedd fel rhan o'r prisiad. Gellir gwneud diwygiadau cyn hynny os oes newidiadau rheoliadol neu weithredol. Ymgynghorir ar unrhyw ddiwygiadau, eu cytuno gan y Pwyllgor Pensiynau a'u cynnwys yng nghofnodion cyfarfod y Pwyllgor.

**A5 Sut mae'r DSC yn cyd-fynd â dogfennaeth gyffredinol y Gronfa?**
Mae'r DSC yn grynodeb safbwynt y Gronfa at ariannu ymrwymiadau. Nid yw'n hollgynhwysfawr – mae'r Gronfa'n cyhoeddi datganiadau eraill fel y datganiad strategaeth fuddsoddi, y datganiad polisi llywodraethu a'r datganiad polisi cyfathrebu. Mae adroddiad blynyddol a chyfrifon y Gronfa hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa.

Gallwch weld holl ddogfennaeth y Gronfa yn Cartref (cronfabensiwngwynedd.cymru)

## Atodiad B - Rolau a chyfrifoldebau

**B1 Yr Awdurdod Gweinyddol:**

1 yn gweithredu'r Gronfa ac yn dilyn holl reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL).

2 yn rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau o'i rôl ddeuol fel awdurdod gweinyddu a chyflogwr Cronfa

3 yn casglu cyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr, incwm buddsoddi a symiau eraill sy'n ddyledus

4 yn sicrhau bod arian parod ar gael i dalu buddion pan fyddant yn ddyledus

5 yn talu pob budd-dal a hawliadau

6 yn buddsoddi arian dros ben fel cyfraniadau ac incwm nad oes ei angen i dalu buddion ar unwaith, yn unol â rheoliadau a'r strategaeth fuddsoddi

7 cyfathrebu â chyflogwyr fel eu bod yn deall eu ymrwymiadau

8 yn diogelu'r Gronfa rhag diffygdalu gan gyflogwyr

9 yn gweithio gydag actiwari'r Gronfa i reoli'r broses brisio

10 yn darparu gwybodaeth i Adran Actiwari'r Llywodraeth er mwyn iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau statudol

11 yn ymgynghori ar y datganiadau strategaeth cyllido a buddsoddi, yn eu paratoi ac yn eu cynnal

12 yn hysbysu'r actiwari am newidiadau a allai effeithio ar gyllid

13 monitro perfformiad a chyllid y Gronfa, gan ddiwygio'r datganiadau strategaeth yn ôl yr angen

14 yn galluogi'r bwrdd pensiwn lleol i adolygu'r broses brisio.

**B2 Cyflogwyr unigol:**

1 tynnu'r cyfraniadau cywir o gyflog gweithwyr

2 talu'r holl gyfraniadau erbyn y dyddiad dyledus

3 bod â pholisïau priodol ar waith i weithio o fewn y fframwaith rheoleiddio

4 gwneud cyfraniadau ychwanegol fel y cytunwyd, er enghraifft i ychwanegu at fuddion cynllun neu straen ymddeoliad cynnar

5 hysbysu'r awdurdod gweinyddol yn brydlon am unrhyw newidiadau i amgylchiadau, rhagolygon neu aelodaeth a allai effeithio ar gyllid yn y dyfodol.

6 gwneud unrhyw daliadau ymadael gofynnol wrth adael y Gronfa

**B3 Actiwari'r Gronfa:**

1 paratoi prisiadau, gan gynnwys pennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr, cytuno ar dybiaethau, gweithio o fewn y DSC a rheoliadau CPLlL a thargedu'n briodol hylifedd y gronfa a chost-effeithiolrwydd hirdymor

2 yn darparu gwybodaeth i Adran Actiwari'r Llywodraeth er mwyn iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau statudol

3 yn rhoi cyngor ar gyflogwyr cronfa, gan gynnwys rhoi cyngor a monitro bondiau neu warantau eraill

4 paratoi cyngor a chyfrifiadau ynghylch trosglwyddiadau swmp a buddion unigol

5 yn cynorthwyo'r awdurdod gweinyddol i ystyried newidiadau i gyfraniadau cyflogwyr rhwng prisiadau ffurfiol

6 yn rhoi cyngor ar derfynu cyfranogiad cyflogwyr yn y Gronfa

7 yn adlewyrchu arweiniad a gofynion proffesiynol actiwaraidd yn llawn ym mhob cyngor a roddir

**B4 Partïon eraill:**

1 cynghorydd buddsoddi mewnol ac allanol yn sicrhau bod y Datganiad Strategaeth Buddsoddi (DSB) yn gyson â'r Datganiadau Strategaeth Gyllido

2 rheolwr buddsoddi, gwarcheidwad a bancwyr yn chwarae eu rhan mewn buddsoddi a dadfuddsoddi effeithiol o asedau'r Gronfa yn unol â'r DSB.

3 archwilydd yn cydymffurfio â safonau, yn sicrhau bod y Gronfa'n cydymffurfio â gofynion, yn monitro ac yn cynghori ar ganfod twyll, ac yn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a datganiad y cyfrifon

4 gofynnir i ymgymghorwyr llywodraethu gynghori'r awdurdod gweinyddu yn achlysurol ar brosesau a dulliau gweithio

5 ymgynghorwyr cyfreithiol mewnol ac allanol yn sicrhau bod y Gronfa'n cydymffurfio â'r holl reoliadau a gofynion ehangach llywodraeth leol, gan gynnwys gweithdrefnau'r awdurdod gweinyddu ei hun

6 mae'r Adran ar gyfer Lefelu i Fyny, Tai a Chymunedau, gyda chymorth Adran Actiwari'r Llywodraeth a Bwrdd Cynghori'r Cynllun, yn gweithio gyda chronfeydd CPLlL i fodloni gofynion Adran 13.

## Atodiad C - Risgiau a rheolaethau

### C1 Rheoli risgiau

Mae gan yr awdurdod gweinyddol raglen rheoli risg i nodi a rheoli risgiau ariannol, demograffig, rheoleiddiol a llywodraethu.

Mae gan y Bwrdd Pensiwn ròl goruchwylio / cynorthwyo a nid rôl gwneud penderfyniadau, ei gyfrifoldebau yw i:

1. Cynorthwyo Cronfa Bensiwn Gwynedd fel Rheolwr Cynllun;

2. Sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau a gofynion a orfodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol

3. Sicrhau llywodraethu a gweinyddu effeithiol ac effeithlon o'r Gronfa.

4. Cynorthwyo gyda materion eraill fel y gall rheoliadau'r cynllun ei nodi.

Mae manylion y risgiau a'r rheolaethau allweddol sy'n benodol i'r gronfa wedi'u nodi yn y gofrestr risg yn Cofrestr Risg 2021 (cronfabensiwngwynedd.cymru).

### C2 Asesu a monitro cyfamod y cyflogwr

Nid oes gan lawer o'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa, megis cyrff a ganiateir, unrhyw bwerau codi trethi lleol. Mae'r gronfa yn adolygu cyfamodau cyflogwyr o'r fath bob 3 blynedd cyn y prisiad ffurfiol.

**C3 Risg Hinsawdd a adrodd TCFD**

Mae'r Gronfa wedi ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wrth osod y strategaeth ariannu. Er mwyn ystyried cydnerthedd y strategaeth mae'r Gronfa wedi cynnwys profion straen senario hinsawdd yn yr ymarfer modelu cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr awdurdodau lleol ym mhrisiad 2022. Roedd y canlyniadau modelu o dan y profion straen ychydig yn waeth na'r canlyniadau craidd ond roeddent yn dal i fod o fewn lefelau goddefiant risg, yn enwedig o ystyried difrifoldeb y straen a roddwyd. Mae'r canlyniadau'n rhoi sicrwydd nad yw'r dull modelu yn tanamcangyfrif effaith bosibl newid yn yr hinsawdd yn sylweddol a bod y strategaeth ariannu yn gallu gwrthsefyll risgiau hinsawdd. Gellir defnyddio canlyniadau'r profion straen hyn yn y dyfodol i gynorthwyo gyda datgeliadau a baratowyd yn unol ag egwyddorion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD).

Ni chymhwyswyd yr un profion straen i fodelu'r strategaeth ariannu ar gyfer cyflogwyr llai. Fodd bynnag, o ystyried bod yr un model sylfaenol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob cyflogwr a bod cyflogwyr yr awdurdod lleol yn cyfrif am y mwyafrif helaeth o asedau a ymrwymiadau'r Gronfa, nid oedd cymhwyso'r profion straen i bob cyflogwr yn cael ei ystyried yn gymesur ar hyn o bryd ac ni fyddai'n ddisgwyliedig i arwain at unrhyw newidiadau i'r cynlluniau cyfraniadau y cytunwyd arnynt

Mae gan y Gronfa Fframwaith Buddsoddi Cyfrifol a gytunwyd gan y Pwyllgor Pensiynau yn 2022 Polisi Buddsoddi Cyfrifol 2022 (gwyneddpensionfund.wales)

## Atodiad Ch - Rhagdybiaethau actiwaraidd

Mae actiwari'r Gronfa'n defnyddio set o dybiaethau i bennu'r strategaeth, ac felly mae rhagdybiaethau yn rhan sylfaenol o'r datganiad strategaeth ariannu.

**Ch1 Beth yw'r tybiaethau?**

Defnyddir tybiaethau i amcangyfrif y buddion sy'n ddyledus i'w talu i aelodau. Mae tybiaethau ariannol yn pennu faint o fuddion sydd i'w dalu i bob aelod, a'r enillion buddsoddi disgwyliedig ar yr asedau a ddelir i gwrdd â'r buddion hynny. Defnyddir tybiaethau demograffig i gyfrifo pryd y gwneir taliadau budd-dal ac am ba hyd.

Y targed ariannu yw'r arian y mae'r Gronfa'n bwriadu ei ddal i gwrdd â'r buddion a enillwyd hyd yma.

Bydd unrhyw newid yn y rhagdybiaethau yn effeithio ar y targed ariannu a'r gyfradd gyfrannu, ond nid yw tybiaethau gwahanol yn effeithio ar y buddion gwirioneddol y bydd y Gronfa'n eu talu yn y dyfodol.

### Ch2 Pa ragdybiaethau a ddefnyddir i osod y gyfradd gyfrannu?

Nid yw’r Gronfa’n dibynnu ar un set o ragdybiaethau wrth osod cyfraddau cyfrannu, yn hytrach yn defnyddio Gwasanaeth Senario Economaidd Hymans Robertson i ragamcanu asedau, buddion a llif arian pob cyflogwr hyd at ddiwedd y cyfnod ariannu.

Mae’r Gwasanaeth Senario Economaidd yn rhagamcanu buddion y dyfodol, cyfraniadau ac adenillion ar fuddsoddiadau o dan 5,000 o senarios economaidd posibl, gan ddefnyddio amrywiolyn ar gyfer chwyddiant yn y dyfodol ac enillion ar fuddsoddiadau ar gyfer pob dosbarth o asedau, yn hytrach nag un gwerth sefydlog.

Ar gyfer unrhyw ragamcan, gall actiwari’r gronfa asesu a yw’r targed ariannu wedi’i fodloni ar ddiwedd y gorwel amser.

**Tabl: Crynodeb o’r rhagdybiaethau sy’n sail i’r Gwasanaeth Senario Economaidd, 31 Mawrth 2022**

| | | Annualised total returns | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | UK Equity | Developed World ex UK Equity | Private Equity | Property | Emerging Markets Equity | Listed Infrastructure Equity | Multi Asset Credit (sub inv grade) | Absolute Return Bonds (inv grade) | Inflation (CPI) | 17 year real yield (CPI) | 17 year yield |
| 5 years | 16th %'ile | -2.7% | -3.2% | -5.0% | -2.5% | -5.9% | -3.5% | 0.3% | 0.5% | 2.3% | -2.2% | 1.1% |
| | 50th %'ile | 5.5% | 5.3% | 9.5% | 4.0% | 5.6% | 4.8% | 3.1% | 2.0% | 3.9% | -1.3% | 2.1% |
| | 84th %'ile | 13.9% | 14.0% | 24.1% | 11.0% | 17.9% | 12.8% | 5.7% | 3.4% | 5.5% | -0.4% | 3.3% |
| 10 years | 16th %'ile | -0.4% | -0.7% | -1.2% | -0.6% | -2.5% | -1.1% | 1.7% | 0.9% | 1.6% | -1.7% | 1.1% |
| | 50th %'ile | 5.7% | 5.6% | 9.4% | 4.4% | 5.8% | 4.9% | 3.5% | 2.3% | 3.3% | -0.5% | 2.5% |
| | 84th %'ile | 11.6% | 11.7% | 20.1% | 9.5% | 14.4% | 10.9% | 5.2% | 3.7% | 4.9% | 0.7% | 4.3% |
| 20 years | 16th %'ile | 1.7% | 1.5% | 2.4% | 1.4% | 0.1% | 1.2% | 2.8% | 1.4% | 1.2% | -0.7% | 1.3% |
| | 50th %'ile | 6.2% | 6.1% | 10.0% | 5.0% | 6.3% | 5.6% | 4.4% | 2.9% | 2.7% | 1.1% | 3.2% |
| | 84th %'ile | 10.6% | 10.8% | 17.6% | 8.9% | 12.8% | 10.1% | 6.0% | 4.6% | 4.3% | 2.7% | 5.7% |
| | Volatility (Disp) (1 yr) | 19.9% | 20.1% | 31.2% | 15.0% | 27.0% | 17.5% | 7.4% | 2.8% | 1.4% | | |

### Ch3 Pa dybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd?

### Enillion buddsoddi y dyfodol a chyfradd disgownt

Mae’r Gronfa’n defnyddio dull sy’n seiliedig ar risg i gynhyrchu tybiaethau am enillion buddsoddi yn y dyfodol dros y cyfnod ariannu, yn seiliedig ar y strategaeth fuddsoddi.

Y gyfradd ddisgownt yw'r gyfradd flynyddol o enillion buddsoddi yn y dyfodol y tybir ei bod yn cael ei hennill ar asedau ar ôl diwedd y cyfnod ariannu. Pennir y dybiaeth cyfradd ddisgownt fel swm uwchlaw'r gyfradd ddi-risg.

Mae tybiaethau ar gyfer enillion buddsoddi yn y dyfodol yn dibynnu ar yr amcan ariannu.

| | Math o gyflogwr | Swm yn uwch na’r gyfradd di-risg |
|---|---|---|
| **Sail barhaus** | Pob cyflogwr ond am cyrff trosglwyddai a ganiateir a cyrff cymunedol wedi cau | 2.3% |
| **Sail gadael risg isel** | Cyrff cymunedol a ganiateir wedi cau i aelodau newydd | 0% |

| | | |
|---|---|---|
| **Sail ymadael contractwr** | Cyrff trosglwyddai a ganiateir | Yn hafal i'r swm a ddefnyddir i dyrannu asedau i'r cyflogwr wrth ymuno â'r Gronfa |

**Cyfradd disgownt (ar gyfer cyfrifiad lefel ariannu ar 31 Mawrth 2022 yn unig)**

At ddiben cyfrifo lefel ariannu ym mhrisiad 2022, mae cyfradd ddisgownt o 4.1% y flwyddyn yn berthnasol. Mae hyn yn seiliedig ar amcangyfrif darbodus o enillion ar fuddsoddiadau, yn benodol, bod tebygolrwydd o 75% y bydd asedau'r Gronfa yn cynhyrchu enillion buddsoddi o 4.1% y flwyddyn yn y dyfodol dros yr 20 mlynedd yn dilyn dyddiad prisio 2022.

**Cynnydd mewn pensiwn ac ailbrisio CARE**

Mae gohirio a chodiadau taliadau i bensiynau ac ailbrisio buddion CARE yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ac yn cael eu pennu gan y rheoliadau.

Mae rhagdybiaeth y CPI yn seiliedig ar fodel senario economaidd Hymans Robertson. Gwerth canolrif chwyddiant CPI o'r model yma oedd 2.7% y flwyddyn ar 31 Mawrth 2022.

**Tyfiant cyflogau**

Mae'r rhagdybiaeth cynnydd cyflog yn y prisiad diweddaraf wedi'i osod i 0.5% yn uwch na'r CPI y flwyddyn ynghyd â graddfa gyflog dyrchafiad.

**Ch4 Pa dybiaethau demograffig a ddefnyddiwyd?**

Rhagdybiaethau demograffig yw'r amcangyfrifon gorau o brofiad yn y dyfodol. Mae'r Gronfa'n defnyddio cyngor gan Club Vita i osod tybiaethau demograffig, yn ogystal â dadansoddiad a barn yn seiliedig ar brofiad y Gronfa.

Mae tybiaethau demograffig yn amrywio yn ôl y math o aelod, felly mae proffil aelodaeth pob cyflogwr ei hun yn cael ei adlewyrchu yn eu canlyniadau.

**Disgwyliad bywyd**

Mae'r tybiaethau hirhoedledd yn set bwrpasol o VitaCurves a gynhyrchwyd drwy ddadansoddiad manwl ac wedi'u teilwra i gyd-fynd â phroffil aelodaeth y gronfa.

Mae lwfans wedi'i wneud ar gyfer gwelliannau i farwolaethau yn y dyfodol, yn unol â fersiwn 2021 o'r ymchwiliad parhaus i farwolaethau (CMI) a gyhoeddwyd gan y proffesiwn actiwaraidd. Mae'r man cychwyn wedi'i addasu gan +0.25% i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng y data poblogaeth gyfan a ddefnyddir yn aelodaeth CMI ac CPLIL. Mae cyfradd hirdymor o welliannau marwolaethau o 1.5% y flwyddyn yn berthnasol.

Y paramedr llyfnu a ddefnyddir yn y model CMI yw 7.0. Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar effaith hirdymor Covid-19 ar ddisgwyliadau bywyd. Er mwyn osgoi effaith gormodol o brofiad marwolaethau diweddar ar ragdybiaethau hirdymor, ni roddwyd unrhyw bwysau ar ddata o 2020 a 2021 yn y CMI.

**Tybiaethau demograffig arall**

| | |
|---|---|
| Ymddeoliad mewn iechyd normal | Tybir bod aelodau'n ymddeol ar yr oedran cynharaf posibl heb unrhyw ostyngiad mewn pensiwn. |
| Codiadau cyflog gyda dyrchafiad | Sampl yn cynyddu isod |
| Marw mewn gwasanaeth | Cyfraddau sampl isod |
| Gadael y cynllun | Cyfraddau sampl isod |
| Ymddeoliad oherwydd iechyd | Cyfraddau sampl isod |
| Manylion teulu | Tybir bod gan gyfran amrywiol o aelodau bartner dibynnol ar ymddeoliad neu ar farwolaeth gynharach. Er enghraifft, yn 60 oed tybir bod hyn yn 90% ar gyfer dynion ac 85% ar gyfer merched. Y tu hwnt i ymddeoliad caiff y gyfran ei haddasu ar gyfer marwolaethau dibynnol tybiedig. Tybir bod dynion 3 blynedd yn hŷn na merched, a thybir bod dibynyddion partner o ryw arall i aelodau. |
| Cymudo | Mae 65% o ymddeoliadau yn y dyfodol yn dewis cyfnewid pensiwn am arian parod di-dreth ychwanegol hyd at yr uchafswm |
| Opsiwn 50:50 | Bod 0.5% o aelodau yn dewis yr opsiwn 50:50 |

### Ch5 Cyfraddau i dybiaethau demograffig

#### Dynion

| Digwyddiad pob 1000 aelod actif y flwyddyn | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedran | Graddfa Cyflog | Marw cyn ymddeol | Tynnu'n ôl | | Ymddeoliad ar sail iechyd Haen 1 | | Ymddeoliad ar sail iechyd Haen 2 | |
| | | Llawn Amser & Rhan Amser | LlA | RhA | LlA | RhA | LlA | RhA |
| 20 | 105 | 0.17 | 323.45 | 609.76 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 25 | 117 | 0.17 | 213.65 | 402.77 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 30 | 131 | 0.20 | 151.59 | 285.73 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 35 | 144 | 0.24 | 118.44 | 223.22 | 0.10 | 0.07 | 0.02 | 0.01 |
| 40 | 150 | 0.41 | 95.36 | 179.66 | 0.16 | 0.12 | 0.03 | 0.02 |
| 45 | 157 | 0.68 | 89.57 | 168.72 | 0.35 | 0.27 | 0.07 | 0.05 |
| 50 | 162 | 1.09 | 73.83 | 138.92 | 0.90 | 0.68 | 0.23 | 0.17 |
| 55 | 162 | 1.70 | 58.14 | 109.45 | 3.54 | 2.65 | 0.51 | 0.38 |
| 60 | 162 | 3.06 | 51.82 | 97.51 | 6.23 | 4.67 | 0.44 | 0.33 |
| 65 | 162 | 5.10 | 0.00 | 0.00 | 11.83 | 8.87 | 0.00 | 0.00 |

#### Merched

| Digwyddiad pob 1000 aelod actif y flwyddyn | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedran | Graddfa Cyflog | Marw cyn ymddeol | Tynnu'n ôl | | Ymddeoliad ar sail iechyd Haen 1 | | Ymddeoliad ar sail iechyd Haen 2 | |
| | | Llawn Amser & Rhan Amser | LlA | RhA | LlA | RhA | LlA | RhA |
| 20 | 105 | 0.10 | 352.42 | 373.90 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 25 | 117 | 0.10 | 237.14 | 251.55 | 0.10 | 0.07 | 0.02 | 0.01 |
| 30 | 131 | 0.14 | 198.78 | 210.83 | 0.13 | 0.10 | 0.03 | 0.02 |
| 35 | 144 | 0.24 | 171.57 | 181.90 | 0.26 | 0.19 | 0.05 | 0.04 |
| 40 | 150 | 0.38 | 142.79 | 151.34 | 0.39 | 0.29 | 0.08 | 0.06 |
| 45 | 157 | 0.62 | 133.25 | 141.21 | 0.52 | 0.39 | 0.10 | 0.08 |
| 50 | 162 | 0.90 | 112.34 | 118.92 | 0.97 | 0.73 | 0.24 | 0.18 |
| 55 | 162 | 1.19 | 83.83 | 88.83 | 3.59 | 2.69 | 0.52 | 0.39 |
| 60 | 162 | 1.52 | 67.55 | 71.50 | 5.71 | 4.28 | 0.54 | 0.40 |
| 65 | 162 | 1.95 | 0.00 | 0.00 | 10.26 | 7.69 | 0.00 | 0.00 |

### Ch6 Pa ragdybiaethau sy'n berthnasol mewn prisiad terfynol yn dilyn ymadawiad cyflogwr o'r Gronfa?

#### Sail gadael risg isel

Pan na fydd warantwr, bydd y sail gadael risg isel yn berthnasol.

Mae'r sail tybiaethau ariannol a demograffig sy'n sail i'r sail gadael risg isel yn cael ei egluro isod:

1. Mae'r gyfradd ddisgownt yn cael ei gosod yn hafal i'r enillion blynyddol ar fondiau'r llywodraeth sydd wedi dyddio yn hir ar y dyddiad darfod, gyda lefel o 0%. Roedd hyn yn 1.7% y flwyddyn ar 31 Mawrth 2022.

2. Mae rhagdybiaeth y CPI yn seiliedig ar fodel scenario economaidd Hymans Robertson. Gwerth canolrif chwyddiant CPI o'r model oedd 2.7% y flwyddyn ar 31 Mawrth 2022.

3. Tybiaethau disgwyliad oes yw'r rhai a ddefnyddir i osod cyfraddau cyfraniadau, gydag un addasiad. Rhagdybir cyfradd uwch o welliannau mewn marwolaethau yn y tymor hir o 1.75% y flwyddyn

#### Sail ymadael contractwr

Lle mae gwarantwr (ee yn achos contractwyr lle mae'r awdurdod lleol yn gwarantu mynediad y contractwr i'r Gronfa), bydd sail ymadael y contractwr yn berthnasol.

Mae'r tybiaethau ariannol a demograffig sy'n sail i sail ymadael y contractwr yn gyfartal â'r rhai a bennwyd ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfrannu. Yn benodol, mae'r gyfradd ddisgownt yn cael ei gosod yn hafal i'r gyfradd ddi-risg ar y dyddiad darfod, ynghyd â chyfradd sy'n hafal i'r hyn a osodwyd i ddyrannu asedau i'r cyflogwr wrth ymuno â'r Gronfa.

## Atodiad D - Rhagdybiaethau actiwaraidd

## Cyflwyniad

Diben y polisi hwn yw egluro trefn yr awdurdod gweinyddol ar gyfer rhagdalu (talu ymlaen llaw) cyfraniadau rheolaidd sy'n ddyledus gan gyflogwyr sy'n cymryd rhan.

Dylid nodi nad yw'r datganiad hwn yn gynhwysfawr ac y bydd y gronfa'n rhoi ystyriaeth i amgylchiadau unigol pan fo hynny'n briodol.

### Nodau ac amcanion

Mae nodau ac amcanion yr awdurdod gweinyddol ar gyfer y polisi hwn fel a ganlyn:

- Rhoi eglurder i gyflogwyr am yr amgylchiadau lle caniateir iddynt dalu eu cyfraniadau ymlaen llaw.
- Amlinellu'r egwyddorion allweddol a ddilynir wrth gyfrifo symiau rhagdalu.
- Amlinellu'r drefn a ddilynir ar gyfer asesu bod rhagdaliad yn ddigonol i gwrdd â'r cyfraniadau sy'n ofynnol.

### Cefndir

Mae'n arfer cyffredin yn y CPLlL i gyflogwyr ragdalu cyfraniadau a fyddai fel arall yn ddyledus i'r Gronfa yn y dyfodol. Mae cyfraniadau cyflogwr yn cynnwys Cyfradd Cynradd – fe'i mynegir fel canran o'r gyflogres ac mae'n adlewyrchu cyfran y cyflogwr o gost buddion gwasanaeth y dyfodol, a'r Gyfradd Eilradd– gellir mynegi hwn fel canran o'r gyflogres neu swm ariannol, ac mae'n gyfraniad ychwanegol a ddyluniwyd i sicrhau bod cyfanswm y cyfraniadau sy'n daladwy gan y Cyflogwr yn cwrdd â'r amcan ariannu.

Ar 22 Mawrth 2022, yn dilyn cais gan Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun CPLlL, fe wnaeth James Goudie QC ddarparu Barn ar statws cyfreithiol rhagdaliadau. Daeth y Farn hon i'r casgliad nad oedd rhagdalu cyfraniadau cyflogeion a chyflogwr yn anghyfreithlon, cyhyd â bod y sail dros bennu'r swm i'w ragdalu yn rhesymol, yn gymesur ac yn ddarbodus. Ymhellach i hyn, fe sefydlodd y Farn ofynion penodol ynghylch cyflwyno rhagdaliadau.

### Arweiniad a fframwaith rheoleiddio

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd) yn egluro'r ffordd y dylai cronfeydd CPLlL bennu cyfraniadau cyflogwyr ac maent yn cynnwys darpariaethau perthnasol ynglŷn â thalu'r rhain, gan gynnwys y canlynol:

Rheoliad 9 – mae'n amlinellu'r cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan aelodau actif

Rheoliad 62 – mae'n egluro'r gofyniad i awdurdod gweinyddol baratoi tystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau (R&A)

Rheoliad 67 – mae'n egluro'r gofyniad i gyflogwyr dalu cyfraniadau yn unol â'r Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau (R&A) ac yn manylu bod rhaid i brif gyfraniadau gael eu mynegi fel canran o dâl pensiynadwy yr aelodau actif.

## Datganiad o egwyddorion

Mae'r datganiad hwn o egwyddorion yn sôn am ragdalu cyfraniadau cyflogwr rheolaidd i'r Gronfa. Ymdrinnir â phob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, ond yn gyffredinol:

Bydd yr awdurdod gweinyddol yn caniatáu i gyflogwyr ragdalu cyfraniadau.

Mae rhagdalu cyfraniadau a fynegir fel canran o dâl yn cyflwyno'r risg na fydd maint y rhagdaliad yn ddigon i gwrdd â'r cyfraniad rheolaidd fyddai'n ddyledus (o ganlyniad i wahaniaethau rhwng y cyflogau disgwyliedig a'r gwir gyflogau). Felly, dim ond cyflogwyr diogel, hirdymor sy'n cael rhagdalu eu cyfraniadau (e.e. awdurdodau lleol).

Ni chaniateir rhagdalu cyfraniadau gweithwyr.

Rhoddir disgownt pan gaiff cyfraniadau cyflogwr eu talu ymlaen llaw, i adlewyrchu'r enillion ar fuddsoddiad y tybir y bydd y Gronfa'n eu creu dros gyfnod y rhagdaliad.

Bydd actwari'r Gronfa yn pennu swm y rhagdaliad, ac efallai y bydd angen gwneud tybiaethau ynghylch y gyflogres dros y cyfnod lle mae'r cyfraniad rheolaidd yn ddyledus.

Pan fo cyfraniadau a fynegir fel canran o dâl wedi cael eu rhagdalu, bydd yr awdurdod gweinyddol yn cynnal gwiriad blynyddol (ac efallai y bydd angen cyfraniadau ychwanegol gan y cyflogwr) i wneud yn siŵr bod y gwir symiau sy'n cael eu talu yn ddigon i gwrdd â'r gofynion cyfrannu a nodir yn y dystysgrif R&A.

Bydd cytundebau rhagdalu yn cael eu dogfennu drwy'r ohebiaeth rhwng yr awdurdod gweinyddol a'r cyflogwr.

Bydd y dystysgrif R&A yn cael ei diweddaru'n flynyddol i adlewyrchu unrhyw gytundebau rhagdalu sydd ar waith.

Mae'r cyflogwyr yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gytundeb rhagdalu yn cael ei thrin yn briodol wrth gyfrifo am gostau pensiwn.

Gall cytundebau rhagdalu fod ar gyfer unrhyw gyfnod blynyddol yn y dystysgrif R&A (neu nifer olynol o gyfnodau blynyddol).

## Polisi

### Cymhwyster a'r cyfnodau sydd dan sylw

Mae'r Gronfa'n hapus i ystyried ceisiadau gan gyflogwyr i ragdalu prif gyfraniadau a chyfraniadau eilaidd sydd wedi'u hardystio. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae rhagdaliadau yn fwyaf priodol ar gyfer cyflogwyr mawr, diogel sydd ag aelodaeth sefydlog, actif. Mae modd i gyflogwyr ragdalu cyfraniadau cyflogwr dros gyfnod y dystysgrif R&A bresennol (ac, os yw tystysgrif R&A drafft wrthi'n cael ei pharatoi yn dilyn y prisiad tair blynedd, y dystysgrif R&A drafft).

Ni chaniateir rhagdalu cyfraniadau sy'n ddyledus ar ôl diwedd y dystysgrif R&A bresennol (neu ddrafft), hynny yw, ni fyddai'n bosib rhagdalu cyfraniadau cyflogwr sy'n ddyledus yn y flwyddyn 2026/27 hyd nes bod canlyniad prisiad 2025 yn hysbys a bod tystysgrif R&A drafft ar gyfer y cyfnod 2026 i 2029 wedi cael ei pharatoi.

### Gwneud cais ac amseru

Cyn gwneud unrhyw ragdaliad, mae gofyn i gyflogwyr roi gwybod i'r Gronfa yn ysgrifenedig o'u dymuniad i ragdalu cyfraniadau cyflogwr, ac i wneud cais am fanylion y swm sy'n ofynnol gan y Gronfa i gwrdd â'r cyfraniad rheolaidd yn yr amserlen.

Dylai'r Gronfa dderbyn y cais hwn o fewn deufis o ddechrau'r cyfnod y mae'r rhagdaliad ar ei gyfer.

Bydd y Gronfa wedyn yn darparu nodyn o swm y rhagdaliad i'r cyflogwr, a'r dyddiad erbyn y dylai'r cyflogwr dalu'r swm. Yn gyffredinol, dylai'r rhagdaliad fod mor agos â phosib at ddechrau'r cyfnod priodol yn y dystysgrif R&A, ac erbyn 30 Ebrill ar yr hwyraf.

Os bydd y cyflogwr yn methu â thalu'r rhagdaliad erbyn y dyddiad a nodwyd, gallai hynny olygu y bydd angen taliad ychwanegol ar unwaith gan y cyflogwr i sicrhau bod y swm a delir yn ddigon i gwrdd â'r swm ardystiedig y manylir arno yn y dystysgrif R&A.

**Cyfrifo**

Bydd actwari'r Gronfa yn pennu faint o ragdaliad sy'n ofynnol.

Pan wneir y rhagdaliad yng nghyswllt cyfraniadau a fynegir fel canran o dâl:

- Bydd actwari'r Gronfa yn pennu gwerth gostyngedig y cyfraniadau sydd wedi'u hamserlennu, a hynny'n seiliedig ar frasamcan o gyflogau dros y cyfnod (gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael a thybiaethau a osodwyd yn y prisiad blaenorol), a'r gyfradd disgownt a osodwyd at ddiben y prisiad actiwaraidd blaenorol (fel y nodir yn yr adroddiad prisiad actiwaraidd blaenorol).
- Bydd angen gwiriad digonolrwydd ar ddiwedd y cyfnod (gweler adran 3,4)

Pan wneir y rhagdaliad yng nghyswllt cyfraniadau a fynegir fel swm ariannol:

- Bydd actwari'r Gronfa yn pennu gwerth gostyngedig y cyfraniadau sydd wedi'u hamserlennu, a hynny'n seiliedig ar y gyfradd disgownt a osodwyd at ddiben y prisiad actiwaraidd blaenorol (fel y nodir yn yr adroddiad prisiad actiwaraidd blaenorol).
- Ni fydd angen gwiriad digonolrwydd yn yr achos yma

Gall cyflogwyr dalu mwy na swm y rhagdaliad a bennwyd gan actiwari'r Gronfa.

Ni wneir unrhyw lwfans ar gyfer allanoli gwasanaethau (disgwyliedig) ym mrasamcan yr actiwari o gyflogau dros gyfnod y rhagdaliad.

**Gwiriad digonolrwydd**

Pan fydd angen, bydd actiwari'r Gronfa yn cynnal asesiad **blynyddol** i wirio bod cyfraniadau digonol wedi'u talu ar gyfer y cyfnod hwnnw. Yn benodol, bydd y gwiriad hwn yn adolygu'r cyfrifiad rhagdaliad yn seiliedig ar wir gyflogau'r aelodau actif dros y cyfnod, a gallai hynny arwain at fod angen taliad ychwanegol gan y cyflogwr.

Os bydd y gwiriad digonolrwydd hwn yn dangos bod y swm a ragdalwyd yn uwch na'r swm a fyddai wedi bod yn ofynnol ar sail y gwir gyflogau (h.y. os yw'r cyflogau a delir mewn gwirionedd dros y cyfnod yn llai na'r hyn a dybiwyd), ni fydd hyn yn arwain at dalu cyfraniadau'n ôl i'r cyflogwr.

Ni fydd y gwiriad digonolrwydd yn cymharu'r enillion tybiedig ar fuddsoddiad (h.y. y gyfradd disgownt) gyda'r gwir enillion a gafwyd dros y cyfnod, hynny yw, mae'n ystyried y gyflogres yn unig. Bydd unrhyw ddiffyg sy'n codi oherwydd bod y gwir enillion ar fuddsoddiad yn is na'r hynny a dybiwyd yn ffurfio rhan o'r asesiad cyfraniadau rheolaidd yn y prisiad nesaf (fel fyddai'n digwydd yn arferol).

Bydd yr awdurdod gweinyddol yn hysbysu'r cyflogwr o unrhyw swm ychwanegol sy'n daladwy yn dilyn y gwiriad digonolrwydd blynyddol, a'r dyddiad erbyn y dylid gwneud unrhyw daliad ychwanegol.

**Dogfennaeth a chymeradwyaeth yr archwilydd**

Bydd y Gronfa'n darparu nodyn i'r cyflogwr yn egluro'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu swm y rhagdaliad, yn cynnwys:

- Y gyfradd disgownt a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau
- Brasamcan o'r gyflogres (pan fo hyn yn berthnasol)
- Y dyddiad y daw'r cyfrifiad yn weithredol (a'r dyddiad olaf ar gyfer derbyn y taliad)
- Y taliadau rheolaidd yn yr amserlen y mae'r rhagdaliad yn gyfnewid amdanynt.

Bydd y cytundeb rhagdalu'n cael ei adlewyrchu yn y dystysgrif R&A fel a ganlyn:

- Y gyfradd gyfrannu reolaidd, heb ei haddasu sy'n daladwy gan y cyflogwr dros gyfnod y dystysgrif
- Fel nodyn i'r tabl cyfraddau cyfrannu, gwybodaeth yn ymwneud â swm y rhagdaliad a'r disgownt a roddir, ar gyfer pob cyflogwr lle mae cytundeb rhagdalu yn bodoli.

Bydd y dystysgrif R&A yn cael ei diweddaru'n flynyddol i adlewyrchu unrhyw gytundebau rhagdalu sydd ar waith.

Dylai cyflogwyr drafod y cytundeb rhagdalu gyda'u harchwiliwr cyn gwneud taliad a chytuno sut byddant yn trin y rhagdaliad mewn prosesau cyfrifo. Ni fydd y Gronfa'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb am oblygiadau cyfrifyddu unrhyw gytundeb rhagdalu.

**Costau**

Bydd gofyn i gyflogwyr sy'n mynd i gytundeb rhagdalu gwrdd â chostau hynny, sy'n cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) y ffioedd actiwaraidd a ddaw i ran yr awdurdod gweinyddol. Bydd y Gronfa'n ail-godi'r ffioedd hyn ar y cyflogwyr.

**Risgiau**

Caiff cyflogwyr fynd i gytundeb rhagdalu gyda'r disgwyliad y bydd y Gronfa'n gallu cynhyrchu enillion uwch nag y gallan nhw dros y cyfnod rhagdalu. Dylai cyflogwyr fod yn ymwybodol nad oes sicrwydd llwyr o enillion yn y dyfodol, ac mae'n ddigon posib y gallai'r enillion a gynhyrchir ar symiau rhagdalu greu llai o enillion na'r hyn y gallai'r cyflogwr eu cynhyrchu. Mae hefyd yn bosib y bydd enillion negatif yn golygu bod gwerth unrhyw ragdaliad yn is na'r swm oedd wedi'i raglennu i'w dalu. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fyddai angen taliad ychwanegol (gan nad yw'r gwiriad digonolrwydd ond yn ystyried effaith pan fo'r gwir gyflogau yn wahanol i'r hyn a dybiwyd yng nghyfrifiad y rhagdaliad), fodd bynnag byddai cyfran asedau'r cyflogwr yn is nag y byddai wedi bod petai wedi talu'r cyfraniadau yn ôl

yr amserlen arferol. Byddai hyn yn cael ei ystyried gan actiwari'r Gronfa yn y prisiad tair blynedd nesaf (fel fyddai'n digwydd yn arferol).

## Polisïau Cysylltiedig

Mae dull y Gronfa o osod cyfraddau cyfraniad rheolaidd i gyflogwyr yn cael ei egluro yn y Datganiad Strategaeth Ariannu, yn benodol "Adran 2 – Sut mae'r Gronfa'n cyfrifo cyfraniadau cyflogwyr?".

# Atodiad Dd - Polisi ar adolygu cyfraniadau

## Cyflwyniad

Diben y polisi hwn yw egluro trefn yr awdurdod gweinyddol o adolygu cyfraddau cyfrannu rhwng prisiadau tair blynedd.

Dylid nodi nad yw'r datganiad hwn yn gynhwysfawr ac y bydd y gronfa'n rhoi ystyriaeth i amgylchiadau unigol pan fo hynny'n briodol.

### Nodau ac amcanion

Mae nodau ac amcanion yr awdurdod gweinyddol ar gyfer y polisi hwn fel a ganlyn:

- Rhoi eglurder i gyflogwyr am yr amgylchiadau lle gallai cyfraddau cyfrannu gael eu hadolygu rhwng prisiadau.
- Amlinellu amgylchiadau penodol lle na fydd y cyfraddau cyfrannu'n cael eu hadolygu.

### Cefndir

Gall y Gronfa addasu cyfraddau cyfrannu rhwng prisiadau yn sgil 'newid arwyddocaol' i ymrwymiadau neu gyfamod cyflogwr.

Mae modd i'r Gronfa ei hun gychwyn adolygiadau o'r fath, neu gall y cyflogwr sy'n cymryd rhan wneud cais am adolygiad.

Gall unrhyw adolygiad arwain at newid yn y cyfraniadau sy'n ofynnol gan y cyflogwr.

**Arweiniad a fframwaith rheoleiddio**

Mae Rheoliad 64 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd) yn egluro'r ffordd y dylai cronfeydd CPLlL bennu cyfraniadau cyflogwyr, gan gynnwys y canlynol:

- Rheoliad 64 (4) – mae'n caniatáu i'r awdurdod gweinyddol adolygu'r gyfradd gyfrannu os daw'n debygol y bydd cyflogwr yn rhoi'r gorau i gymryd rhan yn y Gronfa, gyda'r bwriad o sicrhau bod y cyflogwr wedi'i ariannu'n llawn ar y dyddiad gadael disgwyliedig.
- Rheoliad 64A – mae'n egluro amgylchiadau penodol lle gall yr awdurdod gweinyddol addasu'r cyfraniadau rhwng prisiadau (gan gynnwys lle mae un neu ragor o gyflogwyr yn gwneud cais am adolygiad).

Mae'r polisi hwn hefyd yn adlewyrchu arweiniad statudol gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar baratoi a chynnal polisïau sy'n ymwneud ag adolygu cyfraniadau cyflogwyr. Efallai y byddai partïon sydd â diddordeb yn dymuno edrych ar ganllaw ategol a gynhyrchwyd gan Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun.

## Datganiad o egwyddorion

Mae'r datganiad hwn o egwyddorion yn sôn am adolygu cyfraniadau rhwng prisiadau. Ymdrinnir â phob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, ond yn gyffredinol:

- Mae'r awdurdod gweinyddol yn cadw'r hawl i adolygu cyfraniadau yn unol â'r darpariaethau sydd yn y Rheoliadau CPLlL.
- Mae'r penderfyniad i wneud newid i'r cyfraddau cyfrannu yn perthyn i'r awdurdod gweinyddol, yn amodol ar ymgynghori gyda chyflogwyr yn ystod y cyfnod adolygu.
- Darperir cyfiawnhad llawn am unrhyw newid yn y cyfraddau cyfrannu i'r cyflogwyr.

- Cymerir cyngor gan actiwari'r Gronfa ynghylch unrhyw adolygiad i'r cyfraddau cyfrannu.
- Bydd unrhyw addasiad i'r cyfraddau cyfrannu yn cael ei adlewyrchu yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau.
- Mae'n bosib y bydd y Gronfa'n ceisio lefel ychwanegol o sicrwydd neu warant mewn rhai amgylchiadau penodol.

## Polisi

### Yr amgylchiadau ar gyfer adolygu

Bydd y Gronfa'n ystyried yr amgylchiadau a ganlyn fel trothwy posib ar gyfer adolygu:

- ym marn awdurdod gweinyddol mae yna amgylchiadau sy'n ei gwneud yn debygol y bydd cyflogwr (gan gynnwys corff derbyn) yn dod yn gyflogwr sy'n gadael, a hynny'n gynt nag a ragwelwyd yn y prisiad diwethaf;
- bydd cyflogwr yn gadael y Gronfa o fewn y ddwy flynedd nesaf a chyn cwblhau'r prisiad tair-blynedd nesaf;
- mae yna newidiadau i'r strwythur buddiannau a nodir yn y Rheoliadau CPLIL na wnaed lwfans ar eu cyfer yn y prisiad diwethaf;
- ymddengys yn debygol i'r awdurdod gweinyddol bod swm yr ymrwymiadau sy'n codi neu'n debygol o godi ar gyfer cyflogwr neu gyflogwyr wedi newid yn sylweddol ers y prisiad diwethaf;
- ymddengys yn debygol i'r awdurdod gweinyddol y bu newid sylweddol yng ngallu cyflogwr neu gyflogwyr i gwrdd â'u rhwymedigaethau (e.e. newid arwyddocaol yng nghyfamod cyflogwr, neu ddarpariaeth sicrwydd ychwanegol);
- ymddengys i'r awdurdod gweinyddol fod aelodaeth y cyflogwr wedi newid yn sylweddol, megis llwyth o drosglwyddiadau, gostyngiadau sylweddol i'r gyflogres neu ailstrwythuro ar raddfa fawr; neu
- lle mae cyflogwr wedi methu â thalu cyfraniadau neu heb drefnu sicrwydd priodol fel sy'n ofynnol gan yr awdurdod gweinyddol.

### Ceisiadau gan y cyflogwr

Bydd yr awdurdod gweinyddol hefyd yn ystyried cais gan unrhyw gyflogwr i adolygu cyfraniadau lle mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i gwrdd â chostau'r adolygiad hwnnw ac yn amlinellu'r resymeg am yr adolygiad (byddai disgwyl i'r rhesymau fod yn unol ag un o'r categorïau uchod, megis y gred bod eu cyfamod wedi newid yn sylweddol, neu eu bod yn mynd drwy ailstrwythuro mawr sy'n effeithio ar eu haelodaeth).

Bydd ar yr awdurdod gweinyddol angen gwybodaeth ychwanegol i gefnogi adolygiad cyfraniadau ar gais cyflogwr.  Caiff y gofynion penodol eu cadarnhau yn dilyn unrhyw gais, ac maent yn debygol o gynnwys yr hyn a ganlyn:

- copi o'r cyfrifon diweddaraf;

- manylion unrhyw sicrwydd ychwanegol sy'n cael ei gynnig (gallai hyn gynnwys tystysgrifau yswiriant);
- rhagolygon cyllideb; ac/neu
- gwybodaeth yn ymwneud â ffynonellau ariannu.

Bydd yr awdurdod gweinyddol yn ymdrechu i gwblhau unrhyw adolygiad o fewn tri mis o'r cais, cyhyd â'i fod yn derbyn tystiolaeth ddigonol, a bydd yn monitro unrhyw newid yn amgylchiadau cyflogwr yn rheolaidd yn dilyn unrhyw newid yn y gyfradd gyfrannu ac efallai y bydd yn gofyn am wybodaeth bellach gan y cyflogwr i gefnogi'r broses fonitro hon.

Y cyflogwr fydd yn talu am y costau a gaiff yr awdurdod gweinyddol wrth gynnal adolygiad cyfraniadau (ar gais y cyflogwr). Caiff hyn ei gadarnhau ymlaen llaw gyda'r cyflogwr cyn i'r adolygiad ddigwydd.

**Effaith ar gyflogwyr eraill**
Wrth gynnal unrhyw adolygiad o gyfraniadau, bydd yr awdurdod gweinyddol hefyd yn ystyried effaith unrhyw newid ar gyfraddau cyfrannu cyflogwyr eraill yn y Gronfa. Bydd hyn yn cynnwys y ffactorau a ganlyn:

- Bodolaeth gwarantwr.
- Faint o sicrwydd arall mae'r cyflogwr yn ei ddal.
- Maint ymrwymiadau'r cyflogwr yn gymharol i'r Gronfa gyfan.

Bydd yr awdurdod gweinyddol yn ymgynghori â chyflogwyr eraill y Gronfa fel bo'r angen.

**Effaith anwadalrwydd y farchnad**
Ar wahân i amgylchiadau megis pan fo'r cyflogwr bron â gadael y gronfa, ni fydd yr awdurdod gweinyddol yn ystyried anwadalrwydd y farchnad neu newidiadau i werthoedd asedau fel sail ar gyfer newid mewn cyfraniadau tu allan i brisiad ffurfiol.

**Dogfennaeth**
Pan fo raid gwneud addasiadau i gyfraddau cyfrannu, bydd y Gronfa'n darparu nodyn i'r cyflogwr yn egluro'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu'r rhain, yn cynnwys:

- Eglurhad o'r ffactorau allweddol a arweiniodd at yr angen i adolygu'r cyfraddau cyfrannu, gan gynnwys, os yn briodol, y sefyllfa ariannu wedi'i diweddaru.
- Nodyn o'r cyfraddau cyfrannu newydd a'r dyddiad y daw'r rhain i rym.
- Dyddiad yr adolygiad nesaf.
- Manylion unrhyw brosesau sydd mewn lle i fonitro unrhyw newid yn amgylchiadau'r cyflogwr (os yn briodol), gan gynnwys gwybodaeth sydd ei hangen ar yr awdurdod gweinyddol i gynnal y monitro hwn.

Bydd y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r cyfraddau cyfrannu addasedig.

**Polisïau Cysylltiedig**

Mae dull y Gronfa o osod cyfraddau cyfraniad cyflogwyr yn cael ei egluro yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, yn benodol "Adran 2 – Sut mae'r Gronfa'n cyfrifo cyfraniadau cyflogwyr?".

## Atodiad E - Polisi ar basio drwodd

## 1 Cyflwyniad

Pwrpas y polisi hwn yw nodi dull yr awdurdod gweinyddu o dderbyn contractwyr newydd i'r Gronfa ar sail pasio drwodd. Yn ogystal, ac yn amodol ar adolygiad fesul achos, efallai y bydd y Gronfa'n fodlon cymhwyso ei hegwyddorion pasio drwodd i gyrff derbyn eraill lle mae rhwymedigaethau wedi'u cynnwys gan warantwr o fewn y gronfa.

Dylid nodi nad yw'r datganiad hwn yn hollgynhwysfawr a gellir ystyried amgylchiadau unigol lle bo'n briodol.

### 1.1 Nodau ac amcanion

Mae nodau ac amcanion yr awdurdod gweinyddu mewn perthynas â'r polisi hwn fel a ganlyn:

- Nodi dull y Gronfa o dderbyn contractwyr / cyrff derbyn newydd, gan gynnwys cyfrifo cyfraddau cyfraniadau a sut y rhennir risgiau o dan y trefniant pasio drwodd.
- Amlinellu'r broses ar gyfer derbyn contractwyr / cyrff derbyn newydd i'r Gronfa.

### 1.2 Cefndir

Mae'n rhaid cynnig buddion pensiwn sydd yr un fath, yn well, neu'n cyfrif fel rhai y gellir eu cymharu'n fras â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (yn unol â Chyfarwyddyd Trosglwyddo Staff Awdurdodau Gwerth Gorau (Pensiynau) 2007) a Chyfarwyddyd Trosglwyddo Staff (Pensiynau) Awdurdod Cymru 2012 i weithwyr sy'n cael eu rhoi ar gontract allanol o awdurdodau lleol, awdurdodau heddlu ac awdurdodau tân. Fel arfer cyflawnir hyn wrth i weithwyr aros yn y CPLIL a'r cyflogwr newydd yn dod yn gorff a dderbyniwyd i'r Gronfa ac yn gwneud y cyfraniadau cyflogwr gofynnol.

Mae pasio drwodd yn drefniant lle mae'r awdurdod gosod (e.e. yr awdurdod lleol) yn cadw'r prif risgiau o amrywiadau yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogwr yn ystod oes y contract, a'r risg y gallai asedau'r cyflogwr fod yn annigonol i gwrdd â phensiwn y gweithwyr. buddion ar ddiwedd y contract.

### 1.3 Canllawiau a fframwaith rheoleiddio

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi'r ffordd y dylai cronfeydd CPLIL bennu cyfraniadau'r cyflogwr a chynnwys darpariaethau perthnasol ynghylch talu'r rhain, gan gynnwys y canlynol:

- Mae Atodlen 2 Rhan 3 yn nodi'r endidau sy'n gymwys i ymuno â'r Gronfa fel corff a dderbynnir, eu cyfrifoldebau allweddol fel corff a dderbynnir a gofynion y cytundeb mynediad.
- Rheoliad 64 - mae'n cwmpasu'r gofynion ar gyfer prisiad darfodedig yn dilyn ymadawiad cyflogwr cyfranogol o'r gronfa.
- Rheoliad 67 – mae'n nodi'r gofyniad i gyflogwyr dalu cyfraniadau yn unol â'r dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau ac yn darparu diffiniad o'r gyfradd sylfaenol.

## 2 Datganiad o egwyddorion

Mae'r datganiad egwyddorion hwn yn ymdrin â derbyn contractwyr newydd (neu gyrff derbyn eraill) i'r Gronfa ar sail pasio drwodd. Bydd pob achos yn cael ei drin yn ôl ei rinweddau ei hun, ond yn gyffredinol:

- Mae gan gyflogwyr sy'n "allanoli" hyblygrwydd yn y ffordd y gallant ymdrin â'r risg pensiwn y gallai'r contractwr ei ysgwyddo. Yn nodweddiadol mae tri llwybr gwahanol y gallai cyflogwyr o'r fath ddymuno eu mabwysiadu. Yn amlwg, gan mai'r cyflogwr sy'n gosod y contract sydd â'r risg yn y pen draw, mater iddynt hwy yw cytuno ar y llwybr priodol gyda'r contractwr:

  - Pwlio
    - dan yr opsiwn hwn mae'r contractwr yn cael ei gyfuno gyda'r awdurdod gosod. Yn yr achos hwn, mae'r contractwr yn talu'r un gyfradd â'r awdurdod gosod, a all fod o dan ddull sefydlogi.
  - Awdurdod gosod yn cadw risgiau cyn contract
    - O dan yr opsiwn hwn byddai'r awdurdod gosod yn cadw'r cyfrifoldeb am asedau a rhwymedigaethau mewn perthynas â gwasanaeth a gronnwyd cyn dyddiad cychwyn y contract. Byddai'r contractwr yn gyfrifol am y rhwymedigaethau a fyddai'n cronni yn y dyfodol mewn perthynas â staff a drosglwyddir.
    - Gallai cyfradd cyfraniadau'r contractwr amrywio o un prisiad i'r llall. Byddai'n atebol am unrhyw ddiffyg (neu hawl i unrhyw warged) ar ddiwedd cyfnod y contract mewn perthynas ag asedau a rhwymedigaethau sydd i'w priodoli i wasanaeth a gronnwyd yn ystod cyfnod y contract. Nodwch, byddai lefel y credyd ymadael (os o gwbl) sy'n daladwy ar derfyniad yn cael ei bennu gan yr Awdurdod Gweinyddol yn unol â'r Rheoliadau a'r DSC hwn.
  - Cyfradd cyfraniad sefydlog wedi'i chytuno
    - dan yr opsiwn hwn mae'r contractwr yn talu cyfradd cyfraniad sefydlog drwy gydol ei gyfranogiad yn y Gronfa ac nid yw'n talu unrhyw ddiffyg nac yn derbyn credyd ymadael.

- Mae'r awdurdod gweinyddol yn fodlon gweinyddu unrhyw un o'r opsiynau uchod cyn belled â bod y dull gweithredu wedi'i ddogfennu yn y cytundeb derbyn yn ogystal â'r cytundeb trosglwyddo.
- Nid yw'r Gronfa'n ffafrio unrhyw un o'r dulliau a drafodwyd uchod.
- Oni bai y cyfarwyddir yn wahanol gan yr awdurdod gosod, o dan y dull cyfradd cyfraniad sefydlog, mae cyfradd cyfraniad pensiwn y contractwr yn cael ei osod yn hafal i'r gyfradd cyfraniad sylfaenol sy'n daladwy gan yr awdurdod gosod.

- Mae'r awdurdod gosod yn cadw cyfrifoldeb am amrywiadau yn y lefel ariannu, er enghraifft oherwydd perfformiad buddsoddi, newidiadau yn amodau'r farchnad, a hirhoedledd o dan ei drefniant pasio drwodd, waeth beth fo maint yr arian allanol.
- Bydd y contractwr yn talu costau rhwymedigaethau ychwanegol sy'n deillio o ymddeoliadau cynnar ac ychwanegiadau (nad ydynt yn ymwneud â salwch) ynghyd â straen ariannu sy'n deillio o dwf cyflog gormodol.
- Bydd profiad afiechyd yn cael ei gyfuno gyda'r awdurdod gosod tai ac ni fydd unrhyw daliadau straen ychwanegol yn cael eu codi ar y contractwr mewn perthynas ag ymddeoliadau ar sail afiechyd.
- Ni fydd yn ofynnol i'r contractwr gael bond indemniad.
- Ni fydd unrhyw drosglwyddiad tybiannol o asedau i'r contractwr o fewn y Gronfa. Mae hyn yn golygu y bydd yr holl asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â staff y contractwr yn parhau i fod yn gyfrifoldeb yr awdurdod gosod yn ystod y cyfnod cyfranogiad.
- Ar ddiwedd y contract (neu pan nad oes mwyach unrhyw aelodau gweithredol yn cymryd rhan yn y Gronfa, am ba bynnag reswm), bydd y cytundeb derbyn yn dod i ben ac ni fydd angen taliad pellach gan y contractwr (neu'r awdurdod gosod) i'r Gronfa, ac eithrio unrhyw gyfraniadau rheolaidd a/neu anfonebau sy'n weddill. Yn yr un modd, ni fydd angen taliad "credyd ymadael" o'r Gronfa i'r contractwr (neu'r awdurdod gosod).
- Bydd telerau'r cytundeb pasio drwodd yn cael eu dogfennu drwy'r cytundeb derbyn rhwng yr awdurdod gweinyddu, yr awdurdod gosod, a'r contractwr.
- Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar bob cytundeb derbyn presennol.

Yr egwyddorion a amlinellir uchod yw'r egwyddorion rhagosodedig a fydd yn berthnasol; fodd bynnag, gall yr awdurdod gosod ofyn i fanylion penodol cytundeb penodol fod yn wahanol i'r egwyddorion a amlinellir uchod.

Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod gweinyddu gytuno i wyro oddi wrth yr egwyddorion a nodir yn y polisi hwn ond bydd yn ystyried ceisiadau o'r fath ac yn ymgysylltu â'r awdurdod gosod er mwyn dod i gytundeb.

## 3 Polisi a phroses

### 3.1 Cydymffurfiaeth

Mae ymlyniad i'r polisi hwn yn gyfrifoldeb y rheolwr gwasanaeth cyfrifol perthnasol am unrhyw gontract allanol penodol.

Mae'n rhaid hysbysu'r awdurdod gweinyddu ac actiwari'r Gronfa bob amser bod contract allanol wedi digwydd, ni waeth faint o aelodau sydd o dan sylw.

### 3.2 Cyfraddau cyfraniadau

Lle gosodir contract ar sail pasio drwodd, fel y disgrifir uchod, bydd y gyfradd gyfrannu sy'n daladwy gan y contractwr dros y cyfnod cyfranogiad yn cael ei phennu ar ddechrau'r contract yn unol â'r fethodoleg y cytunwyd arni (fel y trafodwyd uchod) a bydd y dull hwn yn berthnasol drwy gydol ei gyfranogiad yn y Gronfa.

### 3.3 Rhannu risg a phrisiad darfodedig

Bydd yr awdurdod gosod yn cadw'r risg y bydd y contractwr yn mynd yn fethdalwr yn ystod y cyfnod derbyn ac felly ni fydd angen bond indemniad gan gontractwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa ar sail pasio drwodd. Mae'r awdurdod gosod i bob pwrpas yn gwarantu cyfranogiad y contractwr yn y Gronfa.

Mae angen prisiad darfodedig pan nad oes gan gontractwr bellach unrhyw aelodau gweithredol yn y gronfa. Gallai hyn fod oherwydd bod contract yn dod i ben yn naturiol, contractwr yn ansolfedd neu'r aelod gweithredol olaf yn gadael cyflogaeth neu'n optio allan o'r CPLIL.

Lle mae trefniant pasio drwodd yn ei le, mae asedau a rhwymedigaethau'r Gronfa sy'n gysylltiedig â gweithwyr a gontractir yn allanol yn cael eu cadw gan yr awdurdod gosod. Ar ddiwedd y derbyniad, bydd y prisiad darfod felly yn cofnodi dim asedau a rhwymedigaethau ar gyfer y cyflogwr sy'n dod i ben ac felly nad oes unrhyw ddyled darfod neu gredyd ymadael yn daladwy i'r Gronfa nac ohoni.

Bydd yn ofynnol i'r contractwr dalu unrhyw gyfraniadau rheolaidd sy'n weddill a/neu anfonebau heb eu talu sy'n ymwneud â chost straen ymddeoliad cynnar (nad yw'n ymwneud â salwch) a/neu ychwanegiadau a/neu mewn perthynas â chodiadau cyflog gormodol ar ddiwedd y contract.

O dan drefniant pasio drwodd nodweddiadol, bydd y contractwr yn atebol am gostau pensiwn ychwanegol sy'n codi oherwydd eitemau y mae'n rheoli drostynt. Mae'r dyraniad risg fel a ganlyn:

| **Risg** | **Awdurdod Gosod** | **Contractwr/ Corff a dderbyniwyd** |
|---|---|---|
| Gwarged/diffyg cyn y dyddiad trosglwyddo | ✓ | |
| Llog ar warged/diffyg | ✓ | |
| Perfformiad buddsoddi asedau a ddelir gan y Gronfa | ✓ | |
| Newidiadau i'r gyfradd ddisgownt sy'n effeithio ar rwymedigaethau gwasanaeth yn y gorffennol | ✓ | |
| Newidiadau i'r gyfradd ddisgownt sy'n effeithio ar groniad gwasanaeth yn y dyfodol | ✓ | |
| Newid mewn tybiaethau hirhoedledd sy'n effeithio ar rwymedigaethau gwasanaeth yn y gorffennol | ✓ | |
| Newidiadau i hirhoedledd sy'n effeithio ar gronni yn y dyfodol | ✓ | |
| Chwyddiant prisiau yn effeithio ar rwymedigaethau gwasanaeth yn y gorffennol | ✓ | |
| Chwyddiant pris / cynnydd pensiwn sy'n effeithio ar groniad yn y dyfodol | ✓ | |
| Cyfnewid pensiwn am arian parod di-dreth | ✓ | |
| Profiad ymddeoliad ar sail afiechyd | ✓ | |
| Costau straen y gellir eu priodoli i ganiatáu ymddeoliadau cynnar (nid oherwydd salwch (e.e. dileu swydd, effeithlonrwydd, hepgor gostyngiadau actiwaraidd ar ymddeoliadau cynnar gwirfoddol) | | ✓ |
| Lefel uwch/llai o aelodau'n optio allan | ✓ | |
| Cynnydd yn oedran cyfartalog aelodaeth cyflogai contractwr | ✓ | |
| Newidiadau i becyn buddion CPLIL | ✓ | |
| Rhwymedigaethau gormodol y gellir eu priodoli i'r contractwr sy'n caniatáu codiadau cyflog sy'n fwy na'r rhai a dybiwyd ym mhrisiad actiwaraidd ffurfiol diwethaf y Gronfa | | ✓ |
| Dyfarnu pensiwn ychwanegol neu ychwanegiad | | ✓ |

### 3.4 Prisiadau cyfrifyddu

Mae cyfrifo ar gyfer costau pensiynau yn gyfrifoldeb ar gyflogwyr unigol.

Dealltwriaeth yr awdurdod gweinyddu yw y gall contractwyr roi cyfrif am dderbyniadau pasio drwodd o'r ar sail cyfraniad diffiniedig ac felly mae'n bosibl na fydd angen adroddiad ffurfiol FRS102 / IAS19 (e.e. mae contractwyr sy'n talu cyfradd sefydlog wedi'u hindemnio i raddau helaeth rhag y risgiau cynhenid darparu pensiynau buddion diffiniedig).

Gan mai'r awdurdod gosod sy'n cadw'r rhan fwyaf o'r risg pensiwn sy'n ymwneud â chontractwyr, dealltwriaeth yr awdurdod gweinyddu yw y dylai'r rhwymedigaethau (a'r asedau) hyn gael eu cynnwys yn natganiadau FRS102 / IAS19 yr awdurdod gosod.

Mae'r awdurdod gweinyddu yn disgwyl i gyflogwyr geisio cymeradwyaeth i'r ffordd y caiff costau pensiwn eu trin gan eu harchwilydd.

### 3.5 Cais

Gall awdurdodau gosod wneud cais am delerau sy'n wahanol i'r rhai a nodir yn y polisi hwn a bydd unrhyw gais o'r fath yn cael ei ystyried gan yr awdurdod gweinyddu.

Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr holl gytundebau derbyn presennol (h.y. a ddechreuodd cyn y dyddiad y daw'r polisi hwn i rym).

### 3.6 Proses

Rhaid hysbysu'r adran gaffael ym mhob awdurdod gosod sy'n gyfrifol am staff/gwasanaethau allanol am y polisi hwn. Rhaid i'r awdurdod gosod a (lle bo'n berthnasol) y contractwr gadw at y broses a nodir isod.

- **Hysbysiad Tendr** - Rhaid i'r awdurdod gosod roi cyhoeddusrwydd i'r polisi pasio drwodd hwn fel rhan o'i broses dendro i gynigwyr. Dylai hyn gadarnhau na fydd y cynigydd buddugol yn gyfrifol am sicrhau bod rhwymedigaethau gweithwyr a gontractir yn allanol yn cael eu hariannu'n llawn ar ddiwedd y contract, ac y bydd y cynigydd buddugol ond yn gyfrifol am dalu cyfraniadau i'r Gronfa yn ystod y cyfnod cyfranogiad a cwrdd â chost straen ymddeoliad cynnar (heblaw am afiechyd), ychwanegiadau cost buddion a thwf gormodol mewn cyflogau (gan dybio y cedwir at delerau'r polisi hwn). Dylai hefyd hysbysu cyfradd cyfraniad y cyflogwr fel y manylir ym mharagraff 3.2.

- **Hysbysiad cychwynnol i'r Tîm Pensiynau** – Mae'n rhaid i'r awdurdod gosod gysylltu â'r awdurdod gweinyddu pan fydd tendr (neu ail-dendro) o gontract allanol yn cael ei gynnal a phan effeithir ar staff (neu gyn staff). Rhaid hysbysu'r awdurdod gweinyddu cyn dechrau'r tendr a rhaid i'r awdurdod gosod hefyd gadarnhau y glynwyd at delerau'r polisi hwn.

- **Cadarnhad o'r cynigydd buddugol** – Rhaid i'r awdurdod gosod roi gwybod ar unwaith i'r awdurdod gweinyddu pwy yw'r cynigydd buddugol.

- **Cais i'r cynigydd buddugol ddod yn gorff a ganiateir** – Dylai'r cynigydd buddugol (mewn cyfuniad â'r awdurdod gosod) wneud cais i'r awdurdod gweinyddu ei fod yn dymuno dod yn gorff a ganiateir o fewn y Gronfa.

- **Cytundeb derbyn templed** – defnyddir templed cytundeb derbyn pasio drwodd ar gyfer derbyniadau o dan y polisi hwn. Bydd yn nodi'r holl bwyntiau y cytunwyd arnynt sy'n ymwneud â chyfradd cyfraniadau'r cyflogwr, cyfrifoldebau cyllido cyflogwyr, ac amodau ymadael. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, a dim ond gyda chytundeb ymlaen llaw gan yr awdurdod gweinyddu, y bydd geiriad y cytundeb templed yn cael ei newid. Rhaid i bob cytundeb derbyn gael ei adolygu (gan gynnwys unrhyw newidiadau) gan yr awdurdod gweinyddu ac o bosibl ei gynghorwyr cyfreithiol.

- **Cytundeb derbyn wedi'i lofnodi -** Yna gellir llofnodi'r cytundeb derbyn rhwng cynrychiolydd priodol y cynigydd buddugol, swyddog cyllid arweiniol yr awdurdod gosod, a'r awdurdod gweinyddu. Ar yr adeg hon gall y Gronfa ddechrau derbyn cyfraniadau gan y contractwr a'i gyflogeion (wedi'i ôl-ddyddio os oes angen).

- **Statws corff a dderbynnir** – Bydd yr awdurdod gosod yn hysbysu'r contractwr o'i ofynion a'i gyfrifoldebau o fewn y Gronfa.

### 3.7 Costau

Bydd yn ofynnol i gontractwyr sy'n cael eu derbyn i'r Gronfa o dan gytundeb pasio drwodd dalu'r gost, sy'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y ffioedd actiwaraidd yr eir iddynt gan yr awdurdod gweinyddu.

## 4 Polisïau Cysylltiedig

Mae dull y Gronfa o bennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr rheolaidd wedi'i nodi yn ei Datganiad Strategaeth Cyllido, yn benodol "Adran 2 – Sut mae'r Gronfa'n cyfrifo cyfraniadau cyflogwyr?".

Mae'r ffordd y caiff cyflogwyr newydd sy'n ymuno â'r Gronfa eu trin yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, yn benodol "Adran 5 – Beth sy'n digwydd pan fydd cyflogwr yn ymuno â'r Gronfa?"

Mae'r ffordd y caiff cyflogwyr sy'n gadael y Gronfa eu trin yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, yn benodol "Adran 6 – Beth sy'n digwydd pan fydd cyflogwr yn gadael y Gronfa?"

## Atodiad F - Polisi ar reoli risg ymddeoliad drwy salwch

### 9 Cyflwyniad

Pwrpas y polisi hwn yw nodi dull yr awdurdod gweinyddu o reoli'r risg sy'n codi oherwydd ymddeoliadau ar sail iechyd.

Dylid nodi nad yw'r datganiad hwn yn hollgynhwysfawr a gellir ystyried amgylchiadau unigol lle bo'n briodol

#### 9.1 Nodau ac amcanion

Mae nodau ac amcanion yr awdurdod gweinyddu mewn perthynas â'r polisi hwn fel a ganlyn:

- Egluro'r dull a ddefnyddiwyd i reoli risg ymddeoliad drwy salwch.
- Nodi amgylchiadau lle gallai adolygiad o brofiad arwain at gyfraniadau ychwanegol.
- Amlinellu'r risgiau a manteision allweddol i'r trefniant hwn.

### 9.2 Cefndir

Gall ymrwymiadau ychwanegol godi yn dilyn ymddeoliad aelodau oherwydd iechyd. Gall yr ymrwymiadau ychwanegol hyn gynnwys taliad cynnar heb ei leihau o fuddion pensiwn a dyfarnu pensiwn ychwanegol. Mae lefel y buddion pensiwn a delir ar salwch yn dibynnu ar ddifrifoldeb cyflwr yr aelod.

Mae'r Rheoliadau CPLlL yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymrwymiadau ychwanegol gael eu hariannu drwy daliadau gan gyflogwyr. Gall talu symiau mawr i gwrdd â straen pan fyddant yn codi arwain at daliadau annisgwyl a rhoi straen sylweddol ar gyllidebau cyflogwyr. Mae cronfeydd CPLlL yn gallu rhoi trefniadau ar waith sy'n lliniaru'r risg o orfod talu swm mawr o arian oherwydd taliad straen ymddeoliad ar sail iechyd.

Er mwyn lliniaru'r risg hon i gyflogwyr llai, ac i ddangos tystiolaeth o lywodraethu a rheoli risg da, mae'r awdurdod gweinyddu wedi trefnu polisi yswiriant allanol i gwmpasu straen ymddeoliad cynnar ar sail iechyd i gyflogwyr llai yn y Gronfa. Mae pob un o gyfraniadau'r cyflogwr hyn i'r Gronfa yn cynnwys ei gyfran o bremiwm yswiriant y flwyddyn honno. Pan fydd aelod gweithredol yn ymddeol ar ymddeoliad cynnar ar sail iechyd, bydd swm yr hawliad a dderbyniwyd gan yr yswiriwr yn cael ei gredydu i gyfran ased y cyflogwr priodol yn y Gronfa.

Ar gyfer yr holl gyflogwyr eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi yswiriant allanol, byddai unrhyw straen ariannu sy'n fwy na'r lwfans a wneir yn y sail ariannu yn cael ei fodloni trwy gynyddu cyfraniadau parhaus.

### 9.3 Canllawiau a fframwaith rheoleiddio

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi'r buddion sy'n daladwy i aelodau a'r ffordd y dylid ariannu buddion ychwanegol (fel y rhai sy'n codi ar ymddeoliad cynnar oherwydd salwch). Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Rheol 35 – caniatáu ymddeoliad cynnar o bensiwn ar sail iechyd
- Rheol 39 – yn nodi'r cyfrifiad o'r pensiwn sy'n daladwy yn achos ymddeoliad ar sail iechyd
- Rheol 68 – yn nodi'r cyfraniadau ychwanegol sy'n daladwy gan y cyflogwr i gwrdd â'r straen atebolrwydd a achosir gan aelod yn ymddeol oherwydd iechyd

## 10 Datganiad o egwyddorion

Mae'r datganiad egwyddorion hwn yn cwmpasu'r trefniant yswiriant allanol sydd ar waith i reoli'r risgiau a grëir gan ymddeoliadau ar sail iechyd i gyflogwyr llai, a'r risgiau cyfatebol i gyflogwyr mwy nad ydynt yn defnyddio'r trefniant yswiriant salwch. Yn gyffredinol:

- Ni fydd yn ofynnol i gyflogwyr dalu cyfandaliadau i gwrdd â straen ymddeoliad ar sail iechyd (yn ôl yr arfer).
- Bydd straeniau ymddeoliad oherwydd iechyd Haen 1 a Haen 2 yn dod o dan y trefniant hwn
- Ar gyfer cyflogwyr llai yn y Gronfa sy'n cael eu hyswirio gan yswiriant allanol:
  - Ni all cyflogwyr cymwys optio allan o'r trefniant hwn

- Mae pob un o gyfraniadau'r cyflogwr hyn i'r Gronfa yn cynnwys ei gyfran o bremiwm yswiriant y flwyddyn honno

- Ar gyfer holl gyflogwyr eraill y Gronfa:

- Bydd cyfraddau cyfrannu rheolaidd yn cynnwys cost ddisgwyliedig ymddeoliadau oherwydd salwch tybiedig

- Defnyddir system Traciwr Asedau Cyflogwr Hymans Robertson (HEAT) i olrhain profiad iechyd gwirioneddol

- Byddai unrhyw straen ariannu a oedd yn fwy na'r lwfans a wneir yn y sail ariannu fel arfer yn cael ei dalu drwy gynnydd mewn cyfraniadau parhaus yn y prisiad tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r Gronfa'n cadw'r hawl i ofyn am gyfraniadau ychwanegol ar unwaith os bydd straen sylweddol o iechyd yn ystod y cyfnod rhwng prisiadau.

# 11 Polisi

## 11.1 Pwrpas

Pwrpas y polisi rheoli risg iechyd hwn yw diogelu'r Gronfa rhag profiad ymddeoliad niweidiol gan gyflogwyr unigol.

## 11.2 Cymhwysedd

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob cyflogwr yn y Gronfa. Mae'r 'cyflogwyr llai' sy'n dod o dan yswiriant allanol yn cynnwys pob cyngor tref a chorff cymunedol a ganiateir (gyda llai na 75 o aelodau gweithredol) ac yn eithrio cyrff ar yr atodlen neu ddynodedig.

## 11.3 Gweithredu

Mae'r polisi yn gweithio fel a ganlyn:

- Pennir cyfrannau asedau ar gyfer pob cyflogwr bob mis gan Hymans Robertson, gan ddefnyddio'r system HEAT ac yn seiliedig ar y llif arian misol a'r wybodaeth asedau a ddarperir gan y gronfa.

  Fel rhan o'r ddarpariaeth ddata hon, mae'r gronfa'n pennu'r costau straen sy'n codi oherwydd ymddeoliadau ar sail iechyd a dyrennir y straen hwn i bob cyflogwr gweithredol yn gymesur â'u cyfran asedau ar ddechrau'r mis hwnnw.

- Pennir cyfraddau cyfraniadau gan Actiwari'r Gronfa bob tair blynedd fel rhan o'r prisiad tair blynedd.

Mae cyfraddau cyfraniadau sylfaenol yn cynnwys lwfans ar gyfer cost ddisgwyliedig ymddeoliadau oherwydd salwch tybiedig (a fynegir fel canran o'r gyflogres).

Mae hyn yn darparu cyllid parhaus ar gyfer y lefel dybiedig o straen ymddeoliad ar sail iechyd.

### 11.3.1 Cyflogwyr llai

- Mae cyflogwyr llai yn y Gronfa wedi'u diogelu gan y trefniant yswiriant salwch.

- Pan fydd aelod gweithredol yn ymddeol ar ymddeoliad cynnar ar sail iechyd haen un neu haen dau, bydd swm hawliad sy'n hafal i gost straen a gyfrifwyd ar gyfer yr ymddeoliad yn cael ei dderbyn gan yr yswiriwr (gan dybio bod hawliad dilys) a'i gredydu i gyfran ased y cyflogwr priodol yn y Gronfa
- Nid oes sicrwydd y bydd yr yswiriwr yn talu'r hawliad, er enghraifft os nad yw'n credu bod y gofynion ar gyfer ymddeoliad iechyd haen un neu haen dau wedi'u bodloni.

### 11.3.2 Cyflogwyr eraill

- Cyflogwyr eraill yn y Gronfa nad ydynt wedi'u cynnwys yn y trefniant yswiriant salwch

  - Lle mae lefel wirioneddol straen ymddeoliad oherwydd iechyd yn uwch na'r lefel dybiedig, bydd hyn yn arwain at ddiffyg yn y prisiad tair blynedd nesaf ar gyfer y cyflogwyr hynny nad ydynt wedi'u cynnwys yn y trefniant yswiriant iechyd.

    Ni fydd angen unrhyw gyfraniadau ychwanegol ar unwaith gan gyflogwyr i gwrdd â'r diffyg hwn, ond gallai hyn gynyddu'r gofyniad cyfraniadau yn dilyn y prisiad tair blynedd nesaf.

  - Yn yr un modd, lle mae lefel wirioneddol straen ymddeoliad oherwydd iechyd yn is na'r lefel dybiedig, bydd hyn yn arwain at warged yn y prisiad tair blynedd nesaf.

    Ni fydd unrhyw ad-daliad yn cael ei dalu i gyflogwyr o ganlyniad i hyn, ond gallai'r gwarged hwn arwain at bwysau am i lawr ar gyfraniadau yn dilyn y prisiad tair blynedd nesaf.

### 11.4 Adolygu a cyfraniadau ychwanegol

Bydd yr awdurdod gweinyddol yn adolygu lefel y profiad iechyd ar draws yr holl gyflogwyr ym mhob prisiad tair blynedd.

Os oes gan gyflogwr nifer anarferol o uchel o achosion o ymddeoliad oherwydd salwch dros y cyfnod rhwng prisiadau blaenorol, bydd yr awdurdod gweinyddol yn ymgysylltu â'r cyflogwr i ddeall y rhesymau dros hyn. Os bydd pryderon ynghylch y meini prawf cymhwysedd a ddefnyddir gan y cyflogwr wrth ganiatáu ymddeoliadau ar sail iechyd, gallai hyn arwain at yr angen i'r cyflogwr dalu cyfraniadau ychwanegol i'r Gronfa.

### 11.5 Costau

Bydd costau gweithredu'r polisi hwn yn cael eu talu gan y Gronfa fel rhan o'i threuliau gweinyddol

## 12 Polisïau Cysylltiedig

Mae dull y Gronfa o bennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr rheolaidd wedi'i nodi yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, yn benodol "Adran 2 – Sut mae'r Gronfa'n cyfrifo cyfraniadau cyflogwyr?"

## Atodiad Ff - Polisi ar adael y gronfa

## Cyflwyniad

Diben y polisi hwn yw egluro'r modd y bydd yr awdurdod gweinyddol yn delio gydag amgylchiadau lle mae cyflogwr yn y cynllun yn gadael y Gronfa ac yn dod yn gyflogwr sy'n ymadael (digwyddiad o adael).

Dylid nodi nad yw'r polisi hwn yn gynhwysfawr. Bydd pob digwyddiad lle mae cyflogwr yn gadael yn cael ei drin fesul achos, fodd bynnag, bydd rhai egwyddorion penodol yn berthnasol fel y cânt eu rheoli gan y fframwaith rheoleiddio (gweler isod) a pholisïau dewisol y Gronfa (disgrifir y rhain yn Adran 3 – Polisïau isod).

### Nodau ac Amcanion

Mae nodau ac amcanion yr awdurdod gweinyddol ar gyfer y polisi hwn fel a ganlyn:

- Cadarnhau'r dull ar gyfer trin a phrisio ymrwymiadau ar gyfer cyflogwyr sy'n gadael y Gronfa.
- Darparu gwybodaeth ynglŷn â sut bydd y Gronfa'n defnyddio ei phwerau dewisol o bosib wrth reoli achosion o adael.
- Amlinellu cyfrifoldebau (a hyblygrwydd ar gyfer) cyflogwyr sy'n gadael, yr awdurdod gweinyddol, yr actiwari a, phan fo'n berthnasol, cyflogwr ildio gwreiddiol y cynllun (fel arfer, awdurdod gosod).

### Cefndir

Fel y disgrifir yn Adran 7 y Datganiad Strategaeth Gyllido (DSC), gall cyflogwr yn y cynllun ddod yn gyflogwr sy'n gadael pan fydd digwyddiad gadael yn achosi hynny e.e. pan fo'r aelod actif olaf yn peidio â chymryd rhan yn y Gronfa. Ar adael y Gronfa, bydd yr awdurdod gweinyddol yn cyfarwyddo actiwari'r Gronfa i gynnal prisiad o asedau ac ymrwymiadau ar gyfer y cyflogwr sy'n gadael, i weld p'un a oes diffyg neu warged. Mae gan y Gronfa ddisgresiwn llawn dros delerau ad-dalu unrhyw ddiffyg, ac i ba raddau mae unrhyw warged yn arwain at dalu credyd gadael.

### Arweiniad a fframwaith rheoleiddio

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd) yn cynnwys darpariaethau perthnasol ynghylch cyflogwyr yn gadael y Gronfa (Rheoliad 64) ac maent yn cynnwys y canlynol:

- Rheoliad 64 (1) – mae'r rheoliad hwn yn nodi, pan fo awdurdod cyflogi yn peidio â bod yn gyflogwr yn y cynllun, mae gofyn i'r awdurdod gweinyddol gael prisiad actiwari o ymrwymiadau'r cyn gyflogeion a'r cyflogeion presennol fel maent yn sefyll ar y dyddiad terfynu. Ymhellach, mae'n gofyn bod y Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau yn cael ei haddasu i ddangos y cyfraniadau diwygiedig fydd yn ddyledus gan y cyflogwr sy'n gadael.

- Rheoliad 64 (2) – pan fo awdurdod cyflogi yn peidio â bod yn gyflogwr yn y cynllun, mae gofyn i'r awdurdod gweinyddol gael prisiad actiwari o ymrwymiadau'r cyn gyflogeion a'r cyflogeion presennol fel maent yn sefyll ar y dyddiad gadael. Ymhellach, mae'n gofyn bod y Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau yn cael ei haddasu i ddangos y taliad gadael sy'n ddyledus gan y cyflogwr sy'n gadael, neu warged yr asedau dros yr ymrwymiadau yn y gronfa.

- Rheoliad 64 (2ZAB) – mae'n rhaid i'r awdurdod gweinyddol benderfynu faint o gredyd gadael sy'n berthnasol, fe allai fod yn sero, gan roi ystyriaeth i'r ffactorau y sonnir amdanynt ym mharagraff (2ZC) ac mae'n rhaid iddo:

a) Roi gwybod am ei fwriad i wneud penderfyniad i'r -
    (i) Cyflogwr sy'n gadael ac unrhyw gorff arall sydd wedi darparu gwarant i'r Cyflogwr sy'n Gadael
    (ii) Cyflogwr y cynllun, lle mae'r cyflogwr sy'n gadael yn gorff a fu'n cymryd rhan yn y Cynllun o ganlyniad i gytundeb derbyn
b) Talu'r swm a bennwyd i'r cyflogwr sy'n gadael o fewn chwe mis o'r dyddiad gadael, neu o fewn cyfnod hirach y mae'r awdurdod gweinyddol a'r cyflogwr sy'n gadael yn cytuno arno.

- Rheoliad (2ZC) – Wrth ddefnyddio ei ddisgresiwn i bennu faint o gredyd gadael sy'n berthnasol, mae'n rhaid i'r awdurdod gweinyddol ystyried y ffactorau a ganlyn -
    a) I ba raddau y mae yna asedau dros ben yn y gronfa mewn perthynas â'r cyflogwr hwnnw ym mharagraff (2)(a)
    b) Pa gyfran o'r asedau dros ben hyn sydd wedi deillio o werth cyfraniadau'r cyflogwr
    c) Unrhyw sylwadau i'r awdurdod gweinyddol a wnaed gan y cyflogwr sy'n gadael ac, os yw'r cyflogwr yn cymryd rhan yn y cynllun yn sgil cytundeb derbyn, unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau (8)(a) i (d)(iii) o Ran 3 Atodlen 2 y Rheoliadau: ac
    d) Unrhyw ffactorau eraill perthnasol

- Rheoliad 64 (2A) a (2B) – gall yr awdurdod gweinyddol, o'i ddewis, gyflwyno hysbysiad atal er mwyn atal gorfod talu swm gadael am hyd at dair blynedd, os yw'n credu'n rhesymol y bydd gan y cyflogwr sy'n gadael un neu ragor o aelodau actif yn cyfrannu i'r gronfa o fewn y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad atal.

- Rheoliad 64 (3) – mewn amgylchiadau lle nad yw'n bosib cael cyfraniadau ychwanegol gan y cyflogwr sy'n gadael y Gronfa nau gan y bond/indemniad neu warantwr, mae modd addasu'r gyfradd/cyfraddau cyfrannu ar gyfer y cyflogwr cynllun priodol neu gyflogwyr y gronfa sy'n weddill.

- Rheoliad 64 (4) – os credir y bydd cyflogwr yn y cynllun yn gadael ar ryw bwynt yn y dyfodol, gall yr awdurdod gweinyddol gael tystysgrif gan actiwari'r Gronfa yn diwygio'r cyfraniadau ar gyfer y cyflogwr hwnnw, gyda'r bwriad o sicrhau bod disgwyl i'r asedau fod fwy neu lai'n gyfwerth i'r taliad gadael fydd yn ddyledus.

- Rheoliad 64 (5) – ar ôl talu taliad gadael i'r Gronfa, ni fydd unrhyw daliadau pellach yn ddyledus i'r Gronfa gan y cyflogwr sy'n gadael.

- Rheoliad 64 (7A-7G) – gall yr awdurdod gweinyddol fynd i gytundeb ysgrifenedig ar gyfer gohirio'r ddyled, sy'n gadael i'r cyflogwr gael statws cyflogwr gohiriedig a gohirio crisialu'r ddyled er nad oes ganddo unrhyw aelodau actif.

- Rheoliad 64B (1) – gall yr awdurdod gweinyddol sefydlu polisi ar daenu taliadau gadael.

Yn ogystal â Rheoliadau 2013 a grynhoir uchod, mae Rheoliad 25A o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Cynilion ac Addasu) 2014 ("y Rheoliadau Trosiannol") yn rhoi'r gallu i'r Gronfa godi dyled gadael ar gyflogwyr sydd wedi stopio cymryd rhan yn y Gronfa (o dan y rheoliadau blaenorol) ond lle na fu prisiad gadael ar eu cyfer ar y pryd. Mae'r ddogfen bolisi hon yn disgrifio sut mae'r Gronfa'n disgwyl delio ag achosion o'r fath.

Mae'r polisi hwn hefyd yn adlewyrchu arweiniad statudol gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) ar baratoi a chynnal polisïau sy'n ymwneud â chyflogwyr yn gadael. Efallai y byddai partïon sydd â diddordeb yn dymuno edrych ar ganllaw ategol a gynhyrchwyd gan Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun.

Mae'r rheoliadau hyn yn ymwneud â'r holl gyflogwyr yn y Gronfa.

## Datganiad o egwyddorion

Mae'r Datganiad hwn o Egwyddorion yn sôn am drefniant y Gronfa ar gyfer cyflogwyr sy'n gadael. Ymdrinnir â phob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, ond yn gyffredinol:

- polisi'r Gronfa yw y dylai'r penderfyniad ynghylch unrhyw warged neu ddiffyg pan fo cyflogwr yn gadael anelu i leihau'r risg, cyhyd ag sy'n ymarferol, y bydd rhaid i'r cyflogwyr anghysylltiedig sydd ar ôl yn y Gronfa wneud cyfraniadau yn y dyfodol er mwyn talu am ymrwymiadau gwasanaeth y gorffennol cyflogeion presennol a chyn gyflogeion y cyflogwyr sy'n gadael y Gronfa.

- y dull mae'r Gronfa yn ei ffafrio yw gofyn i unrhyw ddyled gadael (taliad gadael) gael ei thalu'n llawn, a chaiff ei chyfrifo gan yr actiwari ar sail briodol (yn unol ag Adran 7 y DSC ac Adran 3.1 isod). Byddai hyn yn diweddu unrhyw ymrwymiad i'r Gronfa gan y cyflogwr sy'n gadael.

- prif amcan y Gronfa yw gwarchod buddiannau'r Gronfa, sy'n golygu hefyd gwarchod buddiannau'r cyflogwyr sydd ar ôl. Ail amcan yw ystyried amgylchiadau'r cyflogwr sy'n gadael wrth bennu'r trefniadau ar gyfer adfer y ddyled gadael.

## Polisïau

Ar adael, bydd yr awdurdod gweinyddol yn cyfarwyddo actwari'r Gronfa i gynnal prisiad gadael i bennu a oes unrhyw ddiffyg neu warged fel y diffinnir yn Adran 4.3 y DSC.

Os oes diffyg, fel arfer byddai'r gronfa yn ceisio cael y swm hwn yn llawn gan y cyflogwr sy'n gadael. Polisi arferol y Gronfa yw bod y ddyled gadael yn cael ei thalu'n llawn mewn un lwmp-swm o fewn 28 diwrnod o'r cyflogwr yn cael ei hysbysu ohoni.

Fodd bynnag, bydd y Gronfa'n ystyried ceisiadau ysgrifenedig gan gyflogwyr i daenu'r taliad dros gyfnod cytunedig, yn yr amgylchiadau eithriadol lle gall y cyflogwr ddangos y byddai talu'r ddyled mewn un lwmp swm ar unwaith yn niweidiol dros ben i sefyllfa ariannol y cyflogwr (gweler 3.2 Hyblygrwydd ad-dalu ar gyfer taliadau gadael isod).

Mewn amgylchiadau lle mae gwarged, bydd yr awdurdod gweinyddol yn pennu, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun yn llwyr, faint o gredyd gadael (os unrhyw) fydd yn cael ei dalu i'r cyflogwr sy'n gadael (gweler 3.3 Credydau gadael isod).

### 1.1 Cyfrifo symiau gadael

Caiff prisiadau gadael eu cynnal ar sail achos wrth achos, yn ôl disgresiwn llwyr y Gronfa yn dibynnu ar amgylchiadau'r cyflogwr sy'n gadael. Fodd bynnag, yn gyffredinol gallai'r egwyddorion a'r tybiaethau canlynol fod yn berthnasol, fel y disgrifir yn Adran 7.2 y DSC ac a grynhoir isod:

| Math o gyflogwr | Sail gadael | Partïon cyfrifol am ddyled heb ei thalu neu ddyled yn y dyfodol |
|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, Parc Cenedlaethol Eryri | Sail risg isel[1] | Rhannu rhwng cyflogwyr eraill y Gronfa |
| Cyrff Eraill ar yr Atodlen | Sail risg isel[1] | Rhannu rhwng cyflogwyr eraill y Gronfa |

| Math o gyflogwr | Sail gadael | Partïon cyfrifol am ddyled heb ei thalu neu ddyled yn y dyfodol |
|---|---|---|
| Cyrff trosglwyddai a ganiateir (TABs) | Sail barhaus / sail gadael contractwr[2] | Awdurdod gosod (pan fo'n berthnasol, fel arall ei rhannu rhwng cyflogwyr eraill y Gronfa |
| Cyrff cymunedol a ganiateir (CABs) | Sail risg isel | Rhannu rhwng cyflogwyr eraill y Gronfa (os nad oes gwarantwr) |
| Cyflogwyr dynodedig | Sail risg isel | Rhannu rhwng cyflogwyr eraill y Gronfa (os nad oes gwarantwr) |

[1]Tybir nad yw gadael yn bosib yn gyffredinol, oherwydd bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar Gyrff ar yr Atodlen i gymryd rhan yn y CPLlL. Mewn achosion prin pan fydd y cyflogwr yn gadael (oherwydd newidiadau ym mheirianwaith y Llywodraeth er enghraifft), byddai'r egwyddorion gadael hyn yn berthnasol.

[2]Os yw TAB wedi cymryd camau sydd ym marn yr awdurdod gweinyddol wedi'u dylunio'n fwriadol i beri digwyddiad gadael (e.e. stopio buddion CPLlL y dyfodol rhag cronni), yna fe wneir y prisiad gadael ar sail risg-isel.

**Hyblygrwydd ad-dalu ar gyfer taliadau gadael**

**Trefniant taenu gohiriedig (DSA)**

Bydd y Gronfa'n ystyried ceisiadau ysgrifenedig gan gyflogwyr sy'n gadael i daenu taliad gadael dros gyfnod cytunedig, yn yr amgylchiadau eithriadol lle gall y cyflogwr ddangos y byddai talu'r ddyled mewn un lwmp-swm ar unwaith yn niweidiol dros ben i sefyllfa ariannol y cyflogwr.

Yn yr achos eithriadol hwn, polisi'r Gronfa yw:

- Y cyfnod cytunedig ar gyfer taenu'r taliad yw dim mwy na thair blynedd, ond fe allai'r Gronfa ddefnyddio ei disgresiwn i ymestyn y cyfnod hwn mewn amgylchiadau eithafol.
- Gallai'r Gronfa ystyried ffactorau megis maint y taliad gadael a chyfamod ariannol y cyflogwr sy'n gadael wrth bennu cyfnod taenu priodol.
- Mae'n bosib y gofynnir i'r cyflogwr sy'n gadael ddarparu gwybodaeth ariannol berthnasol i'r awdurdod gweinyddol megis copi o'i gyfrifon diweddaraf, ffynonellau cyllido, rhagamcanion cyllideb, cyfradd credyd (os oes ganddo un) ac ati i helpu gyda'r penderfyniad hwn.
- Efallai y bydd taliadau sy'n ddyledus dan y DSA yn destun cyfradd llog.

- Bydd y Gronfa ond yn ystyried ceisiadau ysgrifenedig os cânt eu cyflwyno o fewn chwe mis o'r cyflogwr yn gadael y Gronfa. Byddai'n rhaid i'r cyflogwr sy'n gadael ddarparu gwybodaeth ariannol fanwl i'r Gronfa i gefnogi ei gais.

- Byddai'r Gronfa yn rhoi ystyriaeth i faint unrhyw warant a gynigir a byddai'n ceisio cyngor actiwaraidd, cyfamod a chyfreithiol ym mhob achos.

- Mae'r Gronfa'n cynnig bod dogfen gyfreithiol, sy'n gosod telerau'r cytundeb taliad gadael, yn cael ei pharatoi gan y Gronfa a'i llofnodi gan yr holl bartïon perthnasol cyn cychwyn y cytundeb taliad.

- Dylai telerau'r ddogfen gyfreithiol gynnwys cyfeiriad at y cyfnod taenu, y taliadau blynyddol sy'n ddyledus, cyfraddau llog sy'n berthnasol, costau eraill sy'n daladwy a chyfrifoldebau'r cyflogwr sy'n gadael yn ystod y cyfnod taenu a gadael.

- Pe bai'r cyflogwr yn torri'r cynllun taliad cytunedig mewn unrhyw ffordd, byddai'n rhaid iddo dalu'r taliad gadael sy'n weddill ar unwaith.

- Os yn briodol, gellir cyfeirio achosion at y Pwyllgor Pensiynau i'w hystyried, a chânt eu hystyried ar eu rhinweddau eu hunain. Caiff y Cadeirydd wneud penderfyniadau mewn ymgynghoriad â swyddogion os oes angen penderfyniad ar frys rhwng cyfarfodydd Pwyllgor.

**Cytundeb dyled gohiriedig (DDA)**

Fel dewis arall, os yw'r cyflogwr sy'n gadael yn parhau i fod mewn busnes, gallai'r Awdurdod Gweinyddol sefydlu cytundeb ysgrifenedig gyda'r cyflogwr i ohirio ei rwymedigaethau i wneud taliad gadael a pharhau i wneud cyfraniadau eilaidd ('Cytundeb Dyled Gohiriedig' fel y disgrifir yn Rheoliad 64 (7A)).

Wrth ddefnyddio'r dull hwn, bydd y cyflogwr yn parhau i wynebu risgiau'r farchnad stoc a risgiau ariannu eraill yn ystod cyfnod y gohiriad, gan arwain at newidiadau ym maint y ddyled, yn hytrach na chrisialu maint y ddyled ar y pwynt gadael.

Bydd yn rhaid i'r cyflogwr fodloni'r holl ofynion sydd ar gyflogwyr y Cynllun a thalu chyfradd eilradd o gyfraniadau fel y pennir gan actiwari'r Gronfa hyd nes daw'r cytundeb DDA i ben.

Mae'n bosib y byddai'r Awdurdod Gweinyddol yn ystyried DDA yn yr amgylchiadau isod:

- Mae'r cyflogwr yn gofyn i'r Gronfa ystyried DDA.

- Disgwylir i'r cyflogwr fod â diffyg pe cynhelir prisiad gadael.

- Disgwylir y bydd y cyflogwr yn bryder parhaus.

- Mae'r awdurdod gweinyddol yn ystyried bod cyfamod y cyflogwr yn ddigonol.

Fel arfer bydd yr Awdurdod Gweinyddol angen y canlynol:

- Paratoi dogfen gyfreithiol, sy'n gosod telerau'r Cytundeb Dyled Gohiriedig ac wedi'i llofnodi gan yr holl bartïon perthnasol cyn i'r trefniant gychwyn (gan gynnwys manylion ynghylch cyfnod

amser y DDA, y taliadau blynyddol sy'n ddyledus, amlder adolygu, a chyfrifoldebau'r cyflogwr yn ystod y cyfnod).

- Gwybodaeth ariannol berthnasol ar gyfer y cyflogwr megis copi o'i gyfrifon diweddaraf, ffynonellau cyllido, rhagamcanion cyllideb, cyfradd credyd (os oes ganddo un) i gefnogi ei asesiad cyfamod.
- Bod gwarant yn cael ei roi mewn lle sy'n ddigon i dalu diffyg y cyflogwr ar ei sail gadael, a bydd y Gronfa'n ceisio cyngor actiwaraidd, cyfamod a chyfreithiol ym mhob achos.
- Monitro'r gofynion cyfrannu a'r gofynion gwarant yn rheolaidd
- Y cyflogwr i dalu am holl gostau'r trefniant, megis cost cyngor i'r Gronfa, monitro'r trefniant yn barhaus a gohebiaeth ynghylch unrhyw gyfraniadau sy'n parhau a gofynion gwarant.

Bydd cytundeb DDA fel arfer yn dod i ben ar y dyddiad cyntaf pan ddigwydd un o'r digwyddiadau a ganlyn:

Mae'r cyflogwr yn cofrestru aelodau actif newydd i'r gronfa.

Daw'r cyfnod a bennwyd yn y DDA, neu fel y'i diwygiwyd, i ben.

Y cyflogwr yn cael ei gymryd drosodd, neu uniad, ansolfedd, dirwyn i ben neu ddiddymiad y cyflogwr.

Mae'r awdurdod gweinyddol yn cyflwyno hysbysiad i'r cyflogwr bod yr awdurdod gweinyddol yn rhesymol fodlon fod gallu'r cyflogwr i gwrdd â'r cyfraniadau sy'n daladwy dan y DDA wedi gwanio'n sylweddol neu'n debygol o wanio'n sylweddol yn y 12 mis nesaf.

Mae actiwari'r Gronfa'n asesu bod y cyflogwr wedi talu digon o gyfraniadau eilradd i dalu am y cyfan (neu bron y cyfan) o'r taliad gadael sy'n ddyledus os daw'r cyflogwr yn gyflogwr sy'n gadael ar y dyddiad cyfrifo (h.y. mae'r cyflogwr wedi'i ariannu'n llawn ar y cyfan ar ei sail risg isel).

Mae actiwari'r Gronfa yn asesu bod gwerth ymrwymiadau'r cyflogwr wedi disgyn islaw lefel *de minimis* cytunedig a daw'r cyflogwr yn gyflogwr sy'n gadael ar y dyddiad cyfrifo.

Mae'r cyflogwr yn gofyn i gael terfynu'r cytundeb yn gynnar ac yn setlo'r taliad gadael yn llawn fel y cyfrifwyd gan actiwari'r Gronfa ar y dyddiad cyfrifo (h.y. mae'r cyflogwr yn talu'r ddyled gadael sy'n weddill ganddo ar ei sail gadael).

Pan ddaw'r DDA i ben, daw'r cyflogwr yn gyflogwr sy'n gadael a bydd prisiad gadael yn cael ei gwblhau yn unol â'r polisi hwn.

### Credydau gadael

Bydd hawl yr awdurdod gweinyddol i bennu p'un a oes credydau gadael yn daladwy yn unol â'r darpariaethau hyn yn berthnasol i'r holl gyflogwyr sy'n rhoi'r gorau i gymryd rhan yn y gronfa ar ôl 14 Mai 2018. Mae'r ddarpariaeth hon felly mewn grym yn ôl-weithredol i'r un graddau â'r darpariaethau yn Rheoliadau Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) 2020.

Gallai'r awdurdod gweinyddol benderfynu bod y credyd gadael sy'n daladwy yn sero, fodd bynnag, wrth wneud penderfyniad, bydd yr Awdurdod Gweinyddol yn rhoi ystyriaeth i'r ffactorau a ganlyn.

a) i ba raddau y mae yna asedau dros ben yn y Gronfa mewn perthynas â'r cyflogwr uwchlaw'r ymrwymiadau a fanylwyd.

b) cyfran yr asedau dros ben sydd wedi codi oherwydd gwerth cyfraniadau'r cyflogwr.

c) unrhyw sylwadau i'r awdurdod gweinyddol a wnaed gan y cyflogwr sy'n gadael, gwarantwr, y Cyflogwr ildio yn y Cynllun (yr Awdurdod Gosod fel arfer) neu gan gorff sy'n perchen, yn ariannu neu'n rheoli'r cyflogwr sy'n gadael; neu mewn rhai achosion, yr Ysgrifennydd Gwladol.

d) unrhyw ffactorau eraill perthnasol

**Cyrff a ganiateir**

i. Fel arfer ni fydd unrhyw gredyd gadael yn daladwy yng nghyswllt cyrff a dderbyniwyd i'r Gronfa cyn 14 Mai 2018 oni bai bod hynny'n destun trefniant rhannu risg yn unol â pharagraff iii) isod. Cyn y dyddiad hwn, ni châi'r Gronfa dalu credyd gadael dan y Rheoliadau a byddai hyn wedi'i adlewyrchu yn y telerau masnachol a gytunwyd rhwng y corff derbyn a'r awdurdod gosod/yr awdurdod dyfarnu/cyflogwr sy'n ildio. Bydd hyn hefyd yn gynnwys i unrhyw gorff a dderbyniwyd cyn 14 Mai 2018 sydd wedi'i ymestyn neu ei 'rowlio drosodd' tu hwnt i'r dyddiad terfyn gwreiddiol ac ar yr un telerau a oedd mewn grym pan ymunodd â'r gronfa.

ii. Fel arfer ni fydd unrhyw gredyd gadael yn daladwy i unrhyw gorff derbyn sy'n cymryd rhan yn y gronfa trwy ddull 'pasio trwodd'. I osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r cwestiwn o p'un a oes credyd gadael yn daladwy i unrhyw gorff sy'n cymryd rhan yn y Gronfa trwy'r drefn "Y cyflogwr gosod yn cadw'r risgiau cyn-contract" yn dibynnu ar ei drefniant rhannu risg, yn unol â pharagraff iii) isod.

iii. Bydd y Gronfa yn talu credyd gadael yn unol ag unrhyw gytundebau contractiol neu gytundebau rhannu risg sy'n ymdrin yn benodol â pherchnogaeth credydau gadael/gwarged wrth adael y gronfa neu os yw'r corff derbyn a'r corff gosod wedi cytuno ar unrhyw ddull amgen (sy'n gyson â'r Rheoliadau ac unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol eraill). Mae'n rhaid i'r wybodaeth hon, a fydd yn cynnwys pa barti sy'n gyfrifol am pa risg ariannu, gael ei chyflwyno i'r Gronfa mewn dogfen glir a diamwys gyda chytundeb y corff derbyn a'r awdurdod gosod/awdurdod dyfarnu/cyflogwr sy'n ildio ac o fewn un mis (neu gyfnod hwy fel y cytunir gyda'r awdurdod gweinyddol) o'r corff derbyn yn rhoi'r gorau i gymryd rhan yn y Gronfa. Bydd y Gronfa hefyd yn ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan yr awdurdod gosod/awdurdod dyfarnu/cyflogwr sy'n ildio ynglŷn ag arian sy'n ddyledus iddynt gan y corff derbyn yng nghyswllt y contract sy'n dod i ben neu unrhyw drefniant contractiol arall rhwng y ddau barti. Mae'n rhaid i'r awdurdod gosod/awdurdod dyfarnu/cyflogwr sy'n ildio wneud sylwadau o'r fath mewn dogfen glir a diamwys o fewn un mis o'r adeg y mae'r corff derbyn yn rhoi'r gorau i gymryd rhan yn y Gronfa.

iv. Yn absenoldeb y wybodaeth hon neu os oes unrhyw un o'r naill barti yn dadlau dehongliad y trefniadau contractiol neu drefniadau rhannu risg a amlinellir yn iii) uchod, bydd y Gronfa'n dal yn ôl rhag talu'r credyd gadael hyd nes bod unrhyw ddadleuon o'r fath yn cael eu datrys a hyd nes darperir y wybodaeth i'r awdurdod gweinyddol.

v. Os oes trefniant gwarantwr mewn lle, ond nad oes unrhyw drefniant rhannu risg ffurfiol, bydd y Gronfa'n ystyried sut mae'r drefn o sefydlu'r cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan y corff derbyn tra mae'n cymryd rhan yn y Gronfa yn adlewyrchu pa barti sy'n gyfrifol am y risgiau ariannu. Bydd y penderfyniad hwn yn gymorth i bennu gwerth unrhyw daliad credyd gadael.

vi. Os daw'r cytundeb derbyn i ben yn gynnar, bydd y Gronfa'n ystyried y rheswm am y terfyniad cynnar, a p'un a yw hynny'n berthnasol o gwbl i benderfyniad y Gronfa ynghylch gwerth unrhyw daliad credyd gadael. Yn yr achosion hyn, bydd y Gronfa'n ystyried y gwahaniaeth rhwng y

cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwyr (yn cynnwys enillion buddsoddi a gafwyd ar yr arian yma) a maint unrhyw warged wrth adael.

vii. Os yw corff a dderbyniwyd yn gadael ar sail risg isel (am nad oes gwarantwr mewn lle), yna fel arfer caiff unrhyw gredyd gadael ei dalu'n llawn i'r cyflogwr.

viii. Mae penderfyniad y Gronfa'n derfynol o ran dehongli sut mae unrhyw drefniant a ddisgrifir dan iii), v), vi) a vii) yn berthnasol i werth unrhyw daliad credyd gadael.

**Cyrff ar yr atodlen a chyrff sy'n dynodi**

i. Os oes trefniant gwarantwr mewn lle, ond nad oes unrhyw drefniant rhannu risg ffurfiol, bydd y Gronfa'n ystyried sut mae'r drefn o sefydlu'r cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan y cyflogwr tra mae'n cymryd rhan yn y Gronfa yn adlewyrchu pa barti sy'n gyfrifol am y risgiau ariannu. Bydd y penderfyniad yn gymorth i bennu gwerth unrhyw daliad credyd gadael.

ii. Os nad oes trefniant gwarantwr neu drefniant rhannu risg ffurfiol yn bodoli, bydd y Gronfa'n ystyried sut mae'r drefn o sefydlu'r cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan y cyflogwr tra mae'n cymryd rhan yn y Gronfa yn adlewyrchu i ba raddau mae'n gyfrifol am risgiau ariannu. Bydd y penderfyniad hwn yn gymorth i bennu gwerth unrhyw daliad credyd gadael.

iii. Mae penderfyniad y Gronfa'n derfynol o ran dehongli sut mae unrhyw drefniant a ddisgrifir dan i) a ii) yn berthnasol i werth taliad credyd gadael.

iv. Os daw corff ar yr atodlen neu gorff dynodi yn gyflogwr sy'n gadael oherwydd aildrefnu, uniad neu gymryd drosodd, yna ni fydd credyd gadael yn daladwy.

v. Os yw corff ar yr atodlen neu gorff dynodi yn gadael ar sail risg isel (am nad oes gwarantwr mewn lle), yna fel arfer caiff unrhyw gredyd gadael ei dalu'n llawn i'r cyflogwr.

**Cyffredinol**

i. Bydd y Gronfa'n rhoi gwybod i'r cyflogwr sy'n gadael ynghyd â'r awdurdod gosod a/neu unrhyw gyflogwyr eraill perthnasol y cynllun am eu benderfyniad i bennu credyd gadael dan Reoliad 64.

ii. Yn amodol ar unrhyw drefniant rhannu risg neu drefniant arall a'r ffactorau gaiff eu trafod uchod, wrth bennu'r sefyllfa ariannu ar y pwynt gadael, bydd y Gronfa'n gyffredinol yn gwneud asesiad ar sail gwerth y cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr yn ystod ei gyfranogiad, yr asedau a ddyrannwyd pan ymunodd â'r Gronfa, a'r enillion buddsoddi a gafwyd ar y ddau beth yma.

iii. Bydd y Gronfa hefyd yn ystyried a oes unrhyw gyfraniadau sydd i fod i ddigwydd neu arian yn ddyledus i'r Gronfa sydd heb eu talu gan y cyflogwr ar y dyddiad gadael. Os mai dyma'r achos, yna sefyllfa arferol y Gronfa fydd tynnu'r rhain o unrhyw gredyd gadael a delir.

iv. Caiff y penderfyniad terfynol ei wneud gan y Pennaeth Cyllid, yn unol â'r cyngor gan actiwari'r Gronfa ac/neu ymgynghorwyr cyfreithiol pan fo angen, gan roi ystyriaeth i'r pwyntiau sydd yn y polisi hwn.

v. Mae'r Gronfa'n derbyn y gall fod yna rai sefyllfaoedd sy'n unigryw iawn yn eu natur ac nad ydynt yn disgyn i'r un o'r categorïau uchod. Yn y sefyllfaoedd hyn bydd y Gronfa'n trafod gyda'r holl bartïon a effeithir sut bydd yn pennu'r credyd gadael. Mae penderfyniad y Gronfa yn yr achosion hyn yn derfynol.

vi. Mae'r canllawiau uchod ym mhwynt v) yn yr adran 'Cyrff a ganiateir', ac ym mhwyntiau i) a ii) yn yr adran 'Cyrff ar yr atodlen a chyrff sy'n dynodi', yn cyfeirio at y Gronfa'n 'ystyried y drefn o sefydlu'r cyfraddau cyfrannu tra mae'r cyflogwr yn cymryd rhan'. Mae'r gwahanol ddulliau ariannu, yn cynnwys y paramedrau a ddefnyddir a sut gall y rhain amrywio yn dibynnu ar y math o gyflogwr, yn cael eu trafod yn fanwl yn Nhabl 2 (adran 2.2) y DSC. Bydd ystyried y dull a ddefnyddiwyd wrth sefydlu'r cyfraddau cyfrannu oedd yn daladwy gan y cyflogwr sy'n gadael yn gymorth i'r Gronfa ddeall i ba raddau mae'r cyflogwr yn gyfrifol am ariannu'r ymrwymiadau gwaelodol ar yr adeg mae'n gadael. Er enghraifft, os yw'r cyfraddau cyfrannu wastad wedi bod yn seiliedig ar dybiaethau parhaus yna gallai hyn awgrymu bod y rhain hefyd yn dybiaethau priodol at ddibenion y credyd gadael (yn amodol hefyd ar yr ystyriaethau eraill a amlinellir yn y polisi hwn). Yn yr un modd, gallai gorwel amser ariannu byrrach na'r arfer neu debygolrwydd is nag arfer o lwyddiant fod yn adlewyrchiad o'r telerau masnachol gwaelodol ynghylch sut mae'r cyfrifoldeb am risgiau pensiwn wedi'i rannu rhwng y cyflogwr a'i warantwr. I osgoi amheuaeth, bydd pob cyflogwr sy'n gadael yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r ffactorau eraill gaiff eu crybwyll uchod.

vii. Ni ddylid cymryd bod unrhyw beth uchod yn llyffetheirio penderfyniad y Gronfa yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, yn hytrach, mae'n arwydd o sut mae penderfyniadau'n debygol o gael eu gwneud. Fodd bynnag, mae'n bwysig cadw mewn cof y bydd pob achos posib o gredyd gadael yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun gan yr awdurdod gweinyddol, ac y bydd yr awdurdod gweinyddol yn gwneud ei benderfyniad ei hun ar y sail honno.

**Anghydfod**

Petai unrhyw anghydfod neu anghytundeb ynghylch faint o gredyd gadael a delir a'r broses yr aethpwyd drwyddi er mwyn ystyried hynny, byddai'r darpariaethau apelio a dyfarnu sydd yn Rheoliadau 74-78 Rheoliadau CPLIL 2013 yn berthnasol.

## Pwyntiau ymarferol a phroses

### 1.2 Cyfrifoldebau cyflogwyr sy'n gadael

Mae'n rhaid i gyflogwr sy'n ymwybodol y bydd fwy na thebyg yn stopio cymryd rhan yn y Gronfa wneud y canlynol:

- hysbysu'r Gronfa, yn ysgrifenedig, o'r tebygolrwydd y bydd yn rhoi'r gorau i gymryd rhan (naill ai o fewn telerau'r cytundeb derbyn yng nghyswllt corff derbyn (fel arfer mae angen cyfnod rhybudd o 3 mis) neu fel arall fel sy'n ofynnol dan y Rheoliadau ar gyfer holl gyflogwyr eraill y cynllun). Dylid nodi bod hyn yn cynnwys cyflogwyr sydd wedi cau lle mae'r cyflogai olaf sy'n aelod yn gadael (yn sgil ymddeol, marwolaeth neu ei fod fel arall yn gadael ei gyflogaeth).

- darparu unrhyw wybodaeth berthnasol am y rheswm am adael y Gronfa a, lle bo'n briodol, gwybodaeth gyswllt yn achos cymryd drosodd, uniad neu ansolfedd.

- darparu'r holl ofynion gwybodaeth a data eraill fel sy'n ofynnol gan yr awdurdod gweinyddol ac sy'n berthnasol, gan gynnwys yn arbennig unrhyw newidiadau i'r aelodaeth a allai effeithio ar yr ymrwymiadau (e.e. codiadau cyflog ac ymddeoliadau cynnar) ac arwydd o beth fydd yn digwydd i gyflogeion sy'n aelodau cyfredol y cynllun pan fydd y cyflogwr yn gadael (e.e. a fyddant yn trosglwyddo i gyflogwr arall yn y Gronfa, a fyddant yn stopio cronni buddion o fewn y Gronfa, ac ati).

### 1.3 Cyfrifoldebau'r awdurdod gweinyddol

Bydd yr awdurdod gweinyddol yn:

- casglu gwybodaeth fel bo'r angen, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
    - manylion y digwyddiad gadael – y rheswm mae'r cyflogwr yn gadael y Gronfa (h.y. diwedd contract, ansolfedd, uniad, newidiadau i beirianwaith y llywodraeth ac ati) ac unrhyw ddogfennau cefnogol a allai effeithio ar ddarfod eu cyfranogiad yn y Gronfa.
    - data aelodaeth cyflawn ar gyfer y cyflogwr sy'n gadael ac adnabod newidiadau ers y prisiad ffurfiol diwethaf.
    - y canlyniad tebygol ar gyfer unrhyw aelodau-gyflogeion sydd ar ôl (e.e. a gânt eu trosglwyddo i gyflogwr arall, neu a fyddant yn stopio cronni ymrwymiadau o fewn y Gronfa).

- adnabod pa barti fydd yn gyfrifol am dalu diffyg y cyflogwr ar adeg gadael (h.y. y cyflogwr ei hun, cwmni yswiriant, derbynnydd, cyflogwr arall yn y Gronfa, gwarantwr ac ati).

- comisiynu actwari'r Gronfa i gynnal prisiad gadael o dan y rheoliad priodol.

- pan fo'n berthnasol, bydd yn trafod gyda'r cyflogwr y posibilrwydd o dalu cyfraddau cyfrannau addasedig sy'n targedu lefel ariannu 100% erbyn y dyddiad gadael trwy gyfraniadau uwch os bydd y cyflogwr mewn diffyg ar y sail gadael, neu gyfraniadau is os bydd mewn gwarged.

- pan fo'n berthnasol, bydd yn trafod gyda'r cyflogwr ildio gwreiddiol neu'r gwarantwr ac yn sicrhau ei fod yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau, yn arbennig am unrhyw ymrwymiadau gweddilliol neu risg gweddilliol sy'n gysylltiedig ag aelodaeth y cyflogwr sy'n gadael.

- ar ôl cymryd cyngor gan yr actiwari, yn hysbysu'r cyflogwr a phartïon perthnasol eraill yn ysgrifenedig o'r taliad sydd ei angen yng nghyswllt unrhyw ddiffyg ar y pwynt gadael, ac yn mynd ar ôl y taliad.

**Talu credyd gadael**

- Os yw'r actiwari yn penderfyni bod yna asedau dros ben uwchlaw'r ymrwymiadau ar y dyddiad gadael, bydd yr awdurdod gweinyddol yn gweithredu yn unol â'r polisi credyd gadael uchod. Os oes angen taliad, bydd yr awdurdod gweinyddol yn rhoi gwybod i'r cyflogwr sy'n gadael faint sy'n ddyledus i'w dalu'n ôl, a bydd yn ceisio cael y taliad o fewn chwe mis o'r dyddiad gadael. Fodd bynnag, er mwyn cwrdd â'r amserlen chwe mis, bydd yr awdurdod gweinyddol angen i gyflogwr sy'n gadael roi gwybod am hynny'n brydlon a bydd gofyn i'r cyflogwr sy'n gadael ddarparu'r holl ddata y gofynnir amdano yn brydlon hefyd. Ni all yr awdurdod gweinyddol wneud unrhyw taliad credyd gadael hyd nes ei fod wedi derbyn yr holl ddata y gofynnodd amdano.

- Ar yr adeg y cynhyrchwyd y polisi hwn, cafodd y Gronfa wybod gan CThEM nad yw credydau gadael yn destun treth, fodd bynnag, mae'n rhaid i bob cyflogwr sy'n gadael geisio cael ei gyngor ei hun ar elfennau trethu a chyfrifo unrhyw gredyd gadael.

### 1.4 Cyfrifoldebau'r actiwari

Ar ôl i'r awdurdod gweinyddol gomisiynu prisiad gadael, bydd actiwari'r Gronfa yn:

- cyfrifo'r gwarged neu'r diffyg sy'n gymwys i'r cyflogwr sy'n gadael ar sail briodol, gan gymryd i ystyriaeth yr egwyddorion a nodir yn y polisi hwn.

- darparu cyngor actiwaraidd i'r awdurdod gweinyddol ar sut y dylid adfer unrhyw ddiffyg gan gyflogwr sy'n gadael, gan roi ystyriaeth i amgylchiadau'r cyflogwr ac unrhyw wybodaeth a gasglwyd hyd yma yng nghyswllt y digwyddiad gadael.

- pan fo'n briodol, bydd yn cynghori ar oblygiadau'r cyflogwr yn gadael i weddill cyflogwyr y Gronfa, yn cynnwys unrhyw effeithiau gweddilliol i'w hystyried fel rhan o brisiadau pob tair blynedd.

## Polisïau Cysylltiedig

Mae dull y Gronfa o ymdrin â chyflogwyr sy'n gadael i'w weld yn y DSC, yn benodol "Adran 7 – Beth sy'n digwydd pan fydd cyflogwr yn gadael y Gronfa?"

Mae'r dull a ddefnyddir er mwyn gosod y tybiaethau actiwaraidd ar gyfer prisiadau gadael i'w weld yn Atodiad Ch y DSC.

## 10.2 Datganiad Strategaeth Buddsoddi

### 1. Cyflwyniad a Chefndir

Dyma Ddatganiad Strategaeth Buddsoddi ("DSB") Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa"), a weinyddir gan Gyngor Gwynedd ("yr Awdurdod Gweinyddol"). Gwneir y DSB yn unol â Rheoliad 7 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ("y Rheoliadau").

Mae'r DSB wedi'i baratoi gan Bwyllgor Pensiynau'r Gronfa ("y Pwyllgor") ar ôl derbyn cyngor gan ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, Hymans Robertson LLP. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu ar awdurdod dirprwyedig yr Awdurdod Gweinyddol.

Mae'r DSB, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ym mis Mawrth 2023, yn destun adolygiad cyfnodol o leiaf bob tair blynedd ac yn ddi-oed ar ôl unrhyw newid sylweddol yn y polisi buddsoddi. Mae'r Pwyllgor wedi ymgynghori ar gynnwys strategaeth fuddsoddi'r Gronfa gyda'r unigolion a grwpiau hynny y mae'n eu hystyried yn briodol.

Mae'r Pwyllgor yn ceisio buddsoddi yn unol â'r DSB, unrhyw arian o'r Gronfa nad oes ei angen ar unwaith i wneud taliadau o'r Gronfa. Dylid darllen y DSB ar y cyd â Datganiad Strategaeth Ariannu'r Gronfa.

### 2. Addasrwydd buddsoddiadau penodol a mathau o fuddsoddiadau

Prif amcan y Gronfa yw darparu buddion pensiwn a lwmp swm i aelodau ar eu hymddeoliad a/neu fuddion ar farwolaeth, cyn neu ar ôl ymddeol, ar gyfer eu dibynyddion, ar sail buddion diffiniedig. Bydd y sefyllfa ariannu hon yn cael ei hadolygu ym mhob prisiad actiwaraidd bob tair blynedd, neu'n amlach yn ôl yr angen.

Nod y Pwyllgor yw ariannu'r Gronfa yn y fath fodd fel bod yr holl fuddion cronedig, o dan amodau arferol y farchnad, yn cael eu cwmpasu'n llawn gan werth asedau'r Gronfa a bod y cyflogwr yn cytuno ar lefel briodol o gyfraniadau i gwrdd â chost buddion yn y dyfodol yn cronni. Ar gyfer aelodau sy'n weithwyr, bydd buddion yn seiliedig ar y gwasanaeth a gwblhawyd ond byddant yn ystyried codiadau cyflog a/neu chwyddiant yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor wedi trosi ei amcanion yn feincnod dyrannu asedau strategol addas ar gyfer y Gronfa. Mae'r meincnod hwn yn gyson â barn y Pwyllgor ar y cydbwysedd priodol rhwng cynhyrchu enillion hirdymor boddhaol ar fuddsoddiadau tra'n ystyried anweddolrwydd a risg y farchnad a natur ymrwymiadau'r Gronfa.

Bwriedir adolygu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa o leiaf bob tair blynedd yn dilyn prisiad actiwaraidd o'r Gronfa

Cynhaliodd y Gronfa ymarfer modelu atebolrwydd asedau ar y cyd â phrisiad actiwaraidd 2022. Modelwyd nifer o wahanol strategaethau cyfrannu a buddsoddi ac ystyriwyd esblygiad y Gronfa yn y dyfodol o dan ystod eang o wahanol senarios. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y tebygolrwydd y byddai'r Gronfa'n cael ei hariannu'n llawn ar ddiwedd y cyfnod amcan, ac ystyriodd lefel y risg negyddol yn y gwahanol strategaethau drwy nodi'r lefelau ariannu isel a allai ddod i'r amlwg pe bai canlyniadau gwael.

Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau bod y strategaeth fuddsoddi yn rhoi ystyriaeth briodol i broffil aeddfedrwydd y Gronfa (o ran cyfrannau cymharol yr ymrwymiadau mewn perthynas â phensiynwyr, aelodau gohiriedig ac aelodau gweithredol), ynghyd â lefel y gwarged neu ddiffyg a ddatgelwyd (yn gymharol i'r seiliau ariannu a ddefnyddir).

Yn ychwanegol, mae'r Pwyllgor yn monitro'r strategaeth buddsoddi yn barhaus, gan ganolbwyntio ar ffactorau sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Addasrwydd o ystyried lefel cyllido'r Gronfa a'r proffil ymrwymiadau
- Lefel y risg ddisgwyliedig
- Rhagolygon ar gyfer enillion ar asedau
- Ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG)

Mae'r Pwyllgor hefyd yn monitro dyraniad gwirioneddol y Gronfa yn rheolaidd i sicrhau nad yw'n gwyro'n sylweddol oddi wrth y dyraniad targed.

Roedd yr enillion dosbarth asedau hirdymor a dybiwyd yn yr ymarfer modelu fel a ganlyn:

| Dosbarth Ased | Dychweliad disgwyliedig 10 mlynedd (% y.f.) | Dychweliad disgwyliedig 20 mlynedd (% y.f.) |
|---|---|---|
| Ecwiti DU | 5.7 | 6.2 |
| Ecwiti Byd-Eang | 5.8 | 6.3 |
| Ecwiti Marchnadoedd-Datblygol | 5.8 | 6.3 |
| Ecwiti Preifat | 9.4 | 10.0 |
| Isadeiledd | 5.9 | 6.5 |
| Eiddo | 4.4 | 5.0 |
| Credyd Preifat | 6.0 | 6.8 |
| Credyd Aml Ased | 3.5 | 4.4 |

| | | |
|---|---|---|
| Bondiau Corfforaethol | 2.4 | 3.2 |
| Bondiau Elw Absoliwt | 2.3 | 2.9 |

### 3. Buddsoddi arian mewn amrywiaeth eang o fuddsoddiadau

**Dosbarthiadau o asedau**

Gall y Gronfa fuddsoddi mewn gwarantau a ddyfynnwyd a heb eu dyfynnu o farchnadoedd y DU a thramor gan gynnwys ecwitïau a llog sefydlog a bondiau index linked, arian parod, eiddo a nwyddau naill ai'n uniongyrchol neu drwy gronfeydd cyfun. Gall y Gronfa hefyd ddefnyddio contractau ar gyfer gwahaniaethau a deilliadau eraill naill ai'n uniongyrchol neu mewn cronfeydd cyfun i fuddsoddi yn y cynnyrch hyn at ddiben rheoli portffolio'n effeithlon neu i warchod risgiau penodol.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu natur buddsoddiadau'r Gronfa yn rheolaidd, gan gyfeirio at addasrwydd ac arallgyfeirio. Mae'r Pwyllgor yn ceisio ac yn ystyried cyngor ysgrifenedig gan berson â chymwysterau addas wrth gynnal adolygiad o'r fath. Os cynigir, ar unrhyw adeg, buddsoddi mewn buddsoddiad neu gynnyrch nad oedd yn hysbys i'r Pwyllgor o'r blaen, ceisir ac ystyrir cyngor priodol i sicrhau ei fod yn addas ac yn arallgyfeirio.

Mae strategaeth fuddsoddi darged y Gronfa wedi'i nodi isod. Yn unol â'r Rheoliadau, nid yw strategaeth fuddsoddi'r awdurdod yn caniatáu i fwy na 5% o gyfanswm gwerth holl fuddsoddiadau arian y gronfa gael ei fuddsoddi mewn endidau sy'n gysylltiedig â'r awdurdod hwnnw o fewn ystyr adran 212 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chyhoeddus. Deddf Cymryd Rhan mewn Iechyd 2007".

Tabl 1: Dyraniad cronfa

| Dosbarth asedau | Dyraniad targed % |
|---|---|
| Ecwiti DU | 9.0 |
| Ecwiti Tramor | 41.0 |
| Ecwiti Preifat | 5.0 |
| **Cyfanswm Twf** | **55.0** |
| Eiddo | 10.0 |
| Isadeiledd | 5.0 |
| Credyd Preifat | 5.0 |
| Credyd Aml Ased | 7.5 |
| **Cyfanswm Incwm** | **27.5** |
| Bondiau Corfforaethol | 5.0 |
| Bondiau Elw Absoliwt | 12.5 |
| **Cyfanswm Amddiffyn** | **17.5** |
| Cyfanswm | 100.0 |

**Cyfyngiadau ar fuddsoddi**

Mae'r Rheoliadau wedi dileu'r cyfyngiadau blaenorol a oedd yn berthnasol o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009. Mae dull y Pwyllgor o bennu ei strategaeth fuddsoddi ac asesu addasrwydd gwahanol fathau o fuddsoddiadau yn ystyried y risgiau amrywiol dan sylw ac mae ail-gydbwyso yn cael ei ystyried yn chwarterol i gadw'r rhaniad asedau yn agos at y targed dyrannu asedau y cytunwyd arno. Felly ni theimlir bod angen gosod cyfyngiadau ychwanegol ar fuddsoddiadau.

**Rheolwyr**

Mae'r Pwyllgor wedi penodi nifer o reolwyr buddsoddi gyda pob un ohonynt wedi'u hawdurdodi o dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 i ymgymryd â busnes buddsoddi.

Mae'r Pwyllgor, ar ôl derbyn cyngor buddsoddi priodol, wedi cytuno ar feincnodau penodol gyda phob rheolwr fel eu bod, gyda'i gilydd, yn gyson â'r dyraniad asedau cyffredinol ar gyfer y Gronfa. Bydd rheolwyr buddsoddi gweithredol y Gronfa yn dal cymysgedd o fuddsoddiadau sy'n adlewyrchu eu barn mewn perthynas â'u meincnodau priodol. Byddant yn gwneud newidiadau i'w portffolios wrth i'r rhagolygon economaidd newid, wrth i ragolygon cwmnïau unigol newid ac mewn ymateb i unrhyw siociau annisgwyl yn y farchnad mewn ymgais i sicrhau gwell elw na'r farchnad yn gyffredinol. O fewn pob dosbarth marchnad ac asedau mawr, bydd y rheolwyr yn cynnal portffolios amrywiol trwy fuddsoddiad uniongyrchol neu gyfryngau cyfun. Mae rheolwr y cronfeydd goddefol y mae'r Gronfa yn buddsoddi ynddynt yn dal cymysgedd o fuddsoddiadau o fewn pob cronfa gyfun sy'n adlewyrchu eu mynegeion meincnod priodol.

Ar gyfer yr asedau a fuddsoddir gyda WPP, y gweithredwr sy'n gyfrifol am benodi rheolwyr buddsoddi ar gyfer is-gronfeydd PPC.

## 4. Yr agwedd at risg, gan gynnwys y ffyrdd y mae risgiau i'w mesur a'u rheoli

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod angen i'r Gronfa fentro (e.e. buddsoddi mewn asedau twf) i'w helpu i gyflawni ei hamcanion ariannu. Mae rhaglen rheoli risg gweithredol ar waith sy'n ceisio ei helpu i nodi'r risgiau sy'n cael eu cymryd a rhoi prosesau ar waith i reoli, mesur, monitro a (lle bo'n bosibl) lliniaru'r risgiau sy'n cael eu cymryd. Un o gredoau cyffredinol y Pwyllgor yw cymryd cymaint o risg buddsoddi ag sydd ei angen yn unig.

Mae'r prif risgiau sy'n effeithio ar y Gronfa wedi'u nodi isod, rydym hefyd yn trafod dull y Gronfa o reoli'r risgiau hyn a'r cynlluniau wrth gefn sydd ar waith:

**Risgiau ariannu**

- **Diffyg cyfatebiaeth ariannol –** Y risg y bydd asedau'r Gronfa yn methu â thyfu yn unol â'r gost ddatblygol o gwrdd â'r ymrwymiadau.
- **Newid mewn demograffiaeth-** Y risg y bydd hirhoedledd yn gwella a ffactorau demograffig eraill yn newid, gan gynyddu cost buddion y Gronfa.
- **Risg systemic-** Y posibilrwydd o fethiant cydgysylltiedig ac ar yr un pryd o sawl dosbarth o asedau a/neu reolwyr buddsoddi, wedi'i waethygu o bosibl gan 'heintiad' ariannol, gan arwain at gynnydd yn y gost o gwrdd â ymrwymiadau'r Gronfa.

Mae'r Pwyllgor yn mesur ac yn rheoli diffyg cyfatebiaeth ariannol mewn dwy ffordd. Fel y nodwyd uchod, mae'r Pwyllgor wedi gosod meincnod dyrannu asedau strategol ar gyfer y Gronfa. Pennwyd y meincnod hwn gan ystyried modelu atebolrwydd asedau a oedd yn canolbwyntio ar y tebygolrwydd o lwyddiant a lefel y risg o anfantais. Amlygodd canlyniadau dadansoddiad 2022 fod gan y Gronfa fwy na 75% o debygolrwydd o gael ei hariannu'n llawn yn 2039 o dan y strategaeth fuddsoddi gyfredol a lefel y cyfraniadau y cytunwyd arnynt. Mae'r Pwyllgor yn asesu risg mewn perthynas â'r meincnod strategol drwy fonitro dyraniad asedau'r Gronfa a'r enillion ar fuddsoddiadau mewn perthynas â'r meincnod. Mae'r Pwyllgor hefyd yn asesu risg sy'n berthnasol i ymrwymiadau drwy fonitro'r broses o gyflwyno dychweliadau meincnod mewn perthynas â'r ymrwymiadau.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ceisio deall y tybiaethau a ddefnyddir mewn unrhyw ddadansoddi a modelu fel y gellir eu cymharu â'u safbwyntiau eu hunain a lefel y risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhagdybiaethau hyn i'w hasesu.

Mae'r Pwyllgor yn ceisio lliniaru risg systemig drwy bortffolio amrywiol ond nid yw'n bosibl gwneud darpariaeth benodol ar gyfer pob posibilrwydd a all godi o dan y pennawd hwn.

**Risgiau ased**

- Dyraniad sylweddol – Y risg y byddai dyraniad sylweddol i unrhyw gategori ased unigol a'i danberfformiad o'i gymharu â'r disgwyl yn arwain at anawsterau wrth gyflawni amcanion ariannu.
- Diffyg hylifedd – Y risg na all y Gronfa gwrdd â'i hymrwymiadau uniongyrchol oherwydd nad oes digon o asedau hylifol.
- Risg arian cyfred – Y risg bod arian cyfred asedau'r Gronfa yn tanberfformio o gymharu â Sterling (h.y. arian cyfred yr ymrwymiadau).
- Tanberfformiad rheolwyr- Methiant rheolwyr y gronfa i gyflawni'r gyfradd enillion ar fuddsoddiadau a dybiwyd wrth osod eu mandadau.
- Ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethol (ESG) – Y risg y bydd ffactorau sy'n gysylltiedig ag ESG, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, yn lleihau gallu'r Gronfa i gynhyrchu enillion hirdymor.
- Newid hinsawdd – I ba raddau y mae newid yn yr hinsawdd yn achosi dirywiad sylweddol mewn gwerthoedd asedau o ganlyniad i ffactorau gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i newid polisi, effeithiau ffisegol a'r newid disgwyliedig i economi carbon isel.

Mae'r Pwyllgor yn mesur ac yn rheoli risgiau asedau fel a ganlyn.

Mae meincnod dyrannu asedau strategol y Gronfa yn buddsoddi mewn ystod amrywiol o ddosbarthiadau asedau. Mae'r Pwyllgor wedi rhoi trefniadau ail-gydbwyso ar waith i sicrhau nad yw "gwir ddyraniad" y Gronfa yn gwyro'n sylweddol oddi wrth ei tharged. Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn ystod o fandadau buddsoddi ac mae gan bob un ohonynt amcan diffiniedig, meincnod perfformiad a phroses rheoli sydd, gyda'i gilydd, yn helpu i leihau risg crynodiad asedau'r Gronfa.

Drwy fuddsoddi ar draws ystod o asedau, gan gynnwys ecwitïau a bondiau hylifol a ddyfynnwyd, yn ogystal ag eiddo, mae'r Pwyllgor wedi cydnabod yr angen am fynediad at hylifedd yn y tymor byr.

Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn amrywiaeth o farchnadoedd tramor sy'n darparu ymagwedd amrywiol at farchnadoedd arian cyfred; mae'r Pwyllgor hefyd yn asesu risg arian cyfred y Gronfa yn ystod eu dadansoddiad risg.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y risg o danberfformiad gan unrhyw un rheolwr buddsoddi ac wedi ceisio lleihau'r risg hwn drwy benodi mwy nag un rheolwr a chael cyfran sylweddol o asedau'r Cynllun yn cael eu rheoli'n oddefol. Mae'r Pwyllgor yn asesu perfformiad rheolwyr y Gronfa yn rheolaidd, a bydd yn cymryd camau, gan gynnwys o bosibl amnewid un neu fwy o'u rheolwyr, os bydd tanberfformiad yn parhau.

Mae manylion dull y Gronfa o reoli risgiau sy'n gysylltiedig ag ESG, gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, wedi'u nodi yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

**Risgiau darparwyr eraill**

- Risg trawsnewid – Y risg o fynd i gostau annisgwyl mewn perthynas â throsglwyddo asedau rhwng rheolwyr. Wrth berfformio trafodion trawsnewid pontio sylweddol, mae'r Pwyllgor yn derbyn cyngor proffesiynol addas.
- Risg ceidwad – Y risg o golli hawliau economaidd i asedau'r Gronfa, pan fyddant yn y ddalfa neu pan fyddant yn cael eu masnachu.
- Risg diffygdalu credyd – Y posibilrwydd y bydd gwrthbarti yn methu â chyflawni ei ymrwymiadau.
- Benthyca stoc – Y posibilrwydd o ddiffygdalu a cholli hawliau economaidd i asedau'r Gronfa.

Mae'r Pwyllgor yn monitro ac yn rheoli risgiau yn y meysydd hyn drwy broses o graffu'n rheolaidd ar ei ddarparwyr, ac archwilio'r gweithrediadau y mae'n eu cynnal ar gyfer y Gronfa, neu mae wedi dirprwyo'r fath waith monitro a rheoli risg i'r rheolwyr buddsoddi penodedig fel y bo'n briodol (e.e. risg ceidwad mewn perthynas â chronfeydd cyfun). Mae gan y Pwyllgor y pŵer i benodi darparwr yn lle darparwr os oes pryderon difrifol.

Mae rhestr ar wahân o risgiau y mae'r Gronfa'n eu monitro wedi'i nodi yn Natganiad Strategaeth Ariannu'r Gronfa.

## 5. Y dull o gyfuno buddsoddiadau, gan gynnwys y defnydd o gyfryngau buddsoddi ar y cyd a gwasanaethau a rennir

Mae'r Gronfa yn gynllun sy'n aelod o Partneriaeth Pensiynau Cymru (WPP). Nodwyd y strwythur a'r sail y bydd PPC yn gweithredu arno yng nghyflwyniad Gorffennaf 2016 i'r Llywodraeth.

**Asedau i'w buddsoddi yn PPC**

Bwriad y Gronfa yw buddsoddi ei hasedau drwy PPC pan fydd datrysiadau buddsoddi addas ar gael. Gosodwyd amserlen ddangosol ar gyfer buddsoddi drwy PPC yng nghyflwyniad Gorffennaf 2016 i'r Llywodraeth. Bydd y meini prawf allweddol ar gyfer asesu datrysiadau PPC fel a ganlyn

1 Bod PPC yn galluogi mynediad at opsiynau priodol sy'n bodloni'r amcanion a'r meini prawf meincnod a osodwyd gan y Gronfa

2 Bod budd ariannol clir i'r Gronfa o fuddsoddi yn yr opsiynau a gynigir gan PPC, pe bai angen newid darparwr.

Ar adeg paratoi'r datganiad hwn, mae'r Gronfa wedi cytuno i fuddsoddi yn y cronfeydd canlynol drwy PPC:

| Dosbarth ased | Cronfa | Targed % o asedau'r Gronfa | Meincnod a amcanion perfformiad |
|---|---|---|---|
| Ecwiti Byd-Eang | Global Growth | 10.0 | MSCI AC World plus 2% p.a. |
| Ecwiti Byd-Eang | Global Opportunities | 10.0 | MSCI AC World plus 2% p.a. |
| Ecwiti Byd-Eang | Sustainable Equity | 10.0 | MSCI AC World plus 2% p.a. |
| Ecwiti Marchnadoedd Datblygol | Emerging Markets Equity | 2.5 | MSCI EM Index plus 2% p.a. |
| Isadeiledd | Infrastructure | 5.0 | 8% p.a. |
| Credyd Preifat | Private Credit | 5.0 | 8% p.a. |
| Bondiau | Multi-Asset Credit | 7.5 | LIBOR + 4% p.a. |
| Bondiau | Absolute Return Bond | 12.5 | LIBOR + 2-3% p.a. |
| Cyfanswm | | 62.5 | |

Er bod buddsoddiadau gyda BlackRock yn cael eu cadw gan y Gronfa ar hyn o bryd, ymdriniwyd â'r broses gaffael ar gyfer BlackRock fel rheolwr tracio mynegai ar ran cronfeydd partner (ac unrhyw ail-dendro dilynol) gan PPC er mwyn cyflawni arbedion ffioedd sylweddol.


Ar adeg paratoi'r datganiad hwn nid yw'r Gronfa wedi buddsoddi'r asedau presennol a ganlyn drwy WPP eto. Fodd bynnag, mae'r Gronfa wedi dewis buddsoddi arian newydd mewn cronfeydd Ecwiti Preifat a Isadeiledd drwy PPC. Bydd y Gronfa'n ystyried cymryd rhan mewn trefniadau cronni ar gyfer y buddsoddiadau eiddo presennol a/neu'r dyfodol os bydd PPC yn gallu darparu datrysiad addas.

| Dosbarth ased | Rheolwr | % o asedau'r gronfa[1] | Meincnod a amcanion perfformiad | Rheswm dros beidio a buddsoddi drwy PPC |
|---|---|---|---|---|
| Ecwiti Preifat | Partners | 6.4 | MSCI ACWI + 3% p.a. | Ymrwymiadau cytundebol presennol mewn cronfeydd caeedig sydd ag oes gyfyngedig |
| Eiddo | UBS, Lothbury, BlackRock, Threadneedle | 8.3 | UK All Balanced Property Fund Index | Byddai gwerthu ac ail-fuddsoddi asedau eiddo yn golygu costau materol |
| Isadeiledd | Partners | 2.9 | 8% p.a. | Ymrwymiadau cytundebol presennol mewn cronfeydd caeedig sydd ag oes gyfyngedig |

[1]Dyraniad ar 31 Rhagfyr 2022

**Strwythur a llywodraethu PPC**

Mae PPC wedi penodi gweithredwr trydydd parti, a awdurdodwyd gan yr FCA i ddarparu cyfres o is-gronfeydd buddsoddi y bydd asedau'r cronfeydd yn cael eu buddsoddi ynddynt.



Mae Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl) wedi'i sefydlu i oruchwylio'r gweithredwr. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau etholedig – un o bob un o'r wyth cronfa sy'n cymryd rhan. Bydd y trefniant hwn yn darparu atebolrwydd ar gyfer y gweithredwr yn ôl i awdurdodau gweinyddu unigol. Mae'r Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl) wedi'i sefydlu'n ffurfiol fel Cydbwyllgor rhwng yr awdurdodau gweinyddu sy'n cymryd rhan. Mae gan bob cronfa un aelod etholedig ar y Pwyllgor. Mae'n gweithredu ar sail 'Un Gronfa, Un Bleidlais', er mai'r bwriad yw gwneud unrhyw benderfyniadau drwy gonsensws lle bynnag y bo modd.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau, lle bo hynny'n ymarferol, bod ystod briodol o is-gronfeydd ar gael i alluogi awdurdodau gweinyddol i weithredu eu dyraniad asedau dymunol eu hunain. Bydd y CLl yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'r gweithredwr ynghylch yr is-gronfeydd penodol y dylid eu sefydlu o fewn PPC, o'r cychwyn cyntaf ac yn barhaus.

Mae swyddogion o bob awdurdod gweinyddol yn mynychu cyfarfodydd CLl (yn ddi-bleidlais). Mae'r swyddogion yn cynghori'r CLl ar sefydlu a monitro'r amrywiol is-gronfeydd yn ogystal â chysylltu'n uniongyrchol â'r gweithredwr ar unrhyw faterion buddsoddi o ddydd i ddydd.

Yn y lle cyntaf, rhagwelir y bydd cynrychiolwyr y gronfa ar y CLl yn adrodd yn ôl i bwyllgorau Pensiynau eu cronfeydd unigol priodol a fydd yn gyfrifol am fodloni eu hunain ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau cronni yn gyffredinol a gweithrediad y CLl. Fodd bynnag, efallai y bydd y Byrddau Pensiynau lleol hefyd yn ceisio derbyn sicrwydd ynghylch agweddau ar reoli buddsoddiadau'r cronfeydd.

Bydd craffu allanol a diwydrwydd dyladwy ffurfiol y gweithredwr a'r storfa yn cael eu cyflawni gan yr FCA yn eu rôl fel rheolydd. Yn ogystal, mae Hymans Robertson wedi'i benodi gan y CLl i roi cymorth i oruchwylio'r trefniadau.

Mae'r gweithredwr yn gyfrifol am ddewis a chontractio gyda rheolwyr buddsoddi ar gyfer pob un o'r is-gronfeydd yn ogystal â phenodi darparwyr gwasanaeth eraill fel gwasanaethwr asedau adneuo, a phrisiwr allanol yn ôl yr angen. O dan y strwythur arfaethedig, bydd gan y storfa deitl cyfreithiol i asedau PPC. Bydd y gweithredwr yn gyfrifol am reoli a gweithredu WPP, gan gynnwys ymrwymo i gontractau cyfreithiol gyda'r rheolwyr buddsoddi.

Bydd y gweithredwr a benodir yn darparu ac yn gweithredu ystod o gyfryngau buddsoddi i ganiatáu buddsoddiad cyfunol gan y cronfeydd. Bydd y gweithredwr yn gyfrifol am ddethol a chontractio gyda rheolwyr buddsoddi ar gyfer rheoli'r asedau sylfaenol. Byddant hefyd yn gyfrifol am weinyddu mewn perthynas â'r cerbydau o ran prisio uned, prisio, trin llif arian i mewn ac allan o'r amrywiol is-gronfeydd, prosesu symudiadau ac adrodd ar berfformiad. Byddant yn gyfrifol am ddiwydrwydd dyladwy o safbwynt archwilio, cyfreithiol a threth ar gyfer yr is-gronfeydd priodol a hefyd am ethol *depositary* i PPC.

Bydd PPC hefyd yn caffael cyngor cyfreithiol a threth allanol annibynnol yn ôl yr angen i'w cefnogi yn eu perthynas â'r gweithredwr.

## 6. Sut mae ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol neu llywodraethu gorfforaethol yn cael eu hystyried wrth ddewis, peidio â dewis, cadw a gwireddu buddsoddiadau

Cydnabyddir y gall ffactorau ESG, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, ddylanwadu ar berfformiad buddsoddi hirdymor a'r gallu i gyflawni enillion cynaliadwy hirdymor. Mae'r Pwyllgor yn ystyried dull y Gronfa o fuddsoddi'n gyfrifol mewn dau faes allweddol:

1. Buddsoddi cynaliadwy / ESG– ystyried oblygiadau ariannol ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol (ESG) ar y buddsoddiadau.
2. Stiwardiaeth a llywodraethu – gweithredu fel buddsoddwyr/perchnogion cyfrifol a gweithredol, trwy bleidleisio cyfranddaliadau mewn ffordd ystyriol, ac ymgysylltu â rheolwyr y cwmni y buddsoddir ynddynt fel rhan o'r broses fuddsoddi.

Mae'r Pwyllgor yn cymryd materion ESG o ddifrif ac yn adolygu ei bolisïau yn y maes hwn ac ymagwedd ei reolwyr buddsoddi at ESG yn rheolaidd. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi datblygu set o gredoau Buddsoddi Cyfrifol sydd wedi'u nodi isod a hefyd yn y Gronfa Polisi Buddsoddi Cyfrifol 2022 (gwyneddpensionfund.wales)

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn peri risg systemig benodol i sefydlogrwydd ariannol yr economi fyd-eang a bod ganddo'r potensial i effeithio ar fuddsoddiadau'r Gronfa ac, felly, yn cynrychioli risg ariannol hirdymor i'r Gronfa a'i daliadau.

Hyd yn hyn, dull y Gronfa o ymdrin â buddsoddiadau cymdeithasol yn bennaf fu dirprwyo hyn i'w rheolwyr buddsoddi sylfaenol fel rhan o'u dyletswyddau ESG cyffredinol.

Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor yn blaenoriaethu ffactorau anariannol wrth ddewis, cadw, neu werthu ei fuddsoddiadau.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar y set ganlynol o gredoau buddsoddi mewn perthynas â Buddsoddiad Cyfrifol:

- Yn unol â dyletswydd ymddiriedol y pwyllgor, dylai ystyriaethau ariannol fod â mwy o bwysau nag ystyriaethau anariannol wrth wneud penderfyniadau buddsoddi, er y gall materion ESG effeithio'n sylweddol ar risg ac adenillion. Felly, dylai ffactorau ESG gael eu gwreiddio yn y broses fuddsoddi ac ym mhrosesau penderfynu rheolwyr a benodir gan y Gronfa a PPC.

- Bydd Pwyllgor y Gronfa yn ceisio buddsoddi mewn asedau cynaliadwy, gan gynnwys buddsoddi o fewn ardal Cymru pan all buddsoddiadau anariannol ddeillio o hyn, ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion y ddyletswydd ymddiriedol.

- Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod ganddo ddyletswydd i fod yn fuddsoddwr cyfrifol. Disgwylir y bydd ymgynghori â chwmnïau, yn hytrach nag osgoi buddsoddi, yn fwy effeithiol o ran newid ymddygiad corfforaethol a lleihau risg. Lle bynnag y bo'n bosibl, gweithredu ar y cyd (fel yr hyn a gymerwyd drwy aelodaeth Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF) ac a gomisiynwyd gan Robeco ochr yn ochr â phartneriaid PPC) yw'r llwybr mwyaf llwyddiannus i ddylanwadu ar allbynnau

- Fel buddsoddwr hirdymor, mae'r Gronfa yn agored i risgiau systemig megis newid yn yr hinsawdd a'r disgwyliad o drosglwyddo i economi carbon isel. Gellir gwella canlyniadau ariannol drwy reoli pa mor agored i risgiau o'r fath yw'r Gronfa.

- Gellir gwella dealltwriaeth a chanlyniadau cyfranddalwyr trwy ddarparu tryloywder ar bob cam o'r gadwyn ychwanegu gwerth.

- Mae hyfforddiant ac addysg yn debygol o fod yn elfen allweddol wrth ddatblygu'r Gronfa a safbwynt ei Phwyllgor ar faterion sy'n ymwneud ag ESG.

## 7. Arfer hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) sy'n ymwneud â buddsoddiadau

### Hawliau pledleisio

Mae'r Pwyllgor yn ystyried agwedd y Gronfa at stiwardiaeth hefyd fel maes allweddol drwy weithredu fel buddsoddwr cyfrifol a gweithredol, drwy gomisiynu pleidleisio ystyriol ar ran y Gronfa fel cyfranddalwyr, a thrwy ymgysylltu'n anuniongyrchol â rheolwyr y cwmnïau y buddsoddir ynddynt fel rhan o'r broses fuddsoddi.

Mae'r Pwyllgor wedi dirprwyo'r arfer o hawliau pleidleisio i'r rheolwr(wyr) buddsoddi ar y sail y bydd pŵer pleidleisio yn cael ei defnyddio ganddynt gyda'r nod o gadw a gwella gwerth cyfranddalwyr hirdymor.

Yn unol â hynny, mae rheolwyr y Gronfa wedi cynhyrchu canllawiau ysgrifenedig o'u proses a'u harferion yn hyn o beth. Anogir y rheolwyr yn gryf i bleidleisio yn unol â'u canllawiau mewn perthynas â phob penderfyniad yng nghyfarfodydd cyffredinol blynyddol ac eithriadol cwmnïau o dan Reoliad 7(2)(f). Mae'r penderfyniadau pleidleisio a wneir gan ei holl reolwyr buddsoddi yn cael eu monitro'n rheolaidd.

Yn ogystal, penodir Robeco i gynorthwyo PPC i ymarfer ei hawliau pleidleisio yn unol â buddiannau ei rhanddeiliaid ac ymgysylltu â chwmnïau y buddsoddir ynddynt i wella gwerth hirdymor buddsoddiadau'r Awdurdodau Cyfansoddol o fewn PPC.

### Ymgysylltu

Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yng Nghod Stiwardiaeth y DU ac mae'n bwriadu gwneud cais i fod yn llofnodwr i God Stiwardiaeth y DU 2020 wedi'i ddiweddaru. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i PPC ac unrhyw reolwyr asedau a benodir yn uniongyrchol lofnodi Cod Stiwardiaeth y DU 2020. Yn ogystal , mae'r Gronfa'n credu mewn ymgysylltu ar y cyd ac mae'n aelod o'r LAPFF, y mae'n rhoi llais iddo ar y cyd ar ystod o faterion llywodraethu corfforaethol. Yn ogystal â chydymffurfiaeth y Gronfa â'r Cod Stiwardiaeth, mae'r Gronfa'n credu mewn ymgysylltu ar y cyd ac mae'n aelod o'r Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF), y mae'n rhoi llais iddo ar y cyd ar draws ystod o faterion llywodraethu corfforaethol.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi ymgysylltu sydd yn ceisio:

- Sicrhau bod mwy o wybodaeth yn cael ei datgelu am y risgiau sy'n gysylltiedig ag ESG a allai effeithio ar werth buddsoddiad;
- Sicrhau tryloywder o ran amlygiad carbon buddsoddiad a sut mae cwmnïau o'r fath yn paratoi ar gyfer y newid i economi carbon isel;
- Annog ei reolwyr asedau i gymryd rhan gweithredol mewn ymgysylltiadau cydweithredol â buddsoddwyr eraill lle bernir bod hyn er lles gorau'r Gronfa.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Polisi Buddsoddi Cyfrifol 2022 (gwyneddpensionfund.wales).

Mae buddsoddiadau a wneir drwy PPC yn amodol ar ei ri_policy_updated-cy-003.pdf (partneriaethpensiwncymru.org), a ddatblygir mewn ymgynghoriad ag wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru, gan gynnwys Cronfa Bensiwn Gwynedd.

## 10.3 Datganiad Polisi Cyfathrebu

**Cyflwyniad**

Mae rheoliad 61 o'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) 2013 yn nodi bod gofyn i bob awdurdod gweinyddu gyhoeddi datganiad polisi ynghylch cyfathrebu â budd-ddeiliaid allweddol.

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd ac mae budd-ddeiliaid allweddol y Gronfa yn cynnwys:

1. **Aelodau o'r Cynllun:**
   1.1. Aelodau Actif
   1.2. Aelodau Gohiriedig
   1.3. Pensiynwyr
   1.4. Darpar aelodau'r cynllun

2. **Cyflogwyr y Cynllun**

3. **Cyrff eraill:**

3.1. Y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau
3.2. staff y Gronfa Bensiwn
3.3. Cyrff cyffredinol

Mae'r datganiad cyfathrebu hwn yn nodi'r polisi ar gyfer darparu gwybodaeth a sut y mae'r Gronfa yn bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd, hyrwyddo a datblygu'r cynllun i bob grŵp budd-ddeiliaid. Bydd yn cael ei adolygu'n gyson a'i ddiwygio pan fydd newid perthnasol yn y polisi.

Nod y Gronfa yw darparu gwasanaeth cyson o safon uchel i'w budd-ddeiliaid yn y modd mwyaf effeithlon a chost-effeithiol.

Y bwriad yw ein bod yn cyfathrebu mor amserol â phosibl, yn ffeithiol ac mewn iaith glir, ac yn cael ei gyflwyno mewn modd sy'n briodol i'r derbynnydd. Os oes gan unigolion anghenion penodol mewn perthynas â fformat y wybodaeth, cymerir camau i sicrhau bod y fformat gofynnol ar gael, megis Braille, sain, a phrint bras.

Mae holl gyhoeddiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ddwyieithog, yn unol â pholisi iaith Cyngor Gwynedd. Gall gwybodaeth mewn ieithoedd eraill fod ar gael ar gais.

Pan fydd newidiadau deddfwriaethol i'r cynllun yn hysbys ymlaen llaw, bydd gweithdrefnau'n cael eu rhoi yn eu lle i weithredu'r newidiadau yn y ffordd fwyaf effeithiol.

## 1.1 Cyfathrebu ag aelodau actif

Aelodau Actif (gan gynnwys Cynghorwyr) yw'r rhai sy'n cyfrannu i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol drwy un o'r cyflogwyr sy'n rhan o Gronfa Bensiwn Gwynedd. Disgrifir y dulliau cyfathrebu â'r aelodau hyn isod.

- Gwefan - Mae gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys adran benodol i aelodau actif. Mae'n darparu gwybodaeth gyffredinol am y CPLlL gan gynnwys trosglwyddiadau, ychwanegu at eich buddion, ymddeoli, ysgariad, buddion marwolaeth, lwfansau treth a chwestiynau a ofynnir yn aml. Ychwanegir eitemau newyddion pan fo angen i roi gwybod i'r Aelodau am unrhyw newidiadau i'r cynllun. Mae adran ar wahân ar gyfer buddion pensiwn i Gynghorwyr.

- Hunan Wasanaeth Aelodau - Mae porth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn caniatáu i'r staff weld a diweddaru eu data pensiwn yn ddiogel ar-lein, megis mynegiant o ddymuniad y grant marwolaeth, manylion cyswllt, datganiadau buddion blynyddol a llythyrau. Mae'r offer cynllunio yn galluogi Aelodau i wneud cyfrifiadau pensiwn a pharatoi ar gyfer eu hymddeoliad.
- Digwyddiadau cyflogwyr – Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gael i fynychu digwyddiadau cyflogwyr ar gais a darparu stondin bensiwn lle gall Aelodau drafod unrhyw faterion pensiwn gyda staff y gronfa a darparu llenyddiaeth berthnasol am y cynllun.
- Cyflwyniadau – Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd bob amser ar gael i gynnig cyflwyniadau ar y cynllun. Cynhelir cyflwyniadau hefyd pan fydd eu hangen i roi gwybod i Aelodau Actif am newidiadau mawr i Reoliadau'r cynllun. Gellir cynnal sesiynau gwybodaeth arbenigol hefyd ar gais y cyflogwr ar gyfer aelodau yr effeithir arnynt gan drosglwyddiadau TUPE o'r CPLIL i ddarparwyr pensiwn eraill.
- Cyrsiau cyn-ymddeol - Cynhelir rhaglen o chwech cwrs gan Chadwicks IFA, cwmni o ymgynghorwyr ariannol o Gaer bob blwyddyn. Mae cronfeydd pensiwn Gwynedd a Sir y Fflint yn darparu cyflwyniadau am yn ail ynghylch y CPLIL yn y digwyddiadau hyn.
- Sesiynau ymgynghori – Gall swyddogion cyfathrebu Cronfa Bensiwn Gwynedd gynnal sesiwn ymgynghori unigol ar gyfer aelodau'r cynllun ar gais cyflogwyr y gronfa. Fel arfer, cynhelir ymgynghoriadau yn safleoedd gwaith y gweithwyr cyflogedig ac maent yn cynnig cyfle i Aelodau'r cynllun dderbyn gwybodaeth gyffredinol a phenodol am y CPLIL ac yn gofyn unrhyw gwestiwn sydd ganddynt yn ymwneud â'u pensiwn CPLIL.
- Apwyntiadau unigol - Gall aelodau actif drefnu apwyntiad gydag aelod o staff Cronfa Bensiwn Gwynedd yn y swyddfa bensiwn yng Nghaernarfon.
    - Mewn rhai achosion (e.e. salwch terfynol) bydd cynrychiolydd o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn ymweld ag aelod yn eu cartref ar gais eu cyflogwr.
- Llenyddiaeth y Gronfa –
    - Pecyn cychwynnol pensiynau – Dosbarthir pan fydd cyflogwr yn ein hysbysu o aelod newydd. Mae yn cynnwys canllaw byr i'r CPLIL, ffurflen gychwyn pensiwn, ffurflen mynegi dymuniad grant marwolaeth a hysbysiad statudol o ymuno â'r cynllun.
    - Canllaw Byr. Mae'r canllaw byr yn rhoi gwybodaeth gyffredinol ar y CPLIL ac yn cael ei anfon at bob gweithiwr newydd ac at aelodau presennol os gofynnir amdano. Gall copïau o'r canllaw byr hefyd cael ei ddarparu mewn Braille, print bras a sain ar ofyn.
    - Canllaw ymddeol. Mae'r canllaw ar ymddeol yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer talu buddion pensiwn ac yn nodi'r buddion sy'n daladwy i oroeswyr os bu'r aelod farw a'r pethau pwysicaf eraill i'w nodi.
    - Ffeithlenni. Mae amrywiaeth o ffeithlenni wedi'u cynhyrchu ar gyfer aelodau'r cynllun sy'n rhoi gwybodaeth am bynciau penodol sy'n ymwneud â'r CPLIL.
- Cylchlythyrau - Rydym yn cyhoeddi cylchlythyrau i aelodau gweithredol yn ôl yr angen i roi gwybodaeth ddiweddaraf iddynt am newidiadau yn Rheoliadau'r cynllun.
- Datganiadau Buddion Blynyddol - Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi datganiad i bob aelod yn dangos gwerth eu buddion hyd at y 31 Mawrth blaenorol ac yn rhagweld y buddion sy'n daladwy ar oedran pensiwn y wladwriaeth. Fe'u llwythir yn awtomatig i'r porth Hunan Wasanaeth Aelodau neu fe'u hanfonir yn uniongyrchol i'w cyfeiriad cartref os ydynt wedi dewis peidio â chofrestru.

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon - Mae copi electronig o adroddiad blynyddol a Chyfrifon y Gronfa ar gael i holl Aelodau'r cynllun ar y wefan. Mae copïau caled ar gael hefyd ar gais.
- Gohebiaeth - Mae'r Gronfa yn defnyddio post papur ac e-bost i dderbyn ac anfon gohebiaeth. Bydd ymateb yn cael ei wneud yn dewis iaith yr unigolyn.
- Hysbysiad statudol - caiff Aelodau eu hysbysu pan fydd unrhyw newid yn digwydd i'w cofnod pensiwn, gan effeithio ar eu pensiwn.
- Llinell Gymorth Pensiynau – Mae un rhif llinell gymorth ar gael ar gyfer pob ymholiad pensiwn ac mae cyfeiriad e-bost penodol ar gael ar gyfer ymholiadau drwy e-bost.
- Ymgyrch bosteri – Caiff ymgyrch bosteri ei rhoi ar waith pan fydd angen cyfleu newidiadau mawr i'r cynllun i aelodau actif y cynllun. Dosbarthir i gyflogwyr fel y gellir eu harddangos ar safleoedd gwaith yr aelodau.
- Taflen Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (GDAM) - Mae dogfen sy'n ymdrin â cham 1 y GDAM ar gael ar gais.

## 1.2 Cyfathrebu ag aelodau gohiriedig

Aelodau gohiriedig (gan gynnwys Aelodau sy'n gynghorwyr) yw'r rhai sydd wedi gadael eu cyflogaeth á chyflogwr y cynllun ac sydd â buddion wedi'u cadw o fewn y Gronfa. Disgrifir y dulliau cyfathrebu â'r aelodau hyn isod.

- Gwefan - Mae gwefan cronfa bensiwn Gwynedd yn cynnwys adran benodol ar gyfer aelodau gohiriedig. Mae'n darparu gwybodaeth gyffredinol am y CPLlL gan gynnwys trosglwyddiadau, ymddeoliadau, ysgariad, buddion marwolaeth a chwestiynau a ofynnir yn aml. Ychwanegir eitemau newyddion pan fo angen i roi gwybod i'r Aelodau am unrhyw newidiadau i'r cynllun. Mae adran ar wahân ar gyfer buddion pensiwn i Gynghorwyr sy'n gadael cyn oed ymddeol.
- Hunan Wasanaeth Aelodau - Mae porth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn caniatáu i'r aelodau weld a diweddaru eu data pensiwn yn ddiogel ar-lein, megis mynegiant o ddymuniad y grant marwolaeth, manylion cyswllt, datganiadau buddion blynyddol a llythyrau. Mae'r offer cynllunio yn galluogi Aelodau i wneud cyfrifiadau pensiwn a pharatoi ar gyfer eu hymddeoliad.
- Apwyntiadau unigol - Gall aelodau gohiriedig drefnu apwyntiad gydag aelod o staff cronfa bensiwn Gwynedd yn y swyddfa bensiwn yng Nghaernarfon.
  - Mewn rhai achosion (e.e. salwch terfynol) bydd cynrychiolydd o gronfa bensiwn Gwynedd yn ymweld ag aelod yn eu cartref ar gais eu cyn cyflogwr, cynrychiolydd, neu'r unigolyn.
- Llenyddiaeth y Gronfa –
  - Canllaw ymddeol. Mae'r canllaw ar ymddeol yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer talu buddion pensiwn ac yn nodi'r buddion sy'n daladwy i oroeswyr os bu'r aelod farw a'r pethau pwysicaf eraill i'w nodi.
  - Ffeithlenni. Mae amrywiaeth o ffeithlenni wedi'u cynhyrchu ar gyfer aelodau'r cynllun sy'n rhoi gwybodaeth am bynciau penodol sy'n ymwneud â'r CPLlL.
- Cylchlythyrau - Rydym yn dosbarthu cylchlythyrau cyfnodol i aelodau gohiriedig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am newidiadau yn Rheoliadau'r cynllun.
- Datganiadau Buddion Gohiriedig - Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi datganiad i bob aelod gohiriedig yn dangos gwerth cyfredol eu buddion pensiwn. Fe'u llwythir yn awtomatig i'r porth Hunan Wasanaeth Aelodau neu fe'u hanfonir yn uniongyrchol i'w cyfeiriad cartref os ydynt wedi dewis peidio â chofrestru.
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon - Mae copi electronig o adroddiad blynyddol a Chyfrifon y Gronfa ar gael i holl Aelodau'r cynllun ar y wefan. Mae copïau caled ar gael hefyd ar gais.
- Gohebiaeth - Mae'r Gronfa yn defnyddio post papur ac e-bost i dderbyn ac anfon gohebiaeth. Bydd ymateb yn cael ei wneud yn dewis iaith yr unigolyn.
- Llinell Gymorth Pensiynau – Mae un rhif llinell gymorth ar gael ar gyfer pob ymholiad pensiwn ac mae cyfeiriad e-bost penodol ar gael ar gyfer ymholiadau drwy e-bost.
- Taflen Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (GDAM) - Mae dogfen sy'n ymdrin â cham 1 y GDAM ar gael ar gais.

## 1.3 Cyfathrebu â phensiynwyr

Mae pensiynwyr yn cynnwys Aelodau sydd wedi ymddeol a dibynyddion Aelodau ymadawedig. Disgrifir y dulliau cyfathrebu â phensiynwyr isod.

- Gwefan - Mae gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys adran benodol ar gyfer pensiynwyr. Mae'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am y CPLIL gan gynnwys, ysgariad, buddion marwolaeth, dyddiadau talu, byw dramor, cynnydd pensiwn a chwestiynau a ofynnir yn aml. Ychwanegir eitemau newyddion pan fo angen i hysbysu pensiynwyr o unrhyw newidiadau i'r cynllun.
- Hunan Wasanaeth Aelodau - Mae porth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn caniatáu i bensiynwyr weld a diweddaru eu data pensiwn yn ddiogel ar-lein, megis mynegiant o ddymuniad y grant marwolaeth, manylion cyswllt a llythyrau.
- Apwyntiadau unigol - Gall pensiynwyr drefnu apwyntiad gydag aelod o staff Cronfa Bensiwn Gwynedd yn y swyddfa bensiwn yng Nghaernarfon.
- Slipiau cyflog a P60 – Anfonir slip cyflog i bensiynwr pan fydd y taliad nesaf yn newid o £5 neu fwy o'i gymharu â'r mis blaenorol. Mae pob pensiynwr yn derbyn cyfuniad P60 a slip cyflog ar ddiwedd pob blwyddyn dreth.
- Hysbysiad o Gynnydd Pensiynau – Pob mis Ebrill, mae pensiynwyr yn cael rhybudd o'r Cynnydd Pensiwn a fydd yn cael ei weithredu are u pensiwn (os yn berthnasol) a byddent hefyd yn cael cadarnhad o'r dyddiadau cyflog ar gyfer y 12 mis nesaf.
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon - Mae copi electronig o adroddiad blynyddol a Chyfrifon y Gronfa ar gael i holl Aelodau'r cynllun ar y wefan. Mae copïau caled ar gael hefyd ar gais.
- Gohebiaeth - Mae'r Gronfa yn defnyddio post papur ac e-bost i dderbyn ac anfon gohebiaeth. Bydd ymateb yn cael ei wneud yn dewis iaith yr unigolyn.
- Llinell Gymorth Pensiynau – Mae un rhif llinell gymorth ar gael ar gyfer pob ymholiad pensiwn ac mae cyfeiriad e-bost penodol ar gael ar gyfer ymholiadau drwy e-bost.
- Llongyfarchiadau ar Ben-blwydd - Bydd pensiynwyr, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn buddion dibynyddion, sy'n dathlu eu pen-blwydd yn 100 oed yn derbyn cerdyn pen-blwydd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd.
- Taflen Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (GDAM) - Mae dogfen sy'n ymdrin â cham 1 y GDAM ar gael ar gais.

## 1.4 Cyfathrebu â darpar aelodau

Darpar aelodau yw gweithwyr sy'n gymwys i ymuno â'r CPLIL gydag un o gyflogwyr Cronfa Bensiwn Gwynedd ond wedi penderfynu peidio. Disgrifir y dulliau cyfathrebu â darpar aelodau isod.

- Gwefan - Mae gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys adran benodol ar gyfer ddarpar aelodau. Mae'n darparu gwybodaeth gyffredinol am y CPLIL gan gynnwys rhesymau dros ymuno, trosglwyddiadau, cyfraddau cyfrannu, ymddeoliad, optio allan a chwestiynau a ofynir yn aml. Ychwanegir eitemau newyddion pan fo angen i roi gwybod i'r Aelodau am unrhyw newidiadau i'r cynllun. Mae adran ar wahân ar gyfer buddion pensiwn i Gynghorwyr sy'n gymwys i ymuno.
- Digwyddiadau cyflogwyr – Mae cronfa bensiwn Gwynedd ar gael i fynychu digwyddiadau cyflogwyr ar gais a darparu stondin bensiwn lle gall darpar Aelodau drafod unrhyw faterion pensiwn gyda staff y gronfa bensiwn a darparu llenyddiaeth a ffurflenni cynllun perthnasol.
  Mae cronfa bensiwn Gwynedd yn annog cyflogwyr i gynnwys pensiynau fel rhan o ddigwyddiadau sefydlu staff a bydd yn darparu llenyddiaeth a ffurflenni. Gallai'r tîm cyfathrebu fod yn bresennol ar gais.
- Sesiynau ymgynghori - Gall swyddogion cyfathrebu Cronfa Bensiwn Gwynedd gynnal sesiwn ymgynghori unigol ar gyfer aelodau'r cynllun a darpar aelodau ar gais cyflogwyr. Fel arfer, cynhelir ymgynghoriadau yn safleoedd gwaith y gweithwyr ac maent yn cynnig cyfle i Aelodau'r cynllun dderbyn gwybodaeth gyffredinol a phenodol am y CPLIL ac yn gofyn unrhyw gwestiwn a allai fod ganddynt ynghylch ymuno â'r CPLIL.
- Penodiadau unigol - gall darpar Aelodau drefnu apwyntiad gydag aelod o staff cronfa bensiwn Gwynedd yn y Swyddfa bensiwn yng Nghaernarfon.
- Llenyddiaeth y Gronfa –

- Canllaw Byr. Mae'r canllaw byr yn rhoi gwybodaeth gyffredinol ar y CPLIL ac yn cael ei anfon at bob gweithiwr newydd ac ar gais. Gall copïau o'r canllaw byr hefyd cael ei ddarparu mewn Braille, print bras a sain ar ofyn.
- Ffeithlenni. Mae amrywiaeth o ffeithlenni wedi'u cynhyrchu ar gyfer aelodau'r cynllun sy'n rhoi gwybodaeth am bynciau penodol sy'n ymwneud â'r CPLIL.

- Gohebiaeth - Mae'r Gronfa yn defnyddio post papur ac e-bost i dderbyn ac anfon gohebiaeth. Bydd ymateb yn cael ei wneud yn dewis iaith yr unigolyn.
- Llinell Gymorth Pensiynau – Mae un rhif llinell gymorth ar gael ar gyfer pob ymholiad pensiwn ac mae cyfeiriad e-bost penodol ar gael ar gyfer ymholiadau drwy e-bost.
- Ymgyrch bosteri – Caiff ymgyrch bosteri ei rhoi ar waith pan fydd angen cyfleu newidiadau mawr i'r cynllun i aelodau actif y cynllun. Dosbarthir i gyflogwyr fel y gellir eu harddangos ar safleoedd gwaith yr aelodau.

## 2 Cyfathrebu â Chyflogwyr y cynllun

I alluogi Cyngor Gwynedd fel awdurdod gweinyddu i redeg y cynllun yn effeithlon mae'n hanfodol bod llif gwybodaeth gywir, amserol a chlir rhwng cyflogwyr y cynllun â'r Gronfa yn cael ei gynnal trwy gyfathrebu effeithiol.

Disgrifir y dulliau cyfathrebu â chyflogwyr y cynllun isod.

- Gwefan - Mae ein gwefan yn cael ei hadolygu i ddatblygu adran benodol ar gyfer cyflogwyr y cynllun. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys holl ddogfennau llywodraethu'r gronfa bensiwn, er enghraifft yr adroddiad prisiad actiwaraidd, dogfennau polisi a'r adroddiad blynyddol a Chyfrifon. Mae yna hefyd ddolenni i ffynonellau gwybodaeth bellach fel gwefan benodol CPLIL y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA).
- i-Connect - Mae i-Connect yn borth diogel ar-lein sy'n cymryd data'n uniongyrchol o'r system gyflogres ac yn ei fwydo'n uniongyrchol i'r system bensiwn yn fisol. Mae'n nodi a phrosesu aelodau newydd, pobl sy'n ymuno a gadael, ac yn galluogi'r cyflogwr i wirio a glanhau'r data cyn ei gyflwyno.
- Cronfa Ddata Cysylltiadau - Cyflwynir diweddariadau rheoleiddio a gweinyddol yn aml i'r holl gyflogwyr a restrir ar y gronfa ddata cysylltiadau drwy e-bost neu lythyr. Mae'r gronfa ddata

cysylltiadau cyflogwyr yn cael ei diwygio yn ôl yr angen yn unol á wybodaeth a dderbynnir gan Gyflogwyr.

- Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol - Cynhelir y cyfarfod cyffredinol blynyddol yn benodol ar gyfer Cyflogwyr a Chynrychiolwyr Undebau i drafod yr adroddiad blynyddol a Chyfrifon. Mae cynrychiolwyr o gyrff cynghori proffesiynol amrywiol, fel Actwari'r Gronfa a Rheolwyr y Gronfa hefyd yn mynychu er mwyn ateb cwestiynau ynghylch cyllid, perfformiad buddsoddi a phrisiannau.
- Cyfarfodydd Cyflogwyr - Yn ôl y gofyn i drafod materion testunol, newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth, cyn ac ar ôl y prisiad Actiwaraidd a darparu gwybodaeth a thrafod gwelliannau yn y llif gwybodaeth.
- Cyfarfodydd Cyflogwyr Unigol - Gellir trefnu cyfarfodydd gyda chyflogwyr unigol i drafod materion sy'n benodol i'w aelodaeth yn y Gronfa Bensiwn, neu i roi cyngor ac arweiniad ar faterion penodol.
- Cyfarfodydd Hyfforddi Cyflogwyr Unigol - Gellir trefnu'r rhain i ddatrys unrhyw faterion hyfforddiant gweinyddol a nodwyd gan naill ai'r cyflogwr, neu'r Gronfa. Cynhelir y sesiynau hyn mewn lleoliadau cyflogwyr, a chaiff datblygiadau eu monitro a'u hadolygu'n gyfnodol wedi hynny.
- Canllaw i gyflogwyr - Mae'r canllaw newydd i gyflogwyr yn y broses o gael ei gwblhau a chaiff ei ddosbarthu'n electronig i bob cyflogwr a'i lwytho ar ein gwefan.
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth – Er mwyn gwella safon y gwasanaeth i Aelodau rydym yn bwriadu sefydlu Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r Cyflogwyr. Bydd yn rhoi arweiniad ar rwymedigaethau a chyfrifoldebau statudol a gosod targedau ar gyfer cyflogwyr a'r awdurdod gweinyddu er mwyn –
    - Darparu gwybodaeth gywir
    - Gweithredu ar y wybodaeth honno ac ymateb o fewn amser penodol

  Bydd unrhyw dargedau ar gyfer y cytundebau yn cael eu cytuno ymlaen llaw.

## 3.1 Cyfathrebu â'r Pwyllgor pensiynau a'r Bwrdd pensiwn lleol

Fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd, mae Cyngor Gwynedd wedi ffurfio Pwyllgor Pensiynau a Bwrdd Pensiynau sy'n cwrdd bob chwarter i gyflawni dyletswyddau'r Cyngor mewn perthynas â llywodraethu a gweinyddu'r Gronfa.

Y Pwyllgor Pensiynau sy'n gyfrifol am gymeradwyo dogfennau llywodraethu'r Gronfa Bensiwn, gan gynnwys yr adroddiad blynyddol a Chyfrifon a pholisïau'r gronfa bensiwn. Maent hefyd yn gyfrifol am benderfynu ar Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn a phenodi Rheolwyr Buddsoddi. Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn cynnwys naw chynghorwr etholedig.

Mae'r Bwrdd Pensiynau yn gyfrifol am oruchwylio gwaith y Pwyllgor Pensiynau ac maent yn cynorthwyo'r Gronfa Bensiwn i gydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol, gan sicrhau bod y

Cynllun yn cael ei lywodraethu a'i reoli'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae gan y Bwrdd Pensiynau tri cynrychiolydd sy'n aelod o'r cynllun a tri cynrychiolydd cyflogwyr, gyda un ohonynt yn cael eu hethol fel Cadeirydd.

I hwyluso gwaith y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau, darperir holl ddogfennau'r gronfa bensiwn iddynt, gan gynnwys yr adroddiad blynyddol a Chyfrifon, yr adroddiad actiwaraidd, dogfennau polisi, adroddiadau a phenderfyniadau'r Pwyllgor pensiynau ac Adroddiadau'r Bwrdd Pensiynau.

Disgrifir y dulliau cyfathrebu gyda'r Pwyllgor Pensiynau ac aelodau'r Bwrdd isod.

- Ebyst - E-bost yw'r dull cyfathrebu dewisol ar gyfer negeseuon cyffredinol.
- Adroddiadau – rhoddir yr adroddiadau canlynol i'r Pwyllgor ac i aelodau'r Bwrdd:
  - Adroddiadau blynyddol a Chyfrifon - Y cyhoeddiad allweddol ar fuddsoddi a gweinyddu.
  - Adroddiad actiwaraidd - Yn dilyn prisiad tair flynyddol y Gronfa
  - Adroddiadau arbenigol – Cynhyrchwyd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd i'w hystyried.
- Polisïau'r Gronfa Bensiwn – Mae gan y Pwyllgor fynediad at holl bolisïau Cronfa Bensiwn Gwynedd i'w hystyried a'u cymeradwyo
- Cyflwyniadau – Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd i gyflwyniadau gan Gronfa Bensiwn Gwynedd a chynghorwyr ar fuddsoddiadau, materion actiwaraidd a gweinyddu.
- Hyfforddiant - Mae'n ofynnol i Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r Bwrdd Pensiynau ymgymryd â hyfforddiant perthnasol i'w galluogi i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Gall hyfforddiant gael ei wneud yn fewnol, gan LGA, rheolwyr buddsoddi a chynghorwyr y gronfa bensiwn neu Actiwari'r gronfa bensiwn.
- Agenda a chofnodion – Mae'r agenda a'r cofnodion ar gyfer pob cyfarfod yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd.

### 3.2 Cyfathrebu â staff y Gronfa Bensiwn

Mae cyfathrebu effeithiol gyda staff y Gronfa yn rhan bwysig o weithrediadau dyddiol ac mae'n galluogi Cronfa Bensiwn Gwynedd i ddarparu gwasanaeth o ansawdd a chywir i'n budd-ddeiliaid allweddol.

Disgrifir y dulliau cyfathrebu â staff y gronfa bensiwn isod.

- Sefydlu – Mae pob aelod newydd o staff yn dilyn rhaglen sefydlu.
- E-byst - E-bost yw'r dull cyfathrebu dewisol ar gyfer negeseuon cyffredinol o fewn yr uned. Lle bo angen, caiff hyn ei ddilyn gan hyfforddiant unigol neu dîm.
- Sgwrs grŵp WhatsApp - Yn ystod argyfyngau pan nad yw e-bost ar gael bydd negeseuon cyffredinol yn cael eu rhannu ar WhatsApp.
- Hyfforddiant mewnol - Yn ôl yr angen rhoddir hyfforddiant cyffredinol a phenodol ar bensiynau ac ar faterion sy'n codi o ran newidiadau rheoleiddio neu weithdrefnol fel rhan o ymrwymiad yr uned i welliant parhaus.
- Hyfforddiant allanol - Mae cyflawni cymwysterau proffesiynol yn bwysig i wella gwybodaeth a hyder y tîm wrth gyfathrebu â budd-ddeiliaid. Felly, anogir pob aelod o staff, newydd a phresennol, i astudio am gymwysterau proffesiynol mewn gweinyddu pensiwn gyda'r Chartered Institute of Payroll Professionals (CIPP). Mae staff hefyd yn mynychu hyfforddiant LGA a Heywood fel y bo'n briodol
- Cyfarfodydd staff - Cynhelir cyfarfodydd staff bob deufis i drafod unrhyw ddatblygiadau mewn deddfwriaeth, newidiadau gweithredol neu weithdrefnol. Anogir y staff i gymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn a dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar yr uned gyfan.
  Trafodir y Cynllun Gweithredol, yn cynnwys y Dangosyddion Perfformiad Allweddol, yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod aelodau'r tím yn ymwybodol o'u targedau ac y neu bodloni.
- Gwerthuso – Pob blwyddyn, mae pob aelod o staff yn derbyn gwerthusiad i drafod materion gwaith, monitro perfformiad a meysydd i'w datblygu.
- Monitro parhaus – Caiff safonau'r gwasanaeth eu monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran y Cynllun. Yn ddyddiol, anogir cyfathrebu rhwng aelodau staff a'r tîm rheoli ac mae polisi drws agored ar waith.
- Y rhyngrwyd- Mae gan bob aelod o staff fynediad i'r rhyngrwyd i sicrhau bod gwybodaeth am y CPLIL ar gael yn brydlon. Maent hefyd yn gallu cael mynediad I'r Hunan Wasanaeth Aelodau i'w cynorthwyo i gyflawni eu gwaith.

## 3.3 Cyfathrebu gyda chyrff eraill

Er mwyn hwyluso gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd mae'n rhaid i ni gyfathrebu gyda'r cyrff canlynol:

- Cynrychiolwyr Aelodau - Gall y rhain gynnwys unrhyw unigolyn neu grŵp, megis Cyfreithwyr, Undebau Llafur neu Ddarparwyr pensiwn eraill, yn gofyn am wybodaeth ar ran aelod o'r cynllun. Dim ond gydag awdurdod yr Aelod y rhoddir hyn, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a GDPR. Mae holl lenyddiaeth y cynllun ar gael ar gais.
- Partneriaeth Pensiwn Cymru - Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru (WWP) yn 2017. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gyfuniad o wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Cyfansoddol) ledled Cymru ac mae'n un o wyth cronfa genedlaethol ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
- Grŵp Swyddogion Pensiynau Amwythig - Mae uwch swyddogion pensiynau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cyfarfod cynrychiolwyr o Gronfeydd Awdurdodau Lleol eraill yn ardal y West Pennines pob chwarter er mwyn rhannu gwybodaeth, trafod cwestiynau ar ddeddfwriaeth a'r rheoliadau cyfredol yn ogystal ag unrhyw faterion technegol neu weithdrefnol.
- Grŵp Cymru Gyfan - Mae uwch swyddogion pensiynau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cyfarfod cynrychiolwyr o Gronfeydd Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru pob chwarter er mwyn rhannu gwybodaeth, trafod cwestiynau ar ddeddfwriaeth a'r rheoliadau cyfredol yn ogystal ag unrhyw faterion technegol neu weithdrefnol.
- Grŵp Cyfathrebu Cymru Gyfan - Mae'r grŵp yn cyfarfod yn ôl yr angen, gyda'r bwriad o ffurfioli ac uno dulliau cyfathrebu o fewn Awdurdodau Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r grŵp wedi cyd-gynhyrchu:
  - Datganiad Buddion Blynyddol unffurf ar gyfer aelodau actif a gohiriedig
  - Canllaw Byr I'r cynllun ar gyfer pob aelod
  - Canllaw ymddeoliad
  - Ffurflenni mynegi dymuniad grant marwolaeth
  - Tystysgrifau Salwch
  - Ffeithlenni ar bynciau amrywiol y gellir eu dosbarthu i Aelodau.
- Actwari'r Cynllun - O ran lefelau Cyllido, y Prisiad Pob Tair Blynedd, FRS17, TUPE, a'r holl faterion cyllido.
- CAThEM – o ran materion treth aelodau'r cynllun.
- Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) - Mae swyddogion y gronfa bensiwn yn cysylltu'n rheolaidd â darparwyr CGY'r gronfa ynghylch cronfeydd Aelodau unigol y Cynllun.
- Rheolwyr y Gronfa – O ran buddsoddiadau a pherfformiad y Gronfa.
- Cymdeithas Llywodraeth Leol – Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (y tîm Pensiynau) yn rhoi cyngor technegol i awdurdodau gweinyddu ac i gyflogwyr ar y CPLlL.

## 10.4 Datganiad Polisi Llywodraethu

### Cyflwyniad

Cyngor Gwynedd ydi'r Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r polisi yma yn nodi cyfrifoldebau llywodraethu'r Gronfa ac fe'i paratoir yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, rheoliad 55.

Mae'r Datganiad yma yn gosod allan sut dirprwyir materion mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Gwynedd, ynghyd â'r amodau gorchwyl, fframwaith a threfn weithredol y dirprwyo hyn.

### Pwyllgor Pensiynau

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo amryw bwerau a dyletswyddau mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa i'r Pwyllgor Pensiynau.

Mae gan y Pwyllgor 9 aelod, ple mae 7 ohonynt yn aelodau etholedig o Gyngor Gwynedd, 1 aelod o Gyngor Môn a 1 aelod o Gyngor Conwy, i gyd gyda hawl pleidleisio. Ar hyn o bryd, nid oes cynrychiolaeth o aelodau'r Gronfa (staff) ar y pwyllgor.

Prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor ydi:

1. Pennu strategaeth buddsoddi asedau'r Gronfa Bensiwn drwy gymeradwyo Datganiad Strategaeth Gyllido a Datganiad Strategaeth Buddsoddi.

2. Penodi a therfynu apwyntiad rheolwyr buddsoddi ac ymgynghorwyr y Gronfa Bensiwn, ac adolygu'r perfformiad o ran buddsoddi;

3. Sicrhau bod trefniadau diogel ac effeithlon mewn llaw ar gyfer prynu, gwerthu a gofalu am fuddsoddiadau'r Cyngor;

4. Gwneud rhai penderfyniadau yng nghyswllt gweinyddu Pensiynau mewn eithriadau e.e. apeliadau

5. Adolygu a chraffu ar faterion ariannol y gronfa, ac felly derbyn y datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilwyr.

Fel pwyllgor cyfansoddiadol priodol o Gyngor Gwynedd, llywodraethir gweithrediad y materion a ddirprwyir i'r Pwyllgor gan gyfansoddiad Cyngor Gwynedd, ac yn arbennig felly, Rhannau 4 a 5 sydd yn llywodraethu rheolau'r dulliau a'r Codau a'r Protocolau sydd i'w dilyn, gan aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r swyddogion.

Yn ogystal, cyfrifoldeb y Pwyllgor Pensiynau yw sicrhau fod adroddiad blynyddol ar faterion Pensiynau yn cael ei baratoi a'i gyflwyno mewn cyfarfod blynyddol o gyflogwyr a chynrychiolwyr staff, ble y gall y

naill neu'r llall fel ei gilydd, gwestiynu'r Pwyllgor, eu swyddogion, ymgynghorydd buddsoddi neu reolwyr cronfeydd ar faterion yn ymwneud â pherfformiad y Gronfa, gweinyddiaeth a/neu ar faterion pensiynau yn gyffredinol.
Er mwyn sicrhau adolygiad digonol o berfformiad y buddsoddiadau, mae ymgynghorydd buddsoddi'r pwyllgor a phob rheolwr Cronfa yn darparu adroddiad monitro chwarterol i'r Pwyllgor. Yn ogystal, fe gynhelir cyfarfodydd anffurfiol â'r ymgynghorydd buddsoddi a'r rheolwr buddsoddi fel y gellir herio perfformiad a datrys unrhyw achos sydd yn codi ei ben.

Mae gan unrhyw gyflogwr sydd ddim yn aelodau o'r Pwyllgor Pensiynau gyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Pwyllgor Pensiynau drwy gyfres o gyfarfodydd anffurfiol sy'n cael eu cynnal o bryd i'w gilydd gyda'r gwahanol gategorïau o gyflogwyr.

Bydd gofyn i holl aelodau'r pwyllgor ymgymryd â hyfforddiant i sicrhau cymhwysedd.

Rhoir ystyriaeth i unrhyw fater sydd angen ystyriaeth ffurfiol mewn cyfarfod priodol o'r Pwyllgor, fel bo dinasyddion yn medru ymarfer eu hawl i fynychu unrhyw gyfarfod o bwyllgorau'r Cyngor.

Yn 2014, gofynnodd y Llywodraeth i'r 89 o gronfeydd CPLlL yng Nghymru a Lloegr weithio gyda'i gilydd i greu pyllau buddsoddi i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a buddsoddi mwy mewn seilwaith. Ymunodd Cronfa Bensiwn Gwynedd â'r saith cronfa Gymreig arall i ffurfio Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP).

Mae Cydbwyllgor WPP yn bwyllgor goruchwylio. Mae'n pennu amcanion strategol allweddol ac yn archwilio'r penderfyniadau o ddydd i ddydd a wneir gan grŵp o swyddogion llywodraethu. Mae cadeirydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn eistedd ar y pwyllgor hwn.

**Prif Swyddog Cyllid**

Mae erthygl 12 o gyfansoddiad y Cyngor yn amodi fod gan y Pennaeth Cyllid (fel Prif Swyddog Cyllid y Cyngor) gyfrifoldeb dros strategaeth gyllidol ac felly ei fod yn gyfrifol tros gynghori'r Pwyllgor Pensiynau ar strategaethau cyllid priodol ar gyfer y Gronfa Bensiwn, ac am sicrhau fod arweiniad arbenigol priodol yn cael ei ddarparu.

Mae Erthygl 12 hefyd yn amodi bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd i'r Cyngor ac i archwiliwr allanol y Cyngor os yw'n ystyried fod unrhyw gynnig, penderfyniad neu weithrediad yn mynd i achosi unrhyw wariant anghyfreithlon, neu yn debyg o achosi colled neu ddiffyg, neu os yw'r Cyngor yn mynd i mewn i gyfrif yn anghyfreithlon.

Rhwng y cyfnod 01/01/2022 a 30/06/2023 mi fydd yna drefniadau dros dro mewn perthynas â'r rôl y Prif Swyddog Cyllid. Mi fydd y Pennaeth Cyllid presennol yn ymddeol ar sail ymddeoliad hyblyg. Yn ystod y cyfnod yma bydd yn parhau gyda'i ddyletswyddau mewn perthynas â'r gronfa bensiwn, tra bydd ei olynydd yn delio gydag elfennau eraill o'r swydd.

Mae'r Rheolwr Buddsoddi a'r tîm yn cefnogi'r Pennaeth Cyllid yn y cyfrifoldeb am fonitro ac adolygu buddsoddiadau'r Gronfa gan gynnwys:

- paratoi a chynnal cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd gan gynnwys paratoi'r Adroddiad Blynyddol

- deialog reolaidd gydag ymgynghorwyr, rheolwyr buddsoddi a cheidwad y Gronfa
- monitro a chysoni cofnodion rheolwr buddsoddi a cheidwad
- paratoi a chynnal Datganiad Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Strategaeth Cyllido'r Gronfa
- monitro gweithgaredd a pherfformiad rheolwyr buddsoddi'r Gronfa gan gynnwys cydymffurfio ag amcanion polisi a pherfformiad
- dehongli deddfwriaeth ac ymchwil newydd mewn perthynas â buddsoddiadau a chyfrifon y Gronfa
- monitro gweithgaredd llywodraethu corfforaethol y Gronfa gan gynnwys mynychu Fforwm Cronfa Bensiwn yr Awdurdod Lleol (LAPFF)

Mae'r Rheolwr Pensiynau a'r tîm yn cefnogi'r Pennaeth Cyllid:

- i gasglu cyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr gan gyflogwyr sy'n cymryd rhan
- gwneud taliadau mewn perthynas â buddion y cynllun
- casglu a gwneud taliadau trosglwyddo pensiwn fel hetholwyd gan aelodau'r cynllun
- i ddiweddaru a chynnal gwefan y Gronfa
- cynnal a diweddaru cofnodion aelodaeth
- cyfrifo ac awdurdodi taliadau buddion
- darparu data aelodaeth at ddibenion prisio actiwaraidd
- paratoi a chynnal y Datganiad Polisi Cyfathrebu a'r Datganiad Strategaeth Gweinyddu Pensiynau.

**Swyddog Monitro**

Mae Erthygl 12 hefyd yn amodi fod y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol (fel Swyddog Monitro'r Cyngor) yn adrodd i'r Cyngor os ydyw yn cysidro fod unrhyw gynnig, penderfyniad neu esgeulustra yn mynd i achosi anghyfreithlondeb neu os yw unrhyw benderfyniad yn mynd i achosi cam weinyddiaeth. Bydd adroddiad o'r fath yn achosi atal y cynnig neu'r penderfyniad rhag cael ei weithredu hyd nes bydd yr adroddiad wedi cael ei ystyried.

**Bwrdd Pensiynau Lleol**

Roedd Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (2013) yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Gweinyddu gyflwyno Bwrdd Pensiynau Lleol i gynorthwyo Rheolwr y Cynllun. Sefydlwyd Bwrdd Pensiynau Gwynedd gan Gyngor Gwynedd ar 13/07/2015.

Mae gan y Bwrdd Pensiynau rôl goruchwylio / cynorthwyo nid rôl gwneud penderfyniadau, ei gyfrifoldebau yw:

1. Cynorthwyo Cronfa Bensiwn Gwynedd fel Rheolwr Cynllun;

2. Sicrhau cydymffurfiad â rheoliadau a gofynion a orfodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol

3. Sicrhau llywodraethu a gweinyddu'r Gronfa yn effeithiol ac yn effeithlon.

4. Cynorthwyo gyda materion eraill yn ôl gofynion rheoliadau'r cynllun.

Mae'r Bwrdd Pensiynau'n cynnwys 6 aelod, 3 yn gynrychiolwyr cyflogwyr, 3 yn gynrychiolwyr aelodau'r cynllun, ac mae 1 yn cael eu hethol fel cadeirydd.

Bydd y Bwrdd Pensiynau yn cyfarfod bob chwarter.

Pan fydd angen, bydd y Bwrdd Pensiynau yn cael ei gynghori gan y Swyddog Adran 151, Swyddogion eraill y Cyngor a Chynghorwyr ac Ymgynghorwyr proffesiynol, ond bydd gofyn i bob aelod o'r bwrdd ymgymryd â hyfforddiant i sicrhau cymhwysedd.

**Datganiad Cydymffurfiad a'r Drefn Lywodraethol**

Mae MHCLG wedi ymrwymo i sicrhau bod pob pwyllgor CPLIL yn gweithredu'n gyson ar safonau arfer gorau. Felly, yn ychwanegol at y gofyniad rheoliadol i gynhyrchu'r Polisi Llywodraethu hwn, diwygiwyd rheoliadau CPLIL 1997 ymhellach ar 30 Mehefin 2007 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddu adrodd i raddau'r cydymffurfiad i set o egwyddorion arfer gorau gael eu cyhoeddi gan MHCLG, a lle mae awdurdod wedi dewis peidio â chydymffurfio, i nodi'r rhesymau pam. Bydd y Polisi Llywodraethu hwn yn cael ei ddiweddaru pan fydd angen a'i adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn.

## 10.5 Datganiad Cydymffurfiad â'r Drefn Llywodraethol

### Egwyddor A – Strwythur

| | |
|---|---|
| **a)** | **Mae rheolaeth dros weinyddu buddion â rheolaeth strategol asedau'r Gronfa yn disgyn ar y prif bwyllgor a sefydlwyd gan y cyngor penodedig.** |
| | Mae Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r egwyddor yma. Mae rheolaeth y Gronfa yn amlwg yn gyfrifoldeb y Pwyllgor Pensiynau o fewn trefniadau cyfansoddiadol y Cyngor. |
| | |
| **b)** | **Bod cynrychiolwyr o gyflogwyr sy'n rhan o'r CPLIL, o'r cyrff a ganiateir ag aelodau'r cynllun (gan gynnwys pensiynwyr ac aelodau gohiriedig) yn aelodau ar unai'r prif neu'r ail bwyllgor, a sefydlwyd i ategu gwaith y prif bwyllgor.** |

| | |
|---|---|
| | Mae Cronfa Gwynedd yn rhannol gydymffurfio gyda'r egwyddor yma. Mae cynrychiolwyr o ddau gyflogwr sy'n rhan o'r CPLIL, yn aelodau ar y prif bwyllgor. Ar hyn o bryd, er mwyn ceisio cadw pwyllgor cymharol fychan i adolygu perfformiad y rheolwyr mewn modd effeithiol, does dim cynrychiolaeth o'r cyrff a ganiateir nag aelodau'r cynllun ar y pwyllgor. Gan fod yr addewid o bensiwn yn cael ei ddiffinio mewn deddfwriaeth ar gyfer aelodau'r cynllun, hyd yn hyn ni ystyrir bod gweithrediad y Pwyllgor yn gwrthdaro gyda'u buddiannau, felly nid ydym wedi cynnig cynrychiolaeth iddynt. Mae gan bob cyflogwr gyfle i ddylanwadu penderfyniadau drwy gyfres o gyfarfodydd cyflogwyr anffurfiol. |
| | |
| **c)** | **Ble mae ail bwyllgor neu banel wedi ei sefydlu, mae'r strwythur yn sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y ddau lefel.** |
| | Does dim ail bwyllgor na phanel yn bodoli, ond bydd y cyfarfodydd anffurfiol yn sicrhau cyfathrebu effeithiol. |
| | |
| **d)** | **Ble mae ail bwyllgor neu banel wedi ei sefydlu, bod o leiaf un sedd ar y prif bwyllgor wedi ei glustnodi ar gyfer aelod o'r ail bwyllgor neu banel.** |
| | Does dim ail bwyllgor na phanel yn bodoli. |
| | |

## Egwyddor B – Cynrychiolaeth

| | |
|---|---|
| **a)** | **Dylai pob rhanddeiliad allweddol gael cynnig y cyfle i gael eu cynrychioli ar strwythur y prif neu'r ail bwyllgor. Mae'r rhain yn cynnwys :-**<br>**i) awdurdodau cyflogi (gan gynnwys cyflogwyr di-gynllun, ee cyrff â ganiateir;**<br>**ii) aelodau'r cynllun (gan gynnwys aelodau gohiriedig â phensiynwyr y cynllun);**<br>**iii) lle'n berthnasol, sylwedyddion proffesiynol annibynnol; ac**<br>**iv) ymgynghorwyr arbenigol (ar sail ad-hoc).** |
| | Cydymffurfio'n rhannol. Mae gennym gynrychiolaeth o awdurdodau cyflogi CPLIL ar y prif bwyllgor, a hefyd mae gennym ymgynghorydd arbenigol annibynnol (ar sail ad-hoc). Fodd bynnag nid oes aelodaeth wedi cael ei roi i aelodau'r cynllun/cyrff ymrwymedig nac i sylwedyddion proffesiynol annibynnol. |
| | |

| | |
|---|---|
| **b)** | **Ble mae aelodau lleyg yn eistedd ar y prif neu'r ail bwyllgor, eu bod yn cael eu trin yn gyfartal yn nhermau cael gweld papurau, cael mynd i gyfarfodydd, cael hyfforddiant ac yn cael cyfle i gyfrannu'n llawn yn y broses penderfynu, gyda neu heb hawl pleidleisio.** |
| | Does dim aelodau lleyg yn eistedd ar y Pwyllgor (gweler Rhan A (b) uchod). |
| | |

## Egwyddor C – Dewisiad

| | |
|---|---|
| **a)** | **Bod aelodau'r pwyllgor neu banel yn hollol ymwybodol o'r statws, rôl a'r swyddogaeth y mae disgwyl iddynt gyflawni ar unai'r prif neu ail bwyllgor.** |
| | Cydymffurfio'n llawn. Mae cyfrifoldebau'r aelodau, fel a'u nodir yn y Datganiad Polisi Llywodraethu, yn cael ei wneud yn glir iddynt. |
| | |
| **b)** | **Ar ddechrau unrhyw gyfarfod, gwahoddir aelodau'r pwyllgor i ddatgan unrhyw fuddiant cyllidol neu ariannol sy'n ymwneud â materion penodol ar y rhaglen.** |
| | Mae Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r egwyddor yma. |
| | |

## Egwyddor D – Pleidleisio

| | |
|---|---|
| **a)** | **Mae polisi awdurdodau gweinyddol unigol ar hawliau pleidleisio yn glir a thryloyw, gan gynnwys y cyfiawnhad dros beidio ag ymestyn hawliau pleidleisio i bob corff neu grwp sy'n cael ei gynrychioli ar brif bwyllgorau'r CPLlL.** |
| | Mae gan y Pwyllgor Pensiynau 9 aelod, i gyd gyda hawl pleidleisio, ple mae 7 ohonynt yn aelodau etholedig o Gyngor Gwynedd (gyda hawl pleidleisio) ag 1 cynrychiolydd yr un o ddau gyflogwr sy'n rhan o'r CPLlL. |
| | |

## Egwyddor E – Hyfforddiant/Amser i ffwrdd/Treuliau

| | |
|---|---|
| **a)** | **Mewn perthynas â'r ffordd y mae penderfyniadau statudol a pherthynol yn cael eu cymryd gan yr awdurdod gweinyddol, bod polisi clir ar hyfforddiant, amser i ffwrdd o'r gwaith ac ad-dalu treuliau ar gyfer aelodau sydd ynghlwm yn y broses penderfynu.** |
| | Cydymffurfio'n llawn – mae gan bob aelod yr un cyfle a'i gilydd i dderbyn cefnogaeth hyfforddi a thelir y treuliau priodol i bawb. |
| | |
| **b)** | **Ble mae polisi o'r fath yn bodoli, ei fod yn llawn berthnasol i holl aelodau'r pwyllgorau, is-bwyllgorau, paneli ymgynghorol neu unrhyw ffurf arall o fforwm eilradd.** |
| | Mae'r polisi yn berthnasol i holl aelodau'r Pwyllgor. |
| | |
| **c)** | **Bod yr awdurdod gweinyddol yn ystyried mabwysiadu cynlluniau hyfforddi blynyddol i aelodau'r pwyllgor a chadw cofnod o bob hyfforddiant o'r fath y maent yn ei fynychu.** |
| | Mae Cyngor Gwynedd yn rhannol gydymffurfio gyda'r egwyddor yma gan ei fod yn cofnodi holl hyfforddiant y pwyllgor ac yn ystyried yr anghenion hynny o bryd i'w gilydd ond nid oes yna gynllun hyfforddi blynyddol. |
| | |

## Egwyddor F – Cyfarfodydd (Amlder/cworwm)

| | |
|---|---|
| **a)** | **Bod prif bwyllgor neu bwyllgorau'r awdurdod gweinyddol yn cyfarfod o leiaf bob chwarter.** |
| | Cydymffurfio'n llawn. |
| | |
| **b)** | **Bod ail bwyllgor neu banel yr awdurdod gweinyddol yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac wedi eu cydamseru gyda'r dyddiadau y mae'r prif bwyllgor yn cyfarfod.** |
| | Does dim ail bwyllgor na phanel yn bodoli - ond mae'r cyfarfodydd cyflogwr anffurfiol yn gydamseredig gyda dyddiadau'r prif bwyllgor.. |
| | |
| **c)** | **Bod awdurdod gweinyddol sydd ddim yn cynnwys aelodau lleyg yn eu trefniadau llywodraethu ffurfiol, yn trefnu fforwm y tu allan i'r trefniadau yma er mwyn i fuddiannau'r prif randdeiliaid gael eu cynrychioli.** |
| | Bydd Cyfarfod Blynyddol o'r Gronfa Bensiwn yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr Hydref. Mae cyflogwyr a chynrychiolwyr y gweithwyr yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod, a gallent gwestiynu'r Pwyllgor, swyddogion yr awdurdod gweinyddol, yr ymgynghorwyr buddsoddi neu reolwyr y Gronfa ar faterion sy'n ymwneud â pherfformiad y Gronfa, gweinyddiad y Gronfa â/neu faterion pensiwn yn gyffredinol. |
| | |

## Egwyddor G - Mynediad

| | |
|---|---|
| **a)** | **Yn amodol ar unrhyw reol yng nghyfansoddiad y cyngor, bod gan holl aelodau'r prif a'r ail bwyllgor neu banel, yr un mynediad at bapurau pwyllgor, dogfennau â chyngor sydd yn cael eu hystyried mewn cyfarfodydd o'r prif bwyllgor.** |
| | Mae Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r egwyddor yma. Cyfarfod cyhoeddus yw'r Pwyllgor Pensiynau ac o'r herwydd mae'r holl bapurau a dogfennaeth berthnasol ar gael ar-lein gan wasanaeth democratiaeth Cyngor Gwynedd ac fe'u cylchredir i aelodau'r Pwyllgor ymlaen llaw. |
| | |

## Egwyddor H – Sgôp

| | |
|---|---|
| **a)** | **Bod awdurdodau gweinyddol wedi cymryd camau i ddod a materion eang y cynllun o fewn eu trefniadau llywodraethu.** |
| | Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn ystyried yr holl faterion sydd yn ymwneud â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. |

## Egwyddor I - Cyhoeddusrwydd

| | |
|---|---|
| **a)** | **Bod awdurdodau gweinyddol yn cyhoeddi manylion eu trefniadau llywodraethu mewn modd y gall rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y ffordd mae'r cynllun yn cael ei reoli, ddatgan eu diddordeb mewn bod yn rhan o'r trefniadau hynny.** |
| | Mae'r Datganiad Polisi Llywodraethu ar gael yn adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn. |

# 11. Geirfa

**Rheolaeth Weithredol** - Marc naill ai trwy ddyrannu asedau, amseriad y farchnad neu ddewis stoc (neu gyfuniad o'r rhain). Mewn cyferbyniad uniongyrchol â rheolaeth oddefol.

**Actiwari** - Ymgynghorydd annibynnol sy'n cynghori ar hyfywedd y Gronfa. Bob tair blynedd mae'r actiwari yn adolygu asedau ac ymrwymiadau'r Gronfa ac yn adrodd i'r Cyngor fel yr Awdurdod Gweinyddol ar y sefyllfa ariannol a chyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr a argymhellir. Gelwir hyn yn brisiad actiwaraidd.

**Aelod Actif -** Gweithiwr presennol sy'n cyfrannu at gynllun pensiwn.

**Awdurdod Gweinyddol** - Y Cyngor sydd â chyfrifoldeb statudol i rhedeg y Gronfa ac sy'n gyfrifol am bob agwedd ar ei rheolaeth a'i gweithrediad.

**Cyrff a ganiateir -** Sefydliad y gall ei staff ddod yn aelod o'r Gronfa yn rhinwedd cytundeb derbyn rhwng y Cyngor a'r sefydliad. Mae'n galluogi contractwyr sy'n ymgymryd â gwasanaethau'r Cyngor gyda gweithwyr sy'n trosglwyddo, i gynnig aelodaeth barhaus o'r Gronfa i'r staff hynny.

**Dyraniad Asedau -** Dosrannu cronfeydd buddsoddi rhwng categorïau o asedau, megis bondiau, ecwitïau, arian parod, eiddo ac ecwiti preifat. Mae dyrannu asedau yn effeithio ar risg ac adenillion.

**Dosbarth Ased** - Maes/math penodol o fuddsoddiad e.e. ecwiti tramor, incwm sefydlog, arian parod, eiddo.

**Dychweliad Meincnod-** Y dychweliad meincnod yw'r adenillion a fyddai'n cael eu cyflawni pe na bai Rheolwr y Gronfa wedi gwyro oddi wrth bwysoli pob dosbarth o asedau a roddwyd iddo gan y Panel Buddsoddi, ac wedi sicrhau enillion ym mhob un o'r dosbarthiadau asedau hyn sy'n gyson ag enillion cyfartalog yr holl Gronfeydd Awdurdodau Lleol ar gyfer y dosbarth hwnnw. Amlinellir pwysiadau meincnod dosbarthiadau asedau yn y Datganiad Strategaeth Buddsoddi.

**Llywodraethu Corfforaethol** - Materion yn ymwneud â'r ffordd y mae cwmni'n sicrhau ei fod yn rhoi'r pwyslais mwyaf ar fuddiannau ei gyfranddalwyr a sut y gall cyfranddalwyr ddylanwadu ar reolaeth.

**Ceidwad** - Banc neu sefydliad ariannol arall sy'n cadw tystysgrifau stoc ac asedau eraill cleient, yn casglu difidendau ac ad-daliadau treth sy'n ddyledus, ac yn setlo pryniannau a gwerthiannau.

**Pensiynwr Gohiriedig -** Aelod sydd wedi stopio talu mewn i'r cynllun ond sydd heb ymddeol eto.

**Marchnadoedd datblygol -** Marchnadoedd stoc cymharol newydd ac anaeddfed ar gyfer ecwitïau a bondiau. Gall setliad a hylifedd fod yn llai dibynadwy nag yn y marchnadoedd mwy sefydlog, ac maent yn tueddu i fod yn fwy cyfnewidiol.

**Cyfraddau cyfraniadau cyflogwr -** Y ganran o gyflog y gweithwyr y mae cyflogwyr yn ei dalu fel cyfraniadau tuag at bensiwn y gweithwyr.

**Ecwiti** - Cyfranddaliadau cyffredin mewn cwmnïau yn y DU a thramor a fasnachir ar Gyfnewidfa Stoc gydnabyddedig. Mae gan gyfranddalwyr fuddiant yn elw'r cwmni ac fel arfer mae ganddynt hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd cyfranddalwyr.

**Gwerth teg-** Y pris a dderbynnir i werthu ased neu trosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn ar y farchnad ar ddiwrnod penodol.

**Gwarantau/bondiau llog sefydlog -** Buddsoddiadau, yn enwedig mewn stociau llywodraeth, gyda chyfradd llog warantedig. Mae gan fondiau confensiynol gyfraddau sefydlog, tra bod rhai mynegrifol yn amrywio gyda chwyddiant. Maent yn cynrychioli benthyciadau sy'n daladwy ar ddyddiad penodol yn y dyfodol, ac y gellir eu masnachu ar Gyfnewidfa Stoc yn y cyfamser.

**Rheolwr Cronfa** - Unigolyn neu gwmni y mae'r ymddiriedolwyr yn dirprwyo buddsoddiad cyfan, neu ran o asedau cronfa iddo gan yr ymddiriedolwyr.

**Buddsoddiad** - Ased a brynwyd at ddiben cynhyrchu incwm ac enillion cyfalaf ar gyfer ei berchennog.

**Gwerth farchnad -** Y pris y gellir gwerthu buddsoddiad arno ar ddyddiad penodol.

**Goddefol** – Dull o reoli buddsoddiadau sy'n ceisio llunio portffolio yn y fath fodd fel ei fod yn rhoi'r un enillion â'r hyn a geir mewn mynegai dewisol.

**Pensiynwr -** Aelod o'r Cynllun sy'n derbyn pensiwn o'r Gronfa.

**Perfformiad** - Mesur, a fynegir fel arfer mewn canran, o ba mor dda y mae cronfa wedi gwneud dros gyfnod penodol o amser - naill ai mewn termau absoliwt neu fel y'i mesurwyd yn erbyn y gronfa gyfartalog neu feincnod penodol.

**Cronfeydd wedi'u pwlio** - Mae cerbydau buddsoddiadau ar y cyd yn rhoi unedau i amrywiaeth o fuddsoddwyr. Mae prisiau uned yn symud mewn ymateb i newidiadau yng ngwerth y portffolio gwaelodol, ac nid yw buddsoddwyr yn berchen yn uniongyrchol ar yr asedau yn y gronfa.

**Portffolio** - Term cyfunol ar gyfer pob buddsoddiad a ddelir mewn cronfa, marchnad neu sector.

**Ecwiti preifat** - Buddsoddiadau a wneir gan reolwyr arbenigol mewn pob math o gwmnïau heb eu rhestru yn hytrach na thrwy gyfranddaliadau y gellir eu masnachu'n gyhoeddus.

**Cyrff a benderfynir -** Cyrff sydd â hawl i ganiatáu i rai neu eu holl staff ddod yn aelodau o'r CPLIL, ar yr amod bod y corff a benderfynir yn bodloni gofynion y rheoliadau CPLIL.

**Dychweliad** - Cyfanswm yr enillion o ddal buddsoddiad dros gyfnod penodol, gan gynnwys incwm a chynnydd/ (gostyngiad) yng ngwerth y farchnad.

**Risg -** Yn gyffredinol yn golygu amrywioldeb enillion. Fel arfer rhaid i fuddsoddiadau â mwy o risg addo enillion uwch na buddsoddiadau mwy 'sefydlog' cyn y bydd buddsoddwyr yn eu prynu.

**Cyflogwyr y cynllun -** Awdurdodau lleol a chyrff a nodir yn rheoliadau'r CPLlL, y mae gan eu gweithwyr hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa, a chyrff a dderbynnir gan gynnwys cyrff gwirfoddol, elusennol a chyrff tebyg, sy'n cyflawni gwaith o natur gyhoeddus, y gall eu staff ddod yn aelodau o'r Gronfa yn rhinwedd cytundeb derbyn gyda'r Cyngor.

**Cyrff ar yr atodlen** - Sefydliad sydd â'r hawl i ddod yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o dan reoliadau'r cynllun. Nid oes angen derbyn sefydliad o'r fath gan fod ei hawl i aelodaeth yn awtomatig.

**Gwerth trosglwyddo** - Taliadau a wneir rhwng cronfeydd pan fydd cyfranwyr yn gadael gwasanaeth gydag un cyflogwr ac yn penderfynu cymryd gwerth eu cyfraniadau i'r gronfa newydd.

**Cynnydd/ (gostyngiad) heb ei wireddu yng ngwerth y farchnad -** Y newid yng ngwerth marchnad, ers y dyddiad prynu, y buddsoddiadau hynny a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.